



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2009  
Wednesday, 11 November 2009**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |     |  |
|-----|--|
| 3   | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery   |
| 22  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills  |
| 47  | Datganiad am Gyngor Sir Ynys Môn—Bwrdd Adfer<br>Statement on the Isle of Anglesey County Council—Recovery Board  |
| 59  | Adroddiad Blynnyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2008/09<br>The Public Services Ombudsman for Wales's Annual Report 2008/09   |
| 71  | Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Hyrwyddo Celfyddydau a<br>Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd<br>The Communities and Culture Committee's Report on the Promotion of Welsh Arts<br>and Culture on the World Stage |
| 86  | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Taliadau Uniongyrchol<br>Welsh Conservatives Debate: Direct Payments  |
| 117 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time  |
| 120 | Dadl Fer: Dallineb...Anabledd nad yw bob Amser yn y Golwg<br>Short Debate: Blindness...A Disability that is not Always Seen  |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery**

### **The Strategic Capital Investment Fund**

### **Y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol**

**Q1 David Melding:** What plans are in place to review the strategic capital investment fund in light of the economic recession? OAQ(3)0848(FPS)

**C1 David Melding:** Pa gynlluniau sydd ar waith i adolygu'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol a chofio'r dirwasgiad economaidd? OAQ(3)0848(FPS)

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** Projects receiving support from the fund are already delivering significant economic benefits. They are safeguarding jobs and providing a boost to both the construction industry and the wider economy. In line with best practice, I am currently reviewing the arrangements utilised for the first two rounds of the SCIF bids.

**Y Gweinidog Dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Mae prosiectau sy'n cael cymorth gan y gronfa eisoes yn esgor ar fanteision economaidd sylweddol. Maent yn diogelu swyddi ac yn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu a'r economi ehangach. Yn unol â'r arfer gorau, yr wyf wrthi'n adolygu'r trefniadau a ddefnyddiwyd ar gyfer dwy rownd gyntaf y ceisiadau i'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol.

**David Melding:** Capital spending, if it is wise, will benefit the economy, but that is true in times of economic growth, as well as recession. Of the list that was published in late October, I find it difficult to see what difference there was in that compared to any other round that may have occurred in the past, had you distributed capital spending in that way. The Assembly will be particularly interested to know whether you have had specific meetings with the First Minister, and in particular, the Deputy First Minister, who have been co-ordinating the Government's response to the economic recession to shape one of your major initiatives in this Assembly term.

**David Melding:** O'i wneud yn ddoeth, bydd gwariant cyfalaf o les i'r economi, ond mae hynny'n wir yn ystod cyfnod o dwf economaidd yn ogystal â chyfnod o ddirwasgiad. O'r rhestr a gyhoeddwyd ddiwedd mis Hydref, yr wyf yn ei chael yn anodd gweld pa wahanïaeth a oedd rhwng hynny ac unrhyw rownd arall a allai fod wedi digwydd yn y gorffennol, pe baech wedi dosrannu gwariant cyfalaf fel hynny. Bydd o ddiddordeb arbennig i'r Cynulliad wybod a ydych wedi cael cyfarfodydd penodol gyda'r Prif Weinidog, a'r Dirprwy Brif Weinidog yn enwedig, sydd wedi bod yn cydlyn ymateb y Llywodraeth i'r dirwasgiad economaidd, i lunio un o'ch prif fentrau yn ystod y tymor hwn yn y Cynulliad.

**Andrew Davies:** The SCIF process is very different from the traditional approach to capital investment, which is, essentially, individual Ministers and departments investing in schools, health facilities or transport. The approach that we have taken this time—both with the first tranche of £350 million, which I announced earlier this year,

**Andrew Davies:** Mae proses y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol yn wahanol iawn i'r dull traddodiadol o ymdrin â buddsoddi cyfalaf. I bob pwrpas mae'r dull traddodiadol yn golygu bod Gweinidogion ac adrannau unigol yn buddsoddi mewn ysgolion, cyfleusterau iechyd neu drafnidiaeth. Mae'r dull gweithredu yr ydym wedi'i ddefnyddio y

and then the second of £118 million—is very different in that we were looking at collaborative bids wherever possible, whether they were different departments within the Assembly Government, local authorities or across the public sector. So, it is a much more strategic and holistic approach to our capital investment. In areas like affordable housing for example, we are working not just on an all-Wales basis, but looking also at the regional or spatial plan dimensions of that. It is a very different approach, whether they are all-Wales programmes or local or regional bids.

**Alun Davies:** Thank you for your earlier response, Minister. The strategic capital investment fund will play a critical role in years to come with regard to maximising the impact of capital funding on both the economy and public infrastructure in Wales. Will you give us an update on how you see the capital investment fund operating? I understand that you have created partnership Wales within the Welsh Assembly Government, but will you outline your vision on how that will operate and the role it will play in maximising the impact of capital investment for people and communities up and down the country?

**Andrew Davies:** Clearly, at a time of increasingly constrained public spending budgets, we need to get maximum value for what I call the Welsh pound. That means taking a strategic approach to capital investment in relation to business planning, the assessment of that planning and drawing down the expert advice of the strategic capital investment fund advisory panel, chaired by Dr Tim Stone of KPMG and the European Investment Bank. It is very much about bringing that commercial expertise into the business planning process, but it is also about ensuring that we get greater value for that in relation to project management and procurement. We are monitoring, as far as we can, the direct impact that that investment

tro hwn—gyda'r gyfran gyntaf o £350 miliwn a gyhoeddais yn gynharach eleni, a chyda'r ail gyfran o £118 miliwn—yn wahanol iawn, yn gymaint â'n bod yn ystyried ceisiadau cydweithredol lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl, boed y rheini'n geisiadau gan wahanol adrannau yn Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol neu sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus. Felly, mae'n ddull llawer mwy strategol a chyfannol o ymdrin â'n buddsoddiad cyfalaf. Mewn meysydd megis tai fforddiadwy, er enghraifft, yr ydym yn gweithio nid yn unig ar sail Cymru gyfan ond hefyd yn ystyried yr agweddau rhanbarthol neu'r agweddau ar y cynllun gofodol yn gysylltiedig â hynny. Mae'n ddull gwahanol iawn o weithio, p'un a ydynt yn rhaglenni i Gymru gyfan ynteu'n geisiadau lleol neu ranbarthol.

**Alun Davies:** Diolch am eich ymateb yn gynharach, Weinidog. Bydd y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol yn allweddol yn y blynyddoedd i ddod o ran sicrhau bod cyllid cyfalaf yn cael yr effaith fwyaf posibl ar yr economi a'r isadeiledd cyhoeddus yng Nghymru. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch sut yr ydych yn gweld y gronfa buddsoddi cyfalaf yn gweithio? Deallaf eich bod wedi creu partneriaeth Cymru yn Llywodraeth y Cynulliad, ond a wnewch chi egluro eich gweledigaeth am y ffordd y bydd y bartneriaeth honno'n gweithio a'i rôl o ran sicrhau bod buddsoddi cyfalaf yn cael yr effaith fwyaf posibl ar bobl a chymunedau ar hyd a lled y wlad?

**Andrew Davies:** Mae'n amlwg, ar adeg pan fo cyllidebau gwariant cyhoeddus yn fwyfwy cyfyngedig, mae angen inni gael y gwerth mwyaf posibl o'r bunt Gymreig, fel yr wyf yn ei galw. Mae hynny'n golygu cymryd agwedd strategol at fuddsoddi cyfalaf o ran cynllunio busnes, asesu'r gwaith cynllunio hwnnw, a manteisio ar gyngor arbenigol panel cynghori'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol gan gadeiryddiaeth Dr Tim Stone o KPMG, a Banc Buddsoddi Ewrop. Mae'n ymwneud i raddau helaeth â dod â'r arbenigedd masnachol hwnnw i mewn i'r broses cynllunio busnes, ond y mae'n ymwneud hefyd â sicrhau ein bod yn cael mwy o werth o hynny o ran gwaith rheoli prosiectau a chaffael. Yr ydym yn monitro,

will have. However, we clearly need the expertise to be able to deal with the private sector, whether in terms of capital expenditure, affordable housing or a range of other areas. We need to ensure that we have people with the right skills and expertise to deal effectively with the private sector, which is the intention of partnership Wales when it is established.

**Chris Franks:** I welcome the work of the Government and especially that of the Deputy Minister for Housing, Jocelyn Davies, and her department, on delivering new homes, many of which are for families in my region. Will you give an update on how the Welsh Government is delivering more affordable homes, helping the construction industry and keeping people in jobs? Further, the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport has made significant efforts to invest in Wales and to help us out of this terrible recession. Do you agree that the clear message is that the Government is investing money strategically in order to create jobs and to help the people of Wales to weather the economic storm?

**Andrew Davies:** Building an improved supply of affordable homes is one of the key objectives and commitments of the 'One Wales' agreement. We believe that we are well on track to reaching that target of 6,500 affordable housing units. Considerable investment has been made in affordable homes through the strategic capital investment fund. In fact, in only the first tranche, £42 million was spent on building over 400 affordable homes across Wales. It is a major commitment of ours and I will write to you, giving more details on how we are working in this area. We are working closely with Jocelyn Davies on the development of a Welsh housing bond and looking to see how we can make the Welsh pound go even further, as I said to Alun Davies. We are looking at whether we can borrow on the bond markets, using the social housing grant to ensure that we get maximum value for money for the Welsh taxpayer.

hyd y gallwn, yr effaith uniongyrchol y bydd y buddsoddiad hwnnw'n ei chael. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod arnom angen yr arbenigedd i ymdrin â'r sector preifat, boed o ran gwariant cyfalaf, tai fforddiadwy ynteu ystod o feysydd eraill. Mae angen inni sicrhau bod gennym bobl sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd iawn i ymdrin yn effeithiol â'r sector preifat, a dyna yw bwriad partneriaeth Cymru pan gaiff ei sefydlu.

**Chris Franks:** Yr wyf yn croesawu'r gwaith y mae'r Llywodraeth, ac yn enwedig y Dirprwy Weinidog dros Dai, Jocelyn Davies, a'i hadran, yn ei wneud ar ddarparu cartrefi newydd, lawer ohonynt ar gyfer teuluoedd yn fy rhanbarth i. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu rhagor o dai fforddiadwy, gan helpu'r diwydiant adeiladu a chadw pobl mewn gwaith? At hynny, mae'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi gwneud ymdrechion sylweddol i fuddsoddi yng Nghymru, a'n helpu i ddod allan o'r dirwasgiad ofnadwy hwn. A ydych yn cytuno mai'r neges glir yw bod y Llywodraeth yn buddsoddi arian yn strategol er mwyn creu swyddi a helpu pobl yng Nghymru i ddod drwy'r storm economaidd?

**Andrew Davies:** Mae adeiladu gwell cyflenwad o dai fforddiadwy yn un o brif amcanion ac ymrwymadau'r cytundeb 'Cymru'n Un'. Yr ydym yn credu ein bod yn bendant ar y trywydd iawn o ran cyrraedd y targed hwnnw o 6,500 o unedau tai fforddiadwy. Mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud mewn tai fforddiadwy trwy'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Yn wir, o ystyried y gyfran gyntaf yn unig, gwariwyd £42 miliwn ar adeiladu dros 400 o dai fforddiadwy ledled Cymru. Mae'n un o'n prif ymrwymadau, a byddaf yn ysgrifennu atoch i roi rhagor o fanylion ichi am y modd yr ydym yn gweithio yn y maes hwn. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda Jocelyn Davies ar ddatblygu Bond Tai Cymru, ac yn ystyried sut y gallwn wneud i'r bunt Gymreig fynd hyd yn oed ymhellach, fel y soniais wrth Alun Davies. Yr ydym yn edrych i weld a allwn fenthyl ar y marchnadoedd bondiau, gan ddefnyddio'r grant tai cymdeithasol i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau posibl am yr arian i drethdalwyr Cymru.

**Draft Budget for 2010-11**

**Q2 Mohammad Asghar:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's draft budget for 2010-11? OAQ(3)0873(FPS)

**Q4 The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** Will the Minister make a statement on the 2010-11 draft budget? OAQ(3)0842

**Andrew Davies:** The draft budget for 2010-11 will enable us to continue to progress the 'One Wales' agenda, address the impact of the recession, and invest in the public services that make a real difference to the people of Wales.

**Mohammad Asghar:** A number of constituents have raised concerns relating to the financing of further education. The numbers of courses and staff that have been cut across Wales, including in my area, such as in Coleg Gwent, have had a terrible impact on further education provision in the south-east. As the Minister for finance, can you give the Assembly an assurance that the current level of funding for further education will be maintained?

**Andrew Davies:** The budget for both further and higher education for next year, as outlined in the draft budget, broadly maintains the current financial year's levels of funding. We recognise, as I have said on many occasions, that the financial settlement is going to be tighter than in previous years and, after 2011, it is likely to be much tighter still. With the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, we are working with further and higher education—although your question is about further education—to look at what we can do to make the Welsh pound go even further. Of course, in addition to requiring all public service providers to produce or deliver an efficient service, to always look to reduce costs and to be much more open to introducing efficiency savings, we are also increasing the amount of investment that is going in on the capital side, for example, the development of the Taff Ely learning campus

**Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2010-11**

**C2 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2010-11? OAQ(3)0873(FPS)

**C4 Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb ddrafft 2010-11? OAQ(3)0842

**Andrew Davies:** Bydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-11 yn ein galluogi i barhau i wneud cynnydd gydag agenda 'Cymru'n Un', mynd i'r afael ag effaith y dirwasgiad, a buddsoddi yn y gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru.

**Mohammad Asghar:** Mae nifer o etholwyr wedi mynegi pryderon ynghylch ariannu addysg bellach. Mae nifer y cyrsiau sydd wedi eu torri a nifer y staff sydd wedi colli eu swyddi ar draws Cymru, gan gynnwys yn fy ardal i, megis yng Ngholeg Gwent, wedi cael effaith ofnadwy ar ddarparu addysg bellach yn y de-ddwyrain. Fel y Gweinidog dros Gyllid, a allwch roi sicrwydd i'r Cynulliad y bydd yr arian a gaiff ei glustnodi ar gyfer addysg bellach yn parhau ar y lefel bresennol?

**Andrew Davies:** Mae'r gyllideb ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch y flwyddyn nesaf, fel yr amlinellwyd yn y gyllideb ddrafft, yn cynnal lefelau ariannu'r flwyddyn ariannol bresennol yn fras. Yr ydym yn cydnabod, fel yr wyf wedi'i ddweud droeon o'r blaen, y bydd y setliad ariannol yn dynnach nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol, ac ar ôl 2011 mae'n debygol y bydd yn dynnach byth. Yr ydym ni a'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gweithio gyda sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch—er bod eich cwestiwn yn ymwneud ag addysg bellach—i edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau bod y bunt Gymreig yn mynd hyd yn oed ymhellach. Wrth gwrs, yn ogystal â mynnu bod pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu neu'n cyflwyno gwasanaeth effeithlon, yn chwilio am ffyrdd i leihau costau bob amser a bod yn fwy agored o lawer i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, yr

in Nantgarw. There has been significant investment from the SCIF fund in that. We are working with the sector to continue to deliver better educational outcomes, while being mindful of the overall financial settlement.

**Nick Bourne:** Minister, you will be aware of the exchanges yesterday on the subject of business rate relief and small business rate relief specifically. In view of the fact that the figure of 20 per cent seems to be being talked about, we still await an oral statement from the Minister. I wonder if you could confirm whether there is enough in the budget for a 20 per cent uplift in the business rate relief threshold when that announcement is made?

**Andrew Davies:** I am meeting with my colleague, Brian Gibbons, tomorrow to discuss the issue of business rates. We have already had one discussion on them, last week. It would be premature if I were to give any figures at this time, until we have had that discussion. The Minister for Social Justice and Local Government will make any statement necessary after that meeting.

1.40 p.m.

**Nick Ramsay:** Minister, I support Mohammad Asghar's comments to you on the education budget, and the effect that it will have on Coleg Gwent in my constituency. I know that other Assembly Members' constituencies are also affected by these education cuts, or savings, as you want to call them. On the specific issue of efficiency savings in the context of your draft budget, I think that you are looking for an average efficiency saving of 1.6 per cent in most departments. What jumps out at me, however, is the 5 per cent efficiency saving that you require from the education and skills budget. How, at this time, when we are hoping to come out of recession, can you justify imposing that level of efficiency saving on that sector?

ydym hefyd yn cynyddu'r buddsoddiad mewn gwaith cyfalaf, er enghraifft, datblygu campws dysgu Taf Elái yn Nantgarw. Mae'r datblygiad hwnnw wedi cael buddsoddiad sylweddol o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Yr ydym yn gweithio gyda'r sector i barhau i sicrhau gwell canlyniadau addysgol, gan gadw'r setliad ariannol cyffredinol mewn cof ar yr un pryd.

**Nick Bourne:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r trafodaethau ddoe am ryddhad ardrethi busnesau, a rhyddhad ardrethi busnesau bach yn benodol. O gofio ei bod yn ymddangos mai 20 y cant yw'r ffigur sy'n cael ei grybwyll, yr ydym yn dal i ddisgwyl datganiad llafar gan y Gweinidog ynghylch hynny. Tybed a allech gadarnhau a oes digon o arian yn y gyllideb i gynyddu'r rhyddhad ardrethi busnes 20 y cant pan gaiff y cyhoeddiad hwnnw ei wneud?

**Andrew Davies:** Byddaf yn cyfarfod â'm cydweithiwr, Brian Gibbons, yfory i drafod trethi busnes. Yr ydym eisoes wedi cael un drafodaeth amdanynt yr wythnos diwethaf. Mae'n rhy gynnar imi roi unrhyw ffigurau'n awr, cyn inni gael y drafodaeth honno. Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gwneud unrhyw ddatganiad y bydd angen ei wneud ar ôl y cyfarfod hwnnw.

**Nick Ramsay:** Weinidog, yr wyf yn cefnogi'r sylwadau a wnaed gan Mohammad Asghar am y gyllideb addysg, a'r effaith a gaiff hynny ar Goleg Gwent yn fy etholaeth i. Gwn fod y toriadau hyn, neu arbedion fel yr ydych am eu galw, ym myd addysg hefyd yn cael effaith ar etholaethau Aelodau eraill y Cynulliad. O ran arbedion effeithlonrwydd yn benodol yng nghyd-destun eich cyllideb ddrafft, credaf eich bod yn awyddus i weld arbedion effeithlonrwydd o 1.6 y cant ar gyfartaledd yn y rhan fwyaf o adrannau. Yr hyn sy'n fy nharo yn syth, fodd bynnag, yw'r arbedion effeithlonrwydd o 5% yr ydych am eu cael yn y gyllideb addysg a sgiliau. Sut gallwch gyfiawnhau mynnu'r fath arbedion effeithlonrwydd gan y sector hwnnw ar adeg fel hon, a ninnau'n gobeithio dod allan o ddirwasgiad?

**Andrew Davies:** As I said in my answer to Mohammad Asghar, this year's level of funding for FE will broadly be the same as last year's. All public service providers have to be mindful of the overall financial settlement and ensure that they deliver services efficiently. When we look at the individual ministerial, departmental level of efficiency saving, yes, it is 1.6 per cent for each spending Minister, but then each Minister will work out the spending priorities for his or her department, so it will not be a flat rate of 1.6 per cent across all spending areas in each budget. However, we do see further and higher education as a priority, and I know that, through the investment through strategic capital investment fund in a range of areas, a considerable amount of extra resource is going into the sector over and above the core funding that it receives from the Minister in charge of DCELLS.

**Peter Black:** Minister, you will be aware that all the potential candidates the position of First Minister have made a pledge to make education a top priority and, in one case, to increase expenditure on education. What plans are you making to amend your draft budget to take account of that pledge?

**Andrew Davies:** I was asked this question about additional resource for economic development at the Finance Committee only last Thursday, and I was also told that we should be putting more money into education and other areas, and on that occasion, I told the committee that anybody who wants more money for any spending area, be it health, education, economic development, or transport, has to demonstrate where the savings in, or cuts to, other budgets will be made to fund those additional resources.

**Nick Ramsay:** I thank the Minister for his penultimate answer to my question. While I accept that times are tough at the moment, and, as you say, while it is for individual portfolio holders to identify where savings can be made, I still find it difficult to

**Andrew Davies:** Fel y dywedais yn fy ateb i Mohammad Asghar, bydd lefel yr arian a fydd ar gael i addysg bellach eleni yr un fath â'r llynedd fwy neu lai. Rhaid i'r holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus fod yn ymwybodol o'r setliad ariannol cyffredinol, a sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau'n effeithlon. Pan edrychwn ar yr arbedion effeithlonrwydd ar lefel pob gweinidog ac adran unigol, mae'n wir eu bod yn 1.6 y cant i bob Gweinidog sydd â chyllideb, ond bydd pob Gweinidog yn penderfynu blaenoriaethau ei adran ef neu hi o ran gwario, ac felly ni fydd yn gyfradd unffurf o 1.6 y cant ar draws pob maes gwario ym mhob cyllideb. Fodd bynnag, yr ydym yn ystyried bod addysg bellach ac addysg uwch yn flaenoriaeth, a gwn, trwy'r buddsoddiad y mae'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol wedi'i wneud mewn ystod o wahanol feysydd, fod llawer iawn o adnoddau ychwanegol yn mynd i mewn i'r sector, sy'n llawer mwy na'r arian craidd y mae'n ei gael gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am APADGOS.

**Peter Black:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod pob un o'r ymgeiswyr posibl ar gyfer swydd y Prif Weinidog wedi gwneud addewid i wneud addysg yn brif flaenoriaeth, ac y mae un wedi addo cynyddu'r gwariant ar addysg. Pa gynlluniau yr ydych yn eu gwneud i newid eich cyllideb ddrafft i ystyried yr addewid hwnnw?

**Andrew Davies:** Gofynnwyd y cwestiwn hwn imi ynghylch adnoddau ychwanegol ar gyfer datblygu economaidd yn y Pwyllgor Cyllid ddydd Iau diwethaf, a dywedwyd wrthyf hefyd y dylem fod yn rhoi rhagor o arian mewn addysg a meysydd eraill, a'r pryd hwnnw dywedais wrth y pwyllgor ei bod yn rhaid i unrhyw un sydd am gael rhagor o arian i'w wario mewn unrhyw faes, boed yn iechyd, addysg, datblygu economaidd neu drafnidiaeth, ddangos ble y caiff yr arbedion, neu'r toriadau, mewn cyllidebau eraill eu gwneud i ariannu'r adnoddau ychwanegol hynny.

**Nick Ramsay:** Diolch i'r Gweinidog am ei ateb olaf ond un i'm cwestiwn. Er fy mod yn derbyn bod pethau'n anodd ar hyn o bryd, ac fel yr ydych yn ei ddweud, cyfrifoldeb yr unigolion sy'n gyfrifol am bortffolio yw nodi ble y gellir gwneud arbedion, yr wyf yn dal



understand why the efficiency saving of 5 per cent is being required of the education and skills budget. In your answer to Alun Davies, I agreed with you totally when you spoke of the right skills and expertise being required to drive us out of this recession. I still do not think that you have explained adequately why, if you have not imposed it, you have accepted a far more stringent level of efficiency saving from the education and skills budget at a time when we face so many problems in that sector, with the growing funding gap between us and England and the big changes in the Government's tuition fees policies. Please, Minister, can you provide, not just to me and others in this Chamber, but to the education sector, an adequate and rational explanation for making a far higher level of efficiency-saving cuts in the education sector than in other areas?

**Andrew Davies:** When it comes to setting the budget, Cabinet has agreed the individual allocations for each spending Minister, and the Ministers then decide their priorities. Clearly, we are working closely with Minister—I am working closely with the Minister for education. Just taking the further education field, following the Webb review and the policy that has been emerging since, there is a great deal of inefficient delivery of further education provision in Wales. The sector has recognised that fact, and it is responding. There are proposals, for example, to merge Swansea and Gorseinon colleges, so there are areas where organisations can deliver services on a local or regional basis in a much more efficient way than previously. To help deliver that, they can also apply for funding from the strategic capital investment fund. On the revenue side, they can apply for invest-to-save funding. The question is why some colleges have not applied for invest-to-save funding to help those merger or reconfiguration proposals.

**Jenny Randerson:** Minister, the auditor general has stated that £1 billion of NHS money has not been spent fully efficiently. He also stated that the public sector in general had failed to achieve its 1 per cent

i'w chael yn anodd deall pam yr ydych yn mynnu cael arbediad effeithlonrwydd o 5 y cant yn y gyllideb addysg a sgiliau. Yn eich ateb i Alun Davies, yr oeddwn yn cytuno'n llwyr â chi pan ddywedasochoch fod angen y sgiliau a'r arbenigedd iawn i'n tynnu allan o'r dirwasgiad hwn. Ni chredaf eto eich bod wedi esbonio'n ddigonol pam yr ydych, os nad ydych wedi ei bennu, wedi derbyn arbediad effeithlonrwydd llawer llymach yn y gyllideb addysg a sgiliau, a ninnau'n wynebu cynifer o broblemau yn y sector hwnnw, o gofio'r bwlech cynyddol ariannu rhyngom ni a Lloegr, a'r newidiadau mawr ym mholisiau'r Llywodraeth ar ffioedd dysgu. Weinidog, os gwelwch yn dda, a rowch chi esboniad digonol a rhesymegol, nid yn unig i mi a phobl eraill yn y Siambr hon, ond i'r sector addysg hefyd, dros wneud toriadau arbedion effeithlonrwydd llawer uwch yn y sector addysg nag mewn meysydd eraill?

**Andrew Davies:** Pan ddaw'n fater o osod y gyllideb, mae'r Cabinet wedi cytuno'r dyraniadau unigol i bob Gweinidog sydd â chyllideb, ac yna bydd y Gweinidogion yn penderfynu eu blaenoriaethau. Yn amlwg, yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog—yr wyf fi'n gweithio'n agos gyda'r Gweinidog dros Addysg. Gan ganolbwyntio ar y maes addysg bellach yn unig, yn dilyn adolygiad Webb a'r polisi sydd wedi ymddangos ers hynny, mae llawer iawn o ddarpariaeth addysg bellach aneffeithlon yng Nghymru. Mae'r sector wedi cydnabod y ffaith honno, ac y mae'n ymateb iddi. Ceir cynigion, er enghraifft, i gyfuno coleg Abertawe a choleg Gorseinon, felly, mae yna feysydd lle gall sefydliadau ddarparu gwasanaethau ar lefel leol neu ranbarthol mewn modd llawer mwy effeithlon nag o'r blaen. Er mwyn helpu gwneud hynny, gallant hefyd wneud cais am arian o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. O ran refeniw, gallant wneud cais am arian o'r gronfa buddsoddi i arbed. Y cwestiwn yw pam nad yw rhai colegau wedi gwneud cais am arian buddsoddi i arbed i helpu'r cynigion cyfuno neu ad-drefnu hynny.

**Jenny Randerson:** Weinidog, mae'r archwilydd cyffredinol wedi dweud bod £1 biliwn o arian y GIG heb ei wario'n gwbl effeithlon. Dywedodd hefyd fod y sector cyhoeddus yn gyffredinol wedi methu â

efficiency savings. Therefore, why do you think that higher education and further education are more able to make not just 1 per cent efficiency savings, but 5 per cent efficiency savings? Do you accept that that level of efficiency savings is not a saving but a cut? Do you not think that you should reconsider and spread the problem more evenly, when the auditor general has given distinct evidence that other sectors are not operating as efficiently as they might?

**Andrew Davies:** It seems to be my normal practice to have to correct Jenny Randerson before I respond to the questions. It was not the auditor general who said that the NHS was inefficient and could save £1 billion. Insofar as I recognise the reference, I believe that it was the finance directors of the health service in Wales who said that in evidence to the Finance Committee. They said that £1 billion or 20 per cent of the overall budget could be spent more effectively. Secondly, the auditor general did not say that the public sector in Wales had failed to achieve its efficiency saving target of £600 million under the 'Making the Connections' agenda. He said that he was not sure about the figures and that, in his view, they may well be overstated. However, he prefaced those comments by saying that he recognised that the Wales Audit Office work was historic—he recognised that it was from three years previously and might not reflect the current position. That is exactly the point—it does not reflect the current position, and we are confident that by the end of this financial year, by the end of March 2010, we will have reached or exceeded the £600 million target set out in the 'Making the Connections' agenda.

#### Priorities for the Next Six Months

**Q3 Irene James:** Will the Minister make a statement on his priorities for the next six months? OAQ(3)0846(FPS)

**C8 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)0868(FPS)

chyflawni ei arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant. Felly, pam yr ydych yn credu bod addysg uwch ac addysg bellach yn fwy abl i wneud arbedion effeithlonrwydd nid o 1 y cant ond o 5 y cant? A ydych yn derbyn nad arbediad yw'r lefel honno o arbedion effeithlonrwydd, ond toriad? Oni chredwch y dylech ailystyried a rhannu'r broblem yn fwy cyfartal, wedi i'r archwilydd cyffredinol roi tystiolaeth bendant nad yw sectorau eraill yn gweithredu mor effeithlon ag y gallent?

**Andrew Davies:** Mae'n ymddangos ei bod yn arferol imi orfod cywiro Jenny Randerson cyn ymateb i'r cwestiynau. Nid yr archwilydd cyffredinol a ddywedodd fod y GIG yn aneffeithlon ac y gallai arbed £1 biliwn. I'r graddau fy mod yn gyfarwydd â'r cyfeiriad, crerdaf mai cyfarwyddwyr cyllid y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a ddywedodd hynny wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid. Dywedasant y gellid gwario £1 biliwn neu 20 y cant o'r gyllideb gyffredinol yn fwy effeithiol. Yn ail, ni ddywedodd yr archwilydd cyffredinol fod y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi methu â chyrraedd ei darged o arbedion effeithlonrwydd o £600 miliwn dan yr agenda 'Creu'r Cysylltiadau'. Dywedodd nad oedd yn siŵr am y ffigurau, ac yn ei farn ef gallai'r ffigurau fod wedi'u gor-ddweud. Fodd bynnag, cyn gwneud y sylwadau hynny, dywedodd ei fod yn cydnabod bod gwaith Swyddfa Archwilio Cymru'n canolbwyntio ar y gorffennol—yr oedd yn cydnabod ei fod yn tarddu dair blynedd ynghynt ac efallai na fyddai'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Dyna'n union y pwynt—nid yw'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, ac yr ydym yn hyderus y byddwn, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, diwedd mis Mawrth 2010, wedi cyrraedd y targed o £600 miliwn a nodwyd yn yr agenda 'Creu'r Cysylltiadau', neu wedi rhagori arno.

#### Blaenoriaethau ar gyfer y Chwe Mis Nesaf

**C3 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)0846(FPS)

**Q8 Rhodri Glyn Thomas:** Will the Minister make a statement on his priorities for the next six months? OAQ(3)0868(FPS)

**Andrew Davies:** Despite the current economic climate, we are working towards securing a budget that will help to deliver our 'One Wales' commitment of a strong and confident nation, while at the same time responding to recessionary and financial pressures and working towards ensuring efficiency and innovation in public service delivery.

**Irene James:** Thank you for your response. Andrew, I think that we would all agree that local service boards have been a success and that they are bringing an end to the duplication of public services. I am sure that you would agree that we need to consult with as many people as possible to ensure that priorities reflect the views of local people so that projects chosen for the local delivery agreement reflect the priorities of local people. With this in mind, how successful have local service boards been in sharing best practice in the way that they consult?

**Andrew Davies:** In most cases, LSBs have been effective in not only delivering best practice, but in seeking to share it. We also have a role to play as a Government in helping LSBs across Wales to learn from each other. I visited the Caerphilly Local Service Board to discuss progress some months ago, and I was pleased with the progress that it is making on a whole range of areas. For example, integrated services for children with disabilities are its No. 1 priority, along with looking at integrated mental health service projects in the county borough. The local service board is also looking at how it can market mental health to eliminate stigma and discrimination in the workplace and other places.

1.50 p.m.

I also saw a moving example in Rhondda Cynon Taf Local Service Board in the work that it is doing to address domestic abuse. I saw the progress that RCT has made in working with all its partners—the police, the health service and the voluntary sector, and

**Andrew Davies:** Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, yr ydym yn gweithio i sicrhau cyllideb a fydd yn helpu cyflawni ein hymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i greu cenedl gref a hyderus, gan weithio ar yr un pryd i ymateb i bwysau ariannol a phwysau'r dirwasgiad, a gweithio i sicrhau effeithlonrwydd ac arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

**Irene James:** Diolch am eich ymateb. Andrew. Credaf y byddem i gyd yn cytuno bod y byrddau gwasanaethau lleol wedi bod yn llwyddiant ac yn rhoi diwedd ar ddyblygu gwasanaethau cyhoeddus. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod angen inni ymgynghori â chynifer â phosibl o bobl i sicrhau bod blaenoriaethau'n adlewyrchu barn pobl lleol, er mwyn i'r prosiectau a ddewisir ar gyfer y cytundeb cyflenwi lleol adlewyrchu blaenoriaethau pobl lleol. O ystyried hynny, pa mor llwyddiannus y mae byrddau gwasanaethau lleol wedi bod wrth rannu arfer gorau yn eu dull o ymgynghori?

**Andrew Davies:** Yn y rhan fwyaf o achosion, mae byrddau gwasanaethau lleol wedi bod yn effeithiol wrth weithredu arfer gorau, ac wrth geisio'i rannu hefyd. Mae gennym ni hefyd rôl fel Llywodraeth i helpu byrddau gwasanaethau lleol ar draws Cymru i ddysgu wrth ei gilydd. Ymwelais â Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili rai misoedd yn ôl i drafod cynnydd, ac yr oeddwn yn falch o'r cynnydd y mae'n ei wneud mewn ystod eang o feysydd. Er enghraifft, sicrhau gwasanaethau integredig i blant ag anableddau yw ei brif flaenoriaeth, ynghyd ag edrych ar brosiectau integredig ar gyfer y gwasanaeth iechyd meddwl yn y fwrdeistref sirol. Mae'r bwrdd gwasanaethau lleol hefyd yn edrych ar y modd y gall farchnata iechyd meddwl i ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig ag ef a'r gwahaniaethu sy'n digwydd yn y gweithle ac mewn mannau eraill.

Gwelais enghraifft ddirdynnol ym Mwrdd Gwasanaethau Lleol Rhondda Cynon Taf yn y gwaith y mae'n ei wneud i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Gwelais y cynnydd y mae Rhondda Cynon Taf wedi'i wneud wrth weithio gyda'i holl bartneriaid—yr heddlu, y

with Women's Aid in particular—on transforming services for women who are experiencing domestic abuse. We need to spread that example so that it is not just in Rhondda Cynon Taf that victims of abuse can get an immediate response and support, and to ensure that women and men have a similar level of service across Wales. LSBs have a vital role to play in this.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn cefnogi'r ffordd yr ydych yn mynd i'r afael â gwariant cyhoeddus, yn enwedig o ystyried y degawd o wasgfa ar gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus sy'n ein hwynebu. A ydych yn credu ei bod yn bwysig bod pobl yn gwneud datganiadau ynglŷn â gwariant cyhoeddus ar sail ffeithiau manwl am sut cyflwynir y gwasanaethau hynny, yn hytrach na datganiadau gwag?

**Andrew Davies:** Absolutely. When I hear a lot of pronouncements, particularly from politicians in the opposing political parties, I am reminded of the George W. Bush attitude towards financial literacy and management. He said:

'It's clearly a budget. It's got a lot of numbers in it'.

I hear many of the pronouncements of some of our colleagues in other parties, Rhodri, and obviously they follow the George W. Bush school.

**Darren Millar:** Of the projects that you recently confirmed will be funded by the strategic capital investment fund, none were in central or north-east Wales. In fact, not a single application from Denbighshire, Conway, Flintshire or Wrexham was successful, and of the £120 million allocated under the SCIF, only two projects from north Wales were successful, amounting to just 15 per cent of the total distributed. I do not think that that is acceptable, Minister, and it suggests a massive regional bias to areas outside of north Wales. Those who have submitted applications have indicated to me that they feel that the bidding process has left a lot to be desired. I would be interested to hear your response to this suggestion of

gwasanaeth iechyd a'r sector gwirfoddol, a chyda Cymorth i Fenywod yn benodol—ar drawsnewid gwasanaethau i fenywod sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae angen inni rannu'r enghraifft hon gydag eraill er mwyn sicrhau nad yn Rhondda Cynon Taf yn unig y gall pobl sy'n cael eu cam-drin gael ymateb a chymorth ar unwaith, ac er mwyn sicrhau bod menywod a dynion yn cael lefel debyg o wasanaeth ar draws Cymru. Mae gan fyrrdau gwasanaethau lleol rôl hanfodol yn hyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** I support the way in which you approach public expenditure, particularly given the ensuing decade when there will be a squeeze on budgets for public services. Do you consider it is important that people make statements about public expenditure on the basis of detailed facts about the way those services are delivered, rather than empty statements?

**Andrew Davies:** Yn sicr. Pan glywaf lawer o ddatganiadau, yn enwedig gan wleidyddion yn y gwrthbleidiau gwleidyddol, caf fy atgoffa o agwedd George W. Bush at lythrennedd a rheolaeth ariannol. Meddai:

Mae'n amlwg mai cyllideb ydyw. Mae llawer o rifau yn ddo.

Clywaf nifer o'r datganiadau gan rai o'n cydweithwyr mewn pleidiau eraill, Rhodri, ac y mae'n amlwg eu bod o'r un ysgol â George W. Bush.

**Darren Millar:** O'r prosiectau a gadarnhawyd gennych yn ddiweddar y byddant yn cael eu hariannu gan y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, nid oedd yr un ohonynt yn y canolbarth neu'r gogledd-ddwyrain. Yn wir, nid oedd yr un cais o Sir Ddinbych, Conwy, Sir y Fflint na Wrecsam yn llwyddiannus, ac o'r £120 miliwn a ddyrannwyd dan y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, dau brosiect yn unig o'r gogledd fu'n llwyddiannus, sef 15 y cant yn unig o'r cyfanswm a ddyrannwyd. Ni chredaf fod hynny'n dderbyniol, Weinidog, ac y mae'n awgrymu ffafriaeth fawr i ardaloedd y tu allan i'r gogledd. Mae'r rheini sydd wedi cyflwyno ceisiadau wedi dweud wrthyf eu bod yn teimlo bod llawer o le i wella'r broses

regional bias and to know what you are doing to ensure that every part of Wales is able to benefit from this investment fund in the future.

**Andrew Davies:** I reject the idea that there is any bias against any part of Wales. If you look at the first tranche of the SCIF, which was almost three times as much as the second tranche, which was £350 million, you will see that several projects were in north-east Wales. There was a £5 million-project for Wrexham secondary schools and £27 million was invested in improving the transport infrastructure, and rail infrastructure in particular, to improve local services and north-south travel times. I refute any allegation that north-east Wales or any other part of Wales has been disadvantaged. Such an allegation also ignores the fact that many of the projects that were approved—the overwhelming majority in both the first and second tranches—were not local or regional bids but were all-Wales bids. For example, the extra £42 million on affordable homes in the first tranche will benefit Wrexham, Denbighshire and Flintshire if bids are made by local housing associations or local authorities. Therefore, I refute the allegation that you made.

**Alun Cairns:** I would like to pursue this a little further, because you well know that the Auditor General for Wales conducted an investigation into the process by which SCIF is allocated and raised serious concerns about how SCIF was allocated in the first tranche, although he accepts that changes have been made in order to allow a more balanced judgment to be made in relation to future SCIF allocations. Therefore, would you like to reconsider your answer, because I put it to you that when the SCIF was first considered, there were no robust assessments to allow a balanced judgment to be made on the basis of need rather than any other interest?

**Andrew Davies:** I do not recognise those

ymgeisio. Hoffwn glywed eich ymateb i'r awgrym hwn o ffafriaeth ranbarthol, a hoffwn wybod beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau y bydd pob rhan o Gymru'n gallu elwa o'r gronfa buddsoddi hon yn y dyfodol.

**Andrew Davies:** Yr wyf yn gwrthod y syniad fod unrhyw ran o Gymru'n cael ei ffafrio. Os edrychwch ar gyfran gyntaf y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol a oedd bron i deirgwaith yn fwy na'r ail gyfran, a oedd yn £350 miliwn, gwelwch fod nifer o'r prosiectau yn y gogledd-ddwyrain. Cafwyd prosiect o £5 miliwn ar gyfer ysgolion uwchradd Wrecsam, a buddsoddiwyd £27 miliwn mewn gwella'r isadeiledd trafniadaeth, a'r isadeiledd rheilffyrdd yn benodol, i wella gwasanaethau lleol ac amserau teithio o'r gogledd i'r de. Yr wyf yn gwrthod unrhyw honiad fod y gogledd-ddwyrain neu unrhyw ran arall o Gymru wedi bod dan anfantais. Mae honiad o'r fath hefyd yn anwybyddu'r ffaith nad cynigion lleol neu ranbarthol oedd nifer o'r prosiectau a gymeradwywyd—y mwyafrif llethol yn y gyfran gyntaf a'r ail gyfran—ond cynigion ar gyfer Cymru gyfan. Er enghraifft, bydd Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn elwa o'r £42 miliwn ychwanegol a gaiff ei wario ar dai fforddiadwy yn y gyfran gyntaf, os caiff ceisiadau eu gwneud gan gymdeithasau tai lleol neu awdurdodau lleol. Felly, yr wyf yn gwrthod yr honiad a wnaethoch.

**Alun Cairns:** Hoffwn ddilyn y mater hwn ychydig ymhellach, oherwydd gwyddoch n iawn fd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal ymchwiliad i'r broses o ddyrannu arian o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, a mynegodd bryderon difrifol am y modd y cafodd cyfran gyntaf y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol ei dyrannu, er ei fod yn derbyn bod newidiadau wedi'u gwneud er mwyn caniatáu gwneud penderfyniad mwy cytbwys ynghylch dyraniadau'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol yn y dyfodol. Felly, a hoffech ailystyried eich ateb, oherwydd cynigiau i chi, pan ystyriwyd y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol yn y lle cyntaf, ni wnaed dim asesiadau trylwyr i ganiatáu gwneud penderfyniad cytbwys ar sail anghenion yn hytrach nag unrhyw fudd arall?

**Andrew Davies:** Ni chredaf fod y sylwadau

comments as relating to the SCIF process. It is an open and transparent process, and it is a collaborative process through which we work with local authorities and others on bids. There are clear criteria by which those bids will be assessed. It is very transparent. When organisations make bids, they are aware of the criteria against which they will be assessed. They are then assessed internally by officials, and the strategic capital investment fund advisory panel, chaired by Dr Tim Stone, then applies its commercial expertise. So, it is a rigorous, transparent and, ultimately, accountable process. I therefore absolutely refute this allegation that there is a regional or non-regional bias in the way that we deal with the strategic capital investment fund process. I said in my very first answer, to the question from David Melding—I do not know if you were here at the time, Alun—that I have instigated a review, and we always review everything that we do. The SCIF process can be improved, and we accept that it is by no means perfect, but then, I suspect that perfection in life is unattainable.

#### Auditing of Public Bodies

**Q5 Leanne Wood:** Will the Minister make a statement regarding the auditing of public bodies? OAQ(3)0866(FPS)

**Andrew Davies:** I recently announced a policy statement on inspection, audit and regulation, which brings together for the first time the Assembly Government's policies across devolved and non-devolved public services operating in Wales. The statement outlines our principles and direction, as well as the proposals for putting these into practice.

**Leanne Wood:** I have had some serious concerns raised with me about management practice in the Wales Audit Office. I have been in correspondence with Jonathan Morgan in his capacity as Chair of the former Audit Committee, now known as the Public Accounts Committee, and it appears that the committee has no powers to scrutinise the Auditor General for Wales about the way in which the Wales Audit Office is run. I am sure that you will agree that it is vital that

hynny'n wir am broses y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Mae'n broses agored ac eglur, ac yn broses gydweithredol lle'r ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill ar geisiadau. Mae yna feini prawf clir ar gyfer asesu'r ceisiadau hynny. Mae'n hollol eglur. Pan fydd sefydliadau'n gwneud ceisiadau, maent yn ymwybodol o'r meini prawf ar gyfer eu hasesu. Yna cânt eu hasesu'n fewnol gan swyddogion, ac yna bydd panel cynghori'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, dan gadeiryddiaeth Dr Tim Stone, yn defnyddio'i arbenigedd masnachol. Felly, mae'n broses drwyadl, eglur ac atebol yn y pen draw. Yr wyf felly'n gwrthod yn llwyr yr honiad fod ffafriaeth ranbarthol neu ffafriaeth arall yn dylanwadu ar y modd yr ydym yn ymdrin â phroses y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Dywedais yn fy ateb cyntaf un i'r cwestiwn gan David Melding—ni wn a oeddech yma ar y pryd, Alun—fy mod wedi dechrau adolygiad, a byddwn bob amser yn adolygu popeth a wnawn. Mae lle i wella proses y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, ac yr ydym yn derbyn nad yw'n berffaith o bell ffordd, ond eto, yr wyf yn amau a yw perffeithrwydd yn bosibl mewn bywyd.

#### Archwilio Cyrff Cyhoeddus

**C5 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am archwilio cyrff cyhoeddus? OAQ(3)0866(FPS)

**Andrew Davies:** Yn ddiweddar cyhoeddais ddatganiad polisi ar arolygu, archwilio a rheoleiddio, sy'n tynnu ynghyd, am y tro cyntaf, bolisiau Llywodraeth y Cynulliad o ran gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru sydd wedi eu datganoli a heb eu datganoli. Mae'r datganiad yn amlinellu ein hegwyddorion a'n cyfeiriad, yn ogystal â'r cynigion ar gyfer rhoi'r rhain ar waith.

**Leanne Wood:** Mae pobl wedi dod ataf yn mynegi pryderon difrifol am y modd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei rheoli. Yr wyf wedi bod yn gohebu â Jonathan Morgan yn ei rôl fel Cadeirydd yr hen Bwyllgor Archwilio, sef y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus erbyn hyn, ac y mae'n ymddangos nad oes gan y Pwyllgor ddim pwerau i graffu ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r modd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei rhedeg. Yr wyf yn siŵr y cytunwch ei bod yn

people have full confidence in the organisation charged with auditing public bodies in Wales, so I would be grateful if you could tell us what you can do to ensure that the auditor general is held to account for the way that the Wales Audit Office is run. In short, Minister, how can you ensure that this Assembly gets to scrutinise the scrutiniser?

**Andrew Davies:** I am on record on many occasions as saying that decisions that are accountable and transparent are inherently better decisions. That applies to all public bodies. As a Minister, I have sought and, I am delighted to say, obtained from the UK Government agreement to submit an amendment to the Constitutional Reform and Governance Bill, and that amendment was agreed to by the House of Commons last week. I have been working with the Chair of the Public Accounts Committee on this, and that amendment will give the Assembly—not us as a Government—the power to introduce new governance arrangements for the Wales Audit Office. These parallel the powers that the UK Parliament has sought for the accountability of the National Audit Office. It would then be a matter for the Public Accounts Committee and the Assembly to see how they wish to exercise those powers, but it may well be that they will wish to set up a supervisory board to which the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office will report.

Your question is well put, and it is right that we should consider who guards the guards. In fact, the auditor general himself instigated the international peer review of the Wales Audit Office, and while it commended many of the operations of the WAO, it indicated that governance and internal management needed to be addressed. I am sure that this amendment to the Constitutional Reform and Governance Bill will give the Assembly powers so that the auditor general and the WAO are accountable.

hanfodol i bobl fod yn hollol ffyddiog yn y sefydliad sy'n gyfrifol am archwilio cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym beth y gallwch ei wneud i sicrhau bod yr archwilydd cyffredinol yn cael ei alw i gyfrif am y modd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei rhedeg. Yn fyr, Weinidog, sut y gallwch sicrhau bod modd i'r Cynulliad hwn archwilio'r archwilydd?

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi dweud ar goedd droeon fod penderfyniadau sy'n atebol ac yn eglur yn benderfyniadau gwell yn y bôn. Mae hynny'n berthnasol i bob corff cyhoeddus. Fel Gweinidog, yr wyf wedi ceisio, ac yr wyf yn falch o gael dweud, wedi cael cytundeb gan Lywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant yn y Mesur Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu, a chytunwyd y gwelliant hwnnw gan Dŷ'r Cyffredin yr wythnos diwethaf. Yr wyf wedi bod yn gweithio gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar hyn, a bydd y gwelliant hwnnw'n rhoi grym i'r Cynulliad—nid i ni fel Llywodraeth—i gyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r pwerau hyn yn debyg i'r rhai y mae Senedd y DU wedi ceisio'u cael ar gyfer atebolrwydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yna, mater i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Cynulliad fyddai penderfynu sut y dymunent arfer y pwerau hynny, ond y mae'n bur debyg y byddant yn dymuno sefydlu bwrdd goruchwyllo y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd iddo.

Yr ydych wedi mynegi eich cwestiwn yn dda, ac y mae'n iawn inni ystyried pwy sy'n gwarchod y gwarchodwyr. Mewn gwirionedd, yr archwilydd cyffredinol ei hun a fu'n gyfrifol am ddechrau'r adolygiad rhyngwladol gan gymheriaid o Swyddfa Archwilio Cymru, ac er ei fod wedi cymeradwyo nifer o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru, dywedai fod angen mynd i'r afael â llywodraethu a rheolaeth fewnol. Yr wyf yn siŵr y bydd y gwelliant hwn yn y Mesur Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu yn rhoi pwerau i'r Cynulliad fel y bydd yr archwilydd cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol.

**The Presiding Officer:** Order. Before I call Jonathan Morgan, the Chair of the Public Accounts Committee, I will point out that although I allowed that question, this is a matter for the National Assembly for Wales. The auditor general is elected by the Assembly and is appointed by Her Majesty. If you wish to discuss this matter further, Leanne, I would be very happy to do so.

**Jonathan Morgan:** As Chair of the committee, I welcome the fact that an amendment has been secured in the Bill process, and we look forward to the powers being transferred to the Assembly to allow a committee to effect changes to the governance of the Wales Audit Office. Whatever changes are recommended need to be based on good evidence, and we need to ensure that we have a framework that is fit for purpose. I am sure that the Minister will agree with me that whatever changes are recommended through an Assembly Measure, they cannot and should not affect or interrupt the independence of the Auditor General for Wales. For Government to work effectively and responsibly in a healthy democracy, we need to ensure that we have an auditor general who can work independently in providing good advice and guidance. Any move towards interrupting that independence should be resisted.

2.00 p.m.

**Andrew Davies:** Absolutely. I made that point when I briefed Members of Parliament and Members of the House of Lords last week on the proposed amendments to the Constitutional Reform and Governance Bill. In no way was this meant to infringe, limit or damage the operational and strategic independence of the auditor general and the work of the Wales Audit Office. The international peer review instigated by Jeremy Colman indicated that the governance arrangements of the WAO did need reforming, and I think that there is broad agreement on that. We have to propose the amendment, under our present powers as a Government, but it is clear that it will be for the Assembly, as the Presiding Officer pointed out, not the Welsh Assembly

**Y Llywydd:** Trefn. Cyn imi alw ar Jonathan Morgan, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, hoffwn nodi, er fy mod wedi caniatáu'r cwestiwn hwnnw, mai mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn. Caiff yr archwilydd cyffredinol ei ethol gan y Cynulliad a'i benodi gan Ei Mawrhydi. Os hoffech drafod y mater hwn ymhellach, Leanne, byddwn yn barod iawn i wneud hynny.

**Jonathan Morgan:** Fel Cadeirydd y pwyllgor, yr wyf yn croesawu'r ffaith fod gwelliant wedi'i wneud yn y Mesur, ac edrychwn ymlaen at yr adeg pan gaiff y pwerau eu trosglwyddo i'r Cynulliad i alluogi pwyllgor i wneud newidiadau yn y modd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei llywodraethu. Mae angen i ba bynnag newidiadau a gaiff eu hargymell fod yn seiliedig ar dystiolaeth dda, ac y mae angen inni sicrhau bod gennym fframwaith addas ar y diben. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi na all ac na ddylai dim newidiadau a argymhellir trwy Fesur Cynulliad effeithio nac amharu ar annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru. Er mwyn i Lywodraeth weithio'n effeithiol ac yn gyfrifol mewn democratiaeth iach, mae angen inni sicrhau bod gennym archwilydd cyffredinol sy'n gallu gweithio'n annibynnol wrth ddarparu cyngor ac arweiniad da. Dylid gwrthsefyll unrhyw gynnig i ymyrryd â'r annibyniaeth honno.

**Andrew Davies:** Yn hollol. Gwneuthum y pwynt hwnnw wrth imi friffio Aelodau Seneddol ac Aelodau Tŷ'r Arglwyddi yr wythnos diwethaf ar y gwelliannau arfaethedig yn y Mesur Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu. Nid oedd bwriad o gwbl i hyn dresmasu, cyfyngu nac amharu ar annibyniaeth weithredol a strategol yr archwilydd cyffredinol a gwaith Swyddfa Archwilio Cymru. Adolygiad rhyngwladol gan gymheiriaid ydoedd a ddechreuwyd gan Jeremy Colman yn dangos bod angen gwella trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, a chredaf fod pawb yn weddol gytûn ynghylch hynny. Rhaid i ni gynnig y gwelliant, dan ein pwerau presennol fel Llywodraeth, ond y mae'n glir mai'r Cynulliad, nid Llywodraeth y Cynulliad fel y



Government to see how it wishes that power to be exercised.

**The Presiding Officer:** Thank you for that, Minister.

### Environment, Sustainability and Housing

**Q6 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on the amount of money allocated for the environment, sustainability and housing budget for the next financial year? OAQ(3)0872(FPS)

**Andrew Davies:** The Assembly Government's draft budget allocation for the environment, sustainability and housing portfolio for 2010-11 is £369 million of revenue and £348 million of capital.

**Mick Bates:** I thank you for that statement of fact, Minister. I listened with interest to your answers about how, in your budget-setting process, you responded to the recession, and I am interested to hear how you have responded to climate change. Today, 100 MPs have signed an early-day motion—51 of whom were Labour MPs, 41 were Liberal and seven were Tories—to call on the Government to take stronger action and invest more in combating climate change. I admire the 'One Wales' document, in which there is a target to reduce carbon emissions by 3 per cent by 2011. However, all that needs investment and, as far as I can see, your budget-setting process did not take into account the financial demands of meeting that target. In your answer, will you give some clarity as to how you took climate change into account when setting this budget?

**Andrew Davies:** It is one of our major commitments. It is in 'One Wales' and a core legal principle under our constitutional that we have a duty to consider sustainable development. The revenue increase of 5.4 per cent that we put into the environment, sustainability and housing budget is well above the average of 2.1 per cent for Assembly Government departments overall. Within that, there is additional funding for a

dywedodd y Llywydd, a fydd yn gyfrifol am benderfynu sut y mae'n dymuno arfer y pŵer hwnnw.

**Y Llywydd:** Diolch am hynny, Weinidog.

### Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**C6 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o arian a ddyrennir ar gyfer y gyllideb amgylchedd, cynaliadwyedd a thai yn y flwyddyn ariannol nesaf? OAQ(3)0872(FPS)

**Andrew Davies:** Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad yn dyrannu £369 miliwn o arian refeniw a £348 miliwn o arian cyfalaf ar gyfer y portffolio amgylchedd, cynaliadwyedd a thai yn 2010-11.

**Mick Bates:** Diolch ichi am y datganiad hwnnw o ffaith, Weinidog. Gwrandewais gyda diddordeb ar eich atebion am y ffordd yr ydych wedi ymateb i'r dirwasgiad wrth osod cyllidebau, ac y mae gennyf ddiddordeb clywed sut yr ydych wedi ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Heddiw mae 100 o Aelodau Seneddol wedi llofnodi cynnig cynnar-yn-y-dydd—yr oedd 51 ohonynt yn Aelodau Seneddol Llafur, 41 yn Aelodau Rhyddfrydol a saith yn Doriadaid—i alw ar y Llywodraeth i gymryd camau cadarnach a buddsoddi rhagor i atal y newid yn yr hinsawdd. Yr wyf yn edmygu dogfen 'Cymru'n Un', lle mae targed i leihau allyriadau carbon 3 y cant erbyn 2011. Fodd bynnag, mae hynny i gyd yn gofyn am fuddsoddi, a hyd y gwelaf, nid oedd eich proses o bennu cyllideb yn ystyried y galwadau ariannol wrth gyrraedd y targed hwnnw. Yn eich ateb, a wnewch chi roi ychydig eglurhad sut yr ystyriwyd y newid yn yr hinsawdd gennych wrth osod y gyllideb hon?

**Andrew Davies:** Mae hwn yn un o'n prif ymrwymadau. Mae'n rhan o 'Cymru'n Un' ac yn egwyddor gyfreithiol greiddiol yn ein cyfansoddiad fod dyletswydd arnom i ystyried datblygu cynaliadwy. Mae'r cynnydd refeniw o 5.4 y cant yr ydym yn ei roi yn y gyllideb ar gyfer yr amgylchedd, cynaliadwyedd a thai lawer yn uwch na'r cyfartaledd o 2.1 y cant ar gyfer adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol. Yn

range of measures, building on existing programmes and expenditure, to address the challenges of climate change, including promoting energy efficiency, waste minimisation and recycling, dealing with flood-risk management or investing in flood protection. I will write to you, Mick, itemising the additional items of expenditure over and above existing spend to tackle climate change.

**Mark Isherwood:** I note that the draft budget includes a flat-line budget for the major repairs allowance of £108 million a year. I also note that individual registered social landlords, following a stock transfer, require gap funding or dowry payments for up to 30 years, but the Welsh Assembly Government's commitment will be legally binding for only five years. Therefore, for all the transfers anticipated, if they go through, we are looking at a potential requirement of nearly £52 million. What discussions have you had with private sector funders, who would be providing the balance of the funding for this, and what provision have you made within the budget, particularly within that for the major repairs allowance, to fund these gap payments?

**Andrew Davies:** Either the Deputy Minister for Housing, Jocelyn Davies, or I will write to you specifically on the major repairs allowance, but, as I have said, affordable housing is a priority for us, and we have put in considerable additional resource to reach our target of building 6,500 new affordable home units by 2011. We are also actively taking forward the work of the affordable housing review conducted by Sue Essex, and a key area that we are looking at is how we can give housing associations and registered social landlords more flexibility in raising additional resource through private sector investment and in actively pursuing the proposal to set up a Welsh housing bond, which Jocelyn Davies and I have been working on. So, for a whole range of areas, we are looking to draw down additional investment, whether it is from the public or, as in this case, the private sector.

y gyllideb honno mae arian ychwanegol ar gyfer ystod o fesurau, gan adeiladu ar wariant cyfredol a rhaglenni sy'n bodoli eisoes, i fynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys hyrwyddo defnyddio ynni'n effeithlon, lleihau gwastraff ac ailgylchu, ymdrin â rheoli perygl llifogydd neu fuddsoddi mewn amddiffyn rhag llifogydd. Ysgrifennaf atoch, Mick, yn nodi'r eitemau gwariant sy'n ychwanegol at y gwariant presennol ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

**Mark Isherwood:** Sylwaf fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys cyllideb unffurf ar gyfer y lwfans atgyweiriadau mawr, sy'n £108 miliwn y flwyddyn. Sylwaf hefyd fod angen i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig unigol, yn dilyn trosglwyddo stoc tai, gael cyllid pontio neu daliadau gwaddol am hyd at 30 mlynedd, ond am bum mlynedd yn unig y bydd ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad yn gyfreithiol rwymol. Felly, os bydd pob trosglwyddiad a ragwelir yn digwydd, gallai fod angen bron i £52 miliwn. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda chyllidwyr y sector preifat, a fyddai'n darparu gweddill y cyllid ar gyfer hyn, a pha ddarpariaeth yr ydych wedi'i gwneud yn y gyllideb, yn enwedig yn y gyllideb honno ar gyfer y lwfans atgyweiriadau mawr, i gyllido'r taliadau pontio hyn?

**Andrew Davies:** Byddaf fi neu'r Dirprwy Weinidog dros Dai, Jocelyn Davies, yn ysgrifennu atoch yn benodol am y lwfans atgyweiriadau mawr, ond fel yr wyf wedi sôn, mae tai fforddiadwy yn flaenoriaeth inni, ac yr ydym wedi clustnodi adnoddau sylweddol i gyrraedd ein targed o adeiladu 6,500 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn 2011. Yn ogystal, yr ydym wrthi'n mynd ymlaen â'r gwaith yn yr adolygiad tai fforddiadwy a wnaed gan Sue Essex, ac un maes allweddol yr ydym yn edrych arno yw'r modd y gallwn roi mwy o hyblygrwydd i gymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i godi adnoddau ychwanegol trwy fuddsoddi gan y sector preifat, a mynd ar ôl y cynnig i sefydlu Bond Tai Cymru y mae Jocelyn Davies a minnau wedi bod yn gweithio arno. Ar gyfer ystod eang iawn o feysydd, felly, yr ydym yn ceisio cael gafael ar fuddsoddiad ychwanegol, boed oddi wrth y sector cyhoeddus ynteu, yn yr achos hwn,

oddi wrth y sector preifat.

### Value for Money

**Q7 Val Lloyd:** Will the Minister give an update on work being carried out to achieve value for money in public service delivery? OAQ(3)0867(FPS)

**Andrew Davies:** There are several initiatives that are making a major impact in achieving increased value for money across Wales. For example, in procurement, we are delivering significant benefits through framework agreements, which have released savings of some £96 million. Our e-procurement programme, Xchangewales, has delivered savings of £17 million. The invest-to-save fund that I announced in May is already supporting a wide variety of public sector efficiency projects, involving joint working and transformational change.

**Val Lloyd:** Thank you, Minister, for that comprehensive answer. You may well have heard my comments in the Chamber yesterday regarding plans by Fujitsu to make more than 1,200 staff redundant. I understand that many of the staff at risk provide IT support to essential Government services, including those provided by the Driver and Vehicle Licensing Agency, based in my constituency. I am very concerned about this announcement, and I believe that it is a response to the pressure on Government departments drastically to reduce running costs. Although there is a definite need to drive the efficiency agenda in these tough economic times to ensure value for money in public service delivery, do you agree that that should not be done at the expense of highly skilled staff?

**Andrew Davies:** Absolutely. We were concerned to hear the announcement. Assembly Government officials have been in discussions with Fujitsu about the announcement and its impact on Wales. The early indications are that any job losses will be achieved through natural wastage and early retirement, and through reconfiguration, with the flexible permanent employee and non-contract-specific section of its

### Gwerth am Arian

**C7 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wneir i gyflawni gwerth am arian wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(3)0867(FPS)

**Andrew Davies:** Mae nifer o fentrau'n cael effaith sylweddol ar sicrhau mwy o werth am yr arian ar draws Cymru. Er enghraifft, o ran caffael, yr ydym yn sicrhau buddiannau sylweddol trwy gytundebau fframwaith, sydd wedi arwain at arbedion o ryw £96 miliwn. Mae ein rhaglen e-gaffael, cyfnewidcymru, wedi sicrhau arbedion o £17 miliwn. Mae'r gronfa buddsoddi i arbed a gyhoeddais ym mis Mai eisoes yn cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys gweithio ar y cyd a newid trawsffurfiol.

**Val Lloyd:** Diolch, Weinidog, am eich ateb cynhwysfawr. Mae'n ddigon posibl eich bod wedi clywed fy sylwadau yn y Siambr ddoe ynghylch cynlluniau Fujitsu i ddiswyddo dros 1,200 o staff. Yr wyf ar ddeall bod nifer o'r staff sydd mewn perygl yn darparu cymorth TG i wasanaethau hanfodol y Llywodraeth, gan gynnwys y gwasanaethau hynny a ddarperir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, sydd yn fy etholaeth i. Yr wyf yn pryderu'n fawr am y cyhoeddiad hwn, a chredaf mai ymateb y mae i'r pwysau ar adrannau'r Llywodraeth i leihau costau rhedeg yn sylweddol. Er bod angen pendant am weithredu'r agenda effeithlonrwydd yn ystod y cyfnod hwn o galedi economaidd er mwyn sicrhau gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a ydych yn cytuno na ddylid gwneud hynny ar draul staff medrus iawn?

**Andrew Davies:** Yn bendant. Yr oedd y cyhoeddiad yn peri pryder inni. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn trafod gyda Fujitsu ynghylch y cyhoeddiad a'r effaith a gaiff ar Gymru. Yr arwyddion cynnar yw y bydd unrhyw swyddi a gollir yn digwydd wrth i bobl ymadael yn naturiol ac ymddeol yn gynnar, a thrwy ad-drefnu ymhlith y gweithwyr parhaol hyblyg a gweithwyr heb gontract penodol yn y

workforce. The indications at this stage are that the impact on Wales will be minimal. We will work with the company to understand its plans more clearly. If there is to be a direct impact on employees in Wales, we will want to engage with the company early on to deal with that situation.

**The Presiding Officer:** I call Alun Cairns.

**Alun Cairns:** Forgive me, Llywydd, but are we moving on to question 1 to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills or are we still on question 7 to Andrew Davies?

**The Presiding Officer:** We are still on questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery.

**Alun Cairns:** In that case, I no longer wish to ask my supplementary question.

**Eleanor Burnham:** I am sure that we all want to achieve the best value for money in public service delivery, and I know that that is at the forefront of your mind, Minister. I note that an expert panel has been convened to write some important words on ‘Are we being served?’, which is now out for consultation. I am querying this because not a lot of people know about it. I have delved very deeply to get a copy of this wonderful piece of work, which is absolutely thrilling. One of the things that you are looking at in the document, ‘Are we being served?’, has to do with the ability of councillors to carry out their duties. Can you tell me, because I am quite keen to know, how relevant you consider the work of the expert panel—which I note includes no Liberal Democrats, unless I am mistaken—to be? Do you consider that this worthy report by these worthy members will achieve better outcomes for better delivery, and will we be best served? In the meantime, could you perhaps send us a note on how much it has cost to do this exercise?

**Andrew Davies:** The lack of understanding and knowledge is very extensive because, not for the first time, I am afraid, I do not

gweithlu. Yr arwyddion ar hyn o bryd yw na fydd yn cael llawer o effaith ar Gymru. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmni i ddeall ei gynlluniau'n well. Os bydd effaith uniongyrchol ar weithwyr yng Nghymru, byddwn am gysylltu â'r cwmni'n gynnar i fynd i'r afael â'r sefyllfa honno.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Alun Cairns.

**Alun Cairns:** Maddeuwch imi, Lywydd, ond a ydym yn symud ymlaen at gwestiwn 1 i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, neu a ydym yn dal i fod ar gwestiwn 7 i Andrew Davies?

**Y Llywydd:** Yr ydym yn dal i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Alun Cairns:** Os felly, nid wyf bellach am ofyn fy nghwestiwn ychwanegol.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd am sicrhau'r gwerth gorau am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a gwn fod hynny ar flaen eich meddwl, Weinidog. Sylwaf fod panel arbenigol wedi'i ymgynnull i ysgrifennu rhai geiriau pwysig ar ‘At eich gwasanaeth?’ yr ymgynghorir yn ei gylch ar hyn o bryd. Yr wyf yn holi ynghylch hyn oherwydd nid oes llawer o bobl yn gwybod amdano. Yr wyf wedi chwilio'n galed iawn i gael copi o'r darn gwych hwn o waith, sy'n hynod ddifyr. Mae un o'r pethau yr ydych yn rhoi sylw iddo yn y ddogfen, ‘At eich gwasanaeth?’, yn ymwneud â gallu cynghorwyr i gyflawni eu dyletswyddau. A allwch ddweud wrthyf, oherwydd yr wyf yn awyddus i wybod, pa mor berthnasol dybiwch chi yw'r gwaith y mae'r panel arbenigol—nad yw'n cynnwys yr un Democrat Rhyddfrydol gyda llaw, oni bai fy mod yn camgymryd—yn ei wneud? A ydych yn credu y bydd yr adroddiad teilwng hwn gan yr aelodau teilwng hyn yn cael gwell canlyniadau a gwell darpariaeth, ac a fyddwn yn cael y gwasanaeth gorau posibl? Yn y cyfamser, a allech anfon gair atom yn dweud faint y mae wedi'i gostio i gynnal yr ymarfer hwn?

**Andrew Davies:** Mae'r diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth yn helaeth iawn oherwydd nid wyf yn deall, ac nid am y tro cyntaf, ofnaf,

understand what you are talking about, Eleanor.

am beth yr ydych yn sôn, Eleanor.

**Eleanor Burnham:** Shall I repeat it? [*Laughter.*]

**Eleanor Burnham:** A ydych am imi ei ailadrodd? [*Chwerthin.*]

**The Presiding Officer:** Order. No. I call Helen Mary Jones.

**Y Llywydd:** Trefn. Na. Galwaf ar Helen Mary Jones.

**Eleanor Burnham:** ‘Are we being served?’—

**Eleanor Burnham:** ‘At eich gwasanaeth?’—

**The Presiding Officer:** Order. No. That is not appropriate. You are not in charge of these proceedings. Please sit down. No-one is able to ask the same question twice. I call Helen Mary Jones.

**Y Llywydd:** Trefn. Na. Nid yw hynny’n briodol. Nid chi sy’n rheoli’r trafodion hyn. A wnewch chi eistedd. Ni chaiff neb ofyn yr un cwestiwn ddwywaith. Galwaf ar Helen Mary Jones.

2.10 p.m.

**Helen Mary Jones:** Minister, you must have all our support, across the Chamber in ensuring that we get maximum value for money from the delivery of public services, particularly with finances as difficult as they are at the moment. However, I am concerned that some public bodies may be using this as an opportunity or an excuse to pass on the pressures directly to vulnerable voluntary organisations. The specific example that I have in mind is a process that is taking place between Carmarthenshire County Council and the Women’s Aid groups in Carmarthenshire. I do not expect you to comment on that particular case, but what assurances can you give us that, during this process, you will not expect local authorities or any other public bodies disproportionately to disadvantage the voluntary organisations serving those communities, and what steps can you take centrally to ensure that that does not happen?

**Helen Mary Jones:** Weinidog, rhaid ichi gael cefnogaeth pob un ohonom ar draws y Siambr i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig o gofio mor anodd yw arian ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu efallai fod rhai cyrff cyhoeddus yn defnyddio hynny fel cyfle neu esgus i drosglwyddo’r pwysau’n uniongyrchol i fudiadau gwirfoddol sydd mewn sefyllfa wan. Yr enghraifft benodol sydd gennyf mewn golwg yw proses sy’n digwydd rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a grwpiau Cymorth i Ferched yn Sir Gâr. Nid wyf yn disgwyl ichi roi sylwadau ar yr achos penodol hwnnw, ond pa sicrwydd y gallwch ei roi inni na fyddwch, yn ystod y broses hon, yn disgwyl i awdurdodau lleol nac unrhyw gyrff cyhoeddus eraill roi mudiadau gwirfoddol, sy’n gwasanaethu’r cymunedau hynny, dan anfantais anghymesur, a pha gamau y gallwch eu cymryd yn ganolog i sicrhau na fydd hynny’n digwydd?

**Andrew Davies:** It is clearly of widespread concern, and it has been raised with me and with the Minister for Social Justice and Local Government. We have discussed this issue with the Welsh Local Government Association. We are aware of the concerns not just of that organisation but of any organisation about the services provided. The local service board is crucial in looking and planning services at a local level, avoiding unnecessary duplication, and focusing on

**Andrew Davies:** Mae’n amlwg fod hyn yn peri pryder i nifer o bobl, ac y mae’r pwynt wedi ei godi gyda mi a’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Yr ydym wedi trafod y mater hwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yr ydym yn ymwybodol o bryderon y mudiad hwnnw a mudiadau eraill am y gwasanaethau a ddarperir. Mae gwaith y bwrdd gwasanaethau lleol yn allweddol wrth edrych ar wasanaethau a’u cynllunio ar lefel leol,

who can provide the best services, whether it is the third or voluntary sector or the statutory sector. I am very impressed with what is happening in Rhondda Cynon Taf. Through the local service board, I met the people behind the Kafka Brigade project on domestic violence, as I said in response to Irene James. The Women's Aid organisations across the borough are playing a leading role. However, that has challenged them to think about how they deliver services, and they are aware that they also need to be much more efficient and to rationalise what they do.

For many third or voluntary sector organisations, there are real capacity issues. That is why I was pleased to see that the Charity Bank has set up its Cardiff office, or Wales office. It wants to develop a Welsh community bond, which not only provides extra funding but can also add management expertise and capacity enhancement. By taking a strategic view, but also by working with LSBs, I hope that we can address some of the concerns of the voluntary sector.

**The Presiding Officer:** Thank you for your answers, Minister.

gan osgoi dyblygu diangen, a chanolbwyntio ar bwy all ddarparu'r gwasanaethau gorau, boed yn fudiadau'r trydydd sector ynteu'r sector gwirfoddol neu'r sector statudol. Mae'r hyn sy'n digwydd yn Rhondda Cynon Taf wedi gwneud argraff fawr arnaf. Trwy'r bwrdd gwasanaethau lleol, cefais gyfarfod â'r bobl y tu ôl i'r prosiect Kafta Brigade ar gam-drin domestig, fel y dywedais wrth ymateb i Irene James. Mae gan fudiadau Cymorth i Ferched ar draws y fwrdeistref rôl arweiniol. Fodd bynnag, mae hynny wedi gwneud eu herio i feddwl am y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau, ac y maent yn ymwybodol bod angen hefyd iddynt fod yn fwy effeithlon o lawer ac i resymoli'r hyn y maent yn ei wneud.

I nifer o fudiadau'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol, mae yna broblemau gwirioneddol o ran capasiti. Dyna pam yr oeddwn yn falch gweld bod Charity Bank wedi sefydlu ei swyddfa yng Nghaerdydd, neu swyddfa Cymru. Mae am ddatblygu bond cymunedol Cymreig, sydd nid yn unig yn darparu arian ychwanegol, ond hefyd yn gallu ychwanegu arbenigedd rheoli a gwella capasiti. Trwy gymryd safbwynt strategol, ond hefyd gan weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol hefyd, gobeithio y gallwn fynd i'r afael â rhai o bryderon y sector gwirfoddol.

**Y Llywydd:** Diolch am eich atebion, Weinidog.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

### **The Foundation Phase**

**Q1 Alun Cairns:** Will the Minister make a statement on what assessments have been made regarding the roll-out of the foundation phase? OAQ(3)1078(CEL)

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** Practitioners, professionals and partners agree that children are flourishing under the foundation phase. We have achieved 1:8 teacher to pupil ratios for three to five-year-olds. Estyn is surveying the impact of foundation phase training. Estyn's foundation

### **Cyfnod Sylfaen**

**C1 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr asesiadau sydd wedi'u gwneud o ran cyflwyno'r cyfnod sylfaen? OAQ(3)1078(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn cytuno bod plant yn ffynnu dan y cyfnod sylfaen. Yr ydym wedi sicrhau cymhareb o 1:8 o athrawon i blant o dair i bump oed. Mae Estyn yn edrych ar effaith hyfforddiant y cyfnod sylfaen. Mae pecyn

phase toolkit identifies good practice across Wales. A full evaluation starts next year.

**Alun Cairns:** I am grateful for the Minister's answer. The foundation phase received widespread support from every party in the Chamber. However, I think it fair to say that concerns are developing about its delivery, given that some significant academics have expressed 'major concerns' about the transition of pupils moving on from the foundation phase, and the lack of planning in that respect. In addition, the teaching unions have expressed concern about the capacity to increase staffing levels to maintain the ratios as time goes on, particularly within this period. My question is specifically about the evaluations conducted to date of the success of the foundation phase. Is it not the case that, although it welcomes the advances that the foundation phase has made, Estyn has investigated the matter and has found that it has not taken us to the level that we should have reached, bearing in mind the pilot schemes and the plans and aspirations of the Welsh Assembly Government and the National Assembly at the outset? In summary, the foundation phase is not achieving your objectives.

**Jane Hutt:** That is certainly not a question that I can answer in view of the comments that you claim have been made. Last week, I had a useful and constructive meeting with the foundation phase task and finish implementation group. We had Professor Iram Siraj-Blatchford, who is the expert from the University of London education department. All the unions there, and they were all positive about the roll-out of the foundation phase. It is important that we look to the evaluation of the roll-out, which starts next year. It will address the extent to which the intended outcomes of the foundation phase are being achieved. In addition, importantly, the training that has been undertaken has been backed by 11 guidance documents, which have been published to support the implementation of the foundation phase. I am sure that you will join me in congratulating our local education authorities

cymorth Estyn ar gyfer y cyfnod sylfaen yn nodi arfer da ledled Cymru. Bydd gwerthusiad llawn yn dechrau flwyddyn nesaf.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar am ateb y Gweinidog. Cafodd y cyfnod sylfaen gefnogaeth eang gan bob plaid yn y Siambr. Fodd bynnag, credaf ei bod yn deg dweud bod rhai pryderon yn codi ynghylch y gwaith o'i gyflwyno, o wybod bod rhai academyddion pwysig wedi mynegi'r hyn a alwant yn bryderon mawr ynghylch y broses bontio ar gyfer disgyblion wrth iddynt symud ymlaen o'r cyfnod sylfaen, a'r diffyg cynllunio yn y cyswllt hwnnw. Yn ogystal, mae undebau athrawon wedi mynegi pryder ynghylch y gallu i gynyddu lefelau staffio er mwyn cynnal y cymarebau wrth i amser fynd rhagddo, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud yn benodol â'r gwaith gwerthuso sydd wedi'i wneud hyd yma i fesur llwyddiant y cyfnod sylfaen. Onid yw'n wir fod Estyn, er ei fod yn croesawu'r cynnydd a wnaed gan y cyfnod sylfaen, wedi ymchwilio i'r mater ac wedi gweld nad yw'r cyfnod sylfaen wedi mynd â ni i'r lefel y dylem fod wedi'i chyrraedd, o gofio'r cynlluniau peilot, a chynlluniau a dyheadau Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol ar y dechrau? Yn fyr, nid yw'r cyfnod sylfaen yn cyflawni eich amcanion.

**Jane Hutt:** Yn sicr nid yw hwn yn gwestiwn y gallaf ei ateb o ystyried y sylwadau yr ydych yn honni eu gwneud. Yr wythnos diwethaf, cefais gyfarfod defnyddiol ac adeiladol gyda grŵp gweithredu gorchwyl a gorffen y cyfnod sylfaen. Yr oedd yr Athro Iram Siraj-Blatchford, yr arbenigwr o adran addysg Prifysgol Llundain, yn bresennol yn y cyfarfod. Yr oedd yr undebau i gyd yno, a phob un ohonynt yn gadarnhaol ynghylch y modd y caiff y cyfnod sylfaen ei gyflwyno. Mae'n bwysig inni edrych ar y gwerthusiad o waith cyflwyno'r cyfnod sylfaen, a fydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf. Bydd y gwerthusiad yn ystyried i ba raddau y mae canlyniadau arfaethedig y cyfnod sylfaen yn cael eu cyflawni. Yn ogystal, ac yn bwysig, mae'r hyfforddiant yr ymgwymerwyd ag ef wedi'i ategu gan 11 o ddogfennau cyfarwyddyd, sydd wedi'u cyhoeddi i gefnogi gwaith gweithredu'r cyfnod sylfaen.

on their delivery of the service, with the support of the Welsh Assembly Government, and the appointment of in excess of 3,000 classroom assistants, who have joined the foundation phase to deliver a pioneering and radical change to our early years education in Wales.

**Lesley Griffiths:** Minister, I recently met local education officers and staff who are responsible for delivering the foundation phase in Wrexham. They hold a drop-in advice session once a week for teachers and classroom assistants who are responsible for delivering the foundation phase in the classroom. They have both an outside and an inside area, which they change on a weekly basis, in order to show how the scheme can be delivered imaginatively in a small area. They also offer ideas for subjects that can be covered with the children. They believe that it is the first drop-in advice centre of its kind in Wales. I was extremely impressed by the initiative and how it encourages people to come along to share best practice. Would you agree that this type of facility would be extremely beneficial across Wales?

**Jane Hutt:** Indeed. I was pleased to visit one setting of the foundation phase in Wrexham and to see its pioneering work. I would welcome the opportunity to look at the drop-in centre and at the sharing of good practice that is taking place in Wrexham.

During 2009, a series of 10 successful outdoor conferences were staged across Wales by the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. They were attended by almost 900 practitioners, teachers and classroom assistants. Estyn recently published a play and active learning toolkit, which identified examples—particularly in relation to outdoor learning, as is taking place in Wrexham, as you have just described—of schools, and indeed non-maintained settings, where children are flourishing under the foundation phase.

**Bethan Jenkins:** I welcome the foundation

Yr wyf yn siŵr y cytunwech â mi i longyfarch ein hawdurdodau addysg lleol ar gyflwyno'r gwasanaeth, gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, ac ar benodi dros 3,000 o gynorthwywyr dosbarth, sydd wedi ymuno â'r cyfnod sylfaen i ddod â newid radical ac arloesol i'n darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

**Lesley Griffiths:** Weinidog, yn ddiweddar cyfarfûm â staff a swyddogion awdurdodau addysg lleol, sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cyfnod sylfaen yn Wrecsam. Unwaith yr wythnos byddant yn cynnal sesiwn gynghori mewn canolfan galw heibio ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dosbarth sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cyfnod sylfaen yn yr ystafell ddosbarth. Yn y ganolfan mae ganddynt fan dan do a man yn yr awyr agored gaiff eu newid bob wythnos, er mwyn dangos sut y gall y cynllun gael ei gyflwyno'n ddychmygus mewn lle bach. Maent hefyd yn cynnig syniadau ar gyfer pynciau y gellir gweithio arnynt gyda'r plant. Credant mai hon yw'r ganolfan gynghori galw heibio gyntaf o'i bath yng Nghymru. Gwnaeth y fenter, a'r modd y mae'n annog pobl i ddod i rannu arfer gorau, gryn argraff arnaf. A fyddech yn cytuno y byddai'n eithriadol o fuddiol cael y math hwn o gyfleuster ym mhob rhan o Gymru?

**Jane Hutt:** Byddwn, yn wir. Yr oeddwn yn falch ymweld ag un lleoliad sy'n cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn Wrecsam, a gweld ei waith arloesol. Byddwn yn croesawu'r cyfle i weld y ganolfan galw heibio, a'r gwaith rhannu arfer da sy'n digwydd yn Wrecsam.

Yn ystod 2009, cynhaliodd yr Adran dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyfres o 10 cynhadledd lwyddiannus yn yr awyr agored ledled Cymru. Daeth bron i 900 o ymarferwyr, athrawon a chynorthwywyr dosbarth i'r cynadledau hynny. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Estyn becyn cymorth chwarae a dysgu gweithredol, a oedd yn nodi enghreifftiau—yn enwedig o ran dysgu yn yr awyr agored, fel yr ydych newydd ddisgrifio sy'n digwydd yn Wrecsam—o ysgolion, a lleoliadau na chynhelir hefyd, lle mae plant yn ffynnu dan y cyfnod sylfaen.

**Bethan Jenkins:** Yr wyf yn croesawu'r



phase, which has been a very progressive initiative. However, I have heard concerns about whether there is adequate staffing for it. Many schools are resorting to employing part-time staff to cut costs, or are expecting staff to fulfil level 3 roles, while only advertising level 2 posts and paying staff as if they were at level 2. Can the Minister give assurances that adequate funding is being delivered in order to staff the foundation phase appropriately?

**Jane Hutt:** We are wholly committed to the foundation phase and to its roll-out. We have allocated up to £170 million of funding for the scheme for the first three years, part of which is for the training, which is so important for the quality, the adult-pupil ratio and the delivery of the scheme. It is important that the 1:8 ratio is achieved as part of the roll-out to three to four-year-olds. On the classroom assistants' level of skills and training, in a sample survey, which I reported to the implementation group last week, as well as to the unions, which warmly welcomed it, 75 per cent of those who have undertaken the training reach level 3, which is what we seek to achieve. I would also draw attention to the fact that we discussed last week that we are working on the national structure for classroom assistants and all school support staff as part of our 'One Wales' agenda. That will take on board the important role of the classroom assistants in the delivery of the foundation phase.

### Students in the Business Sector

**Q2 Alun Davies:** What is the Welsh Assembly Government doing to promote opportunities for students in the business sector? OAQ(3)1096(CEL)

**The Deputy Minister for Skills (John Griffiths):** The Welsh Assembly Government has a range of policies to provide business sector opportunities for students.

**Alun Davies:** We appreciate that the Government has prioritised skills and training as a response to the recession, as a means of

cyfnod sylfaen: mae wedi bod yn fenter flaengar iawn. Fodd bynnag, yr wyf wedi clywed pryderon a oes digon o staff ar gael i weithredu'r cynllun. Mae llawer o ysgolion wedi dechrau cyflogi staff rhan-amser i arbed costau, neu'n hysbysebu swyddi lefel 2 ac yn talu staff fel pe baent ar lefel 2, ond yn disgwyl iddynt gyflawni swyddogaethau lefel 3. A all y Gweinidog roi sicrwydd fod digon o gyllid yn cael ei ddarparu i staffio'r cyfnod sylfaen yn briodol?

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r cyfnod sylfaen a'r gwaith o'i gyflwyno. Yr ydym wedi clustnodi hyd at £170 miliwn o gyllid ar gyfer y cynllun am y tair blynedd cyntaf, y mae rhan ohono ar gyfer yr hyfforddiant. Mae hynny mor bwysig o safbwynt ansawdd, y gymhareb athrawon i blant, a gwaith cyflwyno'r cynllun. Mae'n bwysig cyflawni'r gymhareb o 1:8 wrth gyflwyno'r cynllun i blant tair i bedair oed. O ran lefel sgiliau a hyfforddiant cynorthwywyr dosbarth, mewn arolwg sampl yr adroddais amdano i'r grŵp gweithredu yr wythnos diwethaf, yn ogystal â'r undebau a'i croesawodd yn fawr, mae 75 y cant o'r rhai sydd wedi cael yr hyfforddiant yn cyrraedd lefel 3, sef yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Hoffwn dynnu sylw hefyd at y ffaith y buom yn ei thrafod yr wythnos diwethaf, sef ein bod yn gweithio ar y strwythur cenedlaethol ar gyfer cynorthwywyr dosbarth a'r holl staff cymorth sy'n gweithio mewn ysgolion, fel rhan o'n hagenda 'Cymru'n Un'. Bydd hynny'n ystyried rôl bwysig cynorthwywyr dosbarth wrth gyflwyno'r cyfnod sylfaen.

### Myfyrwyr yn y Sector Busnes

**C2 Alun Davies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr yn y sector busnes? OAQ(3)1096(CEL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ystod o bolisiâu i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr yn y sector busnes.

**Alun Davies:** Yr ydym yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y Llywodraeth wedi rhoi blaenoriaeth i sgiliau a hyfforddiant wrth

providing the Welsh workforce with an opportunity to drive Wales out of the recession and to continue to develop our economy. If we are to deliver effective skills training for people, we need to do that in partnership with business and industry. We need to promote opportunities for students to learn in different businesses and industries, and to ensure that a partnership is a real partnership, allowing businesses and industries to design the sort of skills training that we are promoting and supporting. Can you explain to us, Minister, what actions the Government is taking to ensure that we have these structures and the funding in place to make our aspirations a reality?

2.20 p.m.

**John Griffiths:** Much of what we are putting in place for education and training is about that sort of employer engagement, understanding the needs of business and ensuring that providers deliver those skills and attitudes. We need to maximise investment in skills and training; we have a consultation paper out at the moment, 'Investing in Skills', which is about shared investment—shared between Government, employers and learners. The sector skills councils are very much about understanding the skills needs of employers and ensuring that learning providers deliver those skills. Our Wales Employment and Skills Board and the UK commission are working to those ends.

'Skills That Work for Wales', our overarching strategy, encompasses all of this and much more. We know that, if we can build effectively these partnerships with business, we will be in a much better place in terms of our training and education systems and our economy. No matter what it is—guaranteed interviews, extended work experience, education-business partnerships in the classroom, in colleges and universities, engagement with employers around our efforts to tackle economic inactivity, working with the Department for Work and Pensions—and whatever is involved, employers are at centre stage. We have to understand the needs of business and deliver

ymateb i'r dirwasgiad, fel modd i ddarparu cyfle i weithlu Cymru dynnu'r wlad allan o'r dirwasgiad a pharhau i ddatblygu ein heconomi. Os ydym am ddarparu hyfforddiant sgiliau effeithiol i bobl, mae angen inni wneud hynny mewn partneriaeth â busnes a diwydiant. Mae angen inni hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu mewn gwahanol fusnesau a diwydiannau, a sicrhau bod partneriaeth yn bartneriaeth go iawn sy'n caniatáu i fusnesau a diwydiannau gynllunio'r math o hyfforddiant sgiliau yr ydym yn ei hyrwyddo a'i gefnogi. A allwch egluro wrthym, Weinidog, pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod gennym y cyllid a'r cyfundrefnau i wireddu ein dyheadau?

**John Griffiths:** Mae llawer o'r hyn yr ydym yn ei roi ar waith ar gyfer addysg a hyfforddiant yn golygu ymwneud â chyflogwyr yn y modd hwnnw, deall anghenion busnes, a sicrhau bod darparwyr yn cyflwyno'r sgiliau a'r agweddau hynny. Mae angen inni sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl mewn sgiliau a hyfforddiant; ar hyn o bryd yr ydym yn ymgynghori ar bapur dan y teitl 'Buddsoddi mewn Sgiliau', sy'n ymwneud â buddsoddi ar y cyd—rhwng Llywodraeth, cyflogwyr a dysgwyr. Mae'r cynghorau sgiliau sector yn canolbwyntio i raddau helaeth iawn ar ddeall anghenion cyflogwyr o ran sgiliau, a sicrhau bod darparwyr dysgu yn cyflenwi'r sgiliau hynny. Mae Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a chomisiwn y DU wrthi'n gweithio i'r perwyl hwnnw.

Mae ein strategaeth drosfwaol, 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', yn ymdrin â hyn i gyd a llawer mwy. Gwyddom y byddwn mewn lle llawer gwell o safbwynt ein systemau hyfforddiant ac addysg a'n heconomi os gallwn feithrin y partneriaethau hyn gyda busnes yn effeithiol. Ni waeth beth ydyw—sicrwydd o gyfweiliadau, cyfnodau estynedig o brofiad gwaith, partneriaethau addysg-busnes yn yr ystafell ddosbarth, mewn colegau a phrifysgolion, ymwneud â chyflogwyr ynghylch ein hymdrechion i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau—ac ni waeth beth sydd ynghlwm wrth hynny, canolbwyntir ar gyflogwyr.

for them.

**Paul Davies:** It is vital that we ensure that students can access opportunities in the business sector. One way of doing this is through apprenticeship schemes. It is encouraging that the draft budget has assigned £30 million to enable an extension of the additional places on SkillBuild programmes and on pathways to apprenticeships. However, it is vital that students are aware that such schemes exist to assist them in fully recognising their potential. What collaboration is the Assembly Government undertaking with education providers to ensure that these schemes are well promoted in order to maximise their take-up?

**John Griffiths:** We have engaged in a number of promotional and marketing activities in partnership with the learning providers. Careers Wales, our learning coaches, and our general education providers have the task of ensuring that all of our young people are aware of these opportunities and we will continue to do that.

We will shortly be working with the UK Government on a major promotional activity around apprenticeship opportunities. As you rightly said, Paul, we have invested a great deal of resource in ensuring that, during the recession, we continue to take forward apprenticeships and ensure that everyone is aware of the advantages and the benefits that they can bring. The pathways to apprenticeships and young recruits programmes are major aspects of our response to the recession. We will ensure that all of our young people, and people of all ages, are aware of these schemes and apprenticeship opportunities.

**Paul Davies:** I am grateful for that answer. One of the recommendations in the Enterprise and Learning Committee's report on the economic contribution of higher education in Wales is that the Welsh Assembly Government should consider involving the top 10 corporations in Wales in a mentoring scheme for new graduates. Will the Deputy Minister confirm whether he

Rhaid inni ddeall anghenion busnes a diwallu'r anghenion hynny.

**Paul Davies:** Mae'n hanfodol inni sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael cyfleoedd yn y sector busnes. Mae cynlluniau prentisiaeth yn un ffordd o wneud hynny. Mae'n galonogol fod y gyllideb ddrafft wedi clustnodi £30 miliwn i ehangu'r gallu i gynnig mwy o leoedd ar raglenni Adeiladu Sgiliau a llwybrau at brentisiaethau. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig i fyfyrwyr wybod am y cynlluniau hyn i'w helpu i adnabod eu potensial yn llawn. Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â darparwyr addysg i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu hyrwyddo'n dda er mwyn i'r nifer mwyaf posibl o bobl ifanc yn manteisio arnynt?

**John Griffiths:** Yr ydym wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau hyrwyddo a marchnata mewn partneriaeth â'r darparwyr dysgu. Gwaith Gyrfa Cymru, ein hanogwyr dysgu, a'n darparwyr addysg cyffredinol yw sicrhau bod ein pobl ifanc i gyd yn ymwybodol o'r cyfleoedd hyn, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Cyn hir, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ymgyrch hyrwyddo fawr yn ymwneud â chyfleoedd i ddilyn prentisiaethau. Fel yr oeddech yn ei ddweud, Paul, yr ydym wedi buddsoddi llawer o adnoddau i sicrhau ein bod, yn ystod y dirwasgiad, yn parhau i symud ymlaen â phrentisiaethau ac i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r manteision a'r buddion y gallant eu cynnig. Mae'r rhaglenni llwybrau at brentisiaethau a recriwtiaid newydd yn elfennau pwysig yn ein hymateb i'r dirwasgiad. Byddwn yn sicrhau bod ein pobl ifanc i gyd, a phobl o bob oed, yn gwybod am y cynlluniau hyn a chyfleoedd i ddilyn prentisiaethau.

**Paul Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw. Un o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru yw y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried cynnwys 10 prif gorfforaeth Cymru mewn cynllun mentora ar gyfer graddedigion newydd. A wnaiff y Dirprwy Weinidog gadarnhau a yw'n

thinks that this is a good idea? If so, what consideration has the Assembly Government given to such a scheme?

**John Griffiths:** Obviously, Paul, we take the recommendations and views of the Assembly's committees very seriously indeed and we will give careful consideration to that proposal. We already have GO Wales in place as an important bridge between graduates and firms in Wales to provide the opportunities for graduates to have work placements and work experience, for example, and for companies—particularly small and medium-sized enterprises—to take advantage of what graduate placements can bring. We certainly need to look at how we can extend and build on that, and that is what we will do.

### School Attendance

**Q3 Mohammad Asghar:** Will the Minister make a statement on school attendance? OAQ(3)1112(CEL)

**Jane Hutt:** The Welsh Assembly Government has made significant improvements to attendance levels in primary and secondary schools. We shall be building on that improvement through the behaviour and attendance action plan.

**Mohammad Asghar:** The UK Government's obsession with using the stick rather than the carrot to deal with truancy is well-documented. I am pleased that, in Wales, we have tended to focus our efforts on early intervention and encouraging parents. However, there have been incidents of parents being fined or even imprisoned. Are you able to tell us how many parents in Wales have been fined or imprisoned due to their child's truancy? Can you inform us of the progress being made in combating truancy since the national behaviour and attendance review of 2008?

**Jane Hutt:** Attendance in secondary schools is currently at its highest level in over 10 years, and attendance levels in primary schools are the highest that they have ever been since we started collecting the data in

meddwl bod hynny'n syniad da? Os felly, pa ystyriaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i rhoi i gynllun o'r fath?

**John Griffiths:** Yn amlwg, Paul, yr ydym yn cymryd argymhellion a safbwyntiau pwyllgorau'r Cynulliad yn wirioneddol o ddifrif, a byddwn yn ystyried y cynnig hwnnw'n ofalus. Mae gennym eisoes gynllun GO Wales, sy'n ddolen gyswllt bwysig rhwng graddedigion a chwmnïau yng Nghymru ac sy'n darparu cyfleoedd i raddedigion ymgymryd â lleoliadau a phrofiad gwaith, er enghraifft, a chyfleoedd i gwmnïau—yn enwedig mentrau bach a chanolig eu maint—fanteisio ar yr hyn sydd gan leoliadau i raddedigion i'w gynnig. Yn bendant, mae angen inni edrych ar y modd y gallwn ymestyn hynny ac adeiladu arno, a byddwn yn gwneud hynny.

### Presenoldeb mewn Ysgolion

**C3 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bresenoldeb mewn ysgolion? OAQ(3)1112(CEL)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwella lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn sylweddol. Byddwn yn adeiladu ar y gwelliant hwnnw trwy'r cynllun gweithredu ar ymddygiad a phresenoldeb.

**Mohammad Asghar:** Gŵyr pawb am obsesiwn Llywodraeth y DU â defnyddio cosb yn hytrach na chymhelliant i ymdrin â thriwantaeth. Yr wyf yn falch ein bod ni yng Nghymru wedi tueddu i ganolbwyntio ein hymdrechion ar ymyrryd yn gynnar a rhoi anogaeth i rieni. Fodd bynnag, cafwyd achosion lle mae rhieni wedi eu dirwyo, neu eu carcharu hyd yn oed. A allwch ddweud wrthym faint o rieni yng Nghymru sydd wedi eu dirwyo neu eu carcharu oherwydd triwantaeth eu plentyn? A allwch ddweud wrthym pa gynnydd sy'n cael ei wneud i atal triwantaeth ers yr adolygiad cenedlaethol o ymddygiad a phresenoldeb yn 2008?

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn uwch nag a fu ers dros 10 mlynedd, a phresenoldeb mewn ysgolion cynradd yn uwch nag a fu erioed ers inni ddechrau casglu'r data yn 2002-3. Felly,

2002-03. Therefore, we are going in the right direction. We set out our approach to improving attendance in the behaviour and attendance action plan, as I described in my earlier reply. That was in our response to Ken Reid's review of national behaviour and attendance. We do not collect national figures on the number of successful prosecutions for non-attendance by local authorities. Of course, that should be very much the last resort. I expect local authorities to do all that they can to avoid that course of action, and certainly only after considering the particular circumstances of the child and family. We have made great progress in improving the quality, access and use of attendance data in Wales by investing £6 million in electronic attendance management systems in schools.

**Jenny Randerson:** Minister, the statistics on the education maintenance allowance came out today. They show that there are 5,500 students who have still not received their EMA; that is more than one in six of those who applied. Last year, you assured us that the shambles would not be repeated this year, and although I accept that the figures are slightly better, this is still not the picture that you painted for us in committee last year, when we discussed the matter with you. What has gone wrong this year?

**Jane Hutt:** I have not had a chance to look at those statistics. I met with the Student Loans Company only a fortnight ago and had a full report from it on how it had increased the efficiency of the organisation's important delivery of education maintenance allowances. I will be looking into this because it gave assurances that we would not be in the same position as last year. As you know, the Assembly committee's input into this matter was also useful. We have taken on board the consultation that we undertook to streamline the application and delivery process.

**Jenny Randerson:** I am pleased to hear that

yr ydym yn symud i'r cyfeiriad iawn. Yr oedd y cynllun gweithredu ar ymddygiad a phresenoldeb yn egluro ein dull gweithredu ar wella presenoldeb, fel y dywedais yn fy ymateb cynharach. Yr oedd hynny yn ein hymateb i adolygiad cenedlaethol Ken Reid o ymddygiad a phresenoldeb. Nid ydym yn casglu ffigurau cenedlaethol am y nifer sy'n cael eu herlyn yn llwyddiannus gan awdurdodau lleol am achosion o driwantiaeth. Wrth gwrs, dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid cymryd camau cyfreithiol. Disgwyliaf i awdurdodau lleol wneud popeth posibl i osgoi cymryd camau cyfreithiol, ac yn sicr ni ddylent wneud hynny heb ystyried amgylchiadau penodol y plentyn a'r teulu yn gyntaf. Yr ydym wedi gwneud cynnydd mawr i wella ansawdd data ynghylch presenoldeb yng Nghymru, cael mynediad iddynt a'u defnyddio, trwy fuddsoddi £6 miliwn mewn systemau electronig i reoli presenoldeb mewn ysgolion.

**Jenny Randerson:** Weinidog, cyhoeddwyd yr ystadegau ar y lwfans cynhaliaeth addysg heddiw. Maent yn dangos bod 5,500 o fyfyrwyr yn dal heb gael eu lwfans; mae hynny'n fwy nag un o bob chwech o'r rhai a wnaeth gais amdano. Y llynedd, rhoesoch sicrwydd inni na fyddai'r un annibendod yn cael ei ailadrodd eleni, ac er fy mod yn derbyn bod y ffigurau ychydig yn well, nid dyma'r sefyllfa a ddisgrifiwyd gennych mewn pwyllgor y llynedd pan fuom yn trafod y mater gyda chi. Beth sydd wedi mynd o'i le eleni?

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi cael cyfle i edrych ar yr ystadegau hynny. Cefais gyfarfod gyda Chwmni Benthyciadau Myfyrwyr prin bythefnos yn ôl, a chefais adroddiad llawn gan y cwmni am y ffordd yr oedd wedi gwella effeithlonrwydd y gwaith pwysig o ddarparu lwfansau cynhaliaeth addysg. Byddaf yn ymchwilio i'r mater hwn, oherwydd cefais sicrwydd gan y cwmni na fyddem yn yr un sefyllfa â'r llynedd. Fel y gwyddoch, yr oedd cyfraniad pwyllgor y Cynulliad i'r mater hwn yn ddefnyddiol hefyd. Yr ydym wedi ystyried yr ymgynghori a fu i symleiddio'r broses o wneud ceisiadau a chael y lwfansau.

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn falch clywed

you have done some streamlining. Can you tell us exactly how you have improved and simplified the system? Last year, it was obvious to us in the committee that the system was far too bureaucratic, complex and unnecessarily difficult for young people. It went well beyond the requirements for justifiable validation.

**Jane Hutt:** Some of the steps that, for example, required young people to provide birth certificates and passports were dealt with. Obviously, we have to ensure the authenticity of a young person's application. However, it is clear that the lessons learnt from last year were taken on board by the Student Loans Company, and I will be expecting a report, following the statistics published today, to ensure that progress is made. There has been a welcome increase in the number of learners who are undertaking post-16 education. We need to recognise that this will create a pressure point on the system.

**Jeff Cuthbert:** Minister, I am sure that you will agree with me that you cannot divorce the issue of attendance and truancy from the enjoyment of the learning experience. Do you agree that one of the key motivations and major benefits of the initiatives that we have introduced, such as the foundation phase, the 14-19 pathways, and the Welsh baccalaureate is to give that greater, more enjoyable experience of learning to pupils, and that that will show itself, in time, through attendance figures? We will provide that stimulation to learners, which is something that was certainly denied to learners in the Tory years.

2.30 p.m.

**Jane Hutt:** I opened the remodelled Church in Wales primary school in Magor this morning and saw the enjoyment, fulfilment and response from the teachers, as well as the pupils, particularly the three to five-year-olds in terms of the foundation phase. Our £2.2 million investment in that school, the opening of which we celebrated today, demonstrates our investment in education, in terms of capital and revenue, and highlights our pioneering new schemes, which are looked upon with envy from other parts of the world,

eich bod wedi symleiddio'r broses rywfaint. A allwch ddweud wrthym sut yn union yr ydych wedi gwella a symleiddio'r system? Y llynedd, yr oedd yn amlwg i ni yn y pwyllgor fod y system yn rhy gymhleth a biwrocraidd o lawer ac yn ddiangen o anodd i bobl ifanc. Yr oedd yn mynd ymhell y tu hwnt i'r gofynion ar gyfer dilysu y gellir ei gyfiawnhau.

**Jane Hutt:** Rhoddwyd sylw i rai o'r camau, er enghraifft, y camau a oedd yn gofyn i bobl ifanc ddarparu tystysgrifau geni a phasbortau. Wrth gwrs, rhaid inni gadarnhau bod cais person ifanc yn un dilys. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr wedi dysgu o gamgymeriadau'r llynedd, a byddaf yn disgwyl adroddiad, yn dilyn yr ystadegau a gyhoeddwyd heddiw, i sicrhau bod cynnydd yn digwydd. Gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag addysg ôl-16, ac y mae hynny i'w groesawu. Mae angen inni gydnabod y bydd hynny'n rhoi pwysau ar y system.

**Jeff Cuthbert:** Weinidog, yr wyf yn siŵr y cytunwch â mi fod cysylltiad agos rhwng presenoldeb a thriwantiaeth a'r mwynhad a gaiff person ifanc o'r profiad dysgu. A ydych yn cytuno mai un o brif gymhellion a manteision mwyaf y mentrau yr ydym wedi'u cyflwyno, megis y cyfnod sylfaen, y llwybrau 14-19, a bagloriaeth Cymru, yw sicrhau bod dysgu'n brofiad mwy pleserus i ddisgyblion, ac y bydd hynny ymhen amser yn amlygu'i hun mewn ffigurau presenoldeb? Byddwn yn rhoi'r ysgogiad hwnnw i ddysgwyr, sy'n sicrhau yn rhywbeth y cafodd dysgwyr ei amddifadu ohono dan y Torïaid.

**Jane Hutt:** Y bore yma, bûm yn agor ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru ym Magwyr, sydd newydd gael ei hailwampio, a gwelais fwynhad, boddhad ac ymateb yr athrawon, yn ogystal â'r plant, yn enwedig y plant tair i bump oed yng nghyswllt y cyfnod sylfaen. Mae ein buddsoddiad o £2.2 filiwn yn yr ysgol honno y buom yn dathlu ei hagor heddiw yn dangos ein buddsoddiad o ran cyfalaf a refeniw mewn addysg, ac y mae'n tynnu sylw at ein cynlluniau newydd arloesol, sy'n destun eiddgedd mewn

in terms of the foundation phase, the Welsh baccalaureate and the 14-19 learning pathways.

**Nick Bourne:** The other end of the scale to the opening of schools is the issue of school closure, which focuses, to some extent, on school attendance, or perhaps more broadly on school rolls, and on whether the national curriculum is being developed. Will the Minister confirm that what local authorities should be looking at, when looking at surplus school places and school closures, is whether the national curriculum is being developed and delivered in a particular school? Will she also comment on the fact that some school closures are going forward and being presented in Gwynedd—I appreciate that she cannot speak to particular instances, because they may come to her as Minister—where it has been suggested that the local authority is singling the schools out for closure because of the land value in those communities, such as Aberdyfi and Abersoch? I appreciate that the Minister cannot speak specifically about those particular closures, but will she more broadly say that that should not be a consideration for local authorities in looking at school closures?

**The Presiding Officer:** Order. I am sure that the Minister will not want to respond on those issues, which, as the leader of the opposition knows, directly affect my constituency. He has made allegations against the local authority.

**Nick Bourne:** I did not. I said that I had had representations in relation to the closures.

**Jane Hutt:** I will respond on a broader, national policy level about the need for local authorities to address school reorganisation. We have consulted fully on the guidance on school reorganisation, and I am grateful to the committee for its input. Local authorities must acknowledge that they need to bring forward reviews of schools, which lead to change, and we are assisting them, not only in strengthening the guidance, but also by providing funding through the twenty-first century schools investment programme. The transitional funding arrangements that I have

rhannau eraill o'r byd, sef y cyfnod sylfaen, bagloriaeth Cymru a'r llwybrau dysgu 14-19.

**Nick Bourne:** Wrth sôn am agor ysgolion, y pegwn arall yw mater cau ysgolion, sy'n canolbwyntio i ryw raddau ar bresenoldeb, neu'n fwy cyffredinol efallai ar nifer y disgyblion, ac a yw'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau mai'r hyn y dylai awdurdodau lleol fod yn edrych arno, wrth ystyried lleoedd gwag mewn ysgolion a chau ysgolion, yw'r cwestiwn a yw'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno mewn ysgol benodol? A wnaiff hi wneud sylw hefyd am y ffaith fod cynigion i gau rhai ysgolion yn cael eu cyflwyno a'u symud yn eu blaen yng Ngwynedd—sylweddolaf na all hi gynnig sylwadau ar achosion penodol, oherwydd gallent ddod ati fel Gweinidog—lle awgrymwyd bod yr awdurdod lleol yn dewis ysgolion penodol i'w cau oherwydd gwerth y tir yn y cymunedau hynny, megis Aberdyfi ac Abersoch? Sylweddolaf na all y Gweinidog drafod yr achosion hynny'n benodol, ond a wnaiff hi ddatgan yn fwy cyffredinol na ddylai hynny fod yn ystyriaeth i awdurdodau lleol wrth edrych ar gau ysgolion?

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf yn siŵr na fydd y Gweinidog am ymateb i'r materion hynny sydd, fel y gŵyr arweinydd yr wrthblaid, yn effeithio ar fy etholaeth i'n uniongyrchol. Mae wedi gwneud honiadau yn erbyn yr awdurdod lleol.

**Nick Bourne:** Naddo. Dywedais fod sylwadau wedi'u cyflwyno imi ynghylch cau ysgolion.

**Jane Hutt:** Yr wyf am ymateb ar lefel ehangach, ar lefel polisi cenedlaethol ar yr angen i awdurdodau lleol roi sylw i ad-drefnu ysgolion. Yr ydym wedi ymgynghori'n llawn am y canllawiau ar ad-drefnu ysgolion, ac yr wyf yn ddiolchgar i'r pwyllgor am ei gyfraniad. Rhaid i awdurdodau lleol gydnabod bod angen iddynt gyflwyno adolygiadau o ysgolion, a fydd yn arwain at newid, ac yr ydym yn eu cynorthwyo nid yn unig trwy gryfhau'r canllawiau, ond hefyd trwy ddarparu cyllid trwy raglen fuddsoddi ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r

already implemented have resulted in over £200 million of investment and that assists local authorities in planning the changes that they need to address. It is important to remember, in terms of the figures for 2008, that there were 49,344 primary and 35,824 secondary net surplus places across Wales.

trefniadau cyllido trosiannol yr wyf eisoes wedi'u rhoi ar waith wedi arwain at fuddsoddi dros £200 miliwn, sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol i gynllunio'r newidiadau y mae angen iddynt fynd i'r afael â hwy. Mae'n bwysig cofio, o ran y ffigurau ar gyfer 2008, fod cyfanswm net o 49,344 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd a 35,824 o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(3)1120(CEL), yn ol.

**The Presiding Officer:** Question 4, OAQ(3)1120(CEL), has been withdrawn.

### Improving Educational Opportunities

### Gwella Cyfleoedd Addysgol

**Q5 Brynle Williams:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for improving educational opportunities in north Wales? OAQ(3)1114(CEL)

**C5 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella cyfleoedd addysgol yn y gogledd? OAQ(3)1114(CEL)

**Jane Hutt:** The 'One Wales' agreement, 'Wales: the Learning Country' and action plans such as 'Skills That Work for Wales' contain the Welsh Assembly Government's priorities for improving educational opportunities. The implementation of these priorities will benefit learners of all ages in north Wales.

**Jane Hutt:** Mae cytundeb 'Cymru'n Un', 'Cymru: Y Wlad sy'n Dysgu' a chynlluniau gweithredu megis 'Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru' yn cynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella cyfleoedd addysgol. Bydd rhoi'r blaenoriaethau hyn ar waith o fudd i ddysgwyr o bob oed yn y gogledd.

**Brynle Williams:** Thank you for that answer, Minister. I recently had the opportunity of visiting Isallt, a supported living scheme for young people who are homeless in the Conwy area. I hope that you will agree that projects such as this, which allow young people to continue their education, gain skills and move into employment, play an important role in mitigating the damage of social breakdown. Can you provide an assurance that, in light of your ministerial colleague's proposed budget cuts, you will safeguard these services, without which access to education would be near impossible for these homeless young people? It is worth seeing how they are gaining confidence and moving into the adult world.

**Brynle Williams:** Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn ddiweddar, cefais gyfle i ymweld ag Isallt, cynllun llety cymorth i bobl ifanc ddigartref yn ardal Conwy. Gobeithio y cytunwch fod prosiectau fel hyn, sy'n caniatáu i bobl ifanc barhau eu haddysg, meithrin sgiliau a symud ymlaen i fyd gwaith, yn bwysig wrth lliniaru effaith niweidiol cymdeithas yn chwalu. A allwch roi sicrwydd, yng ngoleuni toriadau arfaethedig eich cyd-weinidog i'r gyllideb, y byddwch yn diogelu'r gwasanaethau hyn, oherwydd hebbynt byddai bron yn amhosibl i'r bobl ifanc ddigartref hyn allu cael addysg? Mae'n werth gweld sut maent yn magu hyder ac yn symud ymlaen i fyw fel oedolion.

**Jane Hutt:** Thank you for that thoughtful question, Brynle. The pioneering curriculum changes that we are putting in place have not only been safeguarded in the draft budget, but enhanced. We have safeguarded the additional investment that is going into the

**Jane Hutt:** Diolch am eich cwestiwn ystyriol, Brynle. Mae'r newidiadau arloesol yn y cwricwlwm yr ydym yn eu cyflwyno nid yn unig wedi eu diogelu yn y gyllideb ddrafft, ond wedi eu gwella. Yr ydym wedi diogelu'r buddsoddiad ychwanegol sy'n cael



14-19 learning pathways, for example, the roll out of the Welsh baccalaureate, and the implementation of the foundation phase. In the draft budget, we have safeguarded the revised skills curriculum across the board and we have enhanced it. It is important therefore that we also safeguard and enhance our support, which we are doing through the use of European funding, particularly for those young people who may have been disadvantaged earlier in their lives, and even in pre-school, in terms of the opportunities available to them. We are addressing that through Flying Start. This Government and its budget are about social justice and tackling inequality and we are making sure that this is an inclusive budget for those young people whom you represent.

**Janet Ryder:** Cross-border working between local authorities in order to produce the best educational outcome for students has always been an issue close to your heart. I am sure that you are therefore aware of the situation that is developing between Wrexham and Denbighshire at the moment. For many years, parents have exercised their right to choose to use a school in Denbighshire that offers secondary education and now, due to reasons associated with transport, Wrexham is altering the funding available. I know that transport does not necessarily come under your remit, but the exercise of the parental right to choose a school does. This could have a damaging effect on the area, because we are now getting schools on the English side of the border advertising to parents in the area and offering free transport to schools in England. If parents take that option, those children will miss out on all the educational advantages that you have just outlined and the many steps forward that we are making in relation to schools and curricula in Wales. This could have a far-reaching impact and I would like you to look into this issue to ensure that Denbighshire and Wrexham county borough councils work together to ensure that parents can exercise their parental choice and that children get the best possible educational outcome.

**Jane Hutt:** Although school transport does not fall within my portfolio, as the Minister

ei wneud yn y llwybrau dysgu 14-19, er enghraifft, cyflwyno bagloriaeth Cymru a gweithredu'r cyfnod sylfaen. Yn y gyllideb ddrafft, yr ydym wedi diogelu'r cwricwlwm sgiliau diwygiedig yn gyffredinol ac wedi ei wella. Mae'n bwysig, felly, inni hefyd ddiogelu a gwella'r cymorth yr ydym yn ei ddarparu, a gwnawn hynny trwy ddefnyddio arian o Ewrop, yn enwedig ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd, efallai, wedi bod dan anfantais yn gynharach yn eu bywydau, a hyd yn oed cyn mynd i'r ysgol, o ran y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Yr ydym yn mynd i'r afael â hyn trwy'r cynllun Dechrau'n Deg. Mae'r Llywodraeth hon a'i chyllideb yn canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol ac ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac yr ydym yn sicrhau bod hon yn gyllideb gynhwysol ar gyfer y bobl ifanc hynny yr ydych yn eu cynrychioli.

**Janet Ryder:** Mae cydweithio ar draws ffiniau rhwng awdurdodau lleol i sicrhau'r canlyniad addysgol gorau i fyfyrwyr bob amser wedi bod yn fater sy'n agos at eich calon. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol, felly, o'r sefyllfa sy'n datblygu rhwng Wrecsam a Sir Ddinbych. Ers blynyddoedd lawer mae rhieni wedi arfer eu hawl i ddewis defnyddio ysgol yn Sir Ddinbych sy'n cynnig addysg uwchradd, ac yn awr, am resymau'n ymwneud â chludiant, mae Wrecsam yn newid y cyllid sydd ar gael. Gwn nad yw cludiant o reidrwydd yn rhan o'ch cylch gwaith chi, ond y mae hawl rhieni i ddewis ysgol yn rhan o'ch cylch gwaith. Gallai hyn gael effaith niweidiol ar yr ardal, oherwydd mae sefyllfa'n codi'n awr lle mae ysgolion dros y ffin yn Lloegr yn hysbysebu ymhlith rhieni yn yr ardal ac yn cynnig cludiant am ddim i ysgolion yn Lloegr. Os bydd rhieni'n dewis yr ysgolion hynny, ni fydd y plant yn elwa o'r holl fanteision addysgol yr ydych newydd eu crybwyll a'r cynnydd aruthrol yr ydym yn ei wneud yng nghyswllt ysgolion a chwricwla yng Nghymru. Gallai effaith hynny fod yn bellgyrhaeddol, a hoffwn ichi ymchwilio i'r sefyllfa hon er mwyn sicrhau bod cynghorau bwrdeistref sirol Wrecsam a Sir Ddinbych yn cydweithio i sicrhau bod rhieni'n gallu arfer eu hawl i ddewis a bod y canlyniad addysgol gorau posibl yn cael ei sicrhau i'r plant.

**Jane Hutt:** Er nad yw cludiant ysgol yn rhan o'm portffolio i, fel y Gweinidog dros

for education, I would say that local education authorities are expected to ensure that all children have access to a place at a suitable school within a reasonable distance of their home. That is my expectation and I am keen to see all children who live in Wales benefit from an education that is based in Wales. It is outstanding in terms of its quality and the offer, as you know, and it also gives due attention to our unique cultural and linguistic heritage. I hope that this issue will be addressed and resolved by the local authorities.

### The Young Person's Guarantee

**Q6 Val Lloyd:** Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to deliver the young person's guarantee in Wales? OAQ(3)1110(CEL)

**John Griffiths:** The young person's guarantee will be fully operational in Wales from January 2010. We have allocated an additional £3.8 million this year to support training delivery, providing more than 900 work-focused and 1,450 pre-employment training places. We work closely with the Department for Work and Pensions on delivering the Future Jobs fund element, with 4,000 jobs in the pipeline.

**Val Lloyd:** I am pleased to be taking part in the launch of the Swansea guarantee next week. Minister, engaging with young people who are at risk of being not in employment, education or training continues to be a challenge. Recent data show that the proportion of 16 to 18-year-olds who are NEET in Swansea is very high compared to national figures. What else is being done to engage those young people who are most at risk of becoming NEET and to strongly tackle the culture of failure that is stopping many from achieving their potential?

**John Griffiths:** I think that those not in education, employment or training pose a huge challenge for the Government and all of

Addysg, byddwn yn dweud bod disgwyl i awdurdodau addysg lleol sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael lle mewn ysgol addas o fewn pellter rhesymol i'w gartref. Dyna yw fy nisgwyliad, ac yr wyf yn awyddus i sicrhau bod pob plentyn sy'n byw yng Nghymru yn elwa o addysg a ddarperir yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae'r addysg honno o'r radd flaenaf o ran ei hansawdd a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig, ac y mae'n rhoi sylw dyledus hefyd i'n treftadaeth ieithyddol a diwylliannol unigryw. Gobeithio y bydd y mater hwn yn cael sylw gan yr awdurdodau lleol a'i ddatrys ganddynt.

### Gwarant Pobl Ifanc

**C6 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gyflwyno'r warant pobl ifanc yng Nghymru? OAQ(3)1110(CEL)

**John Griffiths:** Bydd y gwarant pobl ifanc yn gwbl weithredol yng Nghymru o fis Ionawr 2010 ymlaen. Yr ydym wedi clustnodi £3.8 miliwn ychwanegol eleni i gefnogi cyflwyno hyfforddiant, gan ddarparu dros 900 o leoedd hyfforddi sy'n canolbwyntio ar waith a 1,450 o leoedd hyfforddi cyn cyflogaeth. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ddarparu'r elfen yn ymwneud â chronfa Swyddi'r Dyfodol, ac y mae 4,000 o swyddi yn yr arfaeth.

**Val Lloyd:** Yr wyf yn falch y byddaf yn cymryd rhan yn y digwyddiad i lansio gwarant Abertawe yr wythnos nesaf. Weinidog, mae ymwneud â phobl ifanc y mae perygl na fyddant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn dal yn her. Mae data diweddar yn dangos bod cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed yn Abertawe nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn uchel iawn o'u cymharu â ffigurau cenedlaethol. Beth arall sy'n cael ei wneud i ymwneud â'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf tebygol o fod yn y grŵp hwn, ac i fynd i'r afael yn rymus â'r diwylliant o fethiant sy'n eu hatal rhag cyflawni eu potensial?

**John Griffiths:** Yr wyf yn credu bod y rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn her enfawr i'r Llywodraeth

the partner organisations that help us to address the barriers and issues that many of them face. We have our NEET strategy and action plan in place to ensure that we achieve a major step forward in the delivery of services for these young people.

2.40 p.m.

The agenda is at the very heart of the Welsh Assembly Government's social justice priorities, so we have the determination to ensure that we grapple with these issues effectively. Much of what is going on assists us and can be part of those efforts. Just today, for example, we heard of further successful Welsh bids to the Future Jobs fund to deliver for 18 to 24-year-olds in long-term unemployment and, indeed, to others as well.

You mentioned the Swansea guarantee, and that is typical of the sort of partnership, Val, that we are trying to build throughout Wales, bringing together local authorities, schools, colleges, careers services, and work-based learning providers to ensure a coherent, joined-up approach that delivers added value and avoids duplication. That is the approach that we take right across Wales in our NEET strategy and action plan.

**The Presiding Officer:** I call Mark Isherwood.

**Mark Isherwood:** Excuse me; I have got my questions mixed up. Is this question 6, Presiding Officer?

**The Presiding Officer:** Yes. You requested a supplementary question to question 6.

**Mark Isherwood:** Thank you.

The young person's guarantee is targeted at 18 to 24-year-olds who are coming to the end

a'r holl sefydliadau sy'n bartneriaid ac sy'n ein helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r problemau sy'n wynebu nifer ohonynt. Mae gennym strategaeth a chynllun gweithredu ar waith ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd cam mawr ymlaen wrth ddarparu gwasanaethau i'r bobl ifanc hyn.

Mae'r agenda yn gwbl ganolog i flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad o ran cyfiawnder cymdeithasol. Felly, yr ydym yn benderfynol o sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r problemau hyn yn effeithiol. Mae llawer o'r hyn sy'n digwydd o gymorth inni, a gall fod yn rhan o'r ymdrechion hynny. Yr ydym newydd glywed heddiw, er enghraifft, am fwy o geisiadau llwyddiannus o Gymru i gronfa Swyddi'r Dyfodol, i ddarparu ar gyfer pobl ifanc 18 i 24 oed sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir ac, yn wir, ar gyfer pobl eraill hefyd.

Soniecch am warant Abertawe, sy'n nodweddiadol, Val, o'r math o bartneriaeth yr ydym yn ceisio'i chreu ym mhob rhan o Gymru, gan dynnu ynghyd awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, gwasanaethau gyrfaoedd a darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith i sicrhau dull gweithredu cydlynol a chydgyssylltiedig sy'n ychwanegu gwerth ac yn osgoi dyblygu gwaith. Dyna'r dull gweithredu yr ydym yn ei ddefnyddio ar draws Cymru gyfan yn ein strategaeth a'n cynllun gweithredu ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Mark Isherwood.

**Mark Isherwood:** Mae'n ddrwg gennyf, yr wyf wedi cymysgu fy nghwestiynau. Ai cwestiwn 6 yw hwn, Lywydd?

**Y Llywydd:** Ie. Yr oeddech am ofyn cwestiwn atodol i gwestiwn 6.

**Mark Isherwood:** Diolch.

Mae'r gwarant pobl ifanc yn anelu at bobl 18 i 24 oed sy'n dod at ddiwedd y cyfnod o 12

of the 12-month stage of their claim for jobseekers allowance. The claimant count in this group has risen by 82 per cent in Wales over the last year, which means that the level of those covered by that horrible term, NEET—young people who are not in education, employment or training—is higher in Wales than anywhere else in the United Kingdom. How do you respond to a concern that so many are reaching the end of their 12-month period, because of the failure of earlier interventions? The suggestion put to me by benefit advisers is that, rather than providing the young people with what are often three-week courses, based in somewhere like Manchester for those in north Wales, without transport costs provided, and with the courses often being chosen for the young people by the authorities, the young people could identify courses and training opportunities for themselves and be given support and possibly even qualify for loan schemes of the type that might be provided to people who are in higher education.

**John Griffiths:** We always try to work towards a system that is more effective in addressing learners' individual needs. For those of our young people who most need assistance and support in taking up education, training or, indeed, job opportunities, we have put apprenticeships at the forefront of our response to the recession through pathways to apprenticeships. Indeed, we have the young recruit scheme. We also have our young person's guarantee, which gives us greater statutory responsibility to provide training and education places for 16 to 18-year-olds, and we work with the colleges and work-based learning providers to that end.

SkillBuild is a major part of that work-based learning effort for unemployed youngsters, and we are trialling a new approach to SkillBuild, because we want to improve the quality of provision, and that provision is central to providing opportunities for our most disadvantaged young people.

A lot is going on, Mark. We have a major challenge in the global recession, but we know that the UK Government and the Welsh

mis o hawlio lwfans ceisio gwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r nifer sy'n hawlio'r budd-dal hwn yn y grŵp oedran hwn wedi codi 82 y cant yng Nghymru, sy'n golygu bod nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Sut yr ydych yn ymateb i bryder fod cynifer yn dod at ddiwedd eu cyfnod o 12 mis oherwydd bod ymyriadau cynharach wedi methu? Yr awgrym a gefais gan gynghorwyr budd-daliadau yw na ddylid darparu cyrsiau sy'n aml yn para tair wythnos i'r bobl ifanc hyn, yn rhywle fel Manceinion i'r rheini sy'n byw yn y gogledd, heb ddarparu costau cludiant, a'r cyrsiau hynny wedi'u dewis yn aml gan yr awdurdodau; yn hytrach, dylid caniatáu i'r bobl ifanc glustnodi cyrsiau a chyfleoedd hyfforddi drostynt eu hunain, a chael cymorth, a bod yn gymwys hyd yn oed ar gyfer cynlluniau benthyciadau efallai, tebyg i'r hyn y gellid ei ddarparu i bobl sydd mewn addysg uwch.

**John Griffiths:** Yr ydym bob amser yn ceisio gweithio tuag at system sy'n mynd i'r afael yn fwy effeithiol ag anghenion unigol dysgwyr. I'r bobl ifanc hynny y mae arnynt angen cymorth a chefnogaeth fwyaf i fanteisio ar addysg, hyfforddiant, neu gyfleoedd gwaith hyd yn oed, yr ydym wedi rhoi lle blaenllaw i brentisiaethau yn ein hymateb i'r dirwasgiad, trwy'r cynllun llwybrau at brentisiaethau. Yn wir, mae gennym y cynllun recriwtiaid newydd hefyd ynghyd â'r gwarant pobl ifanc, sy'n rhoi mwy o gyfrifoldeb statudol arnom i ddarparu lleoedd hyfforddiant ac addysg i bobl 16 i 18 oed, ac yr ydym yn gweithio gyda'r colegau a'r darparwyr dysgu'n seiliedig ar waith i'r perwyl hwnnw.

Mae Adeiladu Sgiliau yn rhan fawr o'r ymdrech honno i ddarparu cyfleoedd dysgu'n seiliedig ar waith i bobl ifanc ddi-waith, ac yr ydym yn treialu dull newydd o weithredu Adeiladu Sgiliau am ein bod yn awyddus i wella ansawdd y ddarpariaeth, ac y mae'r ddarpariaeth honno'n ganolog i gynnig cyfleoedd i'n pobl ifanc fwyaf difreintiedig.

Mae llawer yn digwydd, Mark. Mae'r dirwasgiad byd-eang yn her enfawr inni, ond gwyddom fod Llywodraeth y DU a

Assembly Government have made a tremendous commitment to young people and people of all ages not to stand by and let market forces rip, as happened in the past under other Governments, but to do absolutely everything that we can to shore up public spending and ensure that our young people are protected from the worst effects of this global recession.

**Helen Mary Jones:** I welcome much of what you have said in response to earlier speakers about the need to ensure that we have provision available for the most vulnerable and the hardest to reach. I am sure that you will agree with me that work-based training is often the right kind of training for those whose experience of formal education may have been unfortunate and who may therefore not be inclined to go back into it.

You will also be aware that your department is pressing work-based training organisations to work collaboratively, and no-one would disagree with that. However, it is looking to reduce the numbers of providers to a small number across Wales. Deputy Minister, what steps can you take to ensure that, while that process—which is about efficiency and ensuring consistent provision—is going on, you do not drive out smaller-scale, not-for-profit providers in the voluntary sector from that area of work, which may be exactly the type of organisations that are most likely to work successfully with the people who are most excluded? These are concerns that have been raised with me by an organisation with which you are familiar—Jobforce Wales—and I thank you for meeting its representatives in the past. Will you give an assurance that the drive for greater efficiency in work-based training will not lead to a lack of variety in provision and will not drive out of the market those organisations that are not there to make a profit, but who are there to look after the most vulnerable?

**John Griffiths:** The drive that we are undertaking and have undertaken successfully in recent years is about driving

Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud addewid mawr i bobl ifanc a phobl o bob oed, sef na fyddwn yn sefyll o'r neilltu ac yn gadael i rymoedd y farchnad fynd rhagdynt, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol dan Lywodraethau eraill, ond y byddwn yn gwneud popeth posibl i gynnal gwariant cyhoeddus a sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau gwaethaf y dirwasgiad byd-eang hwn.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn croesawu llawer o'r hyn yr ydych wedi'i ddweud wrth ymateb i siaradwyr blaenorol fod angen sicrhau bod gennym ddarpariaeth ar gyfer y bobl sydd fwyaf agored i niwed ac sydd fwyaf anodd eu cyrraedd. Yr wyf yn siŵr y cytunwch â mi mai hyfforddiant yn seiliedig ar waith yn aml yw'r math cywir o hyfforddiant i'r rheini sydd, efallai, wedi cael profiad anffodus o addysg ffurfiol ac sydd efallai'n gyndyn, felly, o ddychwelyd iddi.

Byddwch yn gwybod hefyd fod eich adran yn pwyso ar sefydliadau hyfforddiant yn seiliedig ar waith i gydweithio â'i gilydd, ac ni fyddai neb yn anghytuno â hynny. Fodd bynnag, mae eich adran yn awyddus i ostwng nifer y darparwyr i nifer fach ar draws Cymru. Ddirprwy Weinidog, pa gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau, wrth i'r broses honno—sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd a sicrhau darpariaeth gyson—fynd rhagddi, nad ydych yn gwthio darparwyr dielw llai o faint yn y sector gwirfoddol allan o'r maes gwaith hwnnw, oherwydd efallai mai dyna'r union fath o sefydliadau sydd fwyaf tebygol o weithio'n llwyddiannus gyda'r bobl sydd wedi'u heithrio fwyaf? Mae'r rhain yn bryderon a godwyd gyda mi gan sefydliad yr ydych yn gyfarwydd ag ef—Gweithlu Cymru—ac yr wyf yn diolch ichi am gyfarfod â chynrychiolwyr y sefydliad yn y gorffennol. A rowch chi sicrwydd na fydd yr ymdrech i fod yn fwy effeithlon o ran hyfforddiant yn seiliedig ar waith yn arwain at ddiffyg amrywiaeth darpariaeth, ac na fydd yn gwthio sefydliadau allan o'r farchnad nad ydynt yn gwneud elw, ond sy'n gweithio'n hytrach i ofalu am y bobl sydd fwyaf agored i niwed?

**John Griffiths:** Holl ddiben ein hymdrech lwyddiannus yn awr ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw gwella ansawdd y

up the quality of work-based learning provision. All of the evaluations in Estyn inspections show that there have been major improvements in quality. The next tendering round will be very much on that basis. We want to continue to drive up quality of provision, because it is all-important. We know that a mix of organisations is able to provide top quality provision, some of which are fairly small and some of which are fairly large. So, it is quality that drives it, rather than size. We also know that organisations are coming together to co-operate, collaborate and sometimes to put forward joint proposals. So, there is a lot in what has been developed, and it will be part of the next tendering exercise, which will address the issues that you raise.

### Flying Start

**Q7 Trish Law:** Will the Minister make a statement on future funding for the Flying Start programme? OAQ(3)1090(CEL)

**Jane Hutt:** Flying Start is making a difference to the children and their families in our most disadvantaged communities. A funding increase of £2.9 million in 2010-11 means that the number of those accessing the high-quality, part-time childcare for two-year-olds, the extra health visiting, parenting programmes, and language and play courses will increase to 17,600.

**Trish Law:** Flying Start is a fantastic initiative, but the administration of it in deprived areas like Blaenau Gwent is causing serious problems. For example, the Welsh Assembly Government deemed that demographic changes needed to be made to the six target areas in Blaenau Gwent, because the number of eligible children in year two of the initiative—2010-11—jumped from 527 to 700, whereas the Welsh Assembly Government will only accept 550 in year two. That means that we have to disappoint 150 parents whose expectations were sky high after the success of Flying Start in year one. Will you consider allowing the Blaenau Gwent children and young people's partnership more local discretion, for the message I get is that it could continue the programme for all eligible children if it

ddarpariaeth addysg yn seiliedig ar waith. Mae'r holl werthusiadau yn arolygon Estyn yn dangos bod ansawdd wedi gwella'n fawr. Dyna'n union fydd sail y broses dendro nesaf. Yr ydym am barhau i wella ansawdd y ddarpariaeth, oherwydd mae hynny'n hollbwysig. Gwyddom fod cyfuniad o sefydliadau, rai ohonynt yn weddol fach a rhai'n weddol fawr, yn gallu cynnig darpariaeth o'r radd flaenaf. Felly, ansawdd yw'r prif ffactor, nid maint. Gwyddom hefyd fod sefydliadau'n dod ynghyd i gydweithio, cydweithredu a chyflwyno cynigion ar y cyd weithiau. Felly, mae llawer o bethau da yn yr hyn sydd wedi ei ddatblygu, a bydd hynny'n rhan o'r ymarfer tendro nesaf, a fydd yn rhoi sylw i'r materion a godwyd gennyh.

### Dechrau'n Deg

**C7 Trish Law:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i'r rhaglen Dechrau'n Deg yn y dyfodol? OAQ(3)1090(CEL)

**Jane Hutt:** Mae Dechrau'n Deg yn gwneud gwahaniaeth i blant a'u teuluoedd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae cynnydd o £2.9 miliwn yn y cyllid ar gyfer 2010-11 yn golygu y bydd y nifer sy'n gallu cael gofal plant rhan-amser o safon ar gyfer plant dwy oed, ymweliadau ychwanegol gan ymwelwyr ieuchyd, rhaglenni rhianta, a chysiau iaith a chwarae yn cynyddu i 17,600.

**Trish Law:** Mae Dechrau'n Deg yn fenter wych, ond y mae ei gweinyddu mewn ardaloedd difreintiedig megis Blaenau Gwent yn achosi problemau difrifol. Er enghraifft, barnodd Llywodraeth y Cynulliad fod angen gwneud newidiadau demograffig yn y chwe ardal darged ym Mlaenau Gwent oherwydd bod nifer y plant cymwys yn ail flwyddyn y fenter—2010-11—wedi codi'n sylweddol o 527 i 700, a Llywodraeth y Cynulliad heb fod yn barod i dderbyn mwy na 550 yn yr ail flwyddyn. Golyga hynny ei bod yn rhaid inni siomi 150 o rieni yr oedd eu disgwyliadau mor uchel ar ôl llwyddiant blwyddyn gyntaf Dechrau'n Deg. A wnewch chi ystyried rhoi mwy o ryddid i bartneriaeth plant a phobl ifanc Blaenau Gwent weithredu fel y gwêl yn ddoeth yn lleol, oherwydd y neges a gaf yw y gallai barhau i gynnig y rhaglen i'r holl blant

were allowed to make local decisions and make the best use of all available resources?

**Jane Hutt:** I know that discussions are going on in Blaenau Gwent on these issues. The increase in funding announced for the budget for 2008-11 allows for a 10 per cent increase in the scope of the programme. I have already mentioned that this will increase the numbers by 1600 children, and this is what is planned over the three-year programme. Through this programme we are investing £93.1 million in children in the most disadvantaged areas, and the interim evaluation report says that Flying Start has been a success in delivering many of the critical success factors identified with effective early years' intervention. The key point of the intervention is the intensiveness of the investment. That is the issue that we have to work through with a number of local authorities. We cannot move away from the international evidence that if we really want to make a difference to the life chances of children, we must have intense investment. That means investment in not only free childcare, but also in aspects such as parenting programmes and health visiting. For example, the health visitor ratio should be around one health visitor to 135 children. I appreciate that these issues are being worked through, but, as Minister, I would say that we must stick to that intensive investment to make a difference for our youngest children in these disadvantaged areas.

**William Graham:** You will know that the situation in Newport, which has been raised with you, is causing continuous concern, particularly as there will now be possible redundancies in the partnership. You will know that 1,607 children are being helped in a deprived part of the city by an intensive programme that has been validated by an independent assessor, and that report is with you or will shortly be with you. It is an unusual state of affairs that, in a recession, a council should be admonished for efficiently delivering services. Council leaders have been confident over the summer that the programme can be delivered just as

sy'n gymwys pe bai'n cael gwneud penderfyniadau'n lleol a gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael?

**Jane Hutt:** Gwn fod trafodaethau'n mynd ymlaen am y materion hyn ym Mlaenau Gwent. Mae'r cynnydd mewn cyllid a gyhoeddwyd ar gyfer cyllideb 2008-11 yn caniatáu i'r rhaglen gael ei chynnig i 10 y cant yn fwy o blant. Fel y soniais eisoes, bydd hynny'n golygu cynnydd o 1600 yn nifer y plant, a dyna sydd wedi'i gynllunio dros gyfnod y rhaglen tair blynedd. Trwy'r rhaglen hon yr ydym yn buddsoddi £93.1 miliwn mewn plant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac y mae'r adroddiad gwerthuso interim yn dweud bod Dechrau'n Deg wedi llwyddo i gyflawni nifer o'r ffactorau llwyddiant hanfodol a nodwyd, gydag ymyriad effeithiol yn y blynyddoedd cynnar. Yr hyn sy'n allweddol am yr ymyriad yw dwyster y buddsoddi. Dyna'r mater y mae'n rhaid inni ei drafod gyda nifer o awdurdodau lleol. Ni allwn ddiystyru'r dystiolaeth ryngwladol sy'n dweud ei bod yn rhaid inni gael buddsoddiad dwys os ydym o ddifrif am wneud gwahaniaeth i gyfleoedd plant mewn bywyd. Mae hynny'n golygu buddsoddi mewn agweddau megis rhaglenni rhianta ac ymwelwyr iechyd yn ogystal â darparu gofal plant yn rhad ac am ddim. Er enghraifft, dylai'r gymhareb ar gyfer ymwelwyr iechyd fod oddeutu un ymwelydd iechyd i 135 o blant. Sylweddolaf fod gwaith yn mynd rhagddo ar y materion hyn, ond fel Gweinidog byddwn yn dweud ei bod yn rhaid inni gadw at y buddsoddiad dwys hwnnw er mwyn gwneud gwahaniaeth i'n plant ieuaf yn yr ardaloedd difreintiedig hyn.

**William Graham:** Gwyddoch fod y sefyllfa yng Nghasnewydd, sydd wedi'i chodi gyda chi, yn dal i achosi pryder, yn enwedig gan ei bod yn bosibl yn awr y bydd y bartneriaeth yn diswyddo pobl. Gwyddoch fod 1,607 o blant yn cael cymorth mewn rhan ddifreintiedig o'r ddinas trwy raglen ddwys sydd wedi'i dilysu gan asesydd annibynnol, a bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei ddarparu ichi cyn hir, os nad yw eisoes wedi'i ddarparu. Mae'n sefyllfa anghyffredin fod cyngor, mewn dirwasgiad, yn cael ei geryddu am ddarparu gwasanaethau'n effeithlon. Dros yr haf, mae arweinwyr y cyngor wedi bod yn hyderus y gellir cyflwyno'r rhaglen yr un

efficiently for £1,600 per head as it is for £2,100. Will you agree to look again at this issue, because it seems to be an appalling example of top-down Government that discourages efficiency and innovation in the delivery of vital education services?

**Jane Hutt:** I am sure that you will agree that the Flying Start scheme is an important priority for the Government and I am glad that a commitment is shared across the Chamber to the intensive intervention and investment that we are making in the most disadvantaged children in Wales. On the catchment areas and the reach in relation to those young people who will benefit, we consulted from last October about the number of children in Flying Start areas and local authorities also agreed that, if necessary, we should review the target areas to ensure that we had that focused, intensive investment per child. In fact, in eight authorities there were higher numbers than had been identified originally for the cap. The majority of responses from local authorities in the consultation favoured returning to those capped limits; indeed, some authorities were not reaching the numbers that we had identified for the target areas. I appreciate that this is a complex matter in a scheme that has been designed to have that intensive investment.

I would like to clarify that there is no independent evaluation of Flying Start in Newport. An evaluation is being undertaken for us and every local authority has been visited. SQW Consulting, as you will have heard, has visited Newport as part of the field study. It has visited every authority for our evaluation. That is an important point: it is the Assembly Government's evaluation. It is collecting information and we clearly need to work through this with Newport, but as I said with regard to Blaenau Gwent, it is about how we can ensure that the integrity of Flying Start, which is reaching the most disadvantaged children in Wales, is delivered.

**Leanne Wood:** I am sure that you will agree that good childcare is vital for children,

mor effeithlon am £1,600 y pen ag am £2,100 y pen. A gytunwch i edrych ar y mater hwn eto, oherwydd ymddengys ei fod yn enghraifft ofnadwy o Lywodraeth o'r brig i lawr nad yw'n annog effeithlonrwydd a newydd-deb wrth ddarparu gwasanaethau addysg hanfodol?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod y cynllun Dechrau'n Deg yn flaenoriaeth bwysig i'r Llywodraeth, ac yr wyf yn falch fod ymrwymiad ar draws y Siambr i'r ymyriad dwys a'r buddsoddiad gennym ym mhlant mwyaf difreintiedig Cymru. O ran y dalgylchoedd a chwmpas y cynllun mewn cysylltiad â'r bobl ifanc a fydd yn elwa, buom yn ymgynghori o fis Hydref y llynedd am nifer y plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, a chytunodd awdurdodau lleol hefyd y dylid adolygu'r ardaloedd targed, os oedd angen, er mwyn sicrhau bod gennym fuddsoddiad dwys a phenodol i bob plentyn. Yn wir, mewn wyth awdurdod yr oedd ffigurau uwch nagh a oedd wedi eu nodi'n wreiddiol wrth bennu'r terfyn. Yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan awdurdodau lleol yn yr ymgynghoriad o blaid dychwelyd at y terfynau hynny; yn wir, nid oedd rhai awdurdodau'n cyrraedd y niferoedd yr oeddem wedi'u nodi ar gyfer yr ardaloedd targed. Yr wyf yn sylweddoli bod hwn yn fater cymhleth mewn cynllun sydd wedi'i lunio i ddarparu'r buddsoddiad dwys hwnnw.

Hoffwn egluro nad oes gwerthusiad annibynnol wedi'i wneud o'r cynllun Dechrau'n Deg yng Nghasnewydd. Mae gwerthusiad yn cael ei wneud ar ein rhan, ac ymwelwyd â phob awdurdod lleol. Fel y byddwch wedi clywed, mae SQW Consulting wedi ymweld â Chasnewydd fel rhan o'r astudiaeth maes. Mae wedi ymweld â phob awdurdod at ddiben ein gwerthusiad. Mae hwnnw'n bwynt pwysig: gwerthusiad Llywodraeth y Cynulliad ydyw. Mae'n casglu gwybodaeth, ac y mae'n amlwg fod angen inni weithio ar hyn gyda Chasnewydd. Ond fel y dywedais yng nghyswllt Blaenau Gwent, rhaid inni edrych ar y modd y gallwn sicrhau dilysrwydd Dechrau'n Deg, sy'n cyrraedd y plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Leanne Wood:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod gofal plant da yn hanfodol i blant, yn



important for parents and essential to the economy. I have been contacted by a constituent about problems with accessing affordable childcare in Rhondda Cynon Taf. What discussions have you had with the council and voluntary organisations in the area about the provision of childcare in Rhondda Cynon Taf? Flying Start offers important help to families with young children in some areas. What discussions have you had regarding money for the Flying Start programme in Rhondda Cynon Taf, the Vale of Glamorgan and Cardiff, and what provision is available for families who live outside Flying Start areas?

**Jane Hutt:** It is always helpful to know of specific examples of difficulty in accessing childcare because we have a commitment, as you know, in 'One Wales' to progressing the provision of universal affordable childcare. There has been additional budget support during the Assembly term, which includes free, part-time, high-quality childcare for two-year-olds in the areas of greatest need through Flying Start.

I am delighted that the Assembly passed the Proposed Children and Families (Wales) Measure yesterday, which enshrines in primary legislation the provision to place a duty on local authorities to secure the availability of free, high-quality, targeted childcare in specific areas. It is a major step forward that we have taken together, and yesterday signalled our long-term commitment to the agenda. It is the additional £8 million over three years that I mentioned in answer to previous questions that will fund the 10 per cent expansion of the Flying Start programme. I have also announced an additional £4.2 million over three years for out-of-school childcare, which is important for this age group, as well as additional funding of £3 million over three years to support local authorities' duty under the Childcare Act 2006 to secure sufficient childcare in their areas. The childcare sufficiency route is something that we are analysing across Wales, and we are looking at the authorities in your region, Leanne, as to how they are delivering on that sufficiency audit.

bwysig i rieni ac yn hanfodol i'r economi. Mae etholwr wedi cysylltu â mi ynghylch problemau wrth allu cael gofal plant fforddiadwy yn Rhondda Cynon Taf. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r cyngor a mudiadau gwirfoddol yn yr ardal ynghylch darparu gofal plant yn Rhondda Cynon Taf? Mae Dechrau'n Deg yn cynnig cymorth pwysig i deuluoedd sydd â phlant ifanc mewn rhai ardaloedd. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynghylch arian ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg yn Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Chaerdydd, a pharddariaeth sydd ar gael i deuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg?

**Jane Hutt:** Mae bob amser yn ddefnyddiol cael gwybod am enghreifftiau penodol o anhawster wrth geisio cael gofal plant, oherwydd, fel y gwyddoch, mae ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i ddatblygu darparu gofal plant fforddiadwy sydd ar gael yn gyffredinol. Cafwyd cymorth cyllideb ychwanegol yn ystod tymor y Cynulliad, sy'n cynnwys gofal plant rhan-amser o safon yn rhad ac am ddim i blant dwy oed yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf trwy Dechrau'n Deg.

Yr wyf wrth fy modd fod y Cynulliad ddoe wedi derbyn y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), sy'n diogelu mewn deddfwriaeth sylfaenol y ddarpariaeth i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gofal plant o safon sydd wedi'i dargedu ar gael yn rhad ac am ddim mewn ardaloedd penodol. Mae'n gam mawr ymlaen yr ydym wedi'i gymryd gyda'n gilydd, ac yr oedd ddoe yn arwydd o'n hymrwymiad hirdymor i'r agenda. Yr £8 miliwn ychwanegol dros dair blynedd, a grybwyllais wrth ateb cwestiynau blaenorol, fydd yn ariannu'r gwaith o ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg 10 y cant. Yr wyf hefyd wedi cyhoeddi bod £4.2 miliwn yn ychwanegol ar gael dros dair blynedd ar gyfer gofal plant y tu allan i'r ysgol. Mae hynny hefyd yn bwysig i'r grŵp oed hwn, yn ogystal â chyllid ychwanegol o £3 miliwn dros dair blynedd i gefnogi dyletswydd awdurdodau lleol dan Ddeddf Gofal Plant 2006 i sicrhau bod digon o ofal plant ar gael yn eu hardaloedd. Yr ydym yn dadansoddi'r data i weld a oes digon ar gael ledled Cymru, ac yr ydym yn edrych ar yr awdurdodau lleol yn

eich rhanbarth chi, Leanne, i weld sut y maent yn darparu o ran ymateb i'r archwiliad hwnnw o ddigonolrwydd.

**Michael German:** I must say that the Flying Start programme is magnificent. I have observed it at first hand, both from the children's perspective and from the health visitors' perspective. I therefore fail to understand why you have asked Newport City Council to take an axe to the programme and remove hundreds of children and their families who are currently benefiting from Flying Start—families who are eligible, needy, and meet your criteria.

The nub of your argument, which you have expressed in debate this afternoon and to me in a letter, is that you need to focus the money on the right things. Given that you have had an evaluation done in Newport, and, as I understand it, it has concluded that the service is being provided adequately, properly and professionally, and is meeting its objectives, why is it that you persist in asking the council to reduce the numbers of children and their families who are clearly eligible for this programme? The council has been efficient and has managed to deliver the service you demand for the same amount of money. What evidence do you have that Newport is not delivering the right sort of programme for these children and their families in the Flying Start programme? What has drawn you to this conclusion?

**Jane Hutt:** I will have to put the record straight again. The evaluation that is being undertaken has involved a visit by SQW Consulting to Newport council. This is one visit among the 22 that they will undertake. We have not had the results of the evaluation. I am sure that the consultants' visit was constructive, and we will hear the outcome of that. What is important—and I am surprised that you have questioned this—is that we maintain the integrity of the Flying Start programme, and there is international educational evidence that we had to have this intensity of support. We have asked Newport council for evidence that it is delivering to the required intensity. If you want to go into details, I will mention the health visitor-children ratio. We understand that Newport is delivering a ratio of 1:135, however the

**Michael German:** Rhaid imi ddweud bod Dechrau'n Deg yn rhaglen wych. Yr wyf wedi ei gweld ar waith drosaf fy hun, o safbwynt y plentyn ac o safbwynt yr ymwelydd iechyd. Ni allaf ddeall, felly, pam yr ydych wedi gofyn i Gyngor Dinas Casnewydd gwtogi'r rhaglen a gwrthod cannoedd o blant a'u teuluoedd sy'n elwa o Dechrau'n Deg ar hyn o bryd—teuluoedd sy'n gymwys, sydd mewn angen ac sy'n bodloni eich meini prawf.

Craidd eich dadl yr ydych wedi'i mynegi yn y Siambr y prynhawn yma, ac mewn llythyr ataf, yw bod angen sianelu'r arian at y pethau iawn. O gofio bod gwerthusiad wedi'i wneud yng Nghasnewydd sydd, fel y deallaf, wedi dod i'r casgliad fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n ddigonol, yn briodol ac yn broffesiynol ac yn bodloni ei amcanion, pam yr ydych yn dal i ofyn i'r cyngor gwtogi nifer y plant a'u teuluoedd sy'n amlwg yn gymwys i gael lle ar y rhaglen hon? Mae'r cyngor wedi gweithio'n effeithlon ac wedi llwyddo i ddarparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol gennych am yr un faint o arian. Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos nad yw Casnewydd yn darparu'r math cywir o raglen i'r plant hyn a'u teuluoedd yn y rhaglen Dechrau'n Deg? Beth sydd wedi eich arwain at y casgliad hwn?

**Jane Hutt:** Bydd yn rhaid imi egluro eto. Mae'r gwerthusiad sy'n cael ei wneud wedi cynnwys ymweliad gan SQW Consulting â chyngor Casnewydd. Un ymweliad yw hwn o blith 22 y bydd y cwmni'n eu gwneud. Nid ydym wedi cael canlyniadau'r gwerthusiad. Yr wyf yn siŵr fod ymweliad yr ymgynghorwyr wedi bod yn adeiladol, a byddwn yn clywed canlyniad hynny. Yr hyn sy'n bwysig—ac yr wyf yn synnu eich bod wedi codi cwestiynau ynghylch hyn—yw sicrhau nad ydym yn glastwreiddio'r rhaglen Dechrau'n Deg, ac y mae dystiolaeth addysgol ryngwladol i ddangos ei bod yn rhaid inni gael y gefnogaeth ddwys hon. Yr ydym wedi gofyn i gyngor Casnewydd am dystiolaeth i ddangos ei fod yn gweithio yn ôl y dwyster sy'n ofynnol. Os ydych am fanylu, soniaf am y gymhareb o ran ymwelwyr

guidance for the programme sets out that we require the ratio to be 1:110 to ensure the level of intensity for each child. I want to have a constructive discussion with Newport about this, because it is delivering excellent services for children up to three years old, and I want to discuss the integrity of the Flying Start programme and how it can be delivered.

### **Further and Higher Education Funding**

**Q8 Chris Franks:** What recent discussions has the Minister had regarding funding for further and higher education in Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)1100(CEL)

**Jane Hutt:** Rhondda Cynon Taf is benefiting from a range of EU-funded projects including the higher skills scheme, the foundation degrees project, and the building the future together project. We are also investing £28 million to develop a new Coleg Morgannwg campus in Nantgarw.

**Chris Franks:** Thank you, Minister; that is an impressive list. I recently met with the University College Union from the University of Glamorgan, and it asked how the draft Assembly Government budget would help in meeting any funding gap that may exist between the universities in Wales and England. I have also spoken with Coleg Morgannwg regarding the curriculum qualification currently being introduced. It feels that it is not yet fully aware of the impact that it will have on learners or institutions. Can you provide an answer to its questions?

3.00 p.m.

Finally, what discussions have you had with Rhondda Cynon Taf County Borough Council regarding the impact of the £285 million 14-19 education shake-up in relation to further education providers?

**Jane Hutt:** There were three questions there.

**The Presiding Officer:** Order. You only

iechyd a phlant. Deallwn fod Casnewydd yn gweithio ar gymhareb o 1:135. Fodd bynnag, mae'r canllawiau ar gyfer y rhaglen yn nodi bod angen inni gael cymhareb o 1:110 i sicrhau'r lefel briodol o ddwystr ar gyfer pob plentyn. Yr wyf am gael trafodaeth adeiladol gyda Chasnewydd am hyn, oherwydd y mae'n darparu gwasanaethau ardderchog i blant hyd at dair oed, ac yr wyf am drafod dilysrwydd y rhaglen Dechrau'n Deg a sut y gellir ei chyflwyno.

### **Cyllido Addysg Bellach ac Addysg Uwch**

**C8 Chris Franks:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch cyllido addysg bellach ac addysg uwch yn Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)1100(CEL)

**Jane Hutt:** Mae Rhondda Cynon Taf yn elwa o ystod o brosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y cynllun sgiliau uwch, y prosiect graddau sylfaen a'r prosiect adeiladu'r dyfodol gyda'n gilydd. Yr ydym yn buddsoddi £28 miliwn hefyd i ddatblygu campws newydd i Goleg Morgannwg yn Nantgarw.

**Chris Franks:** Diolch, Weinidog; mae'n rhestr drawiadol. Yn ddiweddar cyfarfûm â'r Undeb Prifysgol a Choleg o Brifysgol Morgannwg, a gofynnodd sut y byddai cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad yn helpu pontio unrhyw fwlch cyllido a all fod rhwng y prifysgolion yng Nghymru ac yn Lloegr. Yr wyf wedi siarad â Choleg Morgannwg hefyd am y cymhwyster cwricwlwm sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd. Mae'n teimlo nad yw eto'n gwybod yn iawn beth fydd ei effaith ar ddysgwyr neu sefydliadau. A allwch chi roi ateb i'w gwestiynau?

Yn olaf, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am effaith yr ad-drefnu gwerth £285 miliwn yn y sector addysg 14-19 o safbwynt darparwyr addysg bellach.

**Jane Hutt:** Gofynnwyd tri chwestiwn i gyd.

**Y Llywydd:** Trefn. Dim ond dau ohonynt y

need to answer two of them, Minister, and you will pass.

**Jane Hutt:** Thank you. It was important to see the University and College Union report on the delivery of education. I was particularly interested in the issue it raised on the education postcode lottery, and I would like to put the record straight on that point. The national planning and funding system, which funds further education in Wales, recognises that providers incur additional costs in meeting the learning needs of learners from areas of educational deprivation. We have the educational deprivation uplift in the national planning and funding system model, which will contribute to these additional costs.

The importance of our investment in higher education is demonstrated by my commitment to ensure that the release of funding from the reform of Student Finance Wales will be going to higher education. The £31 million will be invested in higher education from the 2010 academic year, as we have the change in the system. It is important that I recognised that higher education also needs to get its act together in terms of the fundraising initiative that I announced last December. In fact, I attended a conference only in the last fortnight at which all the higher education institutions came together. With a £10 million-plan over three years, we challenge them to ensure that they can reach some of the levels of fundraising investment on a match funding basis, which is funding made available through the Higher Education Funding Council for Wales. That will ensure that they play their part in securing funding from, for example, some very illustrious alumni who live across the world and who I am sure could give some of their well-earned income back to their universities.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, your department last spring launched a review into college governance in the further education sector. It was supposed to be a short, sharp review, but, to date, it still has not reported. Of concern to the further education sector is exactly when this review will report, as it was supposed to report in the autumn and there is

mae angen ichi eu hateb, Weinidog, a bydd hynny'n ddigon.

**Jane Hutt:** Diolch. Yr oedd yn bwysig gweld yr Undeb Prifysgol a Choleg yn adrodd ar ddarparu addysg. Yr oedd diddordeb arbennig gennyf yn y mater a gododd am y loteri cod post mewn addysg, a hoffwn gywiro'r cofnod ar y pwynt hwnnw. Mae'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol, sy'n ariannu addysg bellach yng Nghymru, yn cydnabod bod darparwyr yn mynd i gostau ychwanegol wrth ddiwallu anghenion dysgu dysgwyr sy'n hanu o ardaloedd o amddifadedd addysgol. Mae gennym y codiad amddifadedd addysgol yn y system gynllunio ac ariannu genedlaethol, a fydd yn cyfrannu at y costau ychwanegol hyn.

Arwydd o bwysigrwydd ein buddsoddiad mewn addysg uwch yw fy ymrwymiad i sicrhau y bydd rhyddhau cyllid o ddiwygio Cyllid Myfyrwyr Cymru yn mynd i addysg uwch. Bydd y £31 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn addysg uwch o flwyddyn academiaidd 2010 ymlaen, wrth i'r system newid. Mae'n bwysig imi fod wedi cydnabod bod angen i'r sector addysg uwch hefyd roi trefn ar ei bethau o ran y fenter codi arian a gyhoeddais fis Rhagfyr diwethaf. A dweud y gwir, bûm mewn cynhadledd yn ystod y pythefnos diwethaf lle daeth yr holl sefydliadau addysg uwch at ei gilydd. Gan ddefnyddio cynllun gwerth £10 miliwn dros dair blynedd, yr ydym yn eu herio i sicrhau y gallant gyrraedd rhai o'r lefelau buddsoddi drwy godi arian ar sail arian cyfatebol, sef cyllid sydd ar gael trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bydd hynny'n sicrhau eu bod yn gwneud eu rhan wrth sicrhau cyllid, er enghraifft, gan rai cyn-fyfyrwyr llwyddiannus iawn sy'n byw ym mhedwar ban y byd ac a allai, mae'n siŵr gennyf, roi rhywfaint o'r incwm y maent wedi gweithio'n galed i'w ennill yn ôl i'w prifysgolion.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, yn ystod y gwanwyn y llynedd lansiodd eich adran adolygiad o drefn lywodraethu colegau yn y sector addysg bellach. Bwriadwyd i'r adolygiad fod yn ymarfer cryno a sydyn, ond nid oes adroddiad wedi'i gyflwyno hyd yma. Mae'r sector addysg bellach yn pryderu pryd yn union y bydd adroddiad yr adolygiad hwn

no date set for it to report. Secondly, if there was a need for this review, what exactly was your department looking at rectifying in the further education sector, when all the reports indicate that governance in the further education sector is robust?

**Jane Hutt:** I am delighted to report that John Griffiths is chairing the review and that Fforwm and its further education partners and, indeed, union representatives are fully engaged. Therefore, you must await the report.

### Capital Investment in Schools

**Q9 Alun Davies:** Will the Minister provide an update on capital investment in schools in mid and west Wales? OAQ(3)1121(CEL)

**Jane Hutt:** Over the past year, I have announced a schools capital funding package of £204.7 million for schools, of which £47.046 million was approved for Carmarthen, Ceredigion, Pembrokeshire and Powys local authorities. In addition, I am pleased to confirm the allocation of £5.3 million of strategic capital investment funding for Gwynedd.

**Alun Davies:** That is a very impressive list of investments in schools in mid and west Wales, and that is why, Minister, people in mid and west Wales are voting Labour, to ensure that this investment continues. The real comparison to make—[*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. Alun Davies is about to ask a question of the Minister.

**Alun Davies:** Thank you, Presiding Officer. The real comparison to make is with the situation in 1997, when only £57 million of investment in school buildings was made across the whole of Wales. Minister, do you agree that the environment in which we teach children is essential for them to learn well, and that when this Government is investing in education, it is investing in the

yn cael ei gyflwyno, oherwydd yr oedd i fod i ymddangos yn yr hydref ac nid oes dyddiad wedi'i bennu. Yn ail, os oedd angen yr adolygiad hwn, beth yn union yr oedd eich adran yn bwriadu ei unioni yn y sector addysg bellach, a'r adroddiadau i gyd yn dangos bod y drefn lywodraethu yn y sector addysg bellach yn gadarn?

**Jane Hutt:** Mae'n bleser gennyf ddweud bod John Griffiths yn cadeirio'r adolygiad a bod Fforwm a'i bartneriaid yn y sector addysg bellach, a chynrychiolwyr undebau, yn wir, yn chwarae rhan lawn. Felly, bydd yn rhaid ichi ddisgwyl am yr adroddiad.

### Buddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion

**C9 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion yn y canolbarth a'r gorllewin? OAQ(3)1121(CEL)

**Jane Hutt:** Dros y flwyddyn ddiwethaf yr wyf wedi cyhoeddi pecyn ariannu cyfalaf gwerth £204.7 miliwn ar gyfer ysgolion, a chymeradwywyd £47.046 miliwn o'r arian hwnnw ar gyfer awdurdodau lleol Caerfyrddin, Ceredigion, sir Benfro a Phowys. Yn ogystal, yr wyf yn falch cadarnhau dyraniad o £5.3 miliwn o'r gronfa strategol buddsoddi cyfalaf ar gyfer Gwynedd.

**Alun Davies:** Mae'n rhestr drawiadol iawn o fuddsoddiadau mewn ysgolion yn y canolbarth a'r gorllewin, a dyna pam, Weinidog, y mae pobl yn y canolbarth a'r gorllewin yn pleidleisio dros y blaid Lafur, er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn parhau. Y gymhariaeth wirioneddol i'w gwneud—[*Torri ar draws.*]

**Llywydd:** Trefn. Mae Alun Davies ar fin gofyn cwestiwn i'r Gweinidog.

**Alun Davies:** Diolch, Lywydd. Y gymhariaeth wirioneddol i'w gwneud yw'r gymhariaeth â'r sefyllfa yn 1997, pan fuddsoddiwyd £57 miliwn yn unig mewn adeiladau ysgol ar draws Cymru gyfan. Weinidog, a ydych yn cytuno bod yr amgylchedd lle yr ydym yn addysgu plant yn hollbwysig er mwyn iddynt ddkludysgu'n dda, a phan fo'r Llywodraeth hon yn buddsoddi

infrastructure of education, and that we will provide world-class education and a world-class start for our children?

**Jane Hutt:** Many Members from across the board have said that they are impressed with the investment in education today. I am grateful for all of those contributions. I am glad that investment in our curriculum, the school capital building programme, and the further education capital estate is being recognised across the Chamber. Funds are now being allocated on a more targeted basis, and issues such as school reorganisation, which is linked to the reduction of surplus places, are significant considerations when it comes to decisions on the targeting and prioritisation of Assembly Government funding. That is an important point to make. The Government has shown clear direction in terms of the way expenditure is prioritised. For me, to go to open a new regional resource facility developed at Portfield special school in July of this year, as a result of Assembly Government investment and the regional special educational needs element of our capital investment programme, and in partnership with Pembrokeshire County Council, just demonstrates what we can achieve if we work together. That is what we are doing in the twenty-first century school programme.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae tair etholaeth yn sir Gaerfyrddin. Yn 2007, pleidleisiodd mwyafrif yr etholwyr dros Blaid Cymru, yn enwedig yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes arnom angen gwrs hanes. Yr ydym yn gwbl ymwybodol o'ch pleidleisiau, syr, felly buaswn yn gwerthfawrogi cwestiwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oeddwn yn sylweddoli eich bod yn gwbl ymwybodol o'r canlyniadau yn 2007 yn sir Gaerfyrddin, Lywydd. Hoffwn ofyn cwestiwn penodol ynglŷn â'r gwariant ar addysg yn sir Gaerfyrddin. Mae llawer o sôn fod ysgol newydd i'w sefydlu yn nyffryn Tywi a bod arian gan y Llywodraeth i wneud hynny. Mae'r ysgol i'w lleoli rhwng Llandeilo a

mewn addysg, ei bod yn buddsoddi yn isadeiledd addysg, ac y byddwn yn darparu addysg o'r radd flaenaf a dechrau o'r radd flaenaf i'n plant?

**Jane Hutt:** Mae nifer o Aelodau o bob plaid wedi dweud eu bod wrth eu bodd â'r buddsoddiad mewn addysg heddiw. Yr wyf yn ddiolchgar am bob un o'r cyfraniadau hynny. Yr wyf yn falch fod buddsoddiad yn ein cwricwlwm, y rhaglen gyfalaf adeiladau ysgol, a'r rhaglen gyfalaf ar gyfer addysg bellach yn cael ei gydnabod ar draws y Siambr. Erbyn hyn, mae arian yn cael ei ddyrranu yn fwy ar sail wedi'i dargedu, ac y mae materion megis ad-drefnu ysgolion, sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y lleoedd gwag, yn ystyriaethau pwysig pan ddaw'n fater o benderfynu targedu a blaenoriaethu cyllid Llywodraeth y Cynulliad. Mae hwnnw'n bwynt pwysig i'w wneud. Mae'r Llywodraeth wedi dangos cyfeiriad clir yn y modd y caiff gwariant ei flaenoriaethu. I mi, yr oedd cael mynd ym mis Gorffennaf eleni i agor cyfleuster adnoddau rhanbarthol newydd a ddatblygwyd yn ysgol arbennig Portfield, o ganlyniad i fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad ac elfen ranbarthol ein rhaglen buddsoddi cyfalaf ar gyfer anghenion addysgol arbennig, ac mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro, yn dangos yr hyn y gallwn ei gyflawni trwy gydweithio. Dyna'r ydym yn ei wneud yn rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

**Rhodri Glyn Thomas:** There are three constituencies in Carmarthenshire. In 2007 the vast majority of voters voted for Plaid Cymru, particularly in Carmarthen East and Dinefwr.

**The Presiding Officer:** Order. We do not need a history lesson. We are quite aware of your votes, sir, so, I should appreciate your asking a question.

**Rhodri Glyn Thomas:** I realise that you are fully aware of the results in Carmarthenshire in 2007, Presiding Officer. I should like to ask a specific question on education expenditure in Carmarthenshire. There has been a great deal of talk that a new school will be established in the Tywi valley and that the Government has funding to do just that. The school is to be located between

Llanymddyfri a bydd yn cyfuno'r disgyblion sy'n cael eu haddysgu ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun Tre-gib ac yn Ysgol Gyfun Pantycelyn. A allwch chi gadarnhau, Weinidog, a oes arian ar gael? A ydyw'r ysgol hon yn bosiblwydd real, neu a fydd yn rhaid i rieni'r disgyblion yn yr ardal honno ystyried opsiynau eraill?

**Jane Hutt:** Diolch yn fawr, Rhodri Glyn. I can confirm what money has been spent. I cannot confirm any proposals for funding that have not yet come before me. Between 2002 and 2010, Carmarthenshire County Council was allocated a total of £27,876,298 through school building improvement grants. It has been successful in obtaining funding for three projects in the first tranche of the SPIG transition to twenty-first century schools capital. As you will know, these projects include substantial refurbishment and the provision of special educational needs and foundation phase facilities at Ysgol y Dderwen, and extensive refurbishment at the Morfa schools and Ysgol y Felin. So, a considerable amount of investment has been made, and we await other proposals.

Llandeilo and Llandovery and will combine pupils who are currently taught in Ysgol Gyfun Tre-gib and Ysgol Gyfun Pantycelyn. Can you confirm, Minister, whether this funding is available? Is the establishment of this school a real possibility, or will the parents of pupils in the area have to consider other options?

**Jane Hutt:** Thank you, Rhodri Glyn. Gallaf gadarnhau pa arian sydd wedi ei wario. Ni allaf gadarnhau dim cynigion am arian nad ydynt eto wedi cyrraedd fy nesg. Rhwng 2002 a 2010 dyrannwyd £27,876,298 i Gyngor Sir Caerfyrddin drwy gyfrwng grantiau gwella adeiladau ysgol. Mae wedi llwyddo i gael arian ar gyfer tri phrosiect yn rhan gyntaf y trawsnewid SPIG i gyfalaf ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Fel y gwyddoch, mae'r prosiectau hyn yn cynnwys gwaith adnewyddu sylweddol a darparu cyfleusterau anghenion addysgol arbennig y cyfnod sylfaen yn Ysgol y Dderwen, a gwaith adnewyddu helaeth yn ysgolion y Morfa ac Ysgol y Felin. Felly, mae buddsoddi sylweddol wedi bod, ac yr ydym yn disgwyl cynigion eraill.

### **Datganiad am Gyngor Sir Ynys Môn—Bwrdd Adfer Statement on the Isle of Anglesey County Council—Recovery Board**

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** On 15 July, the Auditor General for Wales published a highly critical report on the corporate governance of the Isle of Anglesey County Council and recommended that the Welsh Assembly Government intervene to secure recovery. I agreed with the recommendation in an oral statement to Plenary on the same day. I then issued the council with a formal direction, the terms of which I outlined in my written statement of 12 August.

In that statement, I also announced the appointment of Mr David Bowles as the council's interim managing director. I am pleased to have been able to secure David's services, and it would be fair to say that the leadership of the council was equally enthusiastic about it. David is an experienced

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Ar 15 Gorffennaf cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad beirniadol iawn am drefn llywodraethu corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn, ac argymhellodd y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd i sicrhau adferiad. Cytunais â'r argymhelliad mewn datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn ar yr un diwrnod. Yna, rhoddais gyfarwyddyd ffurfiol i'r cyngor, ac amlinellais delerau'r cyfarwyddyd hwnnw yn fy natganiad ysgrifenedig ar 12 Awst.

Yn y datganiad hwnnw, cyhoeddais hefyd fod Mr David Bowles wedi'i benodi'n rheolwr gyfarwyddwr y cyngor dros dro. Yr wyf yn falch o fod wedi gallu sicrhau gwasanaethau David, a byddai'n deg dweud bod arweinwyr y cyngor yr un mor frwdfrydig ynghylch hynny. Mae David yn

chief executive with substantial experience, and he is well equipped to help secure a rapid and sustainable resolution of Anglesey's problems.

My direction also required the council to co-operate with a recovery board. It, in turn, will advise me on the progress that the council is making, as well as advising the council on possible courses of action that it might take to support recovery. I informed Members of the composition of the board in my written statement of 16 September.

The recovery board met for the first time at the beginning of October. Its first meeting focused upon how the board would operate, and considered evidence about the scale and nature of the challenge that the council faces. The recovery board's terms of reference requires the Chair, Elan Closs Stephens, to provide me with a report after each meeting.

3.10 p.m.

Her first report sets out the board's decision to focus its work initially on the issues of political behaviour, discipline and relationships between members and officers. I fully support that decision. Those issues featured prominently in the auditor general's report, and resolving them is fundamental to any sustainable recovery and to restoring the council's reputation. I expect that members and officers of the council will give the board their full co-operation, as my direction requires them to do.

The board has also identified that a few members continue to exhibit some of the sort of behaviour that the auditor general criticised, despite some months having passed since his report and my direction. This is a matter of considerable concern as Anglesey's recovery will fail unless all members and officers of the council accept a shared responsibility for the current problems and contribute fully to the action required to resolve them.

At the same time, there is still a tendency for

brif weithredwr profiadol, ac y mae'n gymwys iawn i helpu sicrhau datrys problemau Ynys Môn yn gyflym ac mewn modd cynaliadwy.

Yr oedd fy nghyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gydweithredu â bwrdd adfer. Yn ei dro, bydd y bwrdd yn rhoi gwybod i mi am y cynnydd y mae'r cyngor yn ei wneud, ac yn cynghori'r cyngor ynghylch ffyrdd posibl y gallai weithredu er mwyn cynorthwyo'r broses adfer. Rhoddais wybod i'r Aelodau am gyfansoddiad y bwrdd yn fy natganiad ysgrifenedig ar 16 Medi.

Cyfarfu'r bwrdd adfer am y tro cyntaf ddechrau mis Hydref. Canolbwyntiodd ei gyfarfod cyntaf ar y modd y byddai'r bwrdd yn gweithredu, gan ystyried tystiolaeth am faint a natur yr her sy'n wynebu'r cyngor. Mae cylch gorchwyl y bwrdd adfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cadeirydd, Elan Closs Stephens, ddarparu adroddiad imi ar ôl pob cyfarfod.

Mae ei hadroddiad cyntaf yn egluro penderfyniad y bwrdd i ganolbwyntio'i waith i ddechrau ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad gwleidyddol, disgyblaeth, a'r berthynas rhwng aelodau a swyddogion. Yr wyf yn cefnogi'r penderfyniad hwnnw'n llawn. Yr oedd y materion hynny'n amlwg iawn yn adroddiad yr archwilydd cyffredinol, ac y mae eu datrys yn hanfodol i sicrhau unrhyw adferiad cynaliadwy ac adennill enw da y cyngor. Disgwyliaf i aelodau a swyddogion y cyngor gydweithredu'n llawn â'r bwrdd, yn unol â gofynion fy nghyfarwyddyd.

Mae'r bwrdd wedi nodi hefyd fod rhai aelodau'n dal i ddangos rhywfaint o'r math o ymddygiad a feirniadwyd gan yr archwilydd cyffredinol, er bod rhai misoedd ers cyflwyno'i adroddiad ef a'm cyfarwyddyd i. Mae hynny'n fater sy'n peri pryder sylweddol, oherwydd bydd adferiad Ynys Môn yn siŵr o fethu oni fydd holl aelodau a swyddogion y cyngor yn derbyn cyfrifoldeb rhyngddynt am y problemau presennol, ac yn cyfrannu'n llawn at y camau gweithredu sy'n ofynnol i'w datrys.

Ar yr un pryd, mae tuedd o hyd i rai briodoli



some to ascribe the council's problems to the actions and behaviour of a few named councillors. However unacceptable such behaviour may be, blaming individuals for what is undoubtedly a deep-rooted corporate failure is not only misguided, but it is no recipe for a sustainable recovery. It allows those not named, or those doing the naming, to avoid responsibility for what has become a shared solution.

In the coming weeks, I expect to see rapid improvement in members' behaviour and in the contribution of all members and officers to the recovery. If matters do not improve, I will not hesitate to use my powers again to strengthen the terms of direction. I would, of course, take the advice of the board on this, but such a direction could, for instance, restructure the council's committee system or remove from members any functions that they have proved themselves unwilling to exercise responsibly.

This early emphasis on political issues in no way detracts from the importance of reforming the council's administrative structure. I am pleased that David Bowles has that in hand. It is essential that he is fully able and empowered to pursue that work. Again, the board will be taking a close interest in that and will report to me accordingly. The council will need to produce a detailed and credible plan for addressing the auditor general's recommendations as soon as possible. It needs to resolve its problems sustainably and should not consider adopting a tick-box approach to responding to the auditor general's recommendations. It is abundantly clear that solving the council's problems will be a long-term and, at times, difficult process.

Despite the severe problems of leadership and governance, many of the council's services remain at least adequate. That reflects the effort and commitment of many council officers in the face of poor political and strategic leadership. It is important that those standards are maintained and that

problemau'r cyngor i weithredoedd ac ymddygiad rhai cynghorwyr penodol. Ni waeth pa mor annerbyniol yw ymddygiad rhai cynghorwyr, mae rhoi'r bai ar unigolion am rywbeth sydd heb os yn fethiant corfforaethol, ac sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn, yn annoeth. Ond yn fwy na hynny, nid yw'n ffordd i sicrhau adferiad cynaliadwy. Mae'n caniatáu i'r sawl nad ydynt wedi'u henwi, neu'r sawl sydd wrthi'n enwi, osgoi cymryd cyfrifoldeb am yr hyn sydd wedi datblygu'n ateb a rennir.

Yn ystod yr wythnosau sydd i ddod, disgwyliaf weld gwelliant cyflym yn ymddygiad aelodau ac yng nghyfraniad yr holl aelodau a'r swyddogion i'r adferiad. Os na fydd y sefyllfa'n gwella, ni fyddaf yn oedi cyn defnyddio fy mhwerau eto i gryfhau amodau'r cyfarwyddyd. Wrth gwrs, byddwn yn gofyn am gyngor y bwrdd ynghylch hynny, ond gallai cyfarwyddyd o'r fath ailstrwythuro system bwyllgorau'r cyngor, er enghraifft, neu dynnu oddi ar aelodau unrhyw swyddogaethau y maent wedi dangos eu bod yn anfodlon eu cyflawni'n gyfrifol.

Nid yw'r pwyslais cynnar hwn ar faterion gwleidyddol yn bychanu pwysigrwydd ailffurfio strwythur gweinyddol y cyngor o gwbl. Yr wyf yn falch fod David Bowles yn gofalu am hynny. Mae'n hanfodol fod ganddo'r holl allu a'r holl rym i gyflawni'r gwaith hwnnw. Unwaith eto, bydd y bwrdd yn edrych yn ofalus ar hynny ac yn adrodd wrthyf yn unol â hynny. Bydd angen i'r cyngor gynhyrchu cynllun manwl a chredadwy ar gyfer mynd i'r afael ag argymhellion yr archwilydd cyffredinol cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae angen iddo ddatrys ei broblemau mewn modd cynaliadwy, ac ni ddylai ystyried mabwysiadu dull gweithredu'n seiliedig ar dicio bocsys wrth ymateb i argymhellion yr archwilydd cyffredinol. Mae'n gwbl amlwg y bydd datrys problemau'r cyngor yn broses faith, a fydd yn anodd ar adegau.

Er gwaethaf y problemau arwain a llywodraethu difrifol, mae llawer o wasanaethau'r cyngor yn dal yn ddigonol o leiaf. Mae hynny'n adlewyrchu ymdrech ac ymrwymiad nifer o swyddogion y cyngor yn wyneb arweinyddiaeth wleidyddol a strategol wael. Mae'n bwysig i'r safonau hynny gael

service areas play a full role in securing recovery. The recovery board will aim to hold discussions with representatives from one service area at each meeting. The second recovery board meeting is due to take place next week. The board will meet the executive member and director of education and leisure and the vice chair of the standards committee and a monitoring officer. It will consider the role of the standards committee and how its practical effect may be increased. In future, I hope that the committee will be able to take a proactive role in setting out and enforcing acceptable standards of conduct. I am sure that support and advice from other local authorities in this regard would also help the council.

I last met the leader of the council in Anglesey only a couple of weeks ago, and we had a useful and frank discussion. I am pleased that he and his colleagues continue to co-operate wholeheartedly with the arrangements we have put in place and are taking action to address some of the problems. Acceptance and ownership of problems such as these by the leadership of the authority is the critical first step in solving them. The task for all in the council will be to maintain that level of commitment now the interim managing director and the recovery board have begun their work. I will be monitoring the council's recovery closely over the coming months, as advised by the board, and I will continue to meet the leadership of the council regularly. I will also keep Members informed of progress as appropriate.

**Darren Millar:** Thank you for your statement, Minister. It is important that Assembly Members are updated regularly when significant failings, such as those in Anglesey council, are identified anywhere in local government in Wales. As you know, my party has been supportive of your intervention and the direction you have given so far in response to the auditor general's report. There is no doubt that the failure of democratic leadership and the administrative problems in Anglesey are deep rooted, and will, as you have acknowledged, take a long time to resolve. The resolutions that are required could be painful at times.

eu cynnal a bod i feysydd gwasanaeth ran lawn wrth sicrhau adferiad. Bydd y bwrdd adfer yn ceisio cael trafodaethau gyda chynrychiolwyr o un maes gwasanaeth ym mhob cyfarfod. Disgwylir cynnal ail gyfarfod y bwrdd adfer yr wythnos nesaf. Bydd y bwrdd yn cyfarfod â'r aelod gweithredol a'r cyfarwyddwr addysg a hamdden, ac isgadeirydd y pwyllgor safonau a swyddog monitro. Bydd yn ystyried rôl y pwyllgor safonau a sut y gellir cynyddu ei effaith ymarferol. Yn y dyfodol, gobeithio y bydd y pwyllgor yn gallu cymryd rôl ragweithiol wrth bennu a gorfodi safonau ymddygiad derbyniol. Yr wyf yn siŵr y byddai cymorth a chyngor i'r perwyl hwnnw gan awdurdodau lleol eraill yn helpu'r cyngor hefyd.

Cyfarfûm ddiwethaf ag arweinydd y cyngor yn Ynys Môn rai wythnosau'n unig yn ôl, a chawsom drafodaeth ddefnyddiol a gonest. Yr wyf yn falch ei fod ef a'i gydweithwyr yn parhau i gydweithredu'n llwyr â'r trefniadau yr ydym wedi'u rhoi ar waith, ac yn gweithredu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau. Sicrhau bod arweinwyr yr awdurdod yn derbyn ac yn perchnogi problemau fel y rhain yw'r cam cyntaf hanfodol i'w datrys. Y dasg i bawb yn y cyngor fydd cynnal y lefel honno o ymrwymiad, gan fod y rheolwr gyfarwyddwr dros dro a'r bwrdd adfer bellach wedi dechrau ar eu gwaith. Byddaf yn monitro adferiad y cyngor yn agos dros y misoedd sydd i ddod, yn ôl cyngor y bwrdd, a byddaf yn parhau i gyfarfod ag arweinwyr y cyngor yn rheolaidd. Byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd fel sy'n briodol.

**Darren Millar:** Diolch am eich datganiad, Weinidog. Mae'n bwysig i Aelodau'r Cynulliad gael y manylion diweddaraf yn rheolaidd pan fydd methiannau sylweddol, megis y rheini yng nghyngor Ynys Môn, yn dod i'r amlwg rywle mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae fy mhlaidd i wedi bod yn gefnogol i'ch ymyriad a'r cyfarwyddyd yr ydych wedi'i roi hyd yma i ymateb i adroddiad yr archwilydd cyffredinol. Nid oes amheuaeth nad yw methiant arweinyddiaeth ddemocrataidd a'r problemau gweinyddol yn Ynys Môn wedi gwreiddio'n ddwfn, ac y byddant yn cymryd amser hir i'w datrys, fel yr ydych wedi

cydnabod. Gallai'r atebion sy'n ofynnol fod yn boenus ar adegau.

Citizens have been let down, and cultures within the council need to change. I pay tribute to the council officers, who continue to deliver services against that difficult background. I am pleased to note that the board has recognised from the outset that it is there to support the council and to help it to build its capacity to find its own way through the recovery process. I am also pleased to hear that the council's leadership appears to be fully engaged in the recovery process, and is working well with the board. However, I am concerned by the suggestion that the behaviour of some members continues to be in line with that identified in the report by the auditor general. We know that that behaviour could jeopardise the whole recovery process. I am hoping that members will subscribe fully to the training and support that will be offered by the Welsh Local Government Association, and that it will be effective. If that is not the case, Minister, I trust that you will use your powers of direction to ensure that members cannot jeopardise this process any longer, and that the problems in Anglesey will be resolved. I am aware of the reluctance to identify individual members who exhibit this sort of behaviour, but there are times when naming and shaming can have a significant impact on improving individuals' behaviour, and I hope that that will not be ruled out in the future.

To close, I have two brief points to make. I am concerned that the board appears to be focusing its attention on failings in the democratic and political process. I suppose that I can understand that, but I am concerned that it is not moving on soon enough to addressing the problems with the council's administrative failings. Those problems need to be twin-tracked and looked at in parallel. What direction will you give to the board to make sure that it does not lose sight of the fact that the problem in Anglesey is double pronged? It is not all down to politicians; there are failings on the other side of the fence as well.

Finally, despite the fact that your initial statement on this matter was made in July, it

Mae dinasyddion wedi'u siomi, ac y mae angen i ddiwylliannau yn y cyngor newid. Yr wyf yn rhoi teyrnged i swyddogion y cyngor, sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau yn y cefndir anodd hwn. Yr wyf yn falch nodi bod y bwrdd wedi cydnabod o'r dechrau ei fod yno i gynorthwyo'r cyngor a'i helpu i feithrin ei allu i ddod o hyd i'w ffordd ei hun drwy'r broses adfer. Yr wyf hefyd yn falch clywed fod arweinwyr y cyngor fel pe baent yn ymwneud yn llawn â'r broses adfer, ac yn gweithio'n dda gyda'r bwrdd. Fodd bynnag, mae'r awgrym fod ymddygiad rhai aelodau'n dal fel yr hyn a nodwyd yn adroddiad yr archwilydd cyffredinol yn peri pryder imi. Gwyddom y gallai'r ymddygiad hwnnw beryglu'r holl broses adfer. Gobeithio y bydd aelodau'n derbyn yn llawn yr hyfforddiant a'r cymorth y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn eu cynnig, ac y byddant yn effeithiol. Os na fydd hynny'n digwydd, Weinidog, hyderaf y byddwch yn defnyddio eich pwerau cyfarwyddo i sicrhau na all aelodau beryglu'r broses hon ymhellach, ac y caiff y problemau yn Ynys Môn eu datrys. Yr wyf yn ymwybodol o'r amharodrydd i enwi aelodau unigol sy'n dangos y math hwn o ymddygiad, ond weithiau gall enwi pobl a chodi cywilydd arnynt gael effaith sylweddol ar wella ymddygiad unigolion, a gobeithio na fydd hynny'n cael ei ddiystyru yn y dyfodol.

I gloi, mae gennyf ddau bwynt byr i'w gwneud. Yr wyf yn pryderu bod y bwrdd fel pe bai'n canolbwyntio'i sylw ar fethiannau yn y broses ddemocrataidd a gwleidyddol. Mae'n debyg y gallaf ddeall hynny, ond yr wyf yn pryderu nad yw'n symud ymlaen yn ddigon buan i fynd i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud â methiannau gweinyddol y cyngor. Mae angen olrhain y problemau hynny gyda'i gilydd, ac edrych arnynt ochr yn ochr â'i gilydd. Pa gyfarwyddyd y byddwch yn ei roi i'r bwrdd i wneud yn siŵr na fydd yn colli golwg ar y ffaith fod y broblem yn Ynys Môn yn ddeublyg? Nid y gwleidyddion yn unig sydd ar fai: mae methiannau dros y clawdd hefyd.

Yn olaf, er ichi wneud eich datganiad cychwynol ar y mater hwn ym mis

is a concern that the board met only last month, on 2 October, and that that was its first meeting. We need to work quickly to address these problems, and it is important that the board sets out a clear timetable by which we can expect to see some real results from its work. I would be grateful if you could respond to those points, Minister.

**Brian Gibbons:** I thank you and your party for your support. It is important to have strong cross-party support at the Assembly for working to address these problems. You are spot-on that, first and foremost, it is the citizens of Anglesey who have been let down. They have been let down at a time when they face formidable problems on the social and economic front, as well as having a wide range of other problems to confront. It is the citizens who have been let down, and, while we look at the council's problems, it is important that we realise that people are the ultimate victims of the failure of governance in Anglesey.

You are also right to say that the board is there to support, but recovery must be owned and delivered by the council itself. It would be a serious mistake therefore to think that responsibility for the recovery rests with the board, or indeed with me as a Minister. Ultimately, we will not see sustainable recovery on the island unless Anglesey council itself takes ownership and delivers. I place on record my gratitude to the Welsh Local Government Association for its willingness to make its support available, and to John Davies, its leader, for his personal commitment and willingness to be of help and support.

3.20 p.m.

Turning to the specific points that you raised, it is true that the board has decided that it needs to deal with the political culture that exists in Anglesey. In the Wales Audit Office's report, that has been highlighted as a particularly deep problem. However, in parallel with that, the new managing director, David Bowles, is already taking a wide range of actions: first, to develop a budget strategy, and secondly, to implement the kind of action plan needed to underpin recovery. He is also

Gorffennaf, mae'n bryder na fu i'r bwrdd gyfarfod tan y mis diwethaf, ar 2 Hydref, ac mai hwnnw oedd ei gyfarfod cyntaf. Mae angen inni weithio'n gyflym i fynd i'r afael â'r problemau hyn, ac y mae'n bwysig i'r bwrdd bennu terfynau amser clir pan allwn ddisgwyl gweld rhai canlyniadau go iawn o'i waith. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau hynny, Weinidog.

**Brian Gibbons:** Diolch i chi a'ch plaid am eich cefnogaeth. Mae'n bwysig cael cefnogaeth gref ar draws y pleidiau yn y Cynulliad wrth weithio i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud mai dinasyddion Ynys Môn sydd wedi'u siomi. Maent wedi'u siomi ar adeg pan fônt yn wynebu problemau enbyd yn gymdeithasol ac yn economaidd, a phan fo ganddynt ystod eang o broblemau eraill i'w hwynebu. Y dinasyddion sydd wedi'u siomi, ac wrth inni edrych ar broblemau'r cyngor, y mae'n bwysig inni sylweddoli mai pobl sy'n dioddef methiant y drefn lywodraethu yn Ynys Môn yn y pen draw.

Yr ydych yn iawn hefyd wrth ddweud bod y bwrdd yno i gynorthwyo'r cyngor, ond rhaid i'r cyngor ei hun berchnogi'r adferiad a'i sicrhau. Felly, byddai'n gamgymeriad difrifol meddwl mai'r bwrdd, neu fi fel Gweinidog, yn wir, sy'n gyfrifol am yr adferiad. Yn y pen draw, ni fyddwn yn gweld adferiad cynaliadwy ar yr ynys oni fydd cyngor Ynys Môn ei hun yn ei bercheogi a'i sicrhau. Yr wyf am gofnodi fy niolch i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am ei pharodrwydd i gynorthwyo, ac i John Davies, ei harweinydd, am ei ymrwymiad a'i barodrwydd personol i helpu a chefnogi.

I droi at y pwyntiau penodol a godwyd gennych, y mae'n wir fod y bwrdd wedi penderfynu bod angen iddo ymdrin â'r diwylliant gwleidyddol sy'n bodoli yn Ynys Môn. Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, tynnwyd sylw at hynny fel problem arbennig o ddwfn. Fodd bynnag, ochr yn ochr â hynny, mae'r rheolwr gyfarwyddwr newydd, David Bowles, eisoes yn cymryd ystod eang o gamau gweithredu: yn gyntaf, i ddatblygu strategaeth cyllideb, ac yn ail i

looking at the strengths and weaknesses of the local authority's management board, which is central. Therefore, David Bowles is looking at the areas that you mentioned as areas that the recovery board should be looking at. However, I am confident that this twin-track approach is the correct way to go.

You have a point in saying that it took until October for the board to meet, but you will realise that many of the people working on it are high-prestige, high-standard and high-status people. In the letter that I received from Elan Closs Stephens, she recognises the calibre of the board. The board is committed to meeting monthly over the next few months. Only when it is assured that progress is being made will the frequency be reduced to two-monthly or even three-monthly meetings. However, the initial commitment is to monthly meetings, which is an indication of its commitment to making progress as quickly as possible.

**David Lloyd:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad, a datganaf gefnogaeth Plaid Cymru i'r gweithredu yn y mater dyrys hwn o'r hyn sy'n digwydd gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae grŵp Plaid Cymru ar yr ynys wedi galw am yr ymyrraeth hon. Mae arweinydd ein grŵp ar yr ynys, y cynghorydd Bob Parry, wedi galw yn gyson am i bawb weithio gyda'i gilydd er lles pawb yn Ynys Môn. Yr ydym i gyd yn cofio adroddiad beirniadol yr archwilydd cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Yn eich datganiad ar y pryd, Weinidog, bu ichi ddweud mai'r prif feysydd o bryder oedd yr angen i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer Ynys Môn, yr angen i atgyfnerthu'r canol corfforaethol, yr angen i ad-drefnu'r pwyllgor safonau ac, yn olaf, yr angen i gefnogi aelodau i gael dealltwriaeth well o'u swyddogaeth graffu.

Yn sgil hynny, sefydlwyd y bwrdd adfer, ac yr ydym yn croesawu'r datblygiad hwnnw. Mae'n fater o bryder i mi fod rhai aelodau etholedig yn dal i fod yn amharod i newid, oherwydd os oes un neges o bwys yn adroddiad yr archwilydd cyffredinol, y neges

weithredu'r math o gynllun gweithredu y mae ei angen i fod yn sail i adferiad. Mae hefyd yn edrych ar gryfderau a gwendidau bwrdd rheoli'r awdurdod lleol, sy'n fater canolog. Mae David Bowles, felly, yn edrych ar y meysydd a gybwyllwyd gennych fel meysydd y dylai'r bwrdd adfer fod yn edrych arnynt. Fodd bynnag, yr wyf yn hyderus mai'r dull gweithredu deublyg hwn yw'r llwybr cywir i'w ddilyn.

Mae gennych bwynt dilys wrth ddweud iddi gymryd tan fis Hydref i'r bwrdd gyfarfod, ond byddwch yn sylweddoli bod nifer o'r bobl sy'n gweithio arno yn bobl uchel eu bri, uchel eu safon ac uchel eu statws. Yn y llythyr a gefais gan Elan Closs Stephens, mae'n cydnabod calibr y bwrdd. Mae'r bwrdd wedi ymrwymo i gyfarfod bob mis dros yr ychydig fisoedd nesaf. Dim ond pan fydd yn sicr bod cynnydd yn digwydd y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn llai aml, bob deufis neu bob tri mis hyd yn oed. Fodd bynnag, mae ymrwymiad cychwynnol y bwrdd i gyfarfod bob mis yn arwydd o'i ymrwymiad i wneud cynnydd cyn gynted ag sy'n bosibl.

**David Lloyd:** I thank the Minister for his statement, and I express Plaid Cymru's support for the action taken on this complex matter of what is happening with the Isle of Anglesey County Council. The Plaid Cymru group on the island has called for this intervention. The leader of our group on the island, councillor Bob Parry, has consistently called on everyone to work together for the benefit of everyone in Anglesey. We all remember the damning report of the auditor general, published in July. In your statement at the time, Minister, you said that the main areas of concern identified were the need to develop a clear vision for Anglesey, the need to reinforce the corporate centre, the need to revamp the standards committee and, finally, the need to support members in gaining a better understanding of their scrutiny function.

As a result of that, the recovery board was established, and we welcome that development. It is a cause of concern to me that some elected members remain unwilling to change their ways, because if there is one salient message in the auditor general's

honno yw bod angen newid agweddau. Mae'n amlwg bod yr arweinyddiaeth wleidyddol a'r gweithredu corfforaethol ar yr ynys yn wan.

Mae hyn oll yn fater difrifol, fel y mae pawb wedi cytuno. Yr ydych yn sôn yn eich datganiad am arweinyddiaeth wleidyddol a strategol wael. Yr ydym yn dymuno'r gorau i'r bwrdd adfer o ran y gweithredu, ond nodaf gyda phryder fod rhywrai yn amharod i newid. Felly, pa sancsiynau ychwanegol y bydd y Gweinidog yn eu hystyried os na ddaw tro ar fyd yn Ynys Môn ac os na fydd pethau'n newid?

A fyddai modd cael manylion yr asesiadau y bydd y bwrdd adfer yn eu defnyddio i ddod i'w gasgliad o ran y ffordd ymlaen? Pa asesiadau y bydd y bwrdd yn eu gwneud i benderfynu a yw'r gweithredoedd yn Ynys Môn yn gwella ai peidio?

**Brian Gibbons:** Thank you very much, Dai, for your support and that of your party. You are right to say that the deputy leader of the Isle of Anglesey County Council, Bob Parry, has been extremely supportive of the work that we have had to do to support the recovery process. I pay tribute to him and to Clive McGregor, the leader. Both are firmly committed to this process and have indicated that they are willing to take the tough decisions that will be needed if we are to drive this process forward.

As you may have noticed in my response to Darren, the points that you raised on the auditor general's report are key areas already being picked up by either the recovery board or the new managing director. Those four or five crucial points are areas for priority action. When I met the leader and managing director at the council's offices two or three weeks ago, they indicated that they were making progress on those areas. At that meeting, they also reported that the fact that the recovery board had commented on the behaviour as it did indicated to many of the members and the local authority that the board was scrutinising their activities in a well-informed and authoritative way. The fact that the recovery board and Elan Closs Stephens's initial report highlighted that had had a salutary effect on the elected members.

report, it is that attitudes need to change. It is obvious that the political leadership and corporate governance on the island are weak.

This is a serious matter, as everyone agrees. You mention in your statement the poor political and strategic leadership. We wish the recovery board well in the actions that it is taking, but I note with concern that some remain unwilling to change. Therefore, what additional sanctions will the Minister consider if there is no change of heart in Anglesey and if things do not change?

Would it be possible to have details of the assessments which the recovery board will use to decide the way forward? Which assessments will the board undertake to determine whether the situation in Anglesey is improving or not?

**Brian Gibbons:** Diolch yn fawr iawn, Dai, am eich cefnogaeth a chefnogaeth eich plaid. Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod dirprwy arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn, Bob Parry, wedi bod yn hynod gefnogol i'r gwaith yr ydym wedi gorfod ei wneud i gynorthwyo'r broses adfer. Yr wyf yn rhoi teyrnged iddo ef ac i Clive McGregor, yr arweinydd. Mae'r ddau wedi ymrwymo'n gadarn i'r broses hon, ac wedi dangos eu bod yn barod i wneud y penderfyniadau anodd y bydd eu hangen os ydym am yrru'r broses hon ymlaen.

Efallai ichi sylwi yn fy ymateb i Darren fod y pwyntiau a godwyd gennych ynghylch adroddiad yr archwilydd cyffredinol yn feysydd allweddol y mae'r bwrdd adfer neu'r rheolwr gyfarwyddwr newydd esioes yn edrych arnynt. Mae'r pedwar neu'r pum pwynt hanfodol hynny'n feysydd ar gyfer camau gweithredu a gaiff flaenoriaeth. Pan gyfarfûm â'r arweinydd a'r rheolwr gyfarwyddwr yn swyddfeydd y cyngor bythefnos neu dair wythnos yn ôl, awgryment eu bod yn gwneud cynnydd yn y meysydd hynny. Yn y cyfarfod hwnnw, dywedasant hefyd fod y ffaith fod y bwrdd adfer wedi gwneud sylwadau fel y gwnaeth am ymddygiad yn dangos i lawer o'r aelodau a'r awdurdod lleol fod y bwrdd yn craffu ar eu gweithgareddau mewn modd hyddysg ac awdurdodol. Yr oedd y ffaith fod adroddiad

If that had not been included in the report, it might have been a signal that the bad behaviours of the past would be acceptable in the future.

I have written to the authority's leader, Clive McGregor, to point out that I fully support Elan Closs Stephens's recommendation and to state that I must be willing to extend the direction that I have issued should that be needed. Let there be no ambiguity about that. If the authority is not shaping up and is not making progress, we will have to take action, because, ultimately, we are not talking about the council as a corporate entity; we are talking about the citizens of Anglesey. They are faced with formidable problems, and their council has a big task to give leadership and hope to the people of that island given the difficult challenges ahead.

**Peter Black:** Thank you for your statement, Minister. As you know, when this intervention board was set up, the Welsh Liberal Democrats fully supported your actions. We considered them necessary to improve the political and corporate leadership of the council, to raise standards and scrutiny levels in the council, and to make it more effective. We do not depart from that view now. In fact, the recovery board's report underlines the need for that process to continue.

However, we also have to recognise the context of the politics of the island, given its strong independent tradition and particularly the fact that all councillors have been elected by voters. It may well be that their view that they are representing their particular ward lies at the heart of some of the behaviours exhibited. If we are to better control the behaviour of councillors, the standards regime needs to be strengthened at an early stage. Councillors need to be made aware of the code of conduct, and the code must be robust and properly enforced. That seems to be the most appropriate way of dealing with misbehaviour on the council, rather than having you, Minister, taking further action

cychwynnol y bwrdd adfer ac Elan Closs Stephens wedi tynnu sylw at hynny wedi cael effaith lesol ar yr aelodau etholedig. Pe na bai hynny wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, gallasai fod yn arwydd y byddai ymddygiad gwael y gorffennol yn dderbyniol yn y dyfodol.

Yr wyf wedi ysgrifennu at arweinydd yr awdurdod, Clive McGregor, i nodi fy mod yn cefnogi argymhelliad Elan Closs Stephens yn llwyr, ac i ddweud ei bod yn rhaid inni fod yn barod i ymestyn y cyfarwyddyd yr wyf wedi'i roi os bydd angen hynny. Na foed dim amwysedd ynghylch hynny. Os na fydd yr awdurdod yn rhoi trefn ar bethau ac yn gwneud cynnydd, bydd yn rhaid inni weithredu oherwydd, yn y pen draw, nid sôn yr ydym am y cyngor fel endid corfforaethol: sôn yr ydym am ddinasyddion Ynys Môn. Mae problemau enbyd yn eu hwynebu, ac y mae gan eu cyngor dasg enfawr o roi arweiniad a gobaith i bobl yr ynys honno gan gofio'r heriau anodd sydd i ddod.

**Peter Black:** Diolch am eich datganiad, Weinidog. Fel y gwyddoch, pan sefydlwyd y bwrdd ymyrryd hwn yr oedd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi eich gweithredoedd yn llwyr. Yr oeddem yn eu hystyried yn ofynnol i wella arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol y cyngor, codi safonau a lefelau craffu yn y cyngor, a'i wneud yn fwy effeithiol. Nid yw ein safbwynt yn wahanol yn awr. Mewn gwirionedd, mae adroddiad y bwrdd adfer yn pwysleisio bod angen i'r broses honno barhau.

Fodd bynnag, mae angen hefyd inni gydnabod cyd-destun gwleidyddiaeth yr ynys, o gofio'i thraddodiad annibynnol cryf, ac yn enwedig y ffaith fod yr holl gynghorwyr wedi'u hethol gan bleidleiswyr. Mae'n bosibl fod barn y cynghorwyr eu bod yn cynrychioli eu ward benodol hwy wrth wraidd rhywfaint o'r ymddygiad a ddangoswyd. Os ydym i reoli ymddygiad cynghorwyr yn well, mae angen cryfhau'r drefn safonau yn gynnar. Mae angen sicrhau bod cynghorwyr yn ymwybodol o'r cod ymddygiad, a rhaid i'r cod fod yn gadarn a chael ei orfodi'n briodol. Ymddengys mai dyna'r ffordd fwyaf priodol i ymdrin â chamymddwyn ar y cyngor, yn hytrach na'ch

here in Cardiff because councillors are not acting as you, the recovery board, and the vast majority of Members in the Chamber feel they should be.

Therefore, as part of this, I hope that we can find a balanced approach to dealing with these problems. There needs to be a stronger emphasis on the corporate leadership, on how the council is run, and of course on the level of scrutiny, which is very important if it is to deliver a better service.

3.30 p.m.

We also need to reflect on what you said about the problems that the island is facing and how the council needs to respond to that. However, the balance must also be about taking account of the local democratic mandate that various councillors have and ensuring that they are working within an appropriate standards regime, which will, in turn, ensure that they are able to deliver for the voters who have put them there. I would be grateful if you could acknowledge that this is your way forward.

**Brian Gibbons:** Yes, very much so. Again, I am very grateful for the Liberal Democrats' support and for your personal support. Before I deal with that, I will deal with Dai's question in relation to the information being in the public domain. In addressing the questions that you want answered, the fact that the information is in the public domain is important. All the reports of the chair of the recovery board will be sent to me following each meeting and we expect that they will then be put into the public domain. We have established a web page on the Assembly Government website, by which this information will be available. That addresses Peter's point and Dai's earlier point, and hopefully there will be good transparency in this process.

Peter raises an interesting point that there is a strong tradition of independent political representation on the island of Anglesey, but having said that, there are other parts of Wales where independent representation is also the norm, but they do not have the same

bod chi, Weinidog, yn cymryd camau pellach yma yng Nghaerdydd am nad yw'r cynghorwyr yn gweithredu fel yr ydych chi, y bwrdd adfer, a mwyafrif helaeth yr Aelodau yn y Siambr, yn teimlo y dylent.

Felly, fel rhan o hynny, gobeithio y gallwn ddod o hyd i ddull cytbwys o ymdrin â'r problemau hyn. Mae angen cael pwyslais cryfach ar yr arweinyddiaeth gorfforaethol, ar y ffordd y caiff y cyngor ei redeg, ac wrth gwrs ar lefel y craffu, sy'n bwysig iawn os yw am ddarparu gwasanaeth gwell.

Mae angen hefyd inni fyfyrion am yr hyn a ddywedwyd gennych am y problemau sy'n wynebu'r ynys, a sut mae angen i'r cyngor ymateb i hynny. Fodd bynnag, rhaid i'r cydbwysedd ymwneud hefyd ag ystyried y mandad democrataidd lleol sydd gan amryw iol gynghorwyr, a sicrhau eu bod yn gweithio o fewn trefn safonau briodol, a fydd yn ei thro yn sicrhau eu bod yn gallu sicrhau canlyniadau ar gyfer y pleidleiswyr sydd wedi'u hethol i'r cyngor. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gydnabod mai hon yw eich ffordd ymlaen.

**Brian Gibbons:** Ie, yn wir. Unwaith eto, yr wyf yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol ac am eich cefnogaeth bersonol. Cyn imi ymdrin â hynny, hoffwn ymdrin â chwestiwn Dai, sef a fydd y wybodaeth yn wybodaeth gyhoeddus. Wrth roi sylw i'r cwestiynau yr ydych am gael atebion iddynt, mae'r ffaith fod y wybodaeth yn wybodaeth gyhoeddus yn bwysig. Bydd holl adroddiadau cadeirydd y bwrdd adfer yn cael eu hanfon ataf fi ar ôl pob cyfarfod, a disgwyliwn y byddant ar gael i'r cyhoedd wedi hynny. Yr ydym wedi creu tudalen ar wefan Llywodraeth y Cynulliad lle bydd y wybodaeth hon ar gael. Mae hynny'n mynd i'r afael â phwynt Peter a phwynt Dai yn gynharach, a gobeithio y bydd lefel dda o eglurder yn y broses hon.

Cododd Peter bwynt diddorol, sef bod traddodiad cryf o gynrychiolaeth wleidyddol annibynnol ar Ynys Môn. Ond wedi dweud hynny, mae cynrychiolaeth annibynnol yn arferol mewn rhannau eraill o Gymru hefyd, ond nid oes ganddynt hwy'r un ystod o



range of problems. Therefore, I do not think that the independent political representation tradition, in itself, is a justification in any way for some of the behaviour that has occurred on the island. However, that is a valid observation, and John Davies, the leader of the Welsh Local Government Association, who is an independent member himself, and leads an independent administration in Pembrokeshire, will be able to provide particular insights into a local authority that has independent leadership, as opposed to the traditional party-political structure. Individuals have a ward mandate, without doubt, but we need to remember that the auditor general said that the politics of Anglesey is too personal and too parochial, and that while elected members need to represent their constituents, equally, to represent their constituents effectively they need to take a corporate view of the challenges facing the island. Solely focusing on the personal, petty and parochial will not help Anglesey one bit, and at the end of the day, it will not help their constituents either.

There is a place for representing your electors, but, equally, there is a much bigger place, in the context of Anglesey, for looking at the wider picture. Standards need to improve, which is one of the reasons why I was very pleased to see that the recovery board will meet the vice chair of standards at the next board meeting. That is an important step forward. Equally, I cannot but agree that effective scrutiny is a key element of driving improvement on the island. Part of the culture in Anglesey is that it has not been possible to be critical and constructive without degenerating into the petty and the personal. One of the challenges for the elected members in Anglesey is to deliver constructive challenge and be part of the opposition, but not to deteriorate into the type of behaviour that the auditor general reported on. This change may be difficult for a small minority of councillors, and it is incumbent, therefore, on the majority of councillors to indicate to that minority that their behaviour is not acceptable. That is why I said in my statement that this is not just a responsibility of that minority; it must be the responsibility of each and every member.

broblemau. Felly, nid wyf yn credu bod y traddodiad o gynrychiolaeth wleidyddol annibynnol ynddo'i hun yn gyfiawnhad o gwbl dros rywfaint o'r ymddygiad sydd wedi digwydd ar yr ynys. Fodd bynnag, mae'n sylw dilys, a bydd John Davies, arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n aelod annibynnol ei hun ac sy'n arwain gweinyddiaeth annibynnol yn Sir Benfro, yn gallu rhannu dealltwriaeth benodol o awdurdod lleol sydd ag arweinyddiaeth annibynnol, yn hytrach na'r strwythur traddodiadol yn seiliedig ar bleidiau gwleidyddol. Mae gan unigolion fadad ward, heb os, ond y mae angen inni gofio bod yr archwilydd cyffredinol wedi dweud bod gwleidyddiaeth Ynys Môn yn rhy bersonol ac yn rhy blwyfol, ac er bod angen i aelodau etholedig gynrychioli eu hetholwyr, i'r un graddau mae angen iddynt edrych yn gorfforaethol ar yr heriau sy'n wynebu'r ynys, er mwyn cynrychioli eu hetholwyr yn effeithiol. Ni fydd canolbwyntio ar faterion personol, dibwys a phlwyfol yn unig yn helpu Ynys Môn o gwbl, ac yn y pen draw ni fydd yn helpu eu hetholwyr ychwaith.

Mae lle i gynrychioli eich etholwyr, ond yn yr un modd mae lle mwy o lawer, yng nghyd-destun Ynys Môn, i edrych ar y darlun ehangach. Mae angen i safonau wella, sef un o'r rhesymau pam yr oeddwn yn falch iawn gweld y bydd y bwrdd adfer yn cyfarfod â'r is-gadeirydd safonau yng nghyfarfod nesaf y bwrdd. Mae hynny'n gam pwysig ymlaen. Yn yr un modd, ni allaf ond cytuno bod gwaith craffu effeithiol yn elfen allweddol wrth sbarduno gwelliant ar yr ynys. Rhan o'r diwylliant yn Ynys Môn yw'r ffaith na fu'n bosibl bod yn feirniadol ac yn adeiladol heb ymostwng i lefel materion pitw a phersonol. Un o'r heriau i'r aelodau etholedig yn Ynys Môn yw cyflwyno her adeiladol a bod yn rhan o'r wrthblaid, ond peidio ag ymostwng i'r math o ymddygiad yr adroddodd yr archwilydd cyffredinol amdano. Efallai y bydd y newid hwn yn anodd i leiafrif bach o gynghorwyr, ac y mae'n ddyletswydd ar y mwyafrif o'r cynghorwyr, felly, i ddangos i'r lleiafrif hwnnw nad yw e ymddygiad yn dderbyniol. Dyna pam y dywedais yn fy natganiad nad cyfrifoldeb y lleiafrif hwnnw'n unig yw hyn: rhaid iddo fod yn gyfrifoldeb i bob aelod yn unigol.

**Mark Isherwood:** I welcome your comments about independent members, noting that almost all local authorities in north Wales have independents in their leadership groups, including a number who are council leaders. Not one of them is subject to the sorts of problems that we are discussing today, or certainly not that I am aware of.

I wrote to you a few months ago after a tax adviser had alleged that his client had been the victim of a fraud. He alleged that grant money was being misappropriated by persons administering the grant schemes within the council. The Deputy Minister, Leighton Andrews, responded on your behalf, saying—

**The Presiding Officer:** Order. Is this to do with the issue that is before us today? It seems to relate to a detailed administrative decision by the council, and if there are allegations of fraud involved, there may be criminal proceedings pending. I am not aware of the situation and I would not want us to get into a sub judice situation on this.

**Mark Isherwood:** I suspect that the comments that I was about to make would not be sub judice. I am not aware of this matter being involved in a court of law at the present time.

**The Presiding Officer:** This is the difficulty with these issues. I have to have notice of such issues before I can properly determine them. I understand that the matter before us today is not the detailed administration of the council, but the work of the recovery board. I would like the Minister to be questioned appropriately on those matters, so that he can respond.

**Mark Isherwood:** All I would ask, therefore, is: will he assure us that the work of the recovery board will be vigorous in investigating all matters and ensuring that, where matters arise, they will be exposed and acted upon?

**Brian Gibbons:** Yes. It is important that due diligence is exercised in the recovery board. However, there is a pervasive culture that,

**Mark Isherwood:** Croesawaf eich sylwadau am aelodau annibynnol, a sylwaf fod gan bron pob awdurdod lleol yn y gogledd aelodau annibynnol yn eu grwpiau arwain, ac y mae nifer ohonynt yn arweinwyr cynghorau. Nid oes yr un o'r cynghorau hynny wedi cael y mathau o broblemau yr ydym yn eu trafod heddiw, yn sicr hyd y gwn i.

Ysgrifennais atoch rai misoedd yn ôl wedi i ymgynghorydd treth honni bod ei gleient wedi dioddef twyll. Honnodd fod arian grant yn cael ei gamddefnyddio gan bobl a oedd yn gweinyddu'r cynlluniau grant yn y cyngor. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog, Leighton Andrews, ar eich rhan, gan ddweud—

**Y Llywydd:** Trefn. A yw hyn yn ymwneud â'r mater sydd ger ein bron heddiw? Ymddengys ei fod yn ymwneud â phenderfyniad gweinyddol manwl gan y cyngor, ac os oes honiadau o dwyll ynghlwm wrtho, gall achosion troseddol fod ar droed. Nid wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa, ac ni fyddwn am inni fynd i sefyllfa sy'n fater o gyfraith.

**Mark Isherwood:** Yr wyf yn amau na fyddai'r sylwadau yr oeddwn ar fin eu gwneud yn fater o gyfraith. Nid wyf yn ymwybodol fod y mater hwn yn cael ei drafod mewn llys barn ar hyn o bryd.

**Y Llywydd:** Dyna'r anhawster gyda'r materion hyn. Rhaid imi gael rhybudd am faterion o'r fath cyn y gallaf benderfynu'n iawn yn eu cylch. Yr wyf ar ddeall mai'r mater sydd o'n blaenau heddiw yw gwaith y bwrdd adfer, nid gweinyddiaeth fanwl y cyngor. Hoffwn i'r Gweinidog gael ei holi'n briodol am y materion hynny, fel y gall ymateb.

**Mark Isherwood:** Y cyfan a ofynnaf, felly, yw hyn: a wnaiff ef roi sicrwydd inni y bydd y bwrdd adfer yn ymchwilio i bob mater yn rymus gan sicrhau y bydd materion yn cael eu datgelu, lle byddant yn codi, ac y cymerir camau gweithredu yn eu cylch?

**Brian Gibbons:** Gwnaf. Mae'n bwysig fod diwydrwydd dyladwy ar waith yn y bwrdd adfer. Fodd bynnag, pan na fydd materion

where particular issues are not resolved to individual members' satisfaction, the ready resort to either the ombudsman or procedures like that, or even writing to Ministers of the Assembly Government, seem to be common practice. That is part of the problem. Elected members on the island of Anglesey have to be able to recognise that it is possible to disagree and to be critical, but that you have to be able to do so within a constructive overall framework. The fact that you do not win the day or win the argument is not an excuse for it to result in a personal conflict or in seeking to involve outside agencies if you do not get your own way.

As the Presiding Officer has indicated, I am not in a position to make any comment about individual cases. However, I think that some of the individual cases that go to the ombudsman or come to me, as Minister, are more of a symptom of the dysfunctional political culture on the island, rather than a healthy sign of concern for due diligence. While we need to make sure that due diligence is adhered to, I think that some of the issues that we find ourselves involved in are just symptoms of bad practice. Hopefully, as recovery takes place, there will be less and less need to involve outside agencies, and the local authority and its elected members will be able to more effectively address the issues themselves.

penodol yn cael eu datrys mewn ffordd sydd wrth fodd aelodau unigol, mae troi ar unwaith at yr ombwdsmon neu weithdrefnau felly, neu hyd yn oed ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad, i'w gweld yn arfer cyffredin. Mae hynny'n rhan o'r broblem. Rhaid i aelodau etholedig Ynys Môn allu cydnabod ei bod yn bosibl anghytuno a bod yn feirniadol, ond ei bod yn rhaid ichi allu gwneud hynny o fewn fframwaith cyffredinol adeiladol. Nid yw'r ffaith nad ydych yn ennill y dydd neu'n ennill y ddadl yn esgus dros wrthdaro personol neu geisio cynnwys asiantaethau allanol os na fyddwch yn cael eich ffordd.

Fel y mae'r Llywydd wedi ei ddweud, nid wyf mewn sefyllfa i wneud dim sylw am achosion unigol. Fodd bynnag, yr wyf yn credu bod rhai o'r achosion unigol sy'n mynd at yr ombwdsmon neu'n dod ataf fi, fel Gweinidog, yn fwy o symptom o'r diwylliant gwleidyddol camweithredol ar yr ynys, yn hytrach nag arwydd iach o bryder am ddiwydrwydd dyladwy. Er bod angen inni wneud yn siŵr ein bod yn cadw at ddiwydrwydd dyladwy, credaf fod rhai o'r materion yr ydym yn cael ein tynnu i mewn iddynt yn ddim mwy na symptomau o arfer gwael. Gobeithio, wrth i'r broses adfer ddigwydd, y bydd llai a llai o angen cynnwys asiantaethau allanol, ac y bydd yr awdurdod lleol a'i aelodau etholedig yn gallu mynd i'r afael â'r problemau'n fwy effeithiol eu hunain.

### **Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2008/09 The Public Services Ombudsman for Wales's Annual Report 2008/09**

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 7.61(vii):*

*notes the Public Services Ombudsman for Wales's annual report 2008/09, which was laid in the Table Office on 23 June 2009. (NDM4320)*

The Assembly is asked today to not the Public Services Ombudsman for Wales's

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.61(vii):*

*yn nodi adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2008/09, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mehefin 2009. (NDM4320)*

Heddiw, gofynnir i'r Cynulliad nodi adroddiad blynyddol Ombwdsmon

annual report for 2008-09. The Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005, which received Royal Assent in April 2005, came into force the following year. As we know, the Act provided for a unified ombudsman service in Wales, bringing together the offices of the former Commissioner for Local Administration in Wales, the Health Service Commissioner for Wales, the Social Housing Ombudsman for Wales and the Welsh Administration Ombudsman.

This is the third unified annual report to be published by the Public Services Ombudsman for Wales. It is, however, the first annual report to be published by Peter Tyndall, who took up post in April 2008 following Adam Peat's retirement. As he acknowledges in the annual report, the service that he has taken on was already well established and effective. I am confident that we can look to Peter to further enhance this service and that we will continue to learn from his invaluable advice and recommendations, which will, in turn, contribute to the Assembly Government's priority of raising standards in public services.

3.40 p.m.

Of course, the ombudsman's role is not confined to investigating complaints about listed authorities under his jurisdiction. He attaches great importance to learning and sharing lessons from complaints to enable public bodies to improve their services and their response to citizens' complaints. Indeed, the ombudsman contributed to the development of complementary sets of guidance that seek to do just that: the 'Principles of Good Administration', the 'Principles for Remedy' and the 'Guidance to Local Authorities on Complaints Handling'.

I also pay tribute to the contribution that Peter has made during the past year to the work that I started and was undertaken by the Welsh Assembly Government in looking at complaints handling: first, as a member of the Assembly Government's Putting Things Right project, which looked at how the NHS in Wales investigates things that have gone wrong and made recommendations for

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2008-09. Daeth Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2005, i rym y flwyddyn ganlynol. Fel y gwyddom, darparodd y Ddeddf fod gennym wasanaeth ombwdsmon unedig yng Nghymru, gan dynnu ynghyd swyddi'r cyn-Gomisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol unedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei gyhoeddi. Fodd bynnag, hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf i'w gyhoeddi gan Peter Tyndall, a ddechreuodd yn y swydd ym mis Ebrill 2008 yn dilyn ymddeoliad Adam Peat. Fel y mae'n ei gydnabod yn yr adroddiad blynyddol, yr oedd y gwasanaeth y mae wedi ei arwain eisoes wedi'i hen sefydlu ac yn effeithiol. Yr wyf yn hyderus y gallwn ddibynnu ar Peter i wella'r gwasanaeth hwn ymhellach, ac y byddwn yn parhau i ddysgu o'i gyngor a'i argymhellion amhrisiadwy a fydd, yn eu tro, yn cyfrannu at flaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad o wella safonau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Wrth gwrs, nid ymchwilio i gwynion am awdurdodau rhestredig dan ei awdurdodaeth yw unig rôl yr ombwdsmon. Mae'n rhoi pwys mawr ar ddysgu a rhannu gwersi o gwynion i alluogi cyrff cyhoeddus i wella'u gwasanaethau a'u hymateb i gwynion gan ddinasyddion. Yn wir, cyfrannodd yr ombwdsmon at ddatblygu cyfres o ganllawiau atodol sy'n ceisio gwneud yr union beth hwnnw: sef 'Egwyddorion Gweinyddu Da', 'Egwyddorion Unioni Cam' a'r 'Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddelio â Chwynion'.

Yr wyf am roi roi teyrnged hefyd i'r cyfraniad y mae Peter wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'r gwaith a ddechreuwyd gennyf i a'i wneud gan Lywodraeth y Cynulliad wrth ymdrin â chwynion: yn gyntaf, fel aelod o brosiect Llywodraeth y Cynulliad, Gweithio i Wella, a oedd yn ystyried sut mae'r GIG yng Nghymru'n ymchwilio i bethau sydd wedi

revised arrangements—this work was instigated by the Minister for Health; and secondly, for contributing to, and leading on, the development of a common complaints handling process. The ombudsman has been engaged with public bodies across Wales to bring greater consistency to the management of complaints across a wide range of key public services. This is something that I feel strongly about, because many service users and citizens find the various complaints processes and procedures complex. I strongly believe that a common, streamlined system would be to everyone's advantage—the complainant, the various public bodies, and those who work in public services, local services and the Assembly Government alike. The work is not yet finished, but progress is very encouraging.

Of particular significance is the ombudsman's proposal to introduce a new complaints, advice and signposting service, which will provide a national single point of entry to our citizens on how and when to complain. The ombudsman's proposal is consistent with the solution identified by my officials to improve people's access to complaints procedures based on research into citizens' experiences of current complaints arrangements. Those who take part voice strong support for a signposting service to help them over the first hurdle. I believe that the Finance Committee is looking at the funding for this proposed service as part of its consideration of the ombudsman's budget for the financial year 2010-11.

In a moment, I will share with you some of the statistics from the annual report. However, we must not be distracted by the numbers. The risk is that we could forget that, behind these statistics are individual citizens who have been compelled to access the ombudsman's service because they are dissatisfied with the service that they have received or the way in which they have been treated.

I will now turn to the statistics. How did public bodies fare at the hands of the

mynd o le, ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer trefniadau diwygiedig—y Gweinidog dros Iechyd a ysgogodd y gwaith hwn; ac yn ail, am gyfrannu at ddatblygu proses gyffredin ar gyfer ymdrin â chwynion, ac arwain y gwaith hwn. Mae'r ombudsman wedi bod yn ymwneud â chyrrff cyhoeddus ar draws Cymru i gael mwy o gysondeb wrth reoli cwynion ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus allweddol. Yr wyf yn teimlo'n gryf am y mater hwn, oherwydd mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion yn gweld bod yr holl wahanol brosesau a'r gweithdrefnau cwyno'n gymhleth. Yr wyf yn credu'n gryf y byddai cael system gyffredin a symlach o fudd i bawb—y sawl sy'n cwyno, yr amrywiol gyrff cyhoeddus a'r rheini sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethu lleol a Llywodraeth y Cynulliad. Nid yw'r gwaith wedi'i orffen eto, ond mae'r cynnydd yn galonogol iawn.

Mae cynnig yr ombudsmon i gyflwyno gwasanaeth newydd ar gyfer cwyno, cynnig cyngor a chyfeirio pobl ymlaen yn arbennig o bwysig, a bydd yn darparu un man cyswllt cenedlaethol i'n dinasyddion i'w cynghori ynghylch sut a phryd i gwyno. Mae cynnig yr ombudsmon yn gyson â'r ateb a nodwyd gan fy swyddogion i wella mynediad pobl i weithdrefnau cwyno'n seiliedig ar waith ymchwil i brofiadau dinasyddion o drefniadau cwyno presennol. Mae'r sawl sy'n cymryd rhan yn mynegi cefnogaeth gref i'r syniad o gael gwasanaeth cyfeirio i'w helpu i oresgyn y rhwystr cyntaf. Credaf fod y Pwyllgor Cyllid yn edrych ar ariannu'r gwasanaeth arfaethedig hwn wrth ystyried cyllideb yr ombudsmon am y flwyddyn ariannol 2010-11.

Ymhen munud byddaf yn rhoi ichi rai o'r ystadegau o'r adroddiad blynyddol. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â chanolbwyntio ar y rhifau'n unig. Mae perygl inni anghofio bod dinasyddion unigol y tu ôl i'r ystadegau hyn, sydd wedi gorfod defnyddio gwasanaeth yr ombudsmon oherwydd eu bod yn anfodlon â'r gwasanaeth y maent wedi'i gael neu'r modd y maent wedi eu trin.

Trof yn awr at yr ystadegau. Sut daeth cyrff cyhoeddus yn eu blaen yn ôl yr ombudsmon

ombudsman during the annual report period of April 2008 to the end of March 2009? The ombudsman's office received a total of 1,501 new complaints. This compares with a reported total of 1,420 new complaints in the previous year. This is an overall increase of 6 per cent, compared to the 10 per cent increase the office has reported every year since the ombudsman's office was established in 2006. The ombudsman has reported, however, that the first six months of this period saw an increase of 29 per cent compared with the same period in the previous year. This is thought to be a result of the publicity that the services received following Peter Tyndall's appointment and the high level of media attention that a number of health investigation reports, in particular, received at around the same time. This upward trend in the number who accessed the ombudsman's service may well be due to an increase in people's awareness of the existence of his service rather than the deterioration in services, but we can never be complacent about this assumption.

During the reporting period, the ombudsman considered a total of 1,952 complaints, some of which had been carried over from the previous year. Seventy-three of these complaints were in respect of the Assembly Government and Assembly Government sponsored bodies. That was a slight increase on the 71 complaints made in the previous year. Of the 73 complaints received with regard to us as a Government or to our sponsored bodies, a total of eight complaints were investigated during this period, compared with 12 last year. Of the eight investigations, six complaints were upheld, compared with eight of the 12 made the previous year.

As a Government, we highly value the feedback from the ombudsman's investigations, and place great importance on the report's findings and recommendations. We will continue to work closely with the ombudsman's office to ensure that we are capitalising on the information that his reports and guidance provide us with.

In the present economic climate, we must

yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad blynyddol, sef mis Ebrill 2008 i ddiwedd mis Mawrth 2009? Daeth cyfanswm o 1,501 o gwynion newydd i law swyddfa'r ombwdsmon. Mae hynny'n cymharu â chyfanswm o 1,420 o gwynion newydd yr adroddwyd yn eu cylch yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gynydd cyffredinol o 6 y cant, o'i gymharu â'r cynnydd o 10 y cant y mae'r swyddfa wedi adrodd yn ei gylch bob blwyddyn ers sefydlu swyddfa'r ombwdsmon yn 2006. Mae'r ombwdsmon wedi nodi, fodd bynnag, fod cynnydd o 29 y cant yn chwe mis cyntaf y cyfnod hwn o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Credir bod hyn o ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd a gafodd y gwasanaethau yn dilyn penodi Peter Tyndall, a'r sylw mawr gan y cyfryngau i nifer o adroddiadau ymchwilio ym maes iechyd, yn enwedig, tua'r un adeg. Mae'n ddigon posibl mai'r hyn sydd i gyfrif am y cynnydd hwn yn y nifer a ddefnyddiodd wasanaeth yr ombwdsmon yw'r ffaith fod pobl yn fwy ymwybodol o fodolaeth y gwasanaeth, yn hytrach na bod gwasanaethau'n gwaethygu, ond ni allwn fyth fod yn hunanfodlon a chymryd hyn yn ganiataol.

Yn ystod y cyfnod yr adroddiad, ystyriodd yr ombwdsmon gyfanswm o 1,952 o gwynion, rai ohonynt wedi'u dwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Yr oedd 73 o'r cwynion hyn yn ymwneud â Llywodraeth y Cynulliad a chyrff a noddur gan Lywodraeth y Cynulliad. Yr oedd hynny'n gynydd bach ers y 71 o gwynion a wnaed yn y flwyddyn flaenorol. O'r 73 o gwynion a ddaeth i law amdanom ni fel Llywodraeth neu'r cyrff a noddur gennym, ymchwiliwyd i gyfanswm o wyth o gwynion yn ystod y cyfnod hwn, o'u cymharu â 12 o gwynion y llynedd. O'r wyth ymchwiliad, cafodd chwech o'r cwynion eu cadarnhau, o'u cymharu ag wyth o'r 12 a wnaed y flwyddyn flaenorol.

Yr ydym ni fel Llywodraeth yn gwerthfawrogi'n fawr iawn yr adborth o ymchwiliadau'r ombwdsmon, a rhown gryn bwys ar ddarganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda swyddfa'r ombwdsmon i sicrhau ein bod yn manteisio ar y wybodaeth y mae ei adroddiadau a'i arweiniad yn ei rhoi inni.

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni,

concentrate more than ever on efficiency and value for money, but this does not mean that we should turn our backs on putting citizens at the centre of everything that we do, which is a core principle in the Welsh public service. In fact, tighter public spending means that we should be making our services even more citizen-centred than previously. We should be focusing on getting things right the first time, which, in turn, will reduce the cost of putting things right afterwards.

**Nick Ramsay:** I welcome the report and the Minister's comments regarding the public services ombudsman's work over the past year, and the hard work that has been carried out by Peter in that office. To touch on a few things that the Minister drew out from the report, there is general consensus that combining the different ombudsmen roles into a single ombudsman role has delivered a number of benefits over the last year. As we are currently in recession and in challenging economic times, it is to be expected that the number of complaints about public services in Wales would rise. We are up against that old quandary: has there been an increase in dissatisfaction with services, or is the increase in complaints because people know to whom to complain and are more willing to complain? As the Minister said, it is probably a mixture of both, but I think that the increase in people's readiness to complain has certainly contributed to the increase in the statistics that he spoke about.

It is important that the public has an understanding of this office. It is still relatively early days in the grand scheme of things, and one would forgive members of the public for not being entirely sure whom they should see in relation to individual complaints, so I welcome the Minister's comments about making information available to people so that they know where to go. I would think that all of us as Assembly Members have been approached by members of the public about this, and I certainly have referred people on to the public services ombudsman.

rhaid inni ganolbwyntio'n fwy nag erioed ar effeithlonrwydd a gwerth yr arian, ond nid yw hyn yn golygu y dylem gefnu ar yr egwyddor o osod dinasyddion yng nghanol popeth a wnawn, sy'n un o egwyddorion creiddiol gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Yn wir, y mae cyfyngu gwariant cyhoeddus yn golygu y dylem fod yn sicrhau bod dinasyddion yn fwy canolog i'n gwasanaethau nag o'r blaen. Dylem fod yn canolbwyntio ar wneud pethau'n iawn y tro cyntaf, a fydd yn ei dro yn lleihau'r gost o roi pethau'n iawn wedyn.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn croesawu'r adroddiad a sylwadau'r Gweinidog ar y gwaith y mae'r ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r gwaith caled a wnaed gan Peter yn y swydd honno. I gyfeirio at rai pethau y tynnodd y Gweinidog sylw atynt yn yr adroddiad, mae yna gonsensws cyffredinol fod cyfuno swyddogaethau'r gwahanol ombwdsmyrn mewn un swydd ombwdsmon wedi sicrhau nifer o fanteision dros y flwyddyn ddiwethaf. Gan ein bod yng nghanol dirwasgiad ar hyn o bryd ac mewn adeg heriol yn economaidd, gellid disgwyl i nifer y cwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru godi. Yr ydym yn wynebu'r hen benbleth honno: a yw nifer y cwynion wedi cynyddu oherwydd bod pobl yn fwy anfodlon â'r gwasanaethau ynteu oherwydd bod pobl yn gwybod wrth bwy y dylent gwyn a'u bod yn fwy parod i gwyno? Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n debyg ei fod yn gyfuniad o'r ddau beth, ond credaf fod y cynnydd ym mharodrwydd pobl i gwyno yn sicr wedi cyfrannu at y cynnydd yn yr ystadegau y soniodd amdanynt.

Mae'n bwysig i'r cyhoedd ddeall y swydd hon. Mae'n dal yn eithaf cynnar mewn gwirionedd, a gellid maddau i'r cyhoedd am beidio â bod yn gwbl siŵr at bwy y dylent droi i wneud cwynion unigol, felly, yr wyf yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ynghylch sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bobl er mwyn iddynt wybod at bwy i droi. Byddwn yn tybio ein bod bob un, fel Aelodau Cynulliad, wedi cael cwestiynau am hyn gan y cyhoedd, ac yr wyf fi'n sicr wedi cyfeirio pobl at yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus.

In terms of the economic situation, which I touched on earlier, there is a need at this time to be efficient and to encourage efficiency across all departments, and I agree with the Minister that the ombudsman should also be efficient. Delivering the Beecham objectives at this time is obviously difficult, but if the Beecham review cannot be tested and is not durable at an economically challenging time, what is the point of it? If it did well in the good times, it also has to do well now.

There is no reason to be complacent, as the Minister said. The report reflects that people are more willing to complain, but there are also complaints to be made. It will be interesting to see next year, and over the medium and longer term, how the statistics will pan out. Will the Minister give a commitment to monitor the situation over the next year, and explain in more detail how he intends to evaluate the role of the ombudsman through the recession into economically better times, and how that office performs over the medium term? I would welcome the Minister's comments on that.

3.50 p.m.

**Chris Franks:** I also congratulate the team on its hard work. It has resolved a high number of cases that were presented to the ombudsman, despite an increase in the number of complaints. However, there is concern that the highest proportion of complaints relate to health, in particular continuing healthcare funding by the former local health boards. We remain convinced that, yet again, county councils and county borough councils are the source of by far the majority of complaints. We note that housing and antisocial behaviour is still an unfortunate and prominent feature in complaints. There was an increase in the level of complaints that the ombudsman received last year, which was previously explained as the result of members of the public becoming aware of the role of the ombudsman, but should that not have stabilised by now in terms of the levels of

O ran y sefyllfa economaidd, y soniais ychydig amdani'n gynharach, ar adeg fel hon mae angen inni fod yn effeithlon ac annog effeithlonrwydd ar draws pob adran, a chytunaf â'r Gweinidog y dylai'r ombwdsmon fod yn effeithlon hefyd. Mae'n amlwg fod cyflawni amcanion Beecham yn anodd ar adeg fel hon, ond os na ellir rhoi prawf ar adolygiad Beecham ac os nad yw'n gadarn ar adeg heriol yn economaidd, beth yw ei ddiben? Os oedd yn gweithio'n iawn yn y dyddiau da, rhaid iddo hefyd weithio'n dda yn awr.

Fel y dywedodd y Gweinidog, nid oes rheswm dros fod yn hunan-fodlon. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r ffaith fod pobl yn fwy parod i gwyno, ond mae yna hefyd gwynion i'w gwneud. Bydd yn ddiddorol gweld beth fydd yr ystadegau'n ei ddangos flwyddyn nesaf, a thros y tymor canolig a'r tymor hwy. A wnaiff y Gweinidog roi ymrwymiad i fonitro'r sefyllfa dros y flwyddyn nesaf, ac esbonio'n fanylach sut mae'n bwriadu gwerthuso rôl yr ombwdsmon trwy'r dirwasgiad ac i mewn i gyfnodau gwell yn economaidd, a sut mae'r swydd honno'n perfformio dros y tymor canolig? Byddwn yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ar hynny.

**Chris Franks:** Yr wyf fi hefyd yn llongyfarch y tîm ar ei waith caled. Mae wedi datrys cyfran uchel o achosion a gyflwynwyd i'r ombwdsmon, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y cwynion. Fodd bynnag, mae yna bryder fod y gyfran uchaf o gwynion yn ymwneud ag iechyd, yn enwedig ariannu gofal iechyd parhaus gan yr hen fyrdau iechyd lleol. Yr ydym yn dal wedi ein hargyhoeddi mai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yw ffynhonnell mwyafrif llethol y cwynion o bell ffordd unwaith eto. Sylwn fod tai ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dal yn nodwedd anffodus ac amlwg yn y cwynion. Cafwyd cynnydd yn lefel y cwynion a ddaeth i law'r ombwdsmon y llynedd, ac esboniwyd gynt fod hynny am fod y cyhoedd yn dod yn ymwybodol o rôl yr ombwdsmon. Ond oni ddylai hynny fod wedi sefydlogi erbyn hyn o ran lefelau'r cwynion y mae'r ombwdsmon



complaints that the ombudsman has received? As the greatest proportion of complaints relates to county councils, should we be concerned that this reflects on the delivery of public services? I consider most public services that we provide to be something to be proud of, but these figures show that we must not be complacent.

It is also of concern that there is an increase in the public interest reports issued; most of these related to delays in consideration of reviews of applications for continuing healthcare by the former local health boards. It would be interesting to hear a comment on that. The ombudsman is reported to have met Assembly Government officials to try to find a solution. It would be appreciated if we could have a progress report on that particular matter.

**Michael German:** I will start by echoing the last sentence of the ombudsman's introduction to his report, in which he congratulates his predecessor, Adam Peat. I add my congratulations to Adam Peat, particularly for the honour that was awarded to him, because he did a singularly brilliant job in public service in Wales, as has been recognised.

We also welcome this report, as it clearly demonstrates a commitment to openness and transparency in government, which are the bywords of good governance. It is significant to note that 70 of the complaints received by the ombudsman relate to the Welsh Assembly Government directly or to Welsh Assembly Government bodies. The Public Services Ombudsman for Wales deserves our thanks, as do his staff, for their hard work in dealing with often complex and demanding cases. I note the movement towards a one-stop shop, which seeks to streamline the process of people arriving at the door with a complaint and being signposted. It is an ambition that will be achieved. The Minister referred to this project last year, when he spoke about a version that he was committed to. I hope that he will give us a timescale as to when we will see a fully implemented one-stop shop, so that we can see these citizen-centred services made as easily accessible as possible to as

wedi'u cael? Gan fod y gyfran fwyaf o gwynion yn ymwneud â chynghorau sir, a ddylem fod yn pryderu bod hynny'n adlewyrchu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus? Credaf y dylem ymfalchïo yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarparwn, ond y mae'r ffigurau hyn yn dangos ei bod yn rhaid inni beidio â bod yn hunan-fodlon.

Mae'n peri pryder hefyd fod cynnydd yn nifer yr adroddiadau am fudd cyhoeddus; mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud ag oedi wrth ystyried adolygiadau o geisiadau am ofal iechyd parhaus gan yr hen fyrdau iechyd lleol. Byddai'n ddiddorol clywed eich sylwadau ar hynny. Dywedir bod yr ombwdsmon wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i geisio dod o hyd i ateb. Byddem yn gwerthfawrogi cael adroddiad am y cynnydd sydd wedi'i wneud ar y mater penodol hwnnw.

**Michael German:** Dechreuaf trwy adleisio'r frawddeg olaf yng nghyflwyniad yr ombwdsmon i'w adroddiad, lle mae'n llongyfarch ei ragflaenydd, Adam Peat. Yr wyf finnau am ategu hyn a llongyfarch Adam Peat, yn enwedig am yr anrhydedd a gafodd, oherwydd gwnaeth waith ardderchog ym maes gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel sydd wedi ei gydnabod.

Yr ydym hefyd yn croesawu'r adroddiad hwn, gan ei fod yn dangos yn glir ymrwymiad i lywodraeth agored a thryloyw, sy'n hollbwysig mewn llywodraethu da. Mae'n bwysig sylwi bod 70 o'r cwynion a ddaeth i law'r ombwdsmon yn ymwneud yn uniongyrchol â Llywodraeth y Cynulliad neu â chyrff a noddur gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i staff yn haeddu ein diolch am eu gwaith caled wrth ymdrin ag achosion sy'n aml yn gymhleth ac yn anodd. Sylwaf ar y symudiad tuag at gael siop un stop, sy'n ceisio symleiddio'r broses lle bydd pobl yn dod i'r drws gyda chwyn ac yn cael eu cyfeirio i'r man iawn. Mae'n uchelgais a gaiff ei gwireddu. Cyfeiriodd y Gweinidog at y prosiect hwn y llynedd, pan soniodd am fersiwn yr oedd wedi ymrwymo iddo. Gobeithio y bydd yn rhoi amserlen inni yn nodi pryd y byddwn yn gweld siop un stop sy'n gwbl weithredol, fel y bydd y

many people as possible and have a streamlined complaints procedure in place.

Success cannot be simply measured by the number of cases dealt with and successfully completed, or by the length of time that it takes for decisions to be taken. We can take the example of our petitions system, where it takes some time for some things to be determined. It is not unusual for petitions that come to the National Assembly to take 12 months to be completed. We cannot be too target focused in what we do; targets are important, but it is also important to check and verify the quality of the services being provided and it is essential for the consumer—the member of public who is approaching the ombudsman—to feel that they are being dealt with efficiently, fairly and effectively, and to be satisfied with the service.

I would like to ask the Minister about the 129 complaints that were out of jurisdiction. The range of cases that the ombudsman can investigate is fairly narrow and a number of the maladministration cases referred to the ombudsman fell outside of his competence to investigate. Is the Minister prepared to conduct a review of the kinds of cases that are referred to see whether those that fall outside the ombudsman's jurisdiction are being dealt with appropriately or, possibly, to consider widening of the powers of the public services ombudsman?

I will return to that matter later. We now know that, as was expected, a significant number of the complaints in the report relate to local authorities: 979 out of 1,952. That is consistent with previous years. However, as local authorities are the most direct providers of public services, does the Minister believe that they are taking on board the lessons to be learned from other local authorities? I am pleased that the Minister for Social Justice and Local Government is listening to this, because, of course, it is also an issue for him. When a public interest report is issued, what assurance do we have that local authorities look at it, note the messages emerging from it, and put their own houses in order before the same happens to them? Perhaps, again,

gwasanaethau hyn, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, mor hygyrch ag sy'n bosibl i gynifer o bobl ag sy'n bosibl, a bod gennym weithdrefn gwyno syml ar waith.

Mae mesur llwyddiant yn fwy cymhleth na chyfrif nifer yr achosion y deliwyd â hwy a'u datrys yn llwyddiannus, neu ystyried yr amser a gymer i wneud penderfyniadau. Gallwn gymryd ein system ddeisebau fel enghraifft, lle mae'n cymryd cryn amser i gael penderfyniad ar rai pethau. Nid yw'n anghyffredin i ddeisebau sy'n dod i law'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd 12 mis i'w cwblhau. Ni allwn roi gormod o bwys ar dargedau wrth weithio; mae targedau'n bwysig, ond y mae'n bwysig hefyd inni wirio ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, ac y mae'n hanfodol i'r defnyddiwr—sef yr aelod o'r cyhoedd sy'n mynd at yr ombwdsmon—deimlo'i fod yn cael ei drin mewn modd effeithlon, teg ac effeithiol, a'i fod yn fodlon â'r gwasanaeth.

Hoffwn holi'r Gweinidog am y 129 o gwynion nad oeddent o fewn awdurdodaeth. Mae ystod yr achosion y gall yr ombwdsmon ymchwilio iddynt yn eithaf cul, ac nid oedd yn gallu ymchwilio i nifer o'r achosion o gamweinyddu a gyfeiriwyd ato. A yw'r Gweinidog yn barod i wneud adolygiad o'r mathau o achosion a gaiff eu cyfeirio, i weld a yw'r rheini'n nad ydynt yn dod dan awdurdodaeth yr ombwdsmon yn cael eu trin yn briodol, neu a yw'n barod, o bosibl, i ystyried ehangu pwerau'r ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus?

Dof yn ôl at y mater hwnnw'n ddiweddarach. Gwyddom erbyn hyn fod nifer sylweddol o'r cwynion yn yr adroddiad yn ymwneud ag awdurdodau lleol, fel y disgwyliwyd: 979 allan o 1,952. Mae hynny'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gan mai awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn fwyaf uniongyrchol, a yw'r Gweinidog o'r farn eu bod yn ystyried y gwersi sydd i'w dysgu oddi wrth awdurdodau lleol eraill? Yr wyf yn falch fod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gwrando ar hyn, oherwydd mae'n fater hefyd iddo yntau, wrth gwrs. Pan gaiff adroddiad ei gyhoeddi am fudd cyhoeddus, pa sicrwydd sydd gennym fod awdurdodau lleol yn edrych

that is relevant to the ombudsman's powers.

arno, yn nodi'r negeseuon sy'n codi ohono, ac yn rhoi trefn ar eu tŷ eu hunain cyn i'r un peth ddigwydd iddynt hwy? Efallai fod hynny, eto, yn berthnasol i bwerau'r ombwdsmon.

In the debate on this matter on 12 November 2008, in response to a question from Peter Black, the Minister said that he would reflect upon the issue, and discuss it with colleagues. He was hopeful that there might be scope for the National Assembly itself to look at this issue and take it forward. I wonder, in conclusion, whether the Minister has reflected on that matter, and what steps he has taken to consider whether there should be an increase in the ombudsman's powers, and whether the National Assembly, or the Welsh Assembly Government, or both together, should take this matter forward so that we can see that our Public Services Ombudsman for Wales is given the tools to do the job that he is clearly meant to do?

Yn y ddadl ar y mater hwn ar 12 Tachwedd 2008, mewn ymateb i gwestiwn gan Peter Black, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried y mater ac yn ei drafod gyda chydweithwyr. Yr oedd yn gobeithio y gallai fod cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun edrych ar y mater hwn a gweithredu arno. Wrth gloi, ysgwn i a yw'r Gweinidog wedi ystyried y mater hwnnw, a pha gamau y mae wedi'u cymryd i ystyried a ddylid cynyddu pwerau'r ombwdsmon, ac a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth y Cynulliad, neu'r ddau gyda'i gilydd, weithredu ar y mater hwn fel y gallwn weld bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael yr offer i wneud y gwaith y mae'n amlwg y bwriedir iddo'i wneud?

**Andrew Davies:** I thank all Members who have taken part and asked questions this afternoon. I echo Mike German's thanks to Adam Peat, and his congratulations to him on his honour.

**Andrew Davies:** Yr wyf am ddiolch i bob Aelod sydd wedi cymryd rhan ac wedi gofyn cwestiynau y prynhawn yma. Yr wyf yn adleisio diolch Mike German i Adam Peat, a'i longyfarchiadau iddo am ei anrhydedd.

As Nick Ramsay said, it is difficult to know whether the increase in complaints is the result of increased dissatisfaction with services, or the result of increased awareness. Compared with the total number of transactions between citizens and service providers, the number of complaints is very small. However, it was clear from the 'Living in Wales' survey, which had a sample of 7,500 people, that a lack of awareness of the various complaints procedures, and a lack of confidence that complaints will be taken seriously—which relates to a point that Mike German made—is an area of concern. That is why, to ensure greater transparency and to open up access, I have asked the ombudsman to consider establishing a signposting service. We do not know at this stage, Mike, whether that will go ahead. I know that the ombudsman, in submitting his budget to the Finance Committee, gave an assessment of how much the service would cost, but it has not been agreed whether it will definitely go ahead, and therefore I cannot give you a date. I am in discussions with him.

Fel y dywedodd Nick Ramsay, mae'n anodd gwybod a yw nifer y cwynion wedi cynyddu oherwydd bod pobl yn fwy anfodlon â'r gwasanaethau, ynteu oherwydd bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r gwasanaeth. O ystyried yr holl drafodion rhwng dinasyddion a darparwyr gwasanaeth, mae nifer y cwynion yn fach iawn. Fodd bynnag, yr oedd yn glir o'r arolwg 'Byw yng Nghymru', a oedd wedi defnyddio sampl o 7,500 o bobl, fod diffyg ymwybyddiaeth o'r amrywiol weithdrefnau cwyno, a diffyg hyder y byddai cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif—sy'n ymwneud â phwynt a wnaed gan Mike German—yn faes sy'n peri pryder. Dyna pam, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder a gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch, yr wyf wedi gofyn i'r ombwdsmon ystyried sefydlu gwasanaeth cyfeirio. Nid wyddom eto, Mike, a fydd hynny'n digwydd. Gwn fod yr ombwdsmon, wrth gyflwyno'i gyllideb i'r Pwyllgor Cyllid, wedi rhoi asesiad o faint y byddai'r gwasanaeth yn ei gostio, ond ni chafwyd cytundeb a fydd y gwasanaeth yn cael ei sefydlu'n bendant, ac felly ni allaf roi

dyddiad ichi. Yr wyf yn trafod gydag ef.

On the point about whether his powers should be broadened, I felt that it was important, given that Peter Tyndall has taken over from Adam Peat, that he be allowed a certain time in which to become familiar with the service and get a feel for the range of powers at his disposal before we had a discussion about whether more powers would be required. I meet him regularly, and I will be discussing that with him.

The other point that you made is very important, and that is to what extent local authorities across Wales are taking on board lessons learned from the various reports and recommendations that the ombudsman makes. This goes to the heart of how we raise the quality and standards of service delivery right across Wales. I see the role of the ombudsman as being a key piece of the jigsaw.

4.00 p.m.

I have undertaken a review of the various service improvement functions in Wales—organisations such as the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare and the work that the Welsh Local Government Association and a range of others are doing. Again, the story is of too much complexity and confusion in provision and the need for greater streamlining. We are finding that many local authorities are not following the ‘adopt or justify’ principle of adopting best practice in service delivery or justifying why they are not doing it. Therefore, it is a very important question, and I think that the response would be patchy in terms of one local authority taking on board the lessons learned from the reports by the Public Services Ombudsman for Wales.

Chris Franks raised the issue about local authorities and health receiving the largest number of complaints. That is not surprising given that they deliver, overwhelmingly, the largest number of services—ranging from health to social services, housing, planning and others—and if you add them all up it is not surprising that they attract the most complaints. Coming back to the point that I

Ar y pwynt a ddylai gael rhagor o bwerau, yr oeddwn yn teimlo'i bod yn bwysig, o gofio bod Peter Tyndall wedi cymryd drosodd wrth Adam Peat, iddo gael amser i ddod yn gyfarwydd â'r gwasanaeth a chael syniad o'r ystod o bwerau sydd ganddo cyn inni drafod a fyddai angen iddo gael rhagor o bwerau. Byddaf yn cyfarfod ag ef yn rheolaidd, a byddaf yn trafod hynny gydag ef.

Mae'r pwynt arall a wnaethoch yn bwysig iawn, sef i ba raddau y mae awdurdodau lleol ar draws Cymru'n dysgu gwersi o'r amrywiol adroddiadau ac argymhellion y mae'r ombwdsmon yn eu cyflwyno. Mae hyn yn ganolog i'r modd yr ydym yn gwella ansawdd a safonau wrth ddarparu gwasanaethau ar draws Cymru gyfan. Yr wyf yn ystyried bod rôl yr ombwdsmon yn ddarn allweddol yn y jig-so hwnnw.

Yr wyf wedi gwneud adolygiad o'r amrywiol swyddogaethau gwella gwasanaethau yng Nghymru—sefydliadau megis yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, a'r gwaith y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ystod o gyrff eraill yn ei wneud. Unwaith eto, sonnir am ormod o gymhlethdod a dryswch a bod angen mwy o symleiddio. Yr ydym yn gweld nad yw nifer o awdurdodau lleol yn dilyn yr egwyddor ‘mabwysiadu neu gyfiawnhau’ arfer gorau wrth ddarparu gwasanaethau, neu gyfiawnhau pam nad ydynt yn gwneud hynny. Felly, mae'n gwestiwn pwysig iawn, a chredaf y byddai'r ymateb yn anghyson o ran bod un awdurdod lleol yn derbyn y gwersi a ddysgir o'r adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cododd Chris Franks y mater mai awdurdodau lleol ac iechyd sy'n cael y nifer mwyaf o gwynion. Nid yw hynny'n syndod o gofio mai hwy sy'n darparu'r nifer mwyaf o wasanaethau o bell ffordd—ystod sy'n amrywio o iechyd i wasanaethau cymdeithasol, tai, cynllunio a gwasanaethau eraill—ac os rhwch y rhain i gyd at ei gilydd nid yw'n syndod mai hwy sy'n cael y

made at the beginning, if you look at the number of complaints compared with the number of transactions or contacts that citizens have with public services in Wales, the number of complaints is a small. Nevertheless, as I said in my opening remarks, that is no reason for complacency. The work of the public services ombudsman is vital in helping to raise the standards, not just in individual local authorities or services, but right across public services in Wales.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn adroddiad blynyddol Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.02 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.02 p.m.*

**Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd**  
**The Communities and Culture Committee's Report on the Promotion of Welsh Arts and Culture on the World Stage**

**Janice Gregory:** I move that

*the National Assembly for Wales:*

*notes the report of the Communities and Culture committee 'Promoting Welsh Arts and Culture on the World Stage', which was laid in the Table Office on 15 July 2009. (NDM4321)*

I propose that the National Assembly for Wales notes the report of the Communities and Culture Committee on promoting Welsh arts and culture on the world stage. Art and culture are created by people, yet simultaneously shape us as people. They are an expression of the interconnected nature of human beings in our societies. In recognising such, I would like to begin by thanking my fellow committee members for their contribution towards the production of this

nifer mwyaf o gwynion. I ddod yn ôl at y pwynt a wneuthum ar y dechrau, os edrychwch ar nifer y cwynion o'u cymharu â nifer y trafodion neu'r cysylltiadau rhwng dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae nifer y cwynion yn fach. Er hynny, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, nid yw hynny'n rheswm dros fod yn hunan-fodlon. Mae gwaith yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol wrth helpu codi'r safonau, nid yn unig mewn awdurdodau lleol neu wasanaethau unigol, ond ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**The Presiding Officer:** The question is to agree the annual report of the Public Services Ombudsman for Wales. Are there any objections? I see that there are none. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Janice Gregory:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant 'Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2009. (NDM4321)*

Cynigiaf fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ynghylch hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd. Caiff celfyddyd a diwylliant eu creu gan bobl, ond ar yr un pryd maent yn ein llunio fel pobl. Maent yn fynegiant o natur gydgyssylltiedig bodau dynol yn ein cymdeithasau. Wrth gydnabod hynny, hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'm cyd-aelodau ar y pwyllgor am eu cyfraniad at gynhyrchu'r adroddiad hwn, a

report, and to express our gratitude to all the varied witnesses who gave evidence to our inquiry, and whose insights were extremely valuable to us in our deliberations.

Wales has much to be proud of in its arts and culture, and their effective promotion on the world stage has the potential to help us build bridges and forge relationships with people from all over the world, opening up new opportunities for trade, business and learning. I am therefore pleased that, in responding to our report, the Welsh Government has fully accepted six of our 11 recommendations, and accepted the remaining five in part or in principle. In particular, I am pleased that it fully agreed with our first recommendation that the Welsh Government refreshes its strategic framework to promote Wales on the international stage.

In our inquiry, our witnesses agreed that there are structures already in place to promote Welsh arts and culture abroad. However, they also commented that the arts and culture landscape is complex and cluttered, and that it is difficult to make sense of it, particularly if you are an arts practitioner or company helping to deliver Wales's aspirations. I therefore consider that the Government's acceptance that the time is right for it to review its strategic framework for promoting Wales on the international stage is a positive step. I would be grateful if the Minister could provide us with detail on the envisaged timescales for this review.

I also welcome the Government's acceptance of our recommendation that it, along with the Arts Council of Wales and Wales Arts International, should collaborate to take maximum advantage of available funding to support Welsh arts and culture abroad. I am pleased that the Minister's response indicated that the Arts Council of Wales and the British Council are committed to providing effective feedback on how they go about achieving this aim. I would welcome any further detail the Minister can provide in future on such feedback.

hoffwn fynegi ein gwerthfawrogiad i'r holl amrywiol dystion a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad. Yr oedd eu dealltwriaeth yn hynod werthfawr inni yn ein trafodaethau.

Mae gan Gymru lawer i fod ymfalchio ynddo yn ei chelfyddydau a'i diwylliant, a gallai mynd ati'n effeithiol i'w hyrwyddo ar llwyfan y byd ein helpu i adeiladu pontydd a meithrin perthynas â phobl o bob cwr o'r byd, gan esgor ar gyfleoedd newydd ar gyfer masnach, busnes a dysgu. Yr wyf yn falch, felly, fod Llywodraeth y Cynulliad, wrth ymateb i'n hadroddiad, wedi derbyn chwech o'n 11 o argymhellion yn llwyr ac wedi derbyn y pump sy'n weddill yn rhannol neu mewn egwyddor. Yn benodol, yr wyf yn falch ei bod wedi cytuno'n llwyr â'n hargymhelliad cyntaf, sef y dylai Llywodraeth Cymru adnewyddu ei fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Yn ein hymchwiliad, cytunodd ein tystion fod strwythurau eisoes ar gael i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru dramor. Fodd bynnag, nodent hefyd fod y dirwedd o ran y celfyddydau a diwylliant yn gymhleth ac yn anhrefnus a'i bod yn anodd gwneud synnwyr ohoni, yn enwedig os ydych yn ymarferwr neu'n gwmni celfyddydol sy'n helpu gwireddu dyheadau Cymru. Felly, yr wyf yn ystyried bod y ffaith fod y Llywodraeth yn derbyn mai dyma'r amser iddi adolygu ei fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn gam cadarnhaol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddarparu manylion inni am yr amserlenni a ragwelir ar gyfer yr adolygiad hwn.

Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth yn derbyn ein hargymhelliad y dylai, ynghyd â Chyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, gydweithio er mwyn manteisio cymaint ag sy'n bosibl ar yr arian sydd ar gael i gefnogi celfyddydau a diwylliant Cymru dramor. Yr wyf yn falch fod ymateb y Gweinidog wedi dangos bod Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig wedi ymrwymo i roi adborth effeithiol am y ffordd y byddant yn cyflawni'r nod hwn. Byddwn yn croesawu unrhyw fanylion pellach y gall y Gweinidog eu darparu yn y dyfodol am adborth o'r fath.

Similarly, I am pleased that the Minister has accepted our fifth recommendation and asked the Arts Council of Wales to explore sources of support, whether from individuals, businesses or charities, that would complement the Welsh Government's grant in aid to the council. Again, I would welcome any further detail the Minister can provide in future on its success in pursuing this aim.

Furthermore, I welcome the Minister's comments in response to our eighth recommendation that greater co-operation and co-ordination will improve the efforts of our literary agencies, just as it will bring benefits to our cultural organisations more broadly. In his response to this recommendation, the Minister also commented that further work would be needed by the Arts Council of Wales to take forward work on the establishment of a Wales centre for translation—a 'translator's house.' I would be grateful if the Minister could provide further detail on this work and anticipated timescales for its completion.

Also to be welcomed is the Government's decision to accept our recommendation that the Arts Council of Wales and Wales Arts International could explore how they might improve the proactive marketing of their services to engage arts practitioners. In our report, we commented that the communications and marketing of Wales Arts International, for example, could be improved through the use of presentations, open days and newsletters. I was therefore pleased that the Minister commented in his response that the Arts Council of Wales and Wales Arts International have agreed that the effectiveness of their communications should be reviewed. Again, I would be grateful if the Minister could outline when and how these reviews will take place.

In relation to our final recommendation, I am pleased that the Welsh Government has accepted that it would be a lost opportunity if artists were prevented from promoting their work abroad because of a lack of practical advice and support. In our report, we

Yn yr un modd, yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi derbyn ein pumed argymhelliad ac wedi gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru archwilio ffynonellau cymorth, boed gan unigolion, busnesau neu elusennau, a fyddai'n ategu cymorth grant Llywodraeth Cymru i'r cyngor. Unwaith eto, byddwn yn croesawu unrhyw fanylion pellach y gall y Gweinidog eu darparu yn y dyfodol am lwyddiant y cyngor wrth geisio cyflawni'r nod hwn.

At hynny, yr wyf yn croesawu sylwadau'r Gweinidog yn ei ymateb i'n hwythfed argymhelliad, sef y bydd mwy o gydweithio a chydlynu yn gwella ymdrechion ein hasiantaethau llenyddol, yn union fel y bydd yn sicrhau manteision i'n sefydliadau diwylliannol yn fwy cyffredinol. Yn ei ymateb i'r argymhelliad hwn, nododd y Gweinidog hefyd y byddai angen i Gyngor Celfyddydau Cymru wneud mwy i fwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu canolfan gyfieithu i Gymru—'tŷ cyfieithu.' Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddarparu mwy o fanylion am y gwaith hwn, a'r amserlenni a ragwelir ar gyfer ei gwblhau.

Yn ogystal, dylid croesawu penderfyniad y Llywodraeth i dderbyn ein hargymhelliad y gallai Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru ystyried sut y gallent fod yn fwy rhagweithiol wrth farchnata'u gwasanaethau er mwyn ymwneud ag ymarferwyr celfyddydol. Yn ein hadroddiad, nodwyd y gellid gwella dulliau cyfathrebu a marchnata Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, er enghraifft, drwy ddefnyddio cyflwyniadau, diwrnodau agored a llythyrau newyddion. Felly, yr oeddwn yn falch fod y Gweinidog wedi nodi yn ei ymateb fod Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi cytuno y dylid adolygu effeithiolrwydd eu modd o gyfathrebu. Unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu pryd a sut y bydd yr adolygiadau hyn yn digwydd.

O ran ein hargymhelliad olaf, yr wyf yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y byddai cyfle'n cael ei gollu pe na bai modd i artistiaid hyrwyddo'u gwaith dramor oherwydd diffyg cyngor a chefnogaeth ymarferol. Yn ein hadroddiad, ystyriwyd y

considered that a central source of information for artists in Wales could be helpful in addressing this issue and that diplomatic support could help artists to raise a profile abroad and smooth their path through customs. Consequently, we recommended that Wales Arts International provide a support service aimed at providing advice and diplomatic assistance to help artists to address the practical difficulties of promoting and taking their work abroad.

In its response, the Welsh Government argued that the responsibility for providing diplomatic support to artists should rest with the Foreign Office. On this basis, I would be grateful if the Minister could clarify whether he would accept that Wales Arts International, given its technical expertise and knowledge in this field and the development of its pilot project PRACTICS, could provide valuable support to the Foreign Office in performing this role. I would also be grateful if he would clarify whether he would make representations to the Foreign Office towards its working with Wales Arts International at such a practical level, rather than primarily at a corporate strategy level.

In conclusion, there is clearly a great deal to welcome in the Welsh Government's response to our report. Wales already hosts, and is involved in, a wide range of major cultural events that have the potential to promote its arts and culture to millions of people internationally. It is critical that we utilise such opportunities and provide Wales's artists with the support they need to promote our country to best effect.

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Diolch i Janice fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau a diwylliant am ei sylwadau agoriadol. Yr oedd adroddiad y pwyllgor ar hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd yn un diddorol ac yn un a seiliwyd ar dystiolaeth gadarn, ac yr oeddwn yn falch o allu cyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor.

O ran ateb y cwestiynau a ofynnodd Janice y

gallai ffynhonnell wybodaeth ganolog ar gyfer artistiaid yng Nghymru fod yn ddefnyddiol i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac y gallai cymorth diplomyddol helpu artistiaid i godi eu proffil dramor a hwyluso'u llwybr drwy'r tollau. O ganlyniad, argymhellwyd y dylai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ddarparu gwasanaeth cymorth gyda'r nod o gynnig cyngor a chymorth diplomyddol i helpu artistiaid i ymdrin â'r anawsterau ymarferol o hyrwyddo'u gwaith a mynd ag ef dramor.

Yn ei hymateb, dadleuodd Llywodraeth Cymru mai'r Swyddfa Dramor a ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu cymorth diplomyddol i artistiaid. Ar sail hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog egluro a fyddai'n derbyn y gallai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, o ystyried ei wybodaeth a'i arbenigedd technegol yn y maes hwn, a datblygiad ei brosiect peilot PRACTICS, gynnig cymorth gwerthfawr i'r Swyddfa Dramor wrth gyflawni'r rôl hon. Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe bai'n egluro a fyddai'n barod i gyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Dramor i'w hannog i weithio gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru ar lefel mor ymarferol, yn hytrach nag ar lefel strategaeth gorfforaethol yn bennaf.

I gloi, mae'n amlwg fod llawer i'w groesawu yn ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad. Mae Cymru eisoes yn cynnal ystod eang ac yn ymwneud ag ystod eang o ddigwyddiadau diwylliannol mawr sydd â'r potensial i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant y wlad i filiynau o bobl yn rhyngwladol. Mae'n hollbwysig inni ddefnyddio cyfleoedd o'r fath a darparu'r cymorth y mae ar artistiaid Cymru ei angen i hyrwyddo ein gwlad yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** I thank Janice as the Chair of the Communities and Culture Committee for her opening comments. The committee's report on promoting Welsh art and culture on the world stage was an interesting one, which was based on sound evidence, and I was happy to provide oral evidence to the committee

In answer to some of the questions which



prynhawn yma, yr wyf yn gobeithio gallu cyhoeddi datganiad ar ddiwylliant yn y flwyddyn newydd a fydd yn rhoi rhai o'r ymatebion yn eu cyd-destun. Bydd datblygiadau pellach yn cael eu cyhoeddi yn y Cynulliad maes o law.

Janice posed this afternoon, I hope to be able to make a statement on culture in the new year that will set out some of the responses in context. Further developments will be announced in the Assembly in due course.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i drafod y gwaith o hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd. Yn sgîl hynny, gallwn hyrwyddo ein gwlad ar lwyfan y byd; rhaid bod sylfeini cadarn wedi eu gosod yma yng Nghymru. Yr ydym am weld gweithiau celfyddydau arloesol o'r radd flaenaf a fydd yn ein helpu i wneud ein marc dramor.

I am grateful for the opportunity to discuss the promotion of Welsh arts and culture on the world stage. In doing so, we can promote our country on the world stage; there must be a firm basis for doing so in Wales. We want to see high-quality and innovative works of art that can help us to make our mark overseas.

4.10 p.m.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni ddarparu'r cyd-destun cywir i'n hartistiaid a'n crefftwyr er mwyn iddynt ddatblygu, gweithio a chreu.

This means that we must provide the context in which our artists and craftspeople can develop, work and create.

Nid rhywbeth ymylol mo'r celfyddydau. Maent yn greiddiol i'r gwaith o addysgu ein pobl ifanc a chodi eu dyheadau, ac maent yn greiddiol i'r gwaith o adfywio rhai o'n hardaloedd mwyaf anghenus. Maent yn allweddol i'n heconomi, ac maent yn greiddiol i'n hymdrechion i ddatblygu diwydiannau creadigol rhagorol yng Nghymru. Hefyd, maent yn greiddiol i dwristiaeth ddiwylliannol—marchnad sy'n dod yn fwyfwy pwysig.

The arts are not merely a sideline. They are at the heart of educating our young people and raising their aspirations, and at the heart of the regeneration of some of our most needy areas. They are crucial to our economy, and are at the heart of our drive towards excellent creative industries in Wales. They are also at the heart of cultural tourism—an increasingly important market.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn amcangyfrif y cynhyrchir £3 o incwm arall am bob £1 y mae'n ei fuddsoddi yn y sefydliadau sy'n derbyn cyllid refeniw ganddo. Mae'r sefydliadau hyn yn cyflogi dros 6,500 o bobl ac maent yn ganolog i sector diwydiannau creadigol Cymru—sector sy'n werth dros £1 biliwn i economi Cymru. Fel y dywed slogan cyngor y celfyddydau: cenedl fach, celfyddyd fawr.

The Arts Council of Wales estimates that every £1 it invests in its revenue-funded organisations generates £3 of other income. These organisations employ over 6,500 people and are central to the Welsh creative industries sector—a sector which is worth over £1 billion to the Welsh economy. As the arts council slogan says: small nation, big art.

Mae'n rhaid inni hwyluso'r cyfleoedd i fynd â'n celfyddydau a'n diwylliant dramor, neu hyd yn oed y cam syml o fynd â hwy dros Glawdd Offa. Mae hyn yn golygu sicrhau asiantaethau effeithiol, sy'n cydweithio'n agos â'r cymunedau celfyddydol i rannu gwybodaeth a chyfleoedd. Golyga hyn hefyd weithio'n gydlynol—neges yr wyf yn ei phwysleisio yn barhaus. Mae'n berthnasol i

We must facilitate opportunities for our arts and culture to be taken overseas, or even the simple step of taking them over Offa's Dyke. This means having effective agencies working closely with the arts communities to share information and opportunities. This also means joined-up working—a message which I constantly emphasise. It is relevant to Welsh Assembly Government departments

adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau celfyddydol, ac mae hefyd yn berthnasol i awdurdodau lleol yn rhinwedd yr ymrwymiad yn ‘Cymru’n Un’ i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant ac annog partneriaethau a fydd yn darparu profiadau diwylliannol o ansawdd, ond a fydd hefyd yn helpu i gefnogi diwylliant yn genedlaethol a rhyngwladol.

From huge endeavours, like our presence at the Washington Smithsonian Folklife Festival, to the current exhibition of works belonging to the National Museum’s Davies sisters’ collection, from Turner to Cézanne, which is touring the USA this winter; and to individual actions, such as the National Dance Company Wales programme this autumn in Chongqing, China, there is a great deal going on. The National Museum Wales and National Library of Wales are active in developing international links. Through exhibitions, loans, events, research, conferences, and in other ways, they seek to promote the culture and heritage of Wales across the world. Let us not forget the international reputation and profile of the Welsh National Opera, and Academi—the literary arm of the Arts Council of Wales—is also involved in a number of international exchanges and activities.

Clearly, this is not a good time for us to be launching initiatives with hefty cost implications, but I am convinced that we can implement many of the recommendations, whether in full or at least in part, at a reasonable cost. As the report notes, much can be achieved through effective use of electronic media. The People’s Collection, as an accessible online resource, will enable anyone from anywhere to interact with our culture, to learn about Wales and be encouraged to know more. What is required is commitment and enthusiasm.

We are really lucky in Wales to have the smallness of scale that permits our arts and culture bodies to remain in close contact with each other; I would hate to see duplication of efforts by different bodies. What I do see is

and to arts organisations, and is also relevant to local authorities, in line with the ‘One Wales’ commitment to place a statutory obligation on local authorities to promote culture and encourage partnerships that will deliver high-quality cultural experiences, but that will also help support culture at the national and international levels.

Mae llawer iawn yn digwydd, o ymdrechion enfawr megis ein presenoldeb yng Ngŵyl Bywyd Gwerin Smithsonian yn Washington, i’r arddangosfa bresennol o waith yng nghasgliad y chwirydd Davies yn yr Amgueddfa Genedlaethol, From Turner to Cézanne, sy’n mynd ar daith o amgylch yr Unol Daleithiau y gaeaf hwn; ac i weithredoedd unigol, megis rhaglen Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yr hydref hwn yn Chongqing, Tsieina. Mae Amgueddfa Cymru a’r Llyfrgell Genedlaethol wrthi’n datblygu cysylltiadau rhyngwladol. Drwy arddangosfeydd, benthyciadau, digwyddiadau, ymchwil, cynadleddau, ac mewn ffyrdd eraill, maent yn ceisio hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru ledled y byd. A pheidiwn ag anghofio am enw da a phroffil rhyngwladol Opera Cenedlaethol Cymru, ac y mae Academi—cangen lenyddol Cyngor Celfyddydau Cymru—hefyd yn ymwneud â nifer o deithiau cyfnewid a gweithgareddau rhyngwladol.

Wrth gwrs, nid yw hwn yn amser da inni fod yn lansio mentrau sydd â goblygiadau sylweddol o ran cost, ond yr wyf yn argyhoeddedig y gallwn weithredu llawer o’r argymhellion, yn llwyr neu o leiaf yn rhannol, am gost resymol. Fel y mae’r adroddiad yn ei nodi, gellir cyflawni llawer drwy ddefnyddio cyfryngau electronig yn effeithiol. Bydd Casgliad y Bobl, fel adnodd hygyrch ar-lein, yn galluogi unrhyw rai mewn unrhyw le i rymgweithio â’n diwylliant, dysgu am Gymru, a chael eu hannog i wybod mwy. Yr hyn y mae ei angen yw ymrwymiad a brwdfrydedd.

Yr ydym yn wirioneddol ffodus yng Nghymru o fod yn gweithio ar raddfa fach, sy’n caniatu i’n cyrff celfyddydol a diwylliannol i gadw mewn cysylltiad agos â’i gilydd. Byddai’n gas gennyf weld dyblygu

close and effective working between the Arts Council of Wales and the British Council, which together fund Wales Arts International. That organisation puts great effort into helping our artists to get a foothold onto the World stage. We are fortunate that the British Council chooses to have an office in Cardiff.

The First Minister and I gave detailed consideration to the committee's report. Rhodri's interest relates to his portfolio responsibilities for international relations. As Janice noted, we were happy to accept six of the recommendations in full. We have accepted all other recommendations in part or in principle. The response that I gave to the committee signals our acknowledgement that there is certainly more work to be done. Officials will be meeting to consider progress against the recommendations, and I will continue to take an active interest in this subject and report on it.

**Alun Cairns:** I thank the Chair of the committee, the clerks and support staff for their work in providing such a comprehensive report. I must admit that I did not sit on the committee during the evidence session, but I was a member of it when the recommendations were agreed. I thought it somewhat fraudulent to press for the acceptance of my own recommendations without having heard much of the evidence, and so I make my comments in that context.

A common theme runs through the international implications of the arts. Extremely important statements have been made, particularly those that we read in the Sunday press on how Wales is seen by many nations, and within the United Kingdom in particular. Wales's interest in the arts and its success in that field can play a significant role in helping to educate those nations, which we depend on in various ways, be it through visits, financial assistance, or whatever it may be. The impact of the arts and the support that they provide for Wales are extremely important, in relation to not only our cultural richness and diversity, but

ymdrechion gan wahanol gyrff. Yr hyn a welaf yw cydweithio agos ac effeithiol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig, sydd gyda'i gilydd yn ariannu Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Mae'r sefydliad hwnnw'n ymdrechu'n galed i helpu ein artistiaid i ennill eu plwyf ar lwyfan y Byd. Yr ydym yn ffodus fod y Cyngor Prydeinig yn dewis cael swyddfa yng Nghaerdydd.

Rhoddodd y Prif Weinidog a minnau ystyriaeth fanwl i adroddiad y pwyllgor. Mae diddordeb Rhodri yn ymwneud â'i gyfrifoldebau portffolio dros gysylltiadau rhyngwladol. Fel y dywedodd Janice, yr oeddem yn fodlon derbyn chwech o'r argymhellion yn llwyr. Yr ydym wedi derbyn pob argymhelliad arall yn rhannol neu mewn egwyddor. Mae'r ymateb a roddais i'r pwyllgor yn arwydd o'n cydnabyddiaeth fod mwy o waith yn sicr i'w wneud. Bydd swyddogion yn cyfarfod i ystyried cynnydd yn erbyn yr argymhellion, a byddaf yn parhau i gymryd diddordeb byw yn y pwnc hwn ac adrodd yn ôl yn ei gylch.

**Alun Cairns:** Diolch i Gadeirydd y pwyllgor, y clercod a'r staff cymorth am eu gwaith yn darparu adroddiad mor gynhwysfawr. Rhaid imi gyfaddef nad oeddwn yn aelod o'r pwyllgor yn ystod y sesiwn casglu tystiolaeth, ond yr oeddwn yn aelod ohono pan gytunwyd yr argymhellion. Yr oeddwn yn credu mai twyllodrus braidd fyddai pwysu ar bobl i dderbyn fy argymhellion fy hun heb imi glywed llawer o'r dystiolaeth, ac felly yn gwneud fy sylwadau yn y cyd-destun hwnnw.

Mae thema gyffredin yn rhedeg drwy oblygiadau rhyngwladol y celfyddydau. Mae datganiadau eithriadol o bwysig wedi'u gwneud, yn enwedig y rhai y byddwn yn eu darllen yn y wasg ar ddydd Sul am y ffordd y gwelir Cymru gan bobl mewn llawer gwlad, ac yn y Deyrnas Unedig yn enwedig. Gall diddordeb Cymru yn y celfyddydau, a'i llwyddiant yn y maes hwnnw, fod yn bwysig wrth helpu addysgu'r gwledydd hynny yr ydym yn dibynnu arnynt mewn amrywiol ffyrdd, boed drwy ymweliadau, cymorth ariannol neu pa beth bynnag arall. Mae effaith y celfyddydau a'r cymorth a ddarparant i Gymru yn eithriadol o bwysig,

our prosperity and the need to attract more visitors. That is the first point that I would like to underline.

Second, I would raise an eyebrow and question the Minister on his response to recommendation 2, that

‘the Welsh Government provide a firm commitment to expediting the new culture strategy’.

In the response, the Minister states

‘I have been very reluctant to rush the development of a new culture strategy for Wales. The existing strategic statement, “Creative Future”, has 3 years to run’.

Let us not forget that we have had three Ministers for culture in the last couple of years. Is this an admission by Plaid Cymru in that it is prepared to say, ‘We take everything that Labour left us’? Conversely, is it that Plaid Cymru is not prepared to put its own stamp on something in which it should have extremely strong credentials? I am not sure where the Minister stands on this; is he happy to continue with what the former administration set in place, or does he wish to put his own stamp on it? I am a little disappointed by the rationale that the Minister has offered. Although he has accepted the recommendation, I did not pick that up in the rationale. I thank the committee, its Chair and the support staff again for their efforts, and hope that the Minister will respond to the points that I have raised.

**Bethan Jenkins:** Croesawaf y cyfle i drafod adroddiad y pwyllgor ar hybu celfyddydau ar lwyfan byd-eang, a diolchaf i Janice Gregory am ei chadeiryddiaeth ar y pwyllgor. Hoffwn longyfarch y Gweinidog ar ei waith yn y maes hwn. Yn ystod cyfnod economaidd anodd, gall celfyddydau gael eu gwthio i un ochr, ond yma yng Nghymru yr ydym wedi gweld pwysigrwydd dod â phobl ynghyd drwy’r celfyddydau, ac mae Llywodraeth Cymru’n Un wedi bod yn gweithredu gweledigaeth glir er mwyn datblygu’r

nid yn unig o ran cyfoeth ac amrywiaeth ein diwylliant, ond o ran ein ffyniant a’r angen i ddenu mwy o ymwelwyr. Dyna’r pwynt cyntaf yr hoffwn dynnu sylw ato.

Yn ail, yr wyf yn synnu at ymateb y Gweinidog ac yn cwestiynu ei ymateb i argymhelliad 2, sef

‘bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ymrwymiad cadarn i hwyluso’r strategaeth ddiwylliant newydd’.

Yn yr ymateb, dywed y Gweinidog

‘Rwyf wedi bod yn amharod iawn i ruthro’r gwaith o ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru. Mae 3 blynedd yn weddill o’r datganiad strategaeth presennol, “Cymru Greadigol”’.

Peidied neb ag anghofio inni gael tri Gweinidog dros ddiwylliant yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ai cyfaddefiad gan Blaid Cymru yw hyn, yn yr ystyr ei bod yn barod i ddweud, ‘Rydym yn cymryd popeth a adawodd y Blaid Lafur inni’? Ar y llaw arall, ai’r gwir yw nad yw Plaid Cymru’n barod i roi ei stamp ei hun ar faes y dylai fod â hygredd eithriadol o gryf ynddo? Nid wyf yn siŵr beth yw safbwynt y Gweinidog ar hynny; a yw’n hapus i barhau’r hyn a roddodd y weinyddiaeth flaenorol ar waith, ynteu a yw am roi ei stamp ei hun arno? Yr wyf braidd yn siomedig yn y rhesymeg y mae’r Gweinidog wedi’i chynnig. Er ei fod wedi derbyn yr argymhelliad, ni sylwais ar hynny yn y rhesymeg. Diolch i’r pwyllgor, ei Gadeirydd a’r staff cymorth eto am eu hymdrechion, a gobeithio y bydd y Gweinidog yn ymateb i’r pwyntiau yr wyf wedi’u codi.

**Bethan Jenkins:** I welcome the opportunity to discuss the committee report on promoting the arts on a global level, and I thank Janice Gregory for her chairmanship of the committee. I congratulate the Minister on his efforts in this area. During turbulent economic times, the arts can be pushed to one side, but here in Wales we have appreciated the importance of bringing people together through the arts, and the One Wales Government has been working to a clear vision to develop the arts both in Wales and

celfyddydau yng Nghymru ac ar lefel fyd-eang.

Eto i gyd, mae llawer iawn o waith i'w wneud. Dangosodd adroddiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a fu yn y newyddion, fod nifer o bobl yn meddwl bod Cymru'n hen ffasiwn o hyd, a'u bod yn cysylltu Cymru gyda hanes diwydiannol yn hytrach na hanes diwylliannol. Felly, mae gwaith i'w wneud i hysbysebu Cymru ac i ddangos, ar lefel fyd-eang, pa mor wych yw Cymru. Mae angen inni werthu Cymru a'r cwbl sydd gennym i'w gynnig yn rhyngwladol; mae angen dangos ein bod ni'n genedl, a honno'n genedl gref, gan ddathlu enwogion celfyddydol Cymru megis Joseph Parry, Dylan Thomas, R.S. Thomas ac yn y blaen. Rhaid hefyd dathlu'r hyn sy'n newydd, a gynrychiolir gan bobl megis Owen Sheers a Fflur Dafydd, sy'n dangos y ffordd yn y maes rhyngwladol gan chwarae eu rhan mewn digwyddiadau rhyngwladol yn Washington er enghraifft.

Cytunaf â'r adroddiad fod angen inni edrych ar sut y gallai'r Adran Dreftadaeth weithio gyda phortffolios eraill er mwyn hybu'r celfyddydau yn rhyngwladol, gan edrych yn benodol ar sut y gallai weithio gyda phortffolio Ieuan Wyn Jones yn y cyd-destun economaidd. Rhaid i wahanol sefydliadau weithio fwyfwy gyda'i gilydd i sicrhau nad oes cymhlethdod yng nghyd-destun ceisio am grantiau neu hybu Cymru ar lefel fyd-eang. Dywedodd Urdd Gwneuthurwyr Cymru fod angen:

'a more joined-up funding structure, in which all funding organisations work as one or pull in the same direction.'

Cytunaf fod angen edrych ar hynny eto.

4.20 p.m.

Nododd Menna Richards o'r BBC fod angen i wahanol fudiadau gweithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'u doniau pan ânt dramor. Er enghraifft, pe bai'r theatr genedlaethol yn mynd i Efrog Newydd, dylai weithio gyda sectorau arall—y sector datblygu economaidd efallai—er mwyn cynnal mwy nag un digwyddiad yn y ddinas honno, a thu hwnt, a dangos beth sydd gan Gymru i'w gynnig ar nifer o lefelau

on the world stage.

Having said that, there is a great deal of work to be done. The report by the Arts Council of Wales, which was in the news, revealed that many people believe that Wales is still old-fashioned, and that they relate Wales to industrial history rather than cultural history. Therefore, there is a job to be done to promote Wales and to demonstrate to the world how wonderful Wales is. We need to sell Wales and all that we have to offer internationally; we need to show that we are a nation, and a strong nation at that, celebrating our famous cultural figures such as Joseph Parry, Dylan Thomas, R.S. Thomas and so on. We must also celebrate what is new, as represented by people such as Owen Sheers and Fflur Dafydd, who are leading the way globally by participating in international events, such as that held in Washington.

I agree with the report that we need to look at how the Department for Heritage could work with other portfolios to promote the arts internationally, paying specific attention to working with Ieuan Wyn Jones's portfolio in the economic context. Different organisations must collaborate more and more to ensure that there is no complexity when applying for grants and promoting Wales across the world. The Makers' Guild in Wales has told us that we need

strwythur mwy cydlynol, er mwyn i bob sefydliad cyllido gydweithio a thynnu i'r un cyfeiriad.

I agree that we need to look at that again.

Menna Richards from the BBC said that various organisations need to collaborate to ensure that they make the most of their talents when they go abroad. For example, if the national theatre was to visit New York, it should work with the other sectors—the economic development sector, perhaps—so that more than one event can be staged in that city, and beyond, to highlight what Wales has to offer on a number of different levels. I

gwahanol. Credaf taw *'piggybacking'* oedd y term a ddefnyddiodd Menna Richards.

believe *'piggybacking'* was the term used by Menna Richards.

Cytunaf â'r hyn a ddywedasoeh ynglŷn â datblygu brand Cymru. Dywedodd Andrew Green o'r llyfrgell genedlaethol fod angen sicrhau bod Wales.com yn hybu Cymru a bod gennym frand clir. Pwrpas Wales.com yw darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n ymweld â Chymru o wledydd eraill. Trafododd y pwyllgor ffyrdd o ganiatáu i artistiaid ddefnyddio Wales.com fel adnodd i hybu eu gwaith yn allanol ac i ddod o hyd i fwy o gyfleoedd dramor. Nid wyf yn siŵr ein bod ni wedi mynd i'r afael â'r hyn a ystyria'r pwyllgor a'r Llywodraeth yw potensial Wales.com. Yn ogystal â hynny, pwysleisiodd Andrew Green bwysigrwydd datblygu *'cym'* hefyd fel adnodd ychwanegol i hybu Cymru yn rhyngwladol.

I agree with what you said about developing a Welsh brand. Andrew Green from the national library said that we need to ensure Wales.com is used to promote Wales and that we have a clear brand. The purpose of Wales.com is to provide information to those who visit Wales from other countries. The committee discussed ways in which artists could use Wales.com as a resource to promote their work externally and to find opportunities abroad. I am not sure that we have got to grips with what the committee and Government consider to be the potential of Wales.com. In addition, Andrew Green emphasised the importance of the development of *'cym'* as an additional resource to promote Wales on an international level.

Wrth siarad ag artistiaid sy'n gweithio ar lawr gwlad clywsom eu bod yn ei chael hi'n anodd talu ardrethi busnes ac i ddod o hyd i weithdai i greu eu gwaith yn y lle cyntaf, heb sôn am arddangos eu gwaith yn rhyngwladol. Felly, hoffwn weld y Gweinidog yn gweithio gydag Ieuan Wyn Jones er mwyn gweld a oes mwy o grantiau ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y maes celfyddydol, er mwyn iddynt dderbyn cefnogaeth ac fel nad oes yn rhaid iddynt boeni ynghylch y gallu i arddangos eu gwaith mewn gwledydd eraill.

In talking to artists working at grassroots level we heard that they struggle to pay business rates and to find studios where they can create their work in the first place, let alone displaying those works on a world stage. Therefore, I should like to see the Minister working with Ieuan Wyn Jones to see whether there are more grants available to those working in the arts, so that they are supported and do not have to worry about their ability to take and display their work in other countries.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Will you wind up, please?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Bethan Jenkins:** Yr oedd yn ddiddorol clywed Peter Finch yn dweud ei fod yn dod ag artistiaid i Gymru o Fosnia, er enghraifft, ond nid oes cyd-destun o safbwynt pam maent yn dod yma. Weithiau, nid oes cynulleidfâ fawr i'r digwyddiadau hynny a gynhelir. Felly, mae'n bwysig inni gydlynu popeth a chael cyd-destun i'r gefeillio sy'n digwydd rhwng Cymru a gwledydd eraill.

**Bethan Jenkins:** It was interesting to hear Peter Finch say that when he brings artists from Bosnia to Wales, for example, there is no context as to why they come here. Sometimes the numbers attending those events are not very large. Therefore, it is important that we co-ordinate everything and ensure that the twinning which happens between Wales and other countries has a context.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn croesawu'r cyfle i drafod ymchwil y pwyllgor am fod y pwnc hwn yn amserol iawn ac yn bwysig i bawb yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cymorth a'u mewnbwn i drafodaethau'r pwyllgor. Hoffwn hefyd

**Eleanor Burnham:** I welcome the opportunity to discuss the committee's research because this subject is timely and important to everyone in Wales. I should like to thank everyone for their assistance and input to the committee's deliberations. I

ddiolch i'r Gweinidog, oherwydd gwn fod y materion hyn o dan y lach a gwn fod yntau'n ymwybodol o'r her yng nghyswllt y materion hyn.

Trist oedd darllen erthygl yn y papur newydd echdoe am agwedd nifer o bobl y tu allan i Gymru tuag at ein cenedl. Mae'n peri loes i ni i gyd i feddwl bod canfyddiad mor wael gan rai pobl am Gymru. Felly, mae hwn yn fater pwysig a fyddai'n caniatáu inni i godi ymwybyddiaeth am Gymru ar draws y byd.

Mae her o'n blaenau i hyrwyddo'n gwlad. Mae'n wlad fendigedig ac mae gennym bobl dalentog. Mae pawb yn ymwybodol o bobl fel Bryn Terfel and Katherine Jenkins, sydd wedi bod yn hyrwyddwyr gwych dros Gymru.

We have a long way to go to overcome the perceptions that a minority of people outside Wales have about our country. Some of these people will never have been to Wales. Therefore, anything that we do abroad needs far more work. There was a BBC News report about potential visitors describing Wales as 'old-fashioned' and 'unfriendly'; I find that horrifying because I cannot imagine that anyone is friendlier than us. We have to get that message across.

According to an important source, visitors to Walt Disney World in Florida—which receives in the region of 10 million to 17 million visitors per year—can visit a representation of the United Kingdom at the world showcase at the Epcot theme park. Apparently, Scotland is well represented, with the usual array of tartans and shortbread, perfumes and jewellery, and there are obvious connections to royalty, which many, if not all, people believe are important. Apparently, Wales is represented by love-spoon necklaces on one side of a very small display carousel. This is the honest truth, since my source is one of my members of staff and she has seen it recently. It is horrifying to think that that is all that represents Wales. I know many business people who have been to America. America is an important showcase. I cannot recall the statistics about how many people live there,

should also like to thank the Minister, because I know this field is subject to pressure and that he is aware of the challenge in these matters.

It was sad to see a newspaper article the day before yesterday about the attitude of many people outside Wales towards our nation. It is of grave concern to us all that some people have such a poor perception of Wales. Therefore, this is an important area that will enable us to raise awareness of Wales throughout the world.

We face the challenge of promoting our country. Wales is a wonderful country and we have talented people. We are all aware of people such as Bryn Terfel and Katherine Jenkins, who have been excellent champions for Wales.

Mae gennym ffordd hir i fynd i oresgyn y canfyddiadau sydd gan leiafrif o bobl y tu allan i Gymru am ein gwlad. Nid yw rhai o'r bobl hyn erioed wedi bod i Gymru. Felly, mae angen mwy o ymdrech o lawer mewn unrhyw beth a wnawn dramor. Cafwyd adroddiad ar wasanaeth newyddion y BBC am ymwelwyr posibl yn disgrifio Cymru fel lle 'hen ffasiwn' ac 'anghyfeillgar'; mae hynny'n frawychus yn fy marn i, oherwydd ni allaf ddychmygu bod neb yn fwy cyfeillgar na ni. Rhaid inni drosglwyddo'r neges honno.

Yn ôl ffynhonnell bwysig, gall ymwelwyr â Walt Disney World yn Fflorida—sy'n cael tua 10 i 17 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn—ymweld â chynrychiolaeth o'r Deyrnas Unedig yn sioe arddangos y byd ym mharc thema Epcot. Mae'n debyg y caiff yr Alban ei chynrychioli'n dda gyda'r arddangosfa arferol o dartan a theisen frau, persawr a gemwaith, ac y mae cysylltiadau amlwg â'r teulu brenhinol y bydd llawer o bobl, os nad pawb, yn credu eu bod yn bwysig. Mae'n debyg bod Cymru'n cael ei chynrychioli gan fwclis llwyau caru ar un ochr i garwsél arddangos bach iawn. Dyna'r gwir yn onest, oherwydd un o aelodau fy staff yw fy ffynhonnell, ac y mae wedi gweld yr arddangosfa'n ddiweddar. Mae'n frawychus meddwl mai dyna'r cyfan sy'n cynrychioli Cymru. Gwn am lawer o bobl fusnes sydd wedi bod yn America. Mae America yn lle arddangos pwysig. Ni allaf

but only about 10 per cent of Americans have passports. Therefore, if they are not coming to us, we have to go to them. This is an important aspect of what we are not doing right, and it is disappointing.

I know that Wales Arts International is doing a good job, and the British Council is to be commended as it is supporting it. However, we know that there is much more to be done. I am pleased about the recommendations that have been accepted and that five have been partly accepted. Can the Minister tell us exactly what can be done in this hour of need, when we are so disadvantaged economically? How can he ensure that Wales's profile is raised? 'Partnership working' are the buzz words. Local authorities are cash-strapped but are doing their best. A couple of months ago, as the Minister knows, Pontcysyllte had the most fantastic day, organised by the local authority. It is now a UNESCO world heritage site, which, in itself, is fantastic. All those kinds of issues and places are important to our position on the world stage.

How are local authorities expected to do this work? I mention Gwynedd, as you represent part of Gwynedd, Minister. The council is already considering selling off its old buildings because it does not have enough money to do its best. What are we not doing right as regards the marketing of Wales on the world stage? We had some important information and testimony from many experienced people. I do not think that we are getting it right. You have a huge challenge ahead and I hope that you can discuss some of these challenges with us.

**Mark Isherwood:** As someone who was a member of the committee throughout the process, I also thank the Chair, the clerks and all the witnesses. In the Minister's written paper to the committee, he said that,

'Work to develop a more strategic approach to the challenge of putting Wales on the map is led by the European and External Affairs Division in the Department of the First

gofio'r ystadegau ynghylch faint o bobl sy'n byw yno, ond tua 10 y cant yn unig o Americanwyr sydd â phasbort. Felly, os nad ydynt hwy'n dod atom ni, rhaid i ni fynd atynt hwy. Mae hon yn agwedd bwysig ar yr hyn nad ydym yn ei wneud yn iawn, ac y mae'n bechod.

Gwn fod Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn gwneud gwaith da, a dylid canmol y Cyngor Prydeinig am ei gynorthwyo. Fodd bynnag, gwyddom fod mwy o lawer i'w wneud. Yr wyf yn falch o'r argymhellion sydd wedi'u derbyn, ac yn falch fod pump wedi'u derbyn yn rhannol. A all y Gweinidog ddweud wrthym beth yn union y gellir ei wneud yn y cyfyng-gyngor hwn, a ninnau dan gymaint o anfantais yn economaidd? Sut y gall sicrhau bod proffil Cymru'n cael ei godi? 'Gweithio mewn partneriaeth' yw'r geiriau sy'n ffasiynol ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol yn brin o arian, ond maent yn gwneud eu gorau. Rai misoedd yn ôl, fel y gŵyr y Gweinidog, cafodd Pontcysyllte ddiwrnod gwych wedi'i drefnu gan yr awdurdod lleol. Mae'n un o safleoedd treftadaeth y byd UNESCO bellach, ac y mae hynny ynddo'i hun yn wych. Mae materion a lleoedd o'r fath i gyd yn bwysig i'n safle ar lwyfan y byd.

Sut mae disgwyl i awdurdodau lleol wneud y gwaith hwn? Soniaf am Wynedd, gan eich bod yn cynrychioli rhan o Wynedd, Weinidog. Mae'r cyngor eisoes yn ystyried gwerthu ei hen adeiladau am nad oes ganddo ddigon o arian i wneud ei orau. Beth yr ydym yn ei wneud yn anghywir o ran marchnata Cymru ar lwyfan y byd? Cawsom wybodaeth a thystiolaeth bwysig gan lawer o bobl brofiadol. Ni chredaf ein bod yn gwneud pethau'n iawn. Mae gennyh her enfawr o'ch blaen, a gobeithio y gallwch drafod rhai o'r heriau hynny gyda ni.

**Mark Isherwood:** Fel un a oedd yn aelod o'r pwyllgor drwy gydol y broses, yr wyf fi hefyd yn diolch i'r Cadeirydd, y clercod a'r holl dystion. Ym mhapur ysgrifenedig y Gweinidog i'r pwyllgor, dywedodd,

'Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol yn Adran Prif Weinidog Cymru sy'n arwain y gwaith o ddatblygu dull mwy strategol o weithredu mewn ymateb i'r her o roi Cymru



|  |  |
|--|--|
| Minister.’   | ar y map.’   |
| I note with some concern the written evidence to the committee by Frances Medley, who said that,   | Sylwaf gydag ychydig bryder ar y dystiolaeth ysgrifenedig i’r pwyllgor gan Frances Medley, a ddywedodd,  |
| ‘What is missing is an over arching approach to internationalisation.’   | Yr hyn sydd ar goll yw agwedd drosfwaol at ryngwladoli.  |
| The National Library of Wales said,  | Dywedodd y Llyfrgell Genedlaethol y dylai Llywodraeth y Cynulliad,   |
| ‘a comprehensive strategy should be prepared by the Assembly Government.’  | ‘lunio strategaeth gynhwysfawr.’   |
| Academi said that,   | Dywedodd Academi,  |
| ‘We do not appear to have a co-ordinated approach to how we represent ourselves beyond our borders.’   | ‘Nid ydym...fel petaem yn mynd ati’n drefnus i’n cynrychioli ein hunain y tu hwnt i’n ffiniau.’  |
| Therefore, I have noted the Minister’s responses in which he states that there have been developments and changes in a number of areas that impact upon the application of the international framework document produced by the Welsh Government in 2004 and that he accepts that the time is right for the Welsh Government to review the framework and consider a more appropriate one for the present time. That is a positive and encouraging response.  | Felly, yr wyf wedi nodi ymatebion y Gweinidog lle mae’n dweud bod datblygiadau a newidiadau wedi bod mewn nifer o feysydd sy’n effeithio ar y modd y caiff y ddogfen fframwaith rhyngwladol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 ei gweithredu, a’i fod yn derbyn mai dyma’r amser i Lywodraeth Cymru adolygu’r fframwaith ac ystyried dogfen fwy priodol ar gyfer y dyddiau hyn. Mae hynny’n ymateb cadarnhaol a chalonogol.  |
| I also note that he says that he intends to publish a revised strategic statement to make his ambitions for the heritage portfolio clear. He has given a remit to the Arts Council of Wales that requires it to work collaboratively with other Assembly Government sponsored bodies and Welsh Government departments. I also note that he has asked the Arts Council of Wales to explore sources of support that would complement the Welsh Government’s grant aid to the council. Of course, that will be more problematic in the current economic climate, but I hope that it produces dividends in the future. | Gwelaf hefyd ei fod yn dweud ei fod yn bwriadu cyhoeddi datganiad strategol diwygiedig i egluro’i uchelgeisiau ar gyfer y portffolio treftadaeth. Mae wedi rhoi cylch gwaith i Gyngor Celfyddydau Cymru gan ofyn iddo gydweithio â chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad ac adrannau Llywodraeth Cymru. Sylwaf hefyd ei fod wedi gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru archwilio ffynonellau cymorth a fyddai’n ategu cymorth grant Llywodraeth Cymru i’r cyngor. Wrth gwrs, bydd hynny’n fwy o broblem yn yr hinsawdd economaidd bresennol, ond gobeithio y bydd yn dwyn ffrwyth yn y dyfodol. |
| I note that the Minister says that he will consider what detailed action plans are appropriate and achievable,   | Gwelaf fod y Gweinidog yn dweud y bydd yn ystyried pa gynlluniau gweithredu manwl sy’n briodol ac yn gyraeddadwy i,  |
| ‘to identify specific opportunities such as those created by touring Welsh arts  | ‘nodi cyfleoedd penodol, megis y rhai a grëir gan unigolion a chwmnïau celfyddydau   |

companies and individuals, to create international links and promote Wales abroad.'

4.30 p.m.

He says that he agrees that the effectiveness of the communications between the Arts Council of Wales and Wales Arts International needs to be reviewed, and that the Arts Council of Wales itself acknowledged that funding and other issues represent obstacles to artists and arts organisations taking their work abroad. I also fully accept his statement that the most appropriate body to provide diplomatic assistance to artists is the Foreign and Commonwealth Office.

In his evidence to the committee, Professor Scott, vice-chancellor of Glyndŵr University stated the following.

'On one side there is the need for Wales to establish an international reputation for itself in the arts. This is achieved mainly through the provision and promotion of national facilities such as the National, Urdd and International Eisteddfodau, the Welsh National Opera'.

'It is very rarely the other way around—they very rarely come to us because they have their own agenda, missions and vision for where they are going. If it aligned more closely with the universities, I would be much more comfortable...It seems that we are pulling in two different directions, but we are actually going in the same direction.'

He highlighted the mutually beneficial partnerships that they have, for example, exhibitions from Wales going to Polish universities and Polish universities putting on exhibitions in Wrexham. There are similar partnerships with Denmark and Scandinavia. He said that that was a vital element of their work with the arts. He also noted that advisory groups, based on a spread of organisation representation, need to be better co-ordinated. His colleague highlighted the work that they had been doing with Newport

teithiol o Gymru, i greu cysylltiadau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru dramor.'

Dywed ei fod yn cytuno bod angen adolygu effeithiolrwydd cyfathrebu rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, a bod Cyngor Celfyddydau Cymru ei hun wedi cydnabod y gall arian a phroblemau eraill fod yn rhwystrau i artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n mynd â'u gwaith dramor. Yr wyf hefyd yn derbyn ei ddatganiad yn llwyr mai'r corff mwyaf priodol i gynnig cymorth diplomyddol i artistiaid yw'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd yr Athro Scott, is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr,

Ar y naill law, mae angen i Gymru sefydlu enw da rhyngwladol iddi'i hun ym maes y celfyddydau. Caiff hynny ei gyflawni'n bennaf drwy ddarparu a hyrwyddo cyfleusterau cenedlaethol megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Ryngwladol, ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Anaml iawn y mae fel arall—anaml iawn y byddant hwy'n dod atom ni, oherwydd mae ganddynt eu hagenda, eu cenhadaeth a'u gweledigaeth eu hunain ar gyfer y cyfeiriad y maent yn mynd iddo. Pe bai'n cyd-fynd yn nes â'r prifysgolion, byddwn yn fwy cyfforddus o lawer...Ymddengys ein bod yn tynnu i ddau gyfeiriad gwahanol, ond yr ydym mewn gwirionedd yn mynd i'r un cyfeiriad.

Tynnodd sylw at y partneriaethau sydd ganddynt, sydd o fudd i bawb, er enghraifft, arddangosfeydd o Gymru yn mynd i brifysgolion yng Ngwlad Pwyl a phrifysgolion Gwlad Pwyl yn cynnal arddangosfeydd yn Wrecsam. Mae yna bartneriaethau tebyg â Denmarc a Llychlyn. Dywedodd fod hynny'n elfen hanfodol o'u gwaith gyda'r celfyddydau. Sylwodd hefyd fod angen i grwpiau cynghori, ar sail cynrychiolaeth eang o sefydliadau, fod yn fwy cydlynol. Tynnodd ei gydweithiwr sylw

City Council's sports and leisure services, the Riverfront Theatre and Arts Centre, and the museum and art galleries. He suggested that they develop a cultural consortium across Newport. That stresses the importance of education to this agenda.

I note that the new National Theatre Wales was announced last week and that it is to receive funding. I point out that Wales already has a national English-language theatre, based in Mold: Clwyd Theatr Cymru. The evidence given to committee by a representative of Volcano Theatre stated that he was not sure whether Clwyd Theatr Cymru, for example, had the remit to tour internationally. He said that he was almost certain that it does not. I should declare that I am the husband of the chair of Clwyd Theatr Cymru and, therefore, I can say that he was incorrect. As Professor Scott, the vice-chair of the theatre, stated in his evidence,

'I just want to say that one of the disadvantages of the break-up of the county of Clwyd was that the arts became isolated among the unitary authorities, which resulted in a diminution of funding for Clwyd Theatr Cymru, for example. It also fragmented the whole cohesion of it. In the north east, you look at...this wonderful theatre that we have, which is now so old that it is creaking...and I just do not know how Terry Hands and the company put on such internationally brilliant performances'.

I will conclude, Minister, by calling on you to ensure that taking this agenda forward involves all parts of Wales, all corners and regions, including our centres of excellence in the north east.

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** Janice has asked for detailed timetables on several issues and I undertake to write to her with those. I can tell Janice that my officials are chairing a follow-on meeting next Tuesday that will involve Wales Arts International and the British Council. I will be meeting a member of the board of the British Council soon as well.

at y gwaith yr oeddent wedi bod yn ei wneud gyda gwasanaethau chwaraeon a hamdden Cyngor Dinas Casnewydd, Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, a'r amgueddfa a'r orielau celf. Awgrymodd y dylent ddatblygu consortiwm diwylliannol ar draws Casnewydd. Mae hynny'n pwysleisio pwysigrwydd addysg i'r agenda hon.

Sylwaf fod Theatr Genedlaethol newydd Cymru wedi'i chyhoeddi yr wythnos diwethaf, ac y bydd yn cael arian. Tynnaf sylw at y ffaith fod gan Gymru eisoes theatr genedlaethol Saesneg, yn yr Wyddgrug: Clwyd Theatr Cymru. Dywedwyd yn y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor gan gynrychiolydd Cwmni Theatr Volcano nad oedd yn siŵr a oedd gan Clwyd Theatr Cymru, er enghraifft, gylch gorchwyl i deithio'n rhyngwladol. Dywedodd ei fod bron yn sicr nad oedd. Dylwn ddatgan fy mod yn ŵr i gadeirydd Clwyd Theatr Cymru, a gallaf ddweud, felly, ei fod yn anghywir. Fel y dywedodd yr Athro Scott, is-gadeirydd y theatr, yn ei dystiolaeth,

Hoffwn ddweud mai un o anfanteision rhannu sir Clwyd oedd fod y celfyddydau wedi'u hynysu ymhlith yr awdurdodau unedol, a arweiniodd at leihau'r arian ar gyfer Clwyd Theatr Cymru, er enghraifft. Chwalwyd holl gydlyniant y theatr hefyd. Yn y gogledd-ddwyrain, wrth edrych ar...y theatr hyfryd hon sydd gennym, sydd bellach mor hen nes ei bod yn gwichian...ac ni wn sut mae Terry Hands a'r cwmni'n llwyfannu perfformiadau sydd mor rhagorol ar lefel ryngwladol.

Yr wyf am gloi, Weinidog, drwy alw arnoch i sicrhau y bydd y broses o ddatblygu'r agenda hon yn cynnwys pob rhan o Gymru, pob cornel a rhanbarth, gan gynnwys ein canolfannau rhagoriaeth yn y gogledd-ddwyrain.

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae Janice wedi gofyn am amserlenni manwl ar gyfer sawl mater, ac addawaf ysgrifennu ati gyda'r rheini. Gallaf ddweud wrth Janice y bydd fy swyddogion yn cadeirio cyfarfod dilynol ddydd Mawrth nesaf, a fydd yn cynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig. Byddaf yn cyfarfod ag aelod o fwrdd y

## Cyngor Prydeinig cyn hir hefyd.

Nid wyf yn credu bod gennyf ddigon o amser i ymateb i bob pwynt. Fodd bynnag, dywedodd Alun Cairns fod angen imi roi fy stamp fy hun ar y maes hwn. Y gwir amdani, Alun, yw bod 'Cymru'n Un' wedi diweddarau amcanion y ddogfen 'Cymru Greadigol'. Enghraifft o hynny yw'r hyn yr ydym newydd ei glywed, sef bod cwmni theatr genedlaethol Saesneg newydd ei greu. Cafodd sylw yn y cyfryngau Prydeinig, yn anarferol—er eu bod wedi dangos eu hanwybodaeth affwysol o Gymru unwaith eto yn eu cwestiynau. Nid oes angen dogfen drwchus a thargedau diddiwedd. Mae angen i bawb ddeall pwysigrwydd y maes hwn o ran Cymru a'i delwedd. Rhaid gweld beth sydd angen ei wneud i hwyluso'r broses o fynd â'r newyddion da hyn allan o Gymru, ond hefyd sicrhau bod seiliau cadarn yng Nghymru cyn y gallwn wneud hynny yn llwyddiannus ym mhob maes.

**Janice Gregory:** I thank everyone who has contributed to the debate this afternoon. I extend the committee's thanks to the clerks, the clerking team, and all the support staff who were involved in writing this report. It is true to say that all the committee members enjoyed the report and the evidence gathering involved in this inquiry. We listened carefully to the evidence presented to us by all the witnesses, and we tried to get down as far as we could to the grass roots of artists and arts practitioners so that we did not just have the usual people come to give evidence to committee. That meant that we spoke to artists and arts practitioners during our inquiry. It was they who laid the basis of this inquiry, given their frustration at the lack of collaboration—and Bethan mentioned Menna Richards's comments about collaboration. As a committee, when we were discussing the matter, we said that much of this is not rocket science. It is just about collaboration so that, if one organisation leaves Wales to perform in the United States, all that can be spread around so that other arts practitioners have the opportunity to sell their wares.

I do not think time allows me to respond to every point made. However, Alun Cairns said that I need to put my own stamp on this field. The truth of the matter, Alun, is that 'One Wales' has updated the objectives in 'Creative Future'. We have just heard an example of that, in that a new English-language national theatre company has been established. Unusually, it was mentioned in the British media—even though, once again, their questions revealed their dismal lack of knowledge of Wales. We do not need a long document with endless targets. Everyone needs to understand the importance of this field to Wales and its image. We must see what needs to be done to facilitate the process of spreading this good news outside Wales, but also to ensure that there are strong foundations in Wales before we can be successful in all fields.

**Janice Gregory:** Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddadl y prynhawn yma. Estynnaf ddiolch y pwyllgor i'r clerod, y tîm clerco a'r holl staff cymorth a fu'n ymwneud ag ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae'n wir dweud bod holl aelodau'r pwyllgor wedi mwynhau ymwneud â'r gwaith o lunio'r adroddiad a chasglu'r dystiolaeth a oedd ynghlwm wrth yr ymchwiliad hwn. Buom yn gwrando'n ofalus ar y dystiolaeth a gyflwynwyd inni gan yr holl dystion, ac yn ceisio gwneud cymaint ag y gallem i gyrraedd artistiaid ac ymarferwyr ar lawr gwlad ym maes y celfyddydau, er mwyn sicrhau nad y bobl arferol yn unig a oedd yn dod i roi tystiolaeth i'r pwyllgor. Golygodd hynny ein bod wedi siarad ag artistiaid ac ymarferwyr ym maes y celfyddydau yn ystod ein hymchwiliad. Hwyl a osododd y sylfaen ar gyfer yr ymchwiliad hwn, o gofio'u rhwystredigaeth oherwydd diffyg cydweithredu—a soniodd Bethan am sylwadau Menna Richards ynghylch cydweithredu. Fel pwyllgor, wrth inni drafod y mater, dywedasom fod llawer o hyn nad yw'n anodd. Mae'n golygu cydweithredu, fel y gellir rhannu'r manteision os bydd un sefydliad yn gadael Cymru i berfformio yn yr Unol Daleithiau, er mwyn i ymarferwyr eraill yn y celfyddydau gael y cyfle i'w marchnata eu hunain.

I like the slogan ‘Small nation, big art’, as it is quite true, as we found when we spoke to the witnesses who came before us. I will not even begin to talk about Walt Disney World and the Disney corporation, Eleanor, and the love-spoon necklaces. Perhaps there is a message there, and we may need to take it up. If millions of people visit these theme parks, we may need to ensure that Wales is represented, and I would be happy to volunteer to check that out. I will come back with a 20-page report, if you do not want any more than that. [*Laughter.*] All joking aside, it is important that we celebrate the arts and culture of this wonderful nation in every corner of the world. We all have a responsibility, and not just the Minister, the First Minister, and members of the Communities and Culture Committee, to sell the message, so that we can enjoy and celebrate the arts in this country.

Minister, I thank you for your answers this afternoon. As Chair, I know that my committee members will look forward to your statement in the new year and the announcement that you will make in due course. I have no doubt that we are pushing at an open door, and that you understand the advantages to Wales of its vibrant cultural life, including the economic benefits that it can bring through all sorts of initiatives and projects. With that, I thank again everyone who took the time to come to committee and all those who have participated this afternoon, as well as those who participated in the writing of the report.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to note the Communities and Culture Committee’s report. Are there any objections? I see that there are none. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

Yr wyf yn hoffi’r slogan ‘Cenedl fach, celfyddyd fawr’, oherwydd y mae’n ddigon gwir, fel y gwelsom wrth siarad â’r tystion a ddaeth ger ein bron. Nid wyf am ddechrau sôn hyd yn oed am Walt Disney World a chorfforaeth Disney, Eleanor, a’r mwclis llwyau caru. Efallai fod neges yno, ac efallai fod angen inni wrando arni. Os oes miliynau o bobl yn ymweld â’r parciau thema hyn, efallai fod angen inni sicrhau bod Cymru’n cael ei chynrychioli, a byddwn yn fodlon gwirfoddoli i ymchwilio i hynny. Dof yn ôl ag adroddiad 20 tudalen, os nad oes eisiau mwy na hynny arnoch. [*Chwerthin.*] O ddifrif, mae’n bwysig inni ddatlu celfyddydau a diwylliant y genedl ryfeddol hon ym mhob cwr o’r byd. Mae cyfrifoldeb arnom bob un, nid ar y Gweinidog, y Prif Weinidog ac aelodau’r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn unig, i werthu’r neges, fel y gallwn fwynhau a dathlu’r celfyddydau yn y wlad hon.

Weinidog, diolch ichi am eich atebion y prynhawn yma. Fel Cadeirydd, gwn y bydd aelodau fy mhwyllgor yn edrych ymlaen at eich datganiad yn y flwyddyn newydd a’r cyhoeddiad y byddwch yn ei wneud maes o law. Nid oes gennyf amheuaeth nad ydym yn gwthio yn erbyn drws agored, a’ch bod yn deall manteision bywyd diwylliannol bywiog Cymru i Gymru, gan gynnwys y manteision economaidd y gall eu sicrhau drwy bob math o fentrau a phrosiectau. Gyda hynny, diolch eto i bawb a roddodd o’u hamser i ddod i’r pwyllgor, pawb sydd wedi cymryd rhan y prynhawn yma, yn ogystal â’r rheini a fu wrthi’n ysgrifennu’r adroddiad.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig sydd gerbron yw ein bod yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

### Taliadau Uniongyrchol Direct Payments

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones, and amendment 2 in the name of Peter Black. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones, a gwelliant 2 yn enw Peter Black. Os derbynir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.

**Mark Isherwood:** I move that

**Mark Isherwood:** Cynigaf fod

*the National Assembly for Wales:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1. notes that fewer than 2,000 people are currently receiving direct payments in Wales;

1. yn nodi bod llai na 2,000 o bobl yn cael taliadau uniongyrchol ar hyn o bryd yng Nghymru;

2. notes with concern the slow progress made by the Welsh Assembly Government to develop personalisation in Wales; and

2. yn nodi â phryder y cynnydd araf a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r drefn personoleiddio yng Nghymru; ac

3. calls on the Welsh Assembly Government to develop a made-for-Wales solution so that personalised services become the norm rather than the exception. (NDM4322)

3. yn galw ar Lywodraeth Cynlluniad Cymru i ddarparu ateb wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer Cymru lle mae gwasanaethau wedi'u personoleiddio yw'r drefn arferol yn hytrach na'r eithriad. (NDM4322)

Today is MS Society Cymru's partnership day, entitled Supporting Individuals to Live their Lives. Its agenda includes how direct payments work in the Welsh social care system and why we need a made-in-Wales model of personalisation. In the motion, I call on the National Assembly for Wales to note that fewer than 2,000 people currently receive direct payments in Wales, to note with concern the slow progress made by the Welsh Assembly Government to develop personalisation in Wales, and to call on the Welsh Assembly Government to develop a made-for-Wales solution, so that personalised services become the norm rather than the exception.

Mae heddiw'n ddiwrnod partneriaeth MS Cymru, a theitl y diwrnod yw Cynorthwyo Unigolion i Fyw eu Bywydau. Mae agenda'r diwrnod yn cynnwys sut mae taliadau uniongyrchol yn gweithio yn y system gofal cymdeithasol yng Nghymru, a pham mae arnom angen model personoleiddio wedi'i deilwra'n arbennig yng Nghymru. Yn y cynnig, galwaf ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i nodi bod llai na 2,000 o bobl yn cael taliadau uniongyrchol ar hyn o bryd yng Nghymru, nodi gyda phryder y cynnydd araf a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r drefn personoleiddio yng Nghymru, a galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ateb wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer Cymru lle mae gwasanaethau wedi'u personoleiddio yn drefn arferol yn hytrach nag eithriad.

My party believes in independent living at home, reducing inappropriate admissions to

Mae fy mhlaidd yn credu mewn byw'n annibynnol gartref, lleihau achosion

hospital, and expanding the direct payment scheme to allow people to control their own care budgets. Personalisation means thinking about care and support services in an entirely different way. It means starting with people as individuals who have strengths, preferences and aspirations, and putting them at the centre of the process to identify their needs and ensuring that it is about the what, the who, the how and the when of their support to live their lives. It requires a significant transformation of adult social care so that all systems, processes, staff and services are geared up to put people first.

amhriodol o dderbyn pobl i'r ysbyty, ac ehangu'r cynllun taliadau uniongyrchol er mwyn galluogi pobl i reoli eu cyllidebau gofal eu hunain. Mae personoleiddio'n golygu meddwl am wasanaethau cymorth a gofal mewn ffordd hollol wahanol. Mae'n golygu dechrau drwy ystyried pobl fel unigolion sydd â chryfderau, dymuniadau a dyheadau, rhoi'r unigolion hynny wrth wraidd y broses o adnabod eu hanghenion, a sicrhau ymdrin â'r holl gwestiynau sy'n ymwneud â'r cymorth a gânt i fyw eu bywydau. Mae'n gofyn am drawsnewid gofal cymdeithasol oedolion yn sylweddol fel y bydd pob system, proses, gwasanaeth ac aelod staff yn medru rhoi pobl yn gyntaf.

4.40 p.m.

The traditional service-led approach has often meant that people have not received the right help at the right time, and have been unable to shape the kind of support that they need. Personalisation is about giving people much more choice and control over their lives, and it goes well beyond simply giving personal budgets to people eligible for council funding. Personalisation means addressing the needs and aspirations of whole communities to ensure that everyone has access to the right information, advice and advocacy to make good decisions about the support that they need. It means ensuring that people have a wider choice in how their needs are met and can access universal services, such as transport, leisure, education, housing, health and opportunities for employment, regardless of their age or disability.

Yn aml mae'r dull gweithredu traddodiadol, a arweinir gan wasanaethau, wedi golygu nad yw pobl wedi cael yr help cywir ar yr adeg gywir, ac nad ydynt wedi medru dylanwadu ar y math o gymorth y mae arnynt ei angen. Mae personoleiddio'n ymwneud â sicrhau bod pobl yn cael llawer mwy o ddewis a llawer mwy o reolaeth ar eu bywyd, ac y mae'n ymestyn ymhell y tu hwnt i roi cyllidebau personol i bobl sy'n gymwys i gael cyllid gan gynghorau. Mae personoleiddio'n golygu mynd i'r afael ag anghenion a dyheadau cymunedau cyfan er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael y wybodaeth, y cyngor a'r eiriolaeth gywir i wneud penderfyniadau da ynghylch y cymorth y mae arnynt ei angen. Mae'n golygu sicrhau bod gan bobl ddewis ehangach o ran y modd y caiff eu hanghenion eu diwallu, a sicrhau eu bod yn gallu cael gwasanaethau cyffredinol megis gwasanaethau cludiant, hamdden, addysg, tai, iechyd a chyflogaeth, ni waeth beth fo'u hoed neu eu hanabledd.

Local authorities have been able to offer direct payments since the Community Care (Direct Payments) Act 1996, which for the first time offered a limited number of people the opportunity to receive support from social services in the form of money that could be spent on employing the services of an agency of an individual's choosing. The UK Government developed an expanded direct payments system through additional legislation. In Wales, the Community Care,

Mae awdurdodau lleol wedi medru cynnig taliadau uniongyrchol ers i Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996 ddod i rym, a oedd yn cynnig cyfle am y tro cyntaf i nifer cyfyngedig o bobl gael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol, ar ffurf arian y gellid ei wario ar ddefnyddio gwasanaethau asiantaeth o ddewis unigolyn. Datblygodd Llywodraeth y DU system ehangach ar gyfer taliadau uniongyrchol drwy ddeddfwriaeth ychwanegol. Yng Nghymru, mae Rheoliadau

Services for Carers and Children's Services (Direct Payments) (Wales) Regulations 2004 and the Community Care, Services for Carers and Children's Services (Direct Payments) (Wales) Amendment Regulations 2006 have framed the current system.

The current groups able to receive a direct payment comprise adults who have been assessed as being in need of community care services, disabled children aged between 16 and 18, including those with short-term as well as long-term needs, a person with parental responsibility for a disabled child, a disabled person with parental responsibility for a child, and carers in place of receiving carers' services.

However, of the 150,000 people receiving support from local authorities as of March 2009 in Wales, only 1,991 received direct payments. Between 2005 and 2008, the number of people receiving direct payments more than doubled from 853 to 1,967 but, in the past 12 months, only an extra 24 people have registered. In England, the UK Government plans to offer everyone who receives social care support a personal budget by March 2011, while the Health Bill that is currently progressing through the UK Parliament extends direct payments to healthcare in England.

MS Society Cymru is concerned that Wales is lagging behind the personalisation agenda. Direct payment gives people choice. It allows people to make more of the decisions that affect their lives. It gives more flexibility by enabling people of all ages to purchase care that suits their individual needs. It gives them the control to decide how their needs will be met, by whom and at what time. They are in control and they make arrangements directly, so that any staff whom they employ report directly to them. If there is a contract with an agency, the agency will be accountable to the individual, and not to the local authority.

Some people may not always find social services that are flexible enough to respond

Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004 a Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006 wedi ffurfio'r system gyfredol.

Mae'r grwpiau sy'n medru cael taliad uniongyrchol ar hyn o bryd yn cynnwys oedolion yr aseswyd bod arnynt angen gwasanaethau gofal cymunedol, plant anabl rhwng 16 a 18 oed, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion byrdymor yn ogystal ag anghenion hirdymor, unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn anabl, unigolyn anabl sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn, a gofalwyr yn lle cael taliad gwasanaethau gofalwyr.

Fodd bynnag, o blith y 150,000 o bobl a gâi gymorth gan awdurdodau lleol yng Nghymru ym mis Mawrth 2009, dim ond 1,991 a oedd yn cael taliadau uniongyrchol. Rhwng 2005 a 2008, gwnaeth nifer y bobl a oedd yn cael taliadau uniongyrchol fwy na dyblu, o 853 i 1,967, ond yn ystod y 12 mis diwethaf, 24 o bobl ychwanegol yn unig sydd wedi cofrestru. Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnig cyllideb bersonol i bawb sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol, erbyn mis Mawrth 2011, tra mae'r Mesur Iechyd sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd yn ymestyn taliadau uniongyrchol i ofal iechyd yn Lloegr.

Mae MS Cymru yn poeni bod Cymru ar ei hôl hi o ran yr agenda bersonoleiddio. Mae taliad uniongyrchol yn rhoi dewis i bobl. Mae'n galluogi pobl i wneud mwy o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'n sicrhau mwy o hyblygrwydd drwy alluogi pobl o bob oed i brynu gofal sy'n addas i'w hanghenion unigol. Mae'n rhoi'r rheolaeth iddynt benderfynu sut y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu, gan bwy a phryd. Hwy sy'n rheoli, a byddant yn gwneud trefniadau'n uniongyrchol, er mwyn i unrhyw staff a gyflogir ganddynt adrodd yn uniongyrchol iddynt hwy. Os bydd contract gydag asiantaeth, bydd yr asiantaeth yn atebol i'r unigolyn, nid i'r awdurdod lleol.

Efallai na fydd rhai pobl bob amser yn dod o hyd i wasanaethau cymdeithasol sy'n ddigon



to their needs, or some may feel that services lack continuity. They may find that the care worker arranged by a local authority cannot come at the time that they want. With direct payments, people can arrange for someone to come whenever it suits them.

It can be difficult for individuals to talk about their personal experiences of social care. Multiple sclerosis is one of the most common neurological conditions in Wales, and the majority of people are diagnosed with the condition between the ages of 20 and 40. More than 100,000 people are affected across the UK, and every year another 100 are diagnosed in Wales. Eighty five per cent of individuals can manage their condition with disease-modifying therapies when they are first diagnosed, but there is currently no cure, and many will eventually need help from social services.

Disabled adults are more likely to want to play an active role in planning their care package and choosing their priorities. They are no longer satisfied for their care to be planned for them in a way that their parents might have accepted. Instead, they want to decide which services they receive, who offers the services, and when the services are delivered. MS Society Cymru believes that the Welsh Government should develop a made-in-Wales model of personalisation that maximises individual choice but also provides support and advice for people who do not want to manage their own budget.

Therefore, this motion seeks to encourage the growth of personalisation in adult social care, to encourage more people to take control of their lives. The motion seeks to expand on the work that is already being done by the Welsh Government, which already places a duty on local authorities to offer direct payments. The problem is that disabled adults are concerned that, if they choose to use direct payments, they will not receive any advice or support from local authorities and will be completely independent. In order to deliver the motion and overcome this issue,

hyblyg i ymateb i'w hanghenion, neu gall rhai deimlo bod diffyg parhad mewn gwasanaethau. Gallant weld nad yw'r gweithiwr gofal a drefnwyd gan awdurdod lleol yn gallu dod ar yr adeg a ddymunant. Gyda thaliadau uniongyrchol, gall pobl drefnu bod rhywun yn dod ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy.

Gall fod yn anodd i unigolion siarad am eu profiadau personol o ofal cymdeithasol. Mae sglerosis ymledol yn un o'r anhwylderau niwrolegol mwyaf cyffredin yng Nghymru, a bydd mwyafrif y bobl y ceir bod yr anhwylder arnynt yn cael eu diagnosisio rhwng 20 a 40 oed. Mae'r anhwylder yn effeithio ar dros 100,000 o bobl ar draws y DU, a bob blwyddyn caiff 100 o bobl eraill eu diagnosisio yng Nghymru. Gall 85 y cant o unigolion reoli eu hanhwylder â therapïau addasu clefydau wrth gael eu diagnosisio gyntaf, ond nid oes modd gwella'r anhwylder ar hyn o bryd, a bydd angen help gwasanaethau cymdeithasol ar lawer yn y pen draw.

Mae oedolion anabl yn fwy tebygol o fod am chwarae rôl weithredol wrth gynllunio'u pecyn gofal a dewis eu blaenoriaethau. Nid ydynt yn fodlon mwyach i'w gofal gael ei gynllunio ar eu cyfer mewn modd a fyddai wedi bod yn dderbyniol efallai i'w rhieni. Yn hytrach, maent am benderfynu pa wasanaethau a gânt, pwy sy'n cynnig y gwasanaethau hynny, a phryd y caiff y gwasanaethau eu darparu. Cred MS Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model personoleiddio wedi'i deilwra'n arbennig yng Nghymru, sy'n sicrhau cymaint o ddewis ag sy'n bosibl i unigolion ond sydd hefyd yn darparu cymorth a chyngor i bobl nad ydynt am reoli eu cyllideb eu hunain.

Felly, mae'r cynnig hwn yn ceisio hybu twf personoleiddio ym maes gofal cymdeithasol oedolion, er mwyn annog mwy o bobl i reoli eu bywydau eu hunain. Mae'r cynnig yn ceisio ehangu'r gwaith a wneir esioes gan Lywodraeth Cymru, sydd eisoes yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnig taliadau uniongyrchol. Y broblem yw bod oedolion anabl yn poeni na fyddant yn cael cyngor na chymorth gan awdurdodau lleol os dewisant ddefnyddio taliadau uniongyrchol, ac y byddant yn hollol annibynnol. Er mwyn gwireddu'r cynnig a goresgyn y broblem hon,

Multiple Sclerosis Society Cymru proposes that local authorities should actively support individuals to use direct payments. They have a legal obligation to offer them, but the Welsh Government should ensure that local authorities actively encourage take-up. There needs to be a consistent level of support across the 22 local authorities so that individuals do not feel that they are on their own. This needs to include training on how to be an employer and how to manage a budget, information on local providers of care and support to manage personal budgets, particularly at the start and for vulnerable groups. Individuals should be allowed to purchase services from their local authority using a direct payment.

I note that the charity In Control was set up as a project to find a new way of organising the social care system. The English version of In Control was born in 2003 and In Control Scotland was launched in 2007, developing self-directed support with individualised budgets improving the independent living of many people. Wrexham County Borough Council was the first local authority in Wales to link into In Control, allowing people to use the individualised budgets to deliver the services that they required in a format decided by them.

I understand that amendment 2 tabled by the Welsh Liberal Democrats is trying to put the emphasis on allowing people to choose whether they have a direct payment or not. I commend to them the work done in Wrexham, which is led by an able Liberal Democrat council leader. However, in order to design a personalised service, you need to have direct payments. Unless the Government takes action that leads to local authorities actively increasing the number of people using direct payments, there is little incentive for councils to do it. It is almost like turkeys voting for Christmas. We therefore call on the Welsh Liberal Democrats to withdraw amendment 2.

mae MS Cymru yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol roi pob cymorth i unigolion ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i gynnig taliadau uniongyrchol, ond dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd ati i annog pobl i fanteisio arnynt. Mae angen lefel gyson o gymorth ar draws y 22 awdurdod lleol er mwyn sicrhau nad yw unigolion yn teimlo'u bod ar eu pen eu hunain. Mae angen i'r cymorth hwnnw gynnwys hyfforddiant ynghylch sut i fod yn gyflogwr a sut i reoli cyllideb, gwybodaeth am ddarparwyr gofal lleol, a chymorth i reoli cyllidebau personol, yn enwedig ar y dechrau ac ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed. Dylid caniatáu i unigolion brynu gwasanaethau gan eu hawdurdod lleol gan ddefnyddio taliad uniongyrchol.

Sylwaf fod elusen In Control wedi cael ei sefydlu fel prosiect i ddod o hyd i ffordd newydd o drefnu'r system gofal cymdeithasol. Sefydlwyd fersiwn Lloegr o In Control yn 2003, a lansiwyd In Control Scotland yn 2007, gan ddatblygu cymorth hunan-gyfeiriedig, a chyllidebau unigol i wella gallu llawer o bobl i fyw'n annibynnol. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gysylltu ag In Control, gan alluogi pobl i ddefnyddio'r cyllidebau unigol i gael y gwasanaethau yr oedd arnynt eu hangen, mewn ffurf a bennwyd ganddynt hwy.

Yr wyf yn deall bod gwelliant 2 a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ceisio rhoi'r pwyslais ar alluogi pobl i ddewis cael taliad uniongyrchol ai peidio. Yr wyf yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed yn Wrecsam, a gaiff ei arwain gan arweinydd cyngor medrus iawn, sy'n Ddemocrat Rhyddfrydol. Fodd bynnag, er mwyn cynllunio gwasanaeth wedi'i bersonoleiddio, mae arnoch angen taliadau uniongyrchol. Oni fydd y Llywodraeth yn cymryd camau gweithredu sy'n arwain at sefyllfa lle mae awdurdodau lleol yn mynd ati i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol, ni fydd fawr o gymhelliant i gynghorau weithredu. Mae bron fel cael y twrci i bleidleisio dros y Nadolig. Galwn, felly, ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru i dynnu gwelliant 2 yn ôl.

In the week that marks the twentieth anniversary of the fall of the Berlin wall, this motion seeks to move social care away from the Soviet model of the state saying who cares for you, when they care for you and what they do in your home to a system that is based on personal choice. I urge all Members to support this motion and, thereby, the thousands who could benefit from being in control of the support that they need to live their lives as they choose.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I move amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete all after point 1 and replace with:

*2. notes that levels of take-up of direct payments reflect the choices made by individual service users; and*

*3. endorses the Welsh Assembly Government's policy of making direct payments available to a widening range of users, on the basis of individual preference.*

**Peter Black:** I move amendment 2 in my name. In point 3, delete all after 'solution' and replace with:

*which offers people a genuine choice between personalised services and direct payments.'*

I want to make it clear that this is an agenda that the Welsh Liberal Democrats are committed to taking seriously. As Mark said in his introduction to this debate, we would like to see an extension of direct payments, which offer a chance for those who want the opportunity to take their care into their own hands and become less of a consumer of local authority services and more a commissioner of services in their own right.

Our view is that what is important here is choice, which is where my concern with the motion lies. The motion seeks to make personalised services the norm, to which I have no ideological or practical objection. It has to become the norm, because that is what

Yn yr wythnos sy'n nodi ugain mlynedd ers cwmp mur Berlin, mae'r cynnig hwn yn ceisio symud gofal cymdeithasol oddi wrth y model Sofietaidd lle mae'r wladwriaeth yn dweud pwy sy'n gofalu amdanoch, pryd maent yn gofalu amdanoch, a beth maent yn ei wneud yn eich cartref, i system sydd wedi'i seilio ar ddewis personol. Anogaf bob Aelod i gefnogi'r cynnig hwn a chefnogi, drwy hynny, y miloedd o bobl a allai gael budd o reoli'r cymorth y mae arnynt ei angen i fyw eu bywydau fel y mynnant.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Cynigiau welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

*2. yn nodi bod y niferoedd sy'n cael taliadau uniongyrchol yn adlewyrchu'r dewisiadau a wneir gan ddefnyddwyr gwasanaethau unigol; ac*

*3. yn cefnogi polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael i ystod ehangach o ddefnyddwyr ar sail dewis personol.*

**Peter Black:** Cynigiau welliant 2 yn fy enw i. Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl 'Cymru' a rhoi yn ei le:

*sy'n cynnig dewis gwirioneddol i bobl rhwng gwasanaethau wedi'u personoleiddio a thaliadau uniongyrchol.'*

Hoffwn egluro bod hon yn agenda y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ymrwymo i'w chymryd o ddifrif. Fel y dywedodd Mark yn ei gyflwyniad i'r ddadl hon, hoffem weld ymestyn taliadau uniongyrchol, sy'n cynnig cyfle i'r sawl sy'n dymuno bod yn gyfrifol am eu gofal eu hunain, a bod yn gomisiynwyr gwasanaethau yn eu rhinwedd eu hunain, yn hytrach na phobl sy'n defnyddio gwasanaethau awdurdodau lleol.

Yr hyn sy'n bwysig yma yn ein barn ni yw dewis, a dyna sy'n peri pryder i mi ynghylch y cynnig. Mae'r cynnig yn ceisio sicrhau mai gwasanaethau wedi'u personoleiddio yw'r drefn arferol, ac nid oes gennyf wrthwynebiad ideolegol nac ymarferol i

the majority of service users want and not because we are seeking to deliver it in that way. We need to understand that by far the most significant part of this agenda is the personalisation rather than the direct payments. I am happy to support the personalisation agenda, because it devolves power to the individual, where appropriate, rather than applying the one-size-fits-all approach taken by public services previously.

hynny. Fodd bynnag, rhaid mai gwasanaethau wedi'u personoleiddio yw'r drefn arferol oherwydd mai dyna yw dymuniad y mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth, nid oherwydd mai dyna'r ffordd yr ydym ni'n ceisio'u darparu. Mae angen inni ddeall mai'r rhan bwysicaf o'r agenda hon o bell ffordd yw'r personoleiddio yn hytrach na'r taliadau uniongyrchol. Yr wyf yn fodlon cefnogi'r agenda ar bersonoleiddio oherwydd ei bod yn datganoli grym i'r unigolyn lle mae hynny'n briodol, yn lle mabwysiadu agwedd flaenorol gwasanaethau cyhoeddus, sef bod yr un math o ddull gweithredu yn addas i bawb.

4.50 p.m.

Rather than concentrate on direct payments, important though they are, there is a whole other issue around how social care is made more responsive, so that those who do not want direct payments are still able to have a significant degree of control over their lives. That will not be easy. How, for example, does that work out for residents in local authority and private sector homes who may not have an understanding of the system and how to use it? Others may have the capacity to choose what they wish to do with their week, what they want to wear and so on, but would not have the capacity to understand the choices available to them. This has to be about choice, and that choice has to be wider than just direct payments. The Welsh Liberal Democrats do not want to see preset targets for increasing the numbers of people with a direct payment, or any other form of personalised service. This is not about a numbers game, but making choice available, and that means offering alternatives and ensuring that they are legitimate options.

Yn hytrach na chanolbwyntio ar daliadau uniongyrchol, er eu bod yn bwysig, mater arall sy'n codi yw sut y gellir sicrhau bod gofal cymdeithasol yn fwy ymatebol, fel y gall y rheini nad ydynt am gael taliadau uniongyrchol barhau i reoli eu bywydau eu hunain i raddau helaeth. Ni fydd hynny'n rhwydd. Er enghraifft, sut byddai hynny'n gweithio yn achos trigolion mewn cartrefi awdurdodau lleol a chartrefi'r sector preifat, nad ydynt efallai'n deall y system nac yn deall sut i'w defnyddio? Efallai fod gan eraill y gallu i ddewis yr hyn y maent yn dymuno'i wneud â'u hwythnos, beth maent am ei wisgo, ac yn y blaen, ond na fyddai ganddynt y gallu i ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Rhaid mai dewis yw'r brif ystyriaeth, a rhaid i'r dewis hwnnw fod yn ehangach na thaliadau uniongyrchol yn unig. Nid yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am weld gosod targedau ymlaen llaw ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n cael taliad uniongyrchol, nac unrhyw fath arall o wasanaeth wedi'i bersonoleiddio. Nid niferoedd sy'n bwysig yma, ond sicrhau bod dewis ar gael, ac y mae hynny'n golygu cynnig dewisiadau eraill a sicrhau eu bod yn ddilys.

One issue that has been raised with me is that those with sight difficulties are disadvantaged in the process due to having difficulty with the forms. It may be possible to get help with the forms, but surely, one of the main arguments in favour of personalised services is to encourage independence and allow people to sort their affairs out for themselves. If they are unable to start this process at the

Un mater sydd wedi'i godi gyda mi yw'r ffaith fod pobl sydd ag anawsterau gweld dan anfantais yn y broses, oherwydd eu bod yn cael trafferth gyda'r ffurflenni. Gallai fod yn bosibl cael help gyda'r ffurflenni, ond un o'r prif ddadleuon o blaid gwasanaethau wedi'u personoleiddio yw annog annibyniaeth a chaniatau i bobl roi trefn ar eu pethau drostynt eu hunain. Os ydynt yn methu

application stage, that sends out the wrong message, and may be one of the reasons why there is such a poor take-up of direct payments—not just by the blind and partially sighted, either, but also others who do not understand the process, and are not able to access it so easily.

It is fair to say that a full range of choices does not yet exist in Wales. While local authorities may be under an obligation to offer direct payments, it seems that few people are taking them up. I do not believe that anyone is of the view that they are appropriate for all those who receive local authority support at present. However, the fact that only 1.3 per cent of those who receive support do so in the form of a direct payment is clearly inadequate.

I believe that more than 1.3 per cent could benefit from personalised services, and we have to look at the barriers that stop them from doing so—for example, how are the choices communicated to them? Are these budgets appropriate for the level of care that people require? If they are unable to afford the same level of support that they would expect from the local authority, then, again, it does not become a valid choice. What the Government needs to look at, in our view, is whether, as it claims in the amendment, it is really pushing this forward and increasing access. The Minister needs to work with local authorities in Wales to ensure that choice is offered and that clients are supported in the process where necessary. It is no good having a legal obligation to offer an option if what is offered is completely unsuitable. I am not convinced that local authorities should be actively encouraging take-up, but they should make service users who are able to benefit from direct payments and from the wider personalisation agenda aware of all the options that are available to them. They should also put in place support to ensure that those people are able to access those alternatives if that is what they want. For that reason, we will not be supporting the motion or the Government amendment.

dechrau'r broses hon yn ystod y cyfnod ymgeisio, caiff y neges anghywir ei chyfleu, a gall fod yn un o'r rhesymau pam mae cyn lleied o bobl yn manteisio ar daliadau uniongyrchol—nid pobl ddall a phobl rhannol ddall yn unig, ychwaith, ond eraill hefyd nad ydynt yn deall y broses, ac nad ydynt yn gallu ei defnyddio'n rhwydd.

Mae'n deg dweud nad oes ystod lawn o ddewisiadau yng Nghymru hyd yma. Er y gall fod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gynnig taliadau uniongyrchol, ymddengys mai ychydig o bobl sy'n manteisio arnynt. Ni chredaf fod neb o'r farn eu bod yn briodol i bawb sy'n cael cymorth ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n amlwg yn annigonol mai 1.3 y cant yn unig o'r rheini sy'n cael cymorth sy'n ein gael ar ffurf taliad uniongyrchol.

Credaf y gallai dros 1.3 y cant elwa o wasanaethau wedi'u personoleiddio, a rhaid inni edrych ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwneud hynny—er enghraifft, sut y caiff y dewisiadau eu cyfleu iddynt? A yw'r cyllidebau hyn yn briodol i lefel y gofal y mae ar bobl ei angen? Os ydynt yn methu fforddio'r un lefel o gymorth ag y byddent yn disgwyl ei chael gan yr awdurdod lleol, yna eto nid yw'n ddewis dilys. Yr hyn y mae angen i'r Llywodraeth ei wneud, yn ein barn ni, yw edrych a ydyw, fel y mae'n honni yn y gwelliant, yn gyrru'r agenda hon yn ei blaen mewn gwirionedd ac yn cynyddu mynediad. Mae angen i'r Gweinidog weithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau cynnig dewis, a sicrhau bod cleientiaid yn cael eu cynorthwyo yn y broses lle bydd angen. Nid oes diben cael rhwymedigaeth gyfreithiol i gynnig dewis os yw'r hyn a gynigir yn hollol anaddas. Nid wyf wedi fy argyhoeddi y dylai awdurdodau lleol fod yn mynd ati i annog pobl i gael taliadau uniongyrchol, ond dylent sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau, a all elwa o daliadau uniongyrchol ac o'r agenda bersonoleiddio ehangach, yn ymwybodol o'r holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt. Dylent hefyd ddarparu cymorth i sicrhau bod y bobl hynny'n gallu cael y dewisiadau eraill hynny os dyna yw eu dymuniad. Am y rheswm hwnnw, ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig na gwelliant y Llywodraeth.

**Andrew R.T. Davies:** I thank my colleague, Mark Isherwood, for opening this debate. One of the points that is made to me time and again when I speak to constituents is their wish to have choice, and to control the direction of travel when they are accessing services. I live in an urban region, South Wales Central, but as we move deeper into the twenty-first century, surely the agenda is about choice, and people everywhere taking control of their own destiny. I believe that this motion is about focusing the Government's efforts on direct payments. We have heard the figures from my colleague, Mark Isherwood: yes, between 2005 and 2008 there was a significant increase in the uptake of direct payments, from around 600 or 700 applicants to 1,900, but over the last 12 months, regrettably, that figure has stalled, and only 24 have taken up the opportunity this year.

I have heard the rhetoric from the Government frontbench, and from the coalition partners, about their aversion to direct payments. I can see that direct payments run counter to their Government-knows-best ideology, but that contradicts what we should be trying to promote in Wales, and what people in Wales are asking for, which is personalised services, and, above all, being able to have the grasp of service provision that they wish for. When you look at the direction of travel in other parts of the United Kingdom, the real worry is that we fall significantly behind other parts in trying to attract the most able and the best to provide the services that some of the most vulnerable in society require. We are all aware of the difficulty of attracting social workers and the demand on social services departments in local authorities. It is about striking a balance between the private, the voluntary and the public sectors in providing services that will mitigate the massive increase that we are going to see in the demand for care and health services. If you shut off a large part of that avenue in trying to solve the problems that Government will face in the next decade or two, we will see a great explosion of people cancelled out in terms of their ability to access services, because the state cannot provide the solution

**Andrew R.T. Davies:** Hoffwn ddiolch i'm cydweithiwr, Mark Isherwood, am agor y ddadl hon. Un o'r pwyntiau a glywaf dro ar ôl tro wrth siarad ag etholwyr yw eu dymuniad i gael dewis, a rheoli'r cyfeiriad yr eir iddo pan fyddant yn cael mynediad i wasanaethau. Yr wyf yn byw mewn rhanbarth trefol, Canol De Cymru, ond wrth inni fynd ymhellach i mewn i'r unfed ganrif ar hugain, rhaid bod yr agenda'n ymwneud â dewis, a galluogi pobl ym mhobman i reoli eu tynged eu hunain. Credaf fod y cynnig hwn yn ymwneud â chanolbwyntio ymdrechion y Llywodraeth ar daliadau uniongyrchol. Clywsom y ffigurau gan fy nghydweithiwr, Mark Isherwood: do, rhwng 2005 a 2008, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a oedd yn cael taliadau uniongyrchol, o ryw 600 neu 700 o ymgeiswyr i 1,900, ond dros y 12 mis diwethaf, yn anffodus, mae'r ffigur hwnnw wedi aros yr un fath, a 24 yn unig sydd wedi manteisio ar y cyfle eleni.

Yr wyf wedi clywed rhethreg mainc flaen y Llywodraeth, a phartneriaid y glymblaid, am eu gwrthwynebiad i daliadau uniongyrchol. Gallaf weld bod taliadau uniongyrchol yn mynd yn groes i'w hideoleg sy'n mynnu mai'r Llywodraeth a wŷr orau. Ond y mae hynny'n gwrthddweud yr hyn y dylem fod yn ceisio'i hyrwyddo yng Nghymru, a'r hyn y mae pobl yng Nghymru'n gofyn amdano, sef gwasanaethau wedi'u personoleiddio, ac yn anad dim, y gallu i fod â'r afael y dymunant ei chael dros y gwasanaethau a ddarperir. Wrth edrych ar y cyfeiriad yr eir iddo mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, y pryder gwirioneddol yw ein bod ymhell y tu ôl iddynt o ran ceisio denu'r bobl orau a mwyaf galluog i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Yr ydym i gyd yn ymwybodol o anhawster denu gweithwyr cymdeithasol, a'r pwysau sydd ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol. Mae'n golygu sicrhau cydbwysedd rhwng y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus wrth ddarparu gwasanaethau a fydd yn lliniaru'r cynnydd aruthrol a welwn yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal. O gau rhan helaeth o'r llwybr hwnnw wrth geisio datrys y problemau y bydd Llywodraeth yn eu hwynebu yn y degawd neu ddau nesaf,

for everything.

It is to the Westminster Government's credit that it sees direct payments as a key way of addressing the shortfall in the ability of the state to provide these services. We should be following the lead of the Westminster Government in the clear targets that it has indicated that it wishes to develop in its social model in England. While I understand the Assembly Government—in its rhetoric and in 'One Wales'—talking about giving independence to the individual and empowering individuals and their families to take control of their lives, it is clearly not being delivered on the ground. We cannot allow that to happen, because it will be to the detriment of the service. We all know that the demands of dementia, multiple sclerosis and other illnesses, compared with the demands of 60 years ago when the welfare model was devised, have greatly increased. Although there is an increase in the provision of services, when you talk to the Multiple Sclerosis Society and to representatives of dementia charities, they say that, sadly, there is a postcode lottery in Wales and that these services are not being provided.

We passionately believe that the Minister needs to address this issue and give a clear sense of direction as to where she is taking the direct payment strategy and the empowerment of individuals and their families, so that, if it is the Government's intention in Wales to move away from supporting such a strategy, at least people will know the direction of travel. We can then move away from the philosophy of 'One Wales', which was devised two years ago and was all about empowering the individual; it is now all but a redundant document. That will allow the Minister to move away from the one-size-fits-all approach and the state-knows-best attitude. That ideology is clearly not recognised on this side of the Chamber. I hope that, as it is MS Society Cymru Partnership Day—the event that is taking place in Senedd will crystallise the activities of the past 12 months with awards to various individuals—the Minister will give a clear

byddwn yn gweld cynnydd sydyn ac enfawr yn nifer y bobl sy'n cael eu heithrio o ran eu gallu i gael gwasanaethau, oherwydd ni all y wladwriaeth ddarparu'r ateb i bopeth.

Mae'n glod i Lywodraeth San Steffan ei bod yn ystyried taliadau uniongyrchol fel ffordd allweddol i fynd i'r afael â'r diffyg yng ngallu'r wladwriaeth i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Dylem fod yn dilyn esiampl Llywodraeth San Steffan o ran y targedau clir y mae wedi dangos ei bod yn dymuno'u datblygu yn ei model cymdeithasol yn Lloegr. Er fy mod yn deall Llywodraeth y Cynulliad—yn ei rhethreg ac yn 'Cymru'n Un'—pan fydd yn siarad am roi annibyniaeth i'r unigolyn a grymuso unigolion a'u teuluoedd i reoli eu bywydau, mae'n amlwg nad yw hynny'n cael ei wireddu ar lawr gwlad. Ni allwn adael i hynny ddigwydd, oherwydd bydd o afles i'r gwasanaeth. Gwyddom i gyd fod galwadau dementia, sglerosis ymledol ac affiechydon eraill wedi cynyddu'n aruthrol, o'u cymharu â'r galwadau 60 mlynedd yn ôl pan gafodd y model lles ei ddyfeisio. Er bod y gwasanaethau a ddarperir wedi cynyddu, os siaradwch â'r Gymdeithas Sglerosis Ymledol a chynrychiolwyr elusennau dementia dywedant fod loteri cod post yng Nghymru, yn anffodus, ac nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu.

Yr ydym yn credu'n gryf fod angen i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r mater hwn, a dangos yn glir i ba gyfeiriad y mae'n mynd â'r strategaeth taliadau uniongyrchol a'r broses o rymuso unigolion a'u teuluoedd, fel y bydd pobl o leiaf yn gwybod i ba gyfeiriad yr eir iddo os yw'r Llywodraeth yng Nghymru'n bwriadu ymatal rhag cefnogi strategaeth o'r fath. Yna, gallwn symud oddi wrth athroniaeth 'Cymru'n Un', a luniwyd ddwy flynedd yn ôl ac a oedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar rymuso'r unigolyn; i bob pwrpas, mae'n ddogfen ddiangen bellach. Bydd hynny'n galluogi'r Gweinidog i symud oddi wrth yr agwedd fod yr un math o ddull gweithredu'n addas i bawb a'r agwedd sy'n mynnu mai'r wladwriaeth a wŷr orau. Mae'n amlwg na chaiff yr ideoleg honno ei chydabod yr ochr hon i'r Siambr. Gobeithio, gan fod heddiw'n Ddiwrnod Partneriaeth MS Cymru—bydd y digwyddiad yn y Senedd yn crynhoi

direction as to where she is taking her department in developing a care model that is robust and is up to twenty-first century standards. Frankly, the current direction of travel is not suitable or fit for purpose, and will not meet the aspirations of service users here in Wales.

**Joyce Watson:** Where direct payments are being received, they do give people control over their own lives, by offering an alternative to local-authority-provided care; we heard about that this morning. The 2007 Government-commissioned report that surveyed direct payments in Wales highlighted many of the factors affecting the scheme uptake. Direct payments represent a cultural change as well as an operational change for service users, practitioners and local authorities alike, and a shift in responsibility from the public sector to the individual.

The Labour Government only introduced this scheme in 2004, so we are still in a period of transition. Direct payments will take time to bed down, particularly as the report found that take-up relies on word-of-mouth recommendations. If direct payments are to be available to a wider range of people, it is vital that the direct services that local authorities provide are still there as an alternative or back up, or supplement the services provided through direct payments. Support services need to be available to ensure that more people can feel confident in using the scheme. The idea of employing someone and taking on the responsibility of an employer is often outside people's experience and it can put them off looking into the option of direct payments. Therefore, support is crucial.

5.00 p.m.

Practitioners, whose core responsibility is to their clients, also need to be confident in the

gweithgareddau'r 12 mis diwethaf â gwobrau i amrywiol unigolion—y bydd y Gweinidog yn dangos yn glir i ba gyfeiriad y mae'n mynd â'i hadran o ran datblygu model gofal sy'n gadarn ac sy'n cyrraedd safonau'r unfed ganrif ar hugain. A siarad yn blaen, nid yw'r cyfeiriad yr eir iddo ar hyn o bryd yn briodol nac yn addas at y diben, ac ni fydd yn bodloni dyheadau defnyddwyr gwasanaethau yma yng Nghymru.

**Joyce Watson:** Mewn achosion lle ceir taliadau uniongyrchol, maent yn galluogi pobl i reoli eu bywydau eu hunain, drwy gynnig dewis arall yn lle gofal a ddarperir gan awdurdod lleol; clywsom am hynny y bore yma. Tynnwyd sylw yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth yn 2007 ac a wnaeth arolwg o daliadau uniongyrchol yng Nghymru, at nifer o'r ffactorau sy'n effeithio ar nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun. Mae taliadau uniongyrchol yn newid diwylliannol yn ogystal â newid gweithredol i defnyddwyr gwasanaethau, ymarferwyr ac awdurdodau lleol fel ei gilydd, ac y maent yn symud cyfrifoldeb oddi ar y sector cyhoeddus i'r unigolyn.

Dim ond yn 2004 y cafodd y cynllun hwn ei gyflwyno gan y Llywodraeth Lafur, felly, yr ydym yn dal mewn cyfnod pontio. Bydd taliadau uniongyrchol yn cymryd amser i ymsefydlu, yn enwedig gan fod yr adroddiad wedi gweld bod cael pobl i fanteisio arnynt yn dibynnu ar argymhellion personol gan bobl eraill. Os bwriedir i daliadau uniongyrchol fod ar gael i ystod ehangach o bobl, mae'n hanfodol i'r gwasanaethau uniongyrchol a ddarperir gan awdurdodau lleol barhau'n ddewis arall neu'n ddewis wrth gefn, neu i ategu'r gwasanaethau a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol. Mae angen i wasanaethau cymorth fod ar gael, i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r cynllun. Mae'r syniad o gyflogi rhywun a chymryd cyfrifoldeb cyflogwr yn aml y tu hwnt i derfynau profiad pobl, a gall eu hatal rhag ymchwilio i'r dewis o gael taliadau uniongyrchol. Mae cymorth yn hollbwysig, felly.

At hynny, mae angen i ymarferwyr, y mae eu cyfrifoldeb craidd at eu cleientiaid, gael



scheme if they are to be expected to discuss it as an option with those clients. Furthermore, we should not forget that people are often quite happy with the public services that they receive and see no reason to change. In smaller communities, the range and choice of services available can be limited, which just makes direct council services more practical.

So, I support the Government's policy of making direct payments available to a wider range of users, but take-up has to be based on people's personal preferences. I would like to raise two issues. First, the requirement to have a bank account is an issue for some people. The economic slump has seen more people default on financial obligations, which may make it difficult in future for people to open accounts, and therefore to access direct payments. Secondly, in taking on the responsibilities of an employer, individuals accessing direct payments will also have to judge the suitability of the personal assistants they employ. There are obvious duty-of-care issues here, so it is important that we establish whether personal assistants are, or should be, part of the social care workforce.

**Jonathan Morgan:** This debate is very important. It is important for individuals who rely on care services, many of whom are capable of taking more decisions about their care and willing to do it. It is also important for the future dynamics of what I would term 'welfare governance' and for the shape of publicly funded care services. I firmly believe that placing the individual at the centre of the development and delivery of services is a principle that this Assembly ought to promote. The Assembly Government in particular needs to ask why such a small proportion of the 150,000 people receiving care services from local authorities are in receipt of direct payments. It is only 1.3 per cent; that is a tiny proportion of the overall number of people in receipt of care services. We have to ask why the performance on improving that number has been so lamentable.

hyder yn y cynllun os disgwylir iddynt ei drafod fel dewis gyda'u cleientiaid. Yn ogystal, ni ddylem anghofio bod pobl yn aml yn ddigon hapus â'r gwasanaethau cyhoeddus a gânt, ac nad ydynt yn gweld rheswm dros newid. Mewn cymunedau llai o faint, gall yr ystod a'r dewis o wasanaethau sydd ar gael fod yn gyfyngedig, sy'n golygu'n syml fod gwasanaethau cyngor uniongyrchol yn fwy ymarferol.

Felly, yr wyf yn cefnogi polisi'r Llywodraeth o sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael i ystod ehangach o ddefnyddwyr, ond rhaid i'r modd y manteisir ar y taliadau gael ei seilio ar ddymuniadau personol pobl. Hoffwn godi dau fater. Yn gyntaf, mae'r angen i gael cyfrif banc yn broblem i rai pobl. Yn sgil y wasgfa economaidd, mae mwy o bobl wedi methu â chyflawni eu rhwymedigaethau ariannol, a allai ei gwneud yn anodd yn y dyfodol i bobl agor cyfrifon, a gallu cael taliadau uniongyrchol, felly. Yn ail, wrth gymryd cyfrifoldebau cyflogwr, bydd unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol hefyd yn gorfod barnu addasrwydd y cynorthwywyr personol a gyflogir ganddynt. Mae materion amlwg yn codi yma ynghylch dyletswydd gofal, ac y mae'n bwysig felly inni benderfynu a yw cynorthwywyr personol yn rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol, nteu a ddylent fod yn rhan ohono.

**Jonathan Morgan:** Mae'r ddadl hon yn bwysig iawn. Mae'n bwysig ar gyfer unigolion sy'n dibynnu ar wasanaethau gofal, lawer ohonynt yn gallu gwneud mwy o benderfyniadau am eu gofal ac yn barod i wneud hynny. Mae hefyd yn bwysig ar gyfer dymeg yr hyn y byddwn i'n ei alw'n waith 'llywodraethu lles' yn y dyfodol, ac ar gyfer ffurf gwasanaethau gofal a ariennir yn gyhoeddus. Credaf yn bendant fod rhoi'r unigolyn wrth wraidd gwaith datblygu a darparu gwasanaethau yn egwyddor y dylai'r Cynulliad hwn ei hyrwyddo. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad yn enwedig ofyn pam mae cyfran mor fach o'r 150,000 o bobl a gaiff wasanaethau gofal gan awdurdodau lleol yn cael taliadau uniongyrchol. Un pwynt tri y cant yn unig yw'r gyfran honno; mae'n gyfran eithriadol o fach o gyfanswm y bobl sy'n cael gwasanaethau gofal. Rhaid inni ofyn pam mae'r perfformiad i geisio gwella'r nifer hwnnw wedi bod mor druenus.

I would have more sympathy with the Assembly Government's amendment on the take-up of direct payments reflecting personal choices had this figure been somewhat higher. However, with 98.7 per cent of individuals not receiving direct payments, it is clear that enough is not being done to promote the scheme.

Personalisation of care promotes not just direct payments, but personal budgets and individual budgets. In England, for example, people in receipt of individual care budgets have made innovative lifestyle choices. Many individuals have decided to give their daily carer some respite time over the weekend and enjoy sports and other pastimes, using their individual care budgets to purchase season tickets for the local football club for themselves and their designated carer. Similarly, some have given their daily carer longer respite and taken themselves and their carer away on holiday, putting their individual care budgets towards the cost. We ought to be more innovative here in Wales. We are clearly not being innovative.

However, my principal concern is that the Assembly Government sees an individual in receipt of care as vulnerable, incapable of making decisions or simply unwilling to do so. In my view, that is simply not the real picture. We ought to be doing more to help people to make informed decisions about the future of their care packages. I know that, for many of us, when we consider this particular problem, we think of vulnerable, elderly groups of people. Again, that simply is not the picture across Wales. For younger people living with a disability, the impact of the chance to take more control should not be underestimated. For many, the opportunity to shape their own care package, handle budgets and make decisions on what services to purchase is quite liberating. We have to look at this, not just in the context of those who are elderly, but those who are young and who may want to make more decisions.

Byddai gennyf fwy o gydymdeimlad â gwelliant Llywodraeth y Cynulliad ar y nifer sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol ac yn adlewyrchu dewisiadau personol pe bai'r ffigur hwn wedi bod rywfaint yn uwch. Fodd bynnag, o gofio nad yw 98.7 y cant o unigolion yn cael taliadau uniongyrchol, mae'n amlwg nad oes digon yn cael ei wneud i hyrwyddo'r cynllun.

Yn ogystal â hyrwyddo taliadau uniongyrchol, mae personoleiddio gofal hefyd yn hyrwyddo cyllidebau personol a chyllidebau unigol. Yn Lloegr, er enghraifft, mae pobl sy'n cael cyllidebau gofal unigol wedi gwneud dewisiadau arloesol ynghylch eu ffordd o fyw. Mae nifer o unigolion wedi penderfynu rhoi rhywfaint o seibiant dros y penwythnos i'w gofalwr dyddiol, ac yn mwynhau chwaraeon a diddordebau eraill, gan ddefnyddio'u cyllidebau gofal unigol i brynu tocynnau tymor y clwb pêl-droed lleol iddynt hwy a'u gofalwr penodedig. Yn yr un modd, mae rhai wedi rhoi seibiant hwy i'w gofalwr dyddiol ac wedi mynd ar wyliau gyda'u gofalwr, gan ddefnyddio'u cyllidebau gofal unigol i dalu rhywfaint o'r gost. Dylem fod yn fwy arloesol yma yng Nghymru. Mae'n amlwg nad ydym yn arloesol.

Fodd bynnag, fy mhrif bryder yw'r ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried bod unigolyn sy'n cael gofal yn unigolyn sy'n agored i niwed ac nad yw'n gallu gwneud penderfyniadau, neu nad yw'n barod i wneud hynny. Yn fy marn i, nid dyna yw'r darlun gwirioneddol o gwbl. Dylem fod yn gwneud mwy i helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am ddyfodol eu pecynnau gofal. Gwn fod nifer ohonom, pan fyddwn yn ystyried y broblem arbennig hon, yn meddwl am grwpiau o bobl hŷn sy'n agored i niwed. Unwaith eto, nid dyna yw'r darlun ar draws Cymru. Yn achos pobl iau sydd ag anabledd, ni ddylid bychanu effaith y cyfle i gael mwy o reolaeth. I lawer, mae'r cyfle i ddylanwadu ar eu pecyn gofal eu hunain, trin cyllidebau a gwneud penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau i'w prynu yn brofiad sy'n eu rhyddhau. Rhaid inni edrych ar hyn nid yn unig yng nghyd-destun pobl hŷn, ond yng nghyd-destun pobl ifanc a all fod yn dymuno gwneud mwy o benderfyniadau.

I am not saying that the Government does not have a role to play. Clearly, there is a need for guidance and support for those who might want to make those choices, but there is also a role for Government in attempting to shape the way in which the public sector responds in an environment where more people have more say over their care. At present, service planning is fairly easy as you have 98 per cent of people in receipt of care not receiving a direct payment. In fact, I think that this is one of the big consequences of greater personalisation. Ultimately, the public sector will have to be more responsive, and this will become more unpredictable, and it will certainly be trickier for the Government to design services strategically, when more people have more control over their individual budgets and care. I cannot believe, for one second, however, that the Government is happy for such a miniscule number of people to receive direct payments. 'One Wales' itself refers to a Wales

'in which all citizens are empowered to determine their own lives'.

If the Government believes in that, then we ought to see it doing more to promote a greater degree of personalisation of care. We need to offer people these chances, and we should be engaging with the charitable sector. Many organisations within the charitable sector are already developing advocacy and tailored services and guidance for those thinking about handling their own budgets. Ultimately, I cannot believe that only 1.3 per cent of those in receipt of care and needing care want direct payments and a level of personalisation. That cannot be right. I do not think that that is the true picture in Wales. It is simply that this is not being promoted strongly and productively. I urge the Government to make the personalisation of care a priority and live up to the statement in its own coalition agreement.

**Helen Mary Jones:** Direct payments can be a good option for some disabled people. It cannot be doubted that they should be available. Some of the points made in

Nid wyf yn dweud nad oes rôl gan y Llywodraeth. Mae'n amlwg fod angen arweiniad a chymorth ar gyfer y sawl a allai fod am wneud y dewisiadau hynny, ond mae gan y Llywodraeth rôl hefyd o ran ceisio dylanwadu ar y modd y mae'r sector cyhoeddus yn ymateb mewn amgylchedd lle mae gan fwy o bobl fwy o gyfle i ddweud eu dweud am eu gofal. Ar hyn o bryd, mae cynllunio gwasanaethau yn eithaf rhwydd, gan nad yw 98 y cant o'r bobl sy'n cael gofal yn cael taliad uniongyrchol. Mewn gwirionedd, credaf mai dyna fydd un o ganlyniadau mawr mwy o waith personoleiddio. Yn y pen draw, bydd yn rhaid i'r sector cyhoeddus fod yn fwy ymatebol, bydd sefyllfaoedd yn fwy anodd eu rhagweld, a bydd yn sicr yn anos i'r Llywodraeth gynllunio gwasanaethau'n strategol pan fydd gan fwy o bobl fwy o reolaeth ar eu cyllidebau unigol a'u gofal. Ni allaf gredu am eiliad, fodd bynnag, fod y Llywodraeth yn fodlon i nifer mor eithriadol o fach o bobl gael taliadau uniongyrchol. Mae 'Cymru'n Un' ei hun yn cyfeirio at Gymru

'lle gall pob dinesydd benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain'.

Os yw'r Llywodraeth yn credu yn hynny, dylem ei gweld yn gwneud mwy i hyrwyddo mwy o bersonoleiddio gofal. Mae angen inni gynnig y cyfleoedd hyn i bobl, a dylem fod yn ymwneud â'r sector elusennol. Mae nifer o fudiadau yn y sector elusennol eisoes yn datblygu eiriolaeth ac arweiniad a gwasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer pobl sy'n ystyried trin eu cyllidebau eu hunain. Yn y pen draw, ni allaf gredu mai 1.3 y cant yn unig o bobl sy'n cael gofal ac sydd ag angen gofal arnynt sy'n dymuno cael taliadau uniongyrchol a rhywfaint o bersonoleiddio. Ni all hynny fod yn iawn. Ni chredaf mai dyna yw'r darlun cywir yng Nghymru. Yn syml, nid yw'r agenda hon yn cael ei hyrwyddo mewn modd cryf a chynhyrchiol. Anogaf y Llywodraeth i roi blaenoriaeth i bersonoleiddio gofal, a chadw at y datganiad a wnaed yn ei chytundeb clymbleidiol ei hun.

**Helen Mary Jones:** Gall taliadau uniongyrchol fod yn ddewis da i rai pobl anabl. Ni ellir amau na ddylent fod ar gael. Mae rhai o'r pwyntiau a wnaed mewn

different parts of the Chamber about the support that should be available to enable people to take on the responsibility of being an employer are ones with which I would wholeheartedly agree. However, where I would differ and where I would, perhaps, have more in common with the points made by Joyce Watson and, to a certain extent, Peter Black, is that I do not believe that moving to a 100 per cent individualised budgets would serve the majority of disabled people well.

It is interesting that we have heard a lot in this debate—the motion itself refers to a ‘made-for-Wales’ solution—about what is happening in England. In big English cities, there may be a wide range of care providers from whom disabled people might be able to choose to purchase care. That is not true in Llanelli and rural Carmarthenshire, and it is certainly not true in southern Gwynedd. *[Interruption.]* If Alun Cairns would like to make an intervention, I would be happy to hear from him, Deputy Presiding Officer, but I find it rather frustrating when he makes comments from a sedentary position and I am not therefore allowed by you and the Presiding Officer to respond.

**Alun Cairns:** It is interesting to hear the Member criticise the comparisons with England. Surely, devolution is meant to take us to the highest level of service, not the lowest common denominator. On that basis, if there are better levels of service elsewhere in the United Kingdom or Europe, surely we would want to learn about that. Unless we create that opportunity—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This is an intervention, not a speech, Alun Cairns.

**Alun Cairns:** Unless we create that opportunity—

**Helen Mary Jones:** Deputy Presiding Officer, I am anxious about my time.

**The Deputy Presiding Officer:** Do not worry; you will not lose any time.

**Alun Cairns:** Unless we create that opportunity—

gwahanol rannau o'r Siambr am y cymorth a ddylai fod ar gael i alluogi pobl i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fod yn gyflogwr yn bwyntiau y byddwn yn cytuno'n llwyr â hwy. Fodd bynnag, byddwn yn anghytuno â hwy, ac efallai'n cytuno mwy â'r pwyntiau a wnaed gan Joyce Watson, a Peter Black i ryw raddau, o ran y ffaith nad wyf yn credu y byddai anelu at sefyllfa lle byddai gan bawb gyllidebau unigol yn fuddiol i'r mwyafrif o bobl anabl.

Mae'n ddiddorol ein bod wedi clywed llawer yn y ddadl hon—mae'r cynnig ei hun yn cyfeirio at ateb 'wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer Cymru'—am yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Mewn dinasoedd mawr yn Lloegr, efallai fod ystod eang o ddarparwyr gofal y gallai pobl anabl fod yn dewis prynu gofal ganddynt. Nid yw hynny'n wir yn Llanelli a chefn gwlad Sir Gaerfyrddin, ac yn bendant nid yw'n wir yn ne Gwynedd. *[Torri ar draws.]* Byddwn yn fodlon clywed gan Alun Cairns os hoffai wneud ymyriad, Ddirprwy Lywydd, ond yr wyf yn teimlo braidd yn rhwystredig pan fydd yn gwneud sylwadau heb sefyll, sy'n golygu nad ydych chi na'r Llywydd yn caniatáu imi ymateb.

**Alun Cairns:** Mae'n ddiddorol clywed y Gweinidog yn beirniadu'r cymariaethau â Lloegr. Oni ddylai datganoli ein galluogi i gyrraedd y lefel uchaf o wasanaeth, nid y lefel gyffredin isaf? Am y rheswm hwnnw, os oes lefelau gwell o wasanaeth rywle arall yn y Deyrnas Unedig neu Ewrop, oni fyddem am gael gwybod hynny? Oni chrëwn y cyfle hwnnw—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ymyriad yw hwn, Alun Cairns, nid araith.

**Alun Cairns:** Oni chrëwn y cyfle hwnnw—

**Helen Mary Jones:** Ddirprwy Lywydd, yr wyf yn pryderu ynghylch fy amser.

**Y Dirprwy Lywydd:** Peidiwch â phoeni; ni fyddwch yn colli amser.

**Alun Cairns:** Oni chrëwn y cyfle hwnnw—

**The Deputy Presiding Officer:** Please finish, Alun.

**Alun Cairns:** Unless we create that opportunity and more providers are developed, there will be none in Llanelli either, will there?

**The Deputy Presiding Officer:** On a point of order, if someone is speaking and is not standing, Helen Mary, just ignore them. Please continue.

**Helen Mary Jones:** I am happy to be guided by you, Deputy Presiding Officer, but it is just a little frustrating at times.

Of course we should learn from the best practice everywhere. In terms of offering direct payments as a choice, there will be things that we can do. I do not know how aware Alun Cairns is of some parts of Wales, but it is very unlikely that in somewhere like Aberdovey you will have dozens of different providers and it is very unlikely in communities such as Llanelli that that will happen because, frankly, people are too poor.

**Alun Cairns:** Will you give way?

**Helen Mary Jones:** No, I will not. I have heard quite enough from you for one afternoon.

There are some very powerful voices of disabled people asking for more chance for direct payments and individualised budgets. That is absolutely right, and I am sure that our Ministers will listen to those voices. I think that we need to look at the role that voluntary organisations can play in delivering the support to people to be individual employers if that is what they choose to do. However, it should be a choice. While it is quite right, as Jonathan Morgan said, not to characterise all disabled people and those receiving care as old, the vast majority of those receiving care are aged over 65, and the bulk of those do not want to have to employ people. I will quote directly from a carer who spoke to me at a Carers Wales event.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gorffennwch os gwelwch yn dda, Alun.

**Alun Cairns:** Oni chrëwn y cyfle hwnnw ac oni ddatblygir mwy o ddarparwyr, ni fydd darparwyr i'w cael yn Llanelli.

**Y Dirprwy Lywydd:** Hoffwn wneud pwynt ynghylch trefn. Os bydd rhywun yn siarad heb sefyll, Helen Mary, dylech eu hanwybyddu. Ewch yn eich blaen.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn fodlon derbyn eich cyfarwyddyd, Ddirprwy Lywydd, ond y mae hyn braidd yn rhwystredig weithiau.

Wrth gwrs, dylem ddysgu o arfer gorau ym mhobman. O ran cynnig taliadau uniongyrchol fel dewis, bydd modd inni wneud ambell beth. Ni wn faint y mae Alun Cairns yn ei wybod am rai rhannau o Gymru, ond mae'n annhebygol iawn y bydd gennych ddwsinau o wahanol ddarparwyr rywle megis Aberdyfi, ac y mae'n annhebygol iawn y bydd hynny'n digwydd mewn cymunedau megis Llanelli, oherwydd, a siarad yn blaen, mae pobl yn rhy dlawd.

**Alun Cairns:** A wnewch chi ildio?

**Helen Mary Jones:** Na wnaf. Yr wyf wedi clywed digon gennych am un prynhawn.

Mae rhai lleisiau pwerus iawn gan bobl anabl yn gofyn am fwy o gyfle i gael taliadau uniongyrchol a chyllidebau unigol. Mae hynny'n berffaith iawn, ac yr wyf yn siŵr y bydd ein Gweinidogion yn gwranddo ar y lleisiau hynny. Credaf fod angen inni edrych ar y rôl y gall mudiadau gwirfoddol ei chwarae wrth gynorthwyo pobl i fod yn gyflogwyr unigol, os dyna yw eu dewis. Fodd bynnag, dylai fod yn ddewis. Er ei bod yn hollol iawn, fel y dywedodd Jonathan Morgan, peidio â meddwl bod pawb sy'n anabl a phawb sy'n cael gofal yn hen, mae mwyafrif helaeth y rheini sy'n cael gofal dros 65 oed, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt am orfod cyflogi pobl. Dyfynnaf yn uniongyrchol yr hyn a ddywedodd gofalwr wrthyf yn un o ddigwyddiadau Cynhalwyr Cymru.

**Jonathan Morgan:** Will you take an intervention?

**Jonathan Morgan:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Helen Mary Jones:** I will take the intervention in a moment, if I can.

**Helen Mary Jones:** Derbyniaf yr ymyriad yn y man, os gallaf.

5.10 p.m.

What this lady said to me was, 'I do not want to be an employer; I just want X and Y'—she referred to her two local authority carers—who work for the council, to come regularly to take care of John and to have a bit of a chat with me. I want reliable care; I do not want the bother of having to plan it.'

Dyma a ddywedodd y ddynes wrthyf, 'Nid wyf am fod yn gyflogwr; fy unig ddymuniad yw gweld X a Y'—cyfeiriodd at ddau ofalwr yr awdurdod lleol—'sy'n gweithio i'r cyngor, yn dod yn rheolaidd i ofalu am John ac i sgwrsio ychydig â mi. Yr wyf am gael gofal dibynadwy; nid wyf am boeni am orfod ei gynllunio.'

I will take an intervention from Jonathan Morgan.

Derbyniaf ymyriad gan Jonathan Morgan.

**Jonathan Morgan:** You said that the vast majority of people do not want to be in that position. Can you state with absolute certainty that people are being asked whether they would like personalisation of care?

**Jonathan Morgan:** Yr oeddech yn dweud nad yw'r mwyafrif helaeth o bobl am fod yn y sefyllfa honno. A allwch ddweud yn hollol bendant y gofynnir i bobl a fyddent yn hoffi gweld personoleiddio gofal?

**Helen Mary Jones:** I am sorry if that was your interpretation of what I said, as that was not what I meant. I have made it clear that people should be offered the option. However, the vast majority of these people are over 65, and I am sure that you would accept that it is less likely that they would want to engage in the complications of direct payments. I am not saying that it would not happen, but that it is less likely than it would be for some younger disabled people, who want options and more proactive choices.

**Helen Mary Jones:** Mae'n ddrwg gennyf os dyna oedd eich dehongliad o'r hyn a ddywedais, oherwydd nid dyna'r oeddwn yn ei olygu. Yr wyf wedi egluro y dylai pobl gael cynnig y dewis. Fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth y bobl hyn dros 65 oed, ac yr wyf yn siŵr y byddech yn derbyn ei bod yn llai tebygol y byddent hwy am ymwneud â chymhlethdodau taliadau uniongyrchol. Nid wyf yn dweud na fyddai'n digwydd, ond y mae'n llai tebygol yn eu hachos hwy nag yn achos rhai pobl anabl iau sydd am gael dewisiadau a dulliau mwy rhagweithiol.

There are questions with regard to some private sector care in respect of quality, staff training, the terms and conditions of those staff, and therefore of reliability. I would be very worried if we were to go down the road of having entirely privatised individualised budgets, although I am not saying that the opposition is advocating that. There would be some people who would have to depend on one provider, as they would not have a choice, and that provider would have a captive market. I am not interested in that.

Mae cwestiynau'n codi am rywfaint o ofal y sector preifat, o ran ansawdd, hyfforddiant staff, amodau a thelerau'r staff hynny, a dibynadwyedd hefyd, felly. Byddwn yn bryderus iawn pe baem yn dechrau cael cyllidebau unigol wedi'u preifateiddio'n gyfan gwbl, er nad wyf yn dweud bod yr wrthblaid yn ffafrio hynny. Byddai rhai pobl yn gorfod dibynnu ar un darparwr, am na fyddai ganddynt ddewis, a byddai gan y darparwr hwnnw farchnad gaeth. Nid oes gennyf ddiddordeb yn hynny.

I am concerned to hear a Member characterise publicly provided social care as

Yr wyf yn pryderu clywed Aelod yn defnyddio'r gair 'Sofietaidd' i ddisgrifio

'Soviet'. That is bizarre. I wonder whether Mark Isherwood thinks that publicly provided healthcare services are Soviet—I certainly do not. I sense an ideological push from some, although not all, Conservative Members, towards privatising services for the benefit of private companies, and I do not want to hear about that.

**Andrew R.T. Davies:** Will you take an intervention?

**Helen Mary Jones:** No, I will not. I am sorry, Andrew, but we have had a long speech from you already, and much of that was fairly meaningless. [*Interruption.*] Whether we call this 'direct payments' or 'individualised budgets', it must always be about choice and not a replacement for good, core services. I urge our Ministers to, of course, listen to the disabled people's organisations that want more direct payments, but I also urge them to listen to the quieter voices, who may find it harder to get themselves heard. [*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** I think that it was an appropriate comment.

**Nick Ramsay:** Conservative Members are more than willing to listen to the quieter voices; I just wish that some other Assembly Members would also listen to them. As has been said by my colleagues, and indeed by AMs around the Chamber, today's motion is very important. While I support the Assembly Government's policy of making payments available to a widening range of users, the issue of personalisation causes me concern and demonstrates the great gaps in service provision throughout Wales. We often talk of a postcode lottery with regard to other services, and it also applies in this case.

It is not suitable for the Assembly or for the providers of services in Wales to say that one size fits all—it simply does not. Going back to Helen Mary Jones's comment, that is not about having a Soviet system, or however you want to describe it. It is about having a

gofal cymdeithasol cyhoeddus. Mae hynny'n rhyfedd. Tybed a yw Mark Isherwood yn meddwl bod gwasanaethau gofal iechyd cyhoeddus yn Sofietaidd— yn bendant, nid wyf fi. Yr wyf yn synhwyro bod rhai Aelodau Ceidwadol, ond nid pob un ohonynt, yn ceisio hyrwyddo ideoleg a hyrwyddo preifateiddio gwasanaethau er budd cwmnïau preifat, ac nid wyf am glywed am hynny.

**Andrew R.T. Davies:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Helen Mary Jones:** Na wnaf. Mae'n ddrwg gennyf, Andrew, ond yr ydym eisoes wedi cael araith hir gennyf, lawer ohoni'n ddigon diystyr. [*Torri ar draws.*] Nid oes gwahaniaeth a ydym yn galw'r rhain yn 'daliadau uniongyrchol' ynteu'n 'gyllidebau unigol': rhaid mai dewis yw'r brif ystyriaeth, nid rhywbeth i ddisodli gwasanaethau craidd da. Anogaf ein Gweinidogion, wrth gwrs, i wrando ar fudiadau pobl anabl sydd am weld mwy o daliadau uniongyrchol, ond anogaf hwy hefyd i wrando ar y lleisiau tawelach a all ei chael yn anos cael gwrandawriad. [*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Credaf fod hynny'n sylw priodol.

**Nick Ramsay:** Mae Aelodau Ceidwadol yn fwy na pharod i wrando ar y lleisiau tawelach, ond byddai'n dda gennyf pe bai rhai o Aelodau eraill y Cynulliad hefyd yn gwrandao arnynt. Fel y dywedwyd eisoes gan fy nghydweithwyr, ac yn wir, gan Aelodau o amgylch y Siambr, mae'r cynnig heddiw'n bwysig iawn. Er fy mod yn cefnogi polisi Llywodraeth y Cynulliad o sicrhau bod taliadau ar gael i ystod fwyfwy eang o ddefnyddwyr, mae mater personoleiddio yn peri pryder imi ac yn dangos y bylchau anferth yn y ddarpariaeth gwasanaethau ledled Cymru. Byddwn yn aml yn sôn am loteri cod post yng nghyswllt gwasanaethau eraill, ac y mae hynny'n berthnasol yn yr achos hwn hefyd.

Nid yw'n addas i'r Cynulliad neu ddarparwyr gwasanaethau yng Nghymru ddweud bod un math o ddull gweithredu yn addas i bawb—nid yw hynny'n wir o gwbl. I fynd yn ôl at sylw Helen Mary Jones, nid mater o gael system Sofietaidd ydyw, neu pa air bynnag y

reasonable, realistic argument about the problems facing service users in Wales, and about providing solutions that matter and giving them a choice that matters.

**Helen Mary Jones:** I am pleased to hear what you said about not seeing publicly provided care as Soviet. Will you dissociate yourself from the comment that Mark Isherwood made?

**Nick Ramsay:** You have taken Mark Isherwood's comments totally out of context, and I would disregard everything that you have just said.

Social care services that are provided by local authorities are, in many cases, very well used and well relied upon, but sometimes do not have a focus on preventative support. We believe that personalisation could reduce the need for costly crisis support packages. By trusting recipients of care to know best, we could reduce waste and inefficiency. Do not just take my word for that; the Department of Health has said that individual budgets are, at least, cost-neutral.

Aside from saving the NHS in Wales a great deal of money, personalisation is good in a key way: it puts people and their carers at the centre of the development and delivery of the services and support that they receive, working with professionals and care workers to make decisions and to allocate resources in the most appropriate way for them.

We have heard repeated promises from the Welsh Assembly Government about putting citizens first, giving people a greater say and a choice about how they are supported, and a more active role in managing their own situations—I could go on. We hear no end of soundbites with which no-one would disagree. However, the question is what is happening on the ground and the stark reality when you speak to those who are accessing these services.

At present, fewer than 2,000 people are being

dymunwch ei ddefnyddio i'w disgrifio. Mae'n golygu cael dadl resymol, realistig am y problemau sy'n wynebu defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru, a darparu atebion sy'n cyfrif a rhoi dewis sy'n cyfrif.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn falch clywed yr hyn a ddywedwyd gennych am beidio ag ystyried gofal cyhoeddus fel rhywbeth Sofietaidd. A wnewch chi ymbellhau oddi wrth y sylw a wnaeth Mark Isherwood?

**Nick Ramsay:** Yr ydych wedi cymryd sylwadau Mark Isherwood allan o'u cyddestun yn llwyr, a byddwn yn anwybyddu popeth yr ydych newydd ei ddweud.

Mewn llawer achos, caiff gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol eu defnyddio'n dda iawn, a dibynnir yn helaeth arnynt, ond weithiau nid ydynt yn canolbwyntio ar gymorth ataliol. Credwn y gallai personoleiddio leihau'r angen am becynnau cymorth mewn argyfwng, sy'n gostus. Wrth ymddiried mai'r sawl sy'n cael gofal a wŷr orau, gallem leihau gwastraff ac aneffeithlonrwydd. Peidiwch â chymryd fy ngair i'n unig ynghylch hynny; mae'r Adran Iechyd wedi dweud bod cyllidebau unigol o leiaf yn niwtral o ran cost.

Ar wahân i arbed llawer iawn o arian i'r GIG yng Nghymru, mae personoleiddio'n dda mewn ffordd allweddol: mae'n rhoi pobl a'u gofaluwr wrth wraidd gwaith datblygu a darparu'r gwasanaethau a'r cymorth a gânt, gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol a gweithwyr gofal i wneud penderfyniadau ac i ddyrannu adnoddau yn y ffordd fwyaf priodol iddynt hwy.

Yr ydym wedi clywed addewidion di-ri gan Lywodraeth y Cynulliad amh roi dinasyddion yn gyntaf, rhoi mwy o gyfle i bobl ddweud eu dweud, a chael mwy o ddewis ynghylch sut y cânt eu cynorthwyo, a rhoi rôl fwy weithredol iddynt wrth reoli eu sefyllfaoedd eu hunain—a gallwn restru mwy. Clywn beth wmbredd o gyhoeddiadau da na fyddai neb yn anghytuno â hwy. Fodd bynnag, y cwestiwn yw beth sy'n digwydd ar lawr gwlad, a beth yw'r realiti go iawn pan fyddwch yn siarad â'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.

Ar hyn o bryd, mae llai na 2,000 o bobl yn



given direct payments for the social care they receive, and that is for all conditions requiring social care, not simply conditions like multiple sclerosis. We have tabled this debate because we believe that the arguments are absolutely clear.

I will make a comparison with England, and I make no apology for referring to England as, although we have a devolved system here—and thank goodness we do—at the same time, we can make comparisons with services across the border. I can see Helen Mary laughing, but it does provide a basis for comparison with services across the border. In England, substantial progress has been made to develop personalisation. Some £520 million has been allocated by the Department of Health, and by October 2010, all new and existing service users and carers must have been offered a personal budget by their local authority. However, despite numerous policy statements and promises for initiatives by the Assembly Government since 2006, progress towards greater personalisation has been painfully slow.

I have long called for patients to be participants, and not just recipients, in the provision of the NHS care and social services they receive. People with long-term chronic conditions should have the right to shape the kind of support they need. The individual should be put at the centre of the care they receive. That is what the Assembly Government frequently calls for, and that is what we believe, so let us make it happen. It is about designing services around how and when people wish to receive support. Sadly, having spoken to those involved in the service, my experience of the way that the current system operates is that people do not always receive the right services at the right time for them. That is at the heart of this argument.

For these reasons, I am fully supportive of the drive towards greater personalisation. Contrary to Gwenda Thomas's belief that patients do not want bells and whistles, patients do want a greater say in how their

cael taliadau uniongyrchol ar gyfer y gofal cymdeithasol a gânt, o ran pob anhwylder sy'n gofyn am ofal cymdeithasol, ac nid yn unig o ran anhwylderau megis sglerosis ymledol. Yr ydym wedi cyflwyno'r ddadl hon oherwydd ein bod yn credu bod y dadleuon yn hollol glir.

Yr wyf am gymharu Cymru â Lloegr, ac nid wyf yn ymddiheuro am gyfeirio at Loegr, oherwydd, er bod gennym system ddatganoledig yma—a diolch byth am hynny—gallwn ar yr un pryd gymharu ein gwasanaethau ni â rhai sydd dros y ffin. Gallaf weld Helen Mary yn chwerthin, ond y mae'n sail i gymharu â gwasanaethau dros y ffin. Yn Lloegr, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i ddatblygu personoleiddio. Mae tua £520 miliwn wedi'i ddyrannu gan yr Adran Iechyd, ac erbyn Hydref 2010 bydd yn rhaid i bob defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr newydd a phresennol fod wedi cael cynnig cyllideb bersonol gan ei awdurdod lleol. Fodd bynnag, er gwaethaf addewidion a datganiadau polisi niferus am fentrau gan Lywodraeth y Cynulliad er 2006, mae cynnydd tuag at fwy o bersonoleiddio wedi bod yn boenus o araf.

Yr wyf wedi galw ers amser am sefyllfa lle mae cleifion yn cymryd rhan yn y ddarpariaeth a gânt o ofal y GIG a gwasanaethau cymdeithasol, nid yn eu cael yn unig. Dylai pobl ag anhwylderau cronig a hirdymor gael yr hawl i lunio'r math o gymorth y mae arnynt ei angen. Dylai'r unigolyn gael ei roi wrth wraidd y gofal a gaiff. Dyna y mae Llywodraeth y Cynulliad yn galw'n fynych amdano, dyna yr ydym ni yn credu ynddo, felly, gadewch inni beri iddo ddigwydd. Mae'n golygu cynllunio gwasanaethau ar sail sut a phryd mae pobl yn dymuno cael cymorth. Yn anffodus, ar ôl siarad â phobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, o'm profiad i o'r ffordd y mae'r system gyfredol yn gweithredu, nid yw pobl bob amser yn cael y gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn iddynt hwy. Dyna sydd wrth wraidd y ddadl hon.

Am y rhesymau hyn, yr wyf yn hollol gefnogol i'r ymgyrch dros fwy o bersonoleiddio. Yn groes i gred Gwenda Thomas nad yw cleifion am gael gwasanaethau deniadol ac amlwg, mae

services are run. In some instances, there is a lack of understanding with regard to the way in which the private sector and the public sector should be working together and that both have a role to play. We believe in choice and we want to deliver choice, but, for goodness' sake, let us get on with the job and deliver that choice, and not just recite a bunch of meaningless platitudes that have no effect on the ground.

**Ann Jones:** I have listened carefully to the debate. I want to concentrate on the workers who will be employed by those receiving the direct payments. We have heard Helen Mary and Joyce mention the fact that many people who receive care do not want to be classed as employers; they do not want that. No-one in the Chamber has mentioned the workers, who will be working for people in a caring capacity with whom they will often become friends. What happens when you have no contract and when you are simply providing care for an elderly or young person and that relationship breaks down? What happens to that worker? I do not expect the Tories to have thought of that, because we know that the Tories have never taken—

**Andrew R.T. Davies:** Will you take an intervention?

**Ann Jones:** I have only just started my contribution, but I will.

**Andrew R.T. Davies:** This debate is not about moving completely from one system to another; it is about offering choice in the system and about the way that the system is developed for the individual user. We are not saying that there will be a 100 per cent shift, but, at the end of the day, you have to offer choice.

**Ann Jones:** That is fine; you have made that point. However, nowhere in the motion or in the debate have the Tories mentioned what they will do about protecting the rights of workers. [*Interruption.*] No, you have not. Do not look puzzled; you have not. I have listened to the debate carefully and no-one has mentioned these workers.

cleifion am gael mwy o gyfle i ddweud eu dweud am y modd y caiff eu gwasanaethau eu rhedeg. Mewn rhai achosion mae diffyg dealltwriaeth o'r modd y dylai'r sector preifat a'r sector cyhoeddus gydweithio a'r ffaith fod rôl gan y ddau sector. Yr ydym yn credu mewn dewis, ac yr ydym am sicrhau dewis, ond er mwyn popeth, gadewch inni fwrw ymlaen â'r gwaith a sicrhau'r dewis hwnnw, a rhoi'r gorau i adrodd pentwr o ystrydebau diystyr nad ydynt yn effeithio ar yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

**Ann Jones:** Yr wyf wedi gwrando'n ofalus ar y ddadl. Yr wyf am ganolbwyntio ar y gweithwyr a gyflogir gan y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol. Clywsom Helen Mary a Joyce yn crybwyll y ffaith nad yw llawer o bobl sy'n cael gofal am gael eu hystyried yn gyflogwyr; nid ydynt yn dymuno hynny. Nid oes neb yn y Siambr wedi sôn am y gweithwyr a fydd yn gweithio i'r bobl fel gofalwyr, ac a fydd yn aml yn dod yn gyfeillion iddynt. Beth sy'n digwydd pan na fydd gennych gontract, a phan fyddwch yn gofalu am berson hŷn neu berson ifanc, a'r berthynas honno'n chwalu? Beth sy'n digwydd i'r gweithiwr hwnnw? Nid wyf yn disgwyl i'r Torïaid fod wedi meddwl am hynny, oherwydd gwyddom nad yw'r Torïaid erioed wedi—

**Andrew R.T. Davies:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Ann Jones:** Nid wyf ond prin wedi dechrau fy nghyfraniad, ond fe'i derbyniaf.

**Andrew R.T. Davies:** Nid dadl yw hon am symud yn gyfan gwbl o un system i system arall; mae'n ymwneud â chynnig dewis yn y system a'r modd y caiff y system ei datblygu ar gyfer y defnyddiwr unigol. Nid ydym yn dweud y bydd y cyfan yn newid, ond, yn y pen draw, rhaid ichi gynnig dewis.

**Ann Jones:** Mae hynny'n iawn; yr ydych wedi gwneud y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, nid yw'r Torïaid wedi sôn o gwbl yn y cynnig na'r ddadl am yr hyn y byddant yn ei wneud i warchod hawliau gweithwyr. [*Torri ar draws.*] Nac ydych. Peidiwch ag edrych mor syn; nid ydych wedi sôn am hynny o gwbl. Yr wyf wedi gwrando'n ofalus ar y

ddadl, ac nid oes neb wedi sôn am y gweithwyr hyn.

If you are friends with someone for whom you become a carer and that relationship breaks down, what happens to that person's rights? Where are those worker's rights? That is the issue that has not been addressed here today.

Os ydych yn gyfaill i rywun ac yna'n dod yn ofalwr iddo a'r berthynas honno'n chwalu, beth sy'n digwydd i hawliau'r gofalwr hwnnw? Ble mae hawliau'r gweithiwr hwnnw? Dyna'r mater nad oes neb wedi mynd i'r afael ag ef yma heddiw.

The other issue is pensions for these people. [Interruption.] Alun, if you are going to get up, then get up.

Y mater arall yw pensiynau i'r bobl hyn. [Torri ar draws.] Alun, os ydych am sefyll, sefwch.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Do you intend to intervene, or not?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A ydych yn bwriadu ymyrryd ai peidio?

**Alun Cairns:** I was seeking permission to intervene.

**Alun Cairns:** Yr oeddwn yn gofyn am ganiatâd i ymyrryd.

**The Deputy Presiding Officer:** Will you stand up and seek permission? Will you take an intervention, Ann Jones?

**Y Dirprwy Lywydd:** A wnewch chi sefyll a gofyn am ganiatâd? A wnewch chi dderbyn ymyriad, Ann Jones?

**Ann Jones:** Yes, I will.

**Ann Jones:** Gwnaf.

**Alun Cairns:** I am grateful to Ann Jones for giving way. These problems are not new problems and there are solutions that the Labour Party has developed in England. Surely, they would provide a welcome opportunity for us here.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar i Ann Jones am ildio. Nid yw'r problemau hyn yn broblemau newydd, ac y mae'r Blaid Lafur wedi datblygu atebion iddynt yn Lloegr. Oni fyddent yn gyfle i'w groesawu i ni yma?

**Ann Jones:** Just because the Labour Party has developed something in England, we do not have to follow it. That will seem quite strange coming from me, as I do not want to keep an all-Wales service.

**Ann Jones:** Nid yw'r ffaith fod y Blaid Lafur wedi datblygu rhywbeth yn Lloegr yn golygu ei bod yn rhaid i ni ei ddilyn yma. Mae fy nghlywed i'n dweud hynny'n ymddangos yn ddigon rhyfedd, oherwydd nid wyf am gadw gwasanaeth i Gymru gyfan.

5.20 p.m.

However, I am concerned about pension rights. Individual benefit payments and take-up of care payments will often mean that those workers will not get a pension. This is a short-term solution, but we are not looking at the long term when these people will suddenly become pensioners themselves. There will be many people who will not have a state pension.

Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu am hawliau pensiwn. Bydd taliadau budd-daliadau unigol a manteisio ar daliadau gofal yn golygu'n aml na fydd y gweithwyr hynny'n cael pensiwn. Mae hwn yn ateb tymor byr, ond nid ydym yn edrych ar y tymor hir, pan fydd y bobl hyn yn sydyn yn bensiynwyr eu hunain. Bydd gennym lawer o bobl na fyddant yn cael pensiwn y wladwriaeth.

When we were travelling down to Cardiff, my colleague Karen Sinclair and I met a person who was doing this sort of private

Pan oeddem yn teithio i lawr i Gaerdydd, cyfarfu fy nghydweithiwr, Karen Sinclair, a minnau â rhywun a oedd yn darparu'r math

care. She was working four 24-hour days looking after somebody and catnapped when she could. She was 62 and had to carry on working because she had no pension. The person that she was helping was becoming increasingly unable to recognise her. There were real issues about the care of this individual and about the worker's rights. The woman who was her employer was not able to fulfil her obligations as an employer. She was not able to offer a health and safety check. Therefore, if this carer hurt her back while lifting this lady, she was not in a position to claim anything, nor was she in a position to go off sick—she only had the statutory sick pay. Those are the issues which we will face if we are not careful.

hwn o ofal preifat. Yr oedd yn gweithio pedwar diwrnod 24-awr yn gofalu am rywun, a byddai'n hepiant cysgu pa bryd bynnag y gallai. Yr oedd yn 62 oed ac yn gorfod parhau i weithio am nad oedd ganddi bensiwn. Yr oedd yr unigolyn a gâi help ganddi yn methu'n gynyddol â'i hadnabod. Yr oedd problemau gwirioneddol yn codi ynghylch gofal yr unigolyn dan sylw a hawliau'r gweithiwr. Nid oedd y ddynes a oedd yn ei chyflogi'n medru cyflawni ei rhwymedigaethau fel cyflogwr. Nid oedd yn medru cynnig archwiliad iechyd a diogelwch. Felly, pe bai'r gofaluwr dan sylw yn anafu ei chefn wrth godi'r ddynes, ni fyddai'n gallu hawlio dim, ac ni fyddai'n gallu bod yn absennol oherwydd salwch—tâl salwch statudol yn unig a fyddai ganddi. Dyna'r problemau y byddwn yn eu hwynebu os na fyddwn yn ofalus.

I have probably painted a negative picture of direct payments but those are the issues that we have to look at. It is all well and good for us to say that it is right for everybody to have choice, but we also have to look at the people for whom we have a responsibility and a duty of care. If we enforce direct payments, it will be us who will have to pick up that tab. It is like a bubble bursting: it is great while you have the balloon, and you can hold it up and say, 'isn't this wonderful?' However, when that balloon bursts, who picks up the pieces? That is what I wanted to raise in this debate, and I am grateful for the opportunity to do so. I do not necessarily say that I would rule out direct payments completely, but those are the issues that I would want to look at.

Mae'n debyg fy mod wedi peintio darlun negyddol o daliadau uniongyrchol, ond dyna'r problemau y mae'n rhaid inni edrych arnynt. Mae'n ddigon hawdd inni ddweud ei bod yn briodol i bawb gael dewis, ond rhaid inni hefyd edrych ar y bobl y mae gennym gyfrifoldeb a dyletswydd gofal drostynt. Os byddwn yn gorfodi taliadau uniongyrchol, ni fydd yn gorfod talu'r pris. Mae fel swigen yn torri: mae popeth yn wych tra bydd y balwn gennych, a thra byddwch yn gallu dal y balwn yn uchel a dweud, 'dyna fendigedig'. Fodd bynnag, pan fydd y balwn yn torri, pwy sy'n casglu'r darnau? Dyna yr oeddwn am ei godi yn y ddatl hon, ac yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i wneud hynny. Nid wyf o reidrwydd yn dweud y byddwn yn dileu taliadau uniongyrchol yn llwyr, ond dyna'r problemau y byddwn am edrych arnynt.

**David Melding:** This is the third time you have given way, which is very generous. We would all agree that a direct payments system can only exist if there is a proper framework. That is what is being developed. I agree that many people would not want to take on the responsibility of direct payments. Our position is that we think that if people in Wales, had an effective choice, more than 1.5 per cent would have taken this up by now.

**David Melding:** Yr ydych yn hael iawn, oherwydd dyna'r trydydd tro ichi ildio. Byddem i gyd yn cytuno na all system taliadau uniongyrchol fodoli heb fframwaith priodol. Dyna sy'n cael ei ddatblygu. Yr wyf yn cytuno y byddai llawer o bobl na fyddent am ysgwyddo cyfrifoldeb taliadau uniongyrchol. Ein safbwynt ni yw ein bod yn credu y byddai dros 1.5 y cant wedi manteisio ar y cynllun hwn erbyn hyn pe bai gan bobl yng Nghymru ddewis effeithiol.

**Ann Jones:** I am grateful to you David, as that is the voice of reason, unlike Mark, who

**Ann Jones:** Yr wyf yn ddiolchgar i chi, David, am eich cyfraniad synhwyrol, yn

referred to the Berlin wall and a Soviet model, which was a bizarre and useless analogy to use when referring to direct payments. I cannot get my head around that, but then I cannot get my head around an awful lot of what Mark says.

Choice is there, but we also have to remember that we have workers who are delivering this care. We have a duty of care to ensure that those workers have good employment rights, whoever pays them.

**Brynle Williams:** For people living with a long-term disability, getting the right support and care—tailored to their own individual needs—is a goal that I hope that all Members agree is worth aiming for. This system of direct payments and personalisation can be a way of achieving this for a significant—and I emphasise significant—number of people. It is unfortunate that Wales is lagging behind. Only 1.3 per cent of those receiving support from local authorities do so through a direct payment. There is a great untapped potential for allowing people with a disability to live independently. It is worrying that such little progress is being made in Wales—only 24 people registered in the last 12 months. That is only two every month, despite the Assembly Government’s aspirations for ‘putting citizens first’ and avoiding people being merely ‘passive recipients’ of public services. To illustrate the value of direct payments and personalisation, I highlight the case of those in Wales living not only with MS, but also with the remnants of another debilitating disease, namely post-polio syndrome. This is a neurological disease, and one that is often poorly diagnosed, particularly so in Wales. It can present a whole range of chronic issues, including muscle pain, fatigue and atrophy. These can affect up to two thirds of those who had the disease as a child. Polio may have been all but eradicated by the 1960s, but it has left a huge legacy of people born in previous decades, and now in their 50s, 60s and 70s, who have developed chronic and debilitating conditions.

wahanol i Mark, a gyfeiriodd at fur Berlin a model Sofietaidd. Cyfatebiaeth ryfedd a diwerth i’w defnyddio wrth gyfeirio at daliadau uniongyrchol. Ni allaf ddeall y gyfatebiaeth o gwbl, ond wedi dweud hynny, yr wyf hyn methu deall llawer iawn o’r hyn a ddywed Mark.

Mae dewis ar gael, ond rhaid inni gofio hefyd fod gennym weithwyr sy’n darparu’r gofal hwnnw. Mae gennym ddyletswydd gofal i sicrhau bod gan y gweithwyr hynny hawliau cyflogaeth da, ni waeth pwy sy’n eu talu.

**Brynle Williams:** I bobl sy’n byw gydag anabledd hirdymor, mae cael y cymorth a’r gofal cywir—wedi’u teilwra i’w hanghenion unigol personol—yn nod y bydd pob Aelod, gobeithio, yn cytuno’i bod yn werth anelu ato. Gall y system hon o daliadau uniongyrchol a phersonoleiddio fod yn ffordd i sicrhau hynny i nifer sylweddol o bobl—ac yr wyf yn pwysleisio’r gair sylweddol. Mae’n anffodus fod Cymru ar ei hôl hi. Un pwynt tri y cant yn unig o’r bobl sy’n cael cymorth awdurdod lleol sy’n ei gael drwy daliad uniongyrchol. Mae llawer o botensial heb ei gyffwrdd a fyddai’n galluogi pobl ag anabledd i fyw’n annibynnol. Mae’r ffaith fod cyn lleied o gynnydd yn cael ei wneud yng Nghymru yn peri pryder—24 o bobl yn unig a gofrestrodd yn ystod y 12 mis diwethaf. Dau berson y mis yn unig yw hynny, er gwaethaf dyheadau Llywodraeth y Cynulliad i roi dinasyddion yn gyntaf ac osgoi gweld pobl yn anweithredol wrth gael gwasanaethau cyhoeddus. Er mwyn dangos gwerth taliadau uniongyrchol a phersonoleiddio, hoffwn dynnu sylw at achos pobl yng Nghymru sy’n byw nid yn unig gyda sglerosis ymledol, ond hefyd gydag effeithiau clefyd gwanychol arall, sef syndrom ôl-bolio. Clefyd niwrolegol yw hwn, a chlefyd sy’n cael ei ddiagnosisio’n wael yn aml, yn enwedig yng Nghymru. Gall achosi ystod eang o broblemau cronig, gan gynnwys poen yn y cyhyrau, blinder a chrebachu. Gall y rhain effeithio ar hyd at ddwy ran o dair o’r bobl a gafodd y clefyd pan oeddent yn blant. Hwyrach fod polio wedi’i ddileu fwy neu lai’n gyfan gwbl erbyn y 1960au, ond y mae wedi gadael llu o bobl, a aned yn ystod y degawdau blaenorol, sydd erbyn hyn yn eu 50au, eu 60au a’u 70au ac sydd wedi datblygu anhwylderau cronig a

gwanychol.

A one-size-fits-all approach, I am sorry to say, does not fit for people with post-polio syndrome, as it does not fit with a whole range of other disabilities. Those who want to take control of their care through personalisation—I fully appreciate that it will not be for everyone; it has been said many times this afternoon that it will not suit everyone—should be given the opportunity to do so. Those people should be made aware of it. I hope that the Assembly Government will commit to making real progress on helping those with disabilities to take control over their own lives so that they can live independently.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu at y ddadl hon. Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi rwy o ddewis i ddefnyddwyr gwasanaethau drwy roi arian iddynt brynu eu gofal eu hunain. Cafodd y system taliadau uniongyrchol ei defnyddio am y tro cyntaf yn Ebrill 1997 ac mae wedi tyfu dros y blynnyddoedd. Yn ôl y gyfraith bresennol, mae dyletswydd i wneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal cymunedol o fewn darpariaethau adran 46 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990, gwasanaethau o dan adran 2 Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000, a rhai gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn gallu eu darparu o dan adran 17 Deddf Plant 1989, hynny yw, gwasanaethau i blant mewn angen, eu teuluoedd ac eraill. Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gael drwy dalu'n uniongyrchol amdanynt, o brynu darn o offer na fydd ei angen eto i gyflogi cynorthwydd personol i ofalu amdanoch drwy'r dydd, bob dydd.

I would like to acknowledge what Mark said about MS Society Cymru. This is the third partnership day, Mark, and I am looking forward, as I am sure are many others, to attending the event this evening. I agree with some of the things that were said by Mark Isherwood, particularly with regard to the citizen-centred approach to service delivery and planning. Surely, Mark, you

Nid yw'r agwedd fod yr un dull yn addas i bawb, mae'n ddrwg gennyf ddweud, yn briodol i bobl sydd â syndrom ôl-bolio, oherwydd nid yw'r syndrom yr un fath ag ystod eang o anableddau eraill. Dylai pobl sydd am reoli eu gofal drwy bersonoleiddio—yr wyf yn sylweddoli'n iawn na fydd yn addas i bawb; dywedwyd droeon y prynhawn yma na fydd yn addas i bawb—gael cyfle i wneud hynny. Dylid sicrhau bod y bobl hynny'n ymwybodol o'r cyfle. Gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymo i wneud cynnydd gwirioneddol i helpu pobl ag anableddau i reoli eu bywydau eu hunain er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I welcome this opportunity to contribute to this debate. Direct payments give service users greater choice by providing them with the money to purchase their own care. The direct payments system was first used in April 1997, and over the years it has grown. Under current legislation there is a duty to make direct payments in relation to community care services provided under section 46 of the National Health Service and Community Care Act 1990, services provided under section 2 of the Carers and Disabled Children Act 2000, and some services that local authorities are able to deliver under section 17 of the Children Act 1989, namely services for children in need, their families and others. A variety of services is available by way of direct payments, from buying a piece of equipment that will only be required once to employing a personal assistant to provide care all day, every day.

Hoffwn gydnabod yr hyn a ddywedodd Mark am MS Cymru. Dyma'r trydydd diwrnod partneriaeth, Mark, ac yr wyf yn edrych ymlaen at fynd i'r digwyddiad heno, fel llawer o bobl eraill, mae'n siŵr. Yr wyf yn cytuno â rhai o'r pethau a ddywedodd Mark Isherwood, yn enwedig yng nghyswllt y dull o gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Yr wyf yn

acknowledge that this underpins our social services strategy in Wales. That is what it is all about.

Peter Black referred to choice and I very much agree with that. Andrew R.T. Davies and Jonathan Morgan referred to choice and asked the important question whether the present take-up rate of direct payments reflects the choice of service users. That is a question that I agree that we have to attempt to answer. Joyce Watson talked about the availability of local authority—

**Jonathan Morgan:** Will you give way, Deputy Minister?

**Gwenda Thomas:** I will finish this point first, Jonathan, because I will then be coming on to something else that you have said.

Joyce Watson talked about the availability of local authority services as an alternative, which I think is a very important point, and local authorities as a safety net, especially in areas where the independent sector does not offer services. In an intervention, Jonathan talked about the method of offering direct payments. I agree, Jonathan, that that can influence take-up one way or another.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to the Deputy Minister for giving way. Deputy Minister, a moment ago, you said that the question of whether low take-up is a result of choice needs to be answered. The fact is, Deputy Minister, that your amendment 1 states that direct payments reflect the choices made. There is an inconsistency between what you just said and what is on the agenda. Do you think that the Government could consider withdrawing the amendment?

5.30 p.m.

**Gwenda Thomas:** I do not think that there is inconsistency. I am asking whether the

siŵr, Mark, eich bod yn cydnabod bod ein strategaeth ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wedi'i seilio ar ddull gweithredu o'r fath. Dyna yw'r brif ystyriaeth.

Cyfeiriodd Peter Black at ddewis, a chytunaf yn gryf iawn â hynny. Cyfeiriodd Andrew R.T. Davies a Jonathan Morgan at ddewis, gan ofyn a oedd nifer presennol y bobl sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol yn adlewyrchu dewis defnyddwyr gwasanaethau, sy'n gwestiwn pwysig. Mae hwnnw'n gwestiwn y cytunaf ei bod yn rhaid inni geisio'i ateb. Siaradodd Joyce Watson am y graddau y mae gwasanaethau awdurdodau lleol ar gael—

**Jonathan Morgan:** A wnewch chi ildio, Ddirprwy Weinidog?

**Gwenda Thomas:** Hoffwn orffen y pwynt hwn yn gyntaf, Jonathan, oherwydd byddaf wedyn yn ymdrin â rhywbeth arall a ddywedwyd gennych.

Siaradodd Joyce Watson am y graddau y mae gwasanaethau awdurdodau lleol ar gael fel dewis arall—a chredaf fod hwnnw'n bwynt pwysig iawn—ac awdurdodau lleol ar gael rhwyd ddiogelwch, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad yw'r sector annibynnol yn cynnig gwasanaethau. Mewn ymyriad, soniodd Jonathan am y dull o gynnig taliadau uniongyrchol. Yr wyf yn cytuno, Jonathan, y gall hynny ddylanwadu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ar y nifer sy'n manteisio ar daliadau.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ildio. Ddirprwy Weinidog, eiliad yn ôl, soniech fod angen ateb y cwestiwn ai dewis sy'n gyfrifol mai nifer fach sy'n manteisio. Ddirprwy Weinidog, y ffaith yw bod eich gwelliant 1 yn dweud bod taliadau uniongyrchol yn adlewyrchu'r dewisiadau a wneir. Mae anghysondeb rhwng yr hyn yr ydych newydd ei ddweud a'r hyn sydd ar yr agenda. A ydych yn credu y gallai'r Llywodraeth ystyried tynnu'r gwelliant yn ôl?

present take-up rate reflects the choice, and, if it does, we have to accept that fact. If it does not and we think that the way in which direct payments are being offered can have an influence one way or another, then we need to look at that as well.

Helen Mary talked about the geographical availability of services as well. She mentioned the importance of support services and the role of the voluntary sector in delivering them; we have the example of the Shaw Trust. The important issues of employment law were raised by Helen Mary and Ann Jones with regard to the workforce.

In 2004, we placed a legal duty on local authorities in Wales to offer direct payments to all people who are potentially eligible to receive them. There is no compulsion on people to agree to a direct payments arrangement; that is a matter for individual choice. The most recent published figures that I believe Alun Cairns's motion refers to are that, in 2008-09, some 1,990 people were in receipt of direct payments. However, these take-up figures refer to the position on 31 March 2009. They do not include the totality of direct payments activity that was undertaken during the 12 months to 31 March 2009. If we include this activity, then some 2,300 people benefited from a direct payment arrangement during the whole of 2008-09. I welcome this continuing increase in take-up and, working with interested stakeholders, we will continue to look to broaden the availability of direct payments and improve the arrangements that are already in place. I make that point in response to comments made by Peter Black, Jonathan Morgan, Nick Ramsay and Brynle Williams. Our next step will be to bring into force the provisions of section 146 of the Health and Social Care Act 2008. This will enable us to extend direct payments to people who lack capacity, and it will also provide us with an opportunity to review the list of people who are presently legally excluded from participating in a direct payments arrangement.

In Wales, we have not adopted the individual budget approach that is being rolled out for social services in England. We want to see,

presennol sy'n manteisio yn adlewyrchu'r dewis, ac os ydyw, rhaid inni dderbyn y ffaith honno. Os nad ydyw, ac os credwn y gall y modd y caiff taliadau uniongyrchol eu cynnig ddylanwadu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yna mae angen inni edrych ar hynny hefyd.

Siaradodd Helen Mary am y graddau y mae gwasanaethau ar gael mewn gwahanol ardaloedd hefyd. Soniodd am bwysigrwydd gwasanaethau cymorth a rôl y sector gwirfoddol wrth eu darparu; mae Ymddiriedolaeth Shaw yn enghraifft o hynny. Cafodd materion pwysig cyfraith cyflogaeth eu codi gan Helen Mary ac Ann Jones yng nghyswllt y gweithlu.

Yn 2004, rhoesom ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnig taliadau uniongyrchol i bawb a all fod yn gymwys i'w cael. Nid oes gorfodaeth ar bobl i gytuno ar drefniant taliadau uniongyrchol; mater o ddewis unigol yw hynny. Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd, a chredaf fod cynnig Alun Cairns yn cyfeirio atynt, yn dangos bod tua 1,990 o bobl yn cael taliadau uniongyrchol yn 2008-09. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hynny'n cyfeirio at y sefyllfa ar 31 Mawrth 2009. Nid ydynt yn cynnwys yr holl weithgarwch taliadau uniongyrchol a ddigwyddodd yn ystod y 12 mis tan 31 Mawrth 2009. O gynnwys y gweithgarwch hwnnw, gwelir bod tua 2,300 o bobl wedi elwa o drefniant taliadau uniongyrchol drwy gydol 2008-09. Croesawaf y cynnydd parhaus hwn yn nifer y bobl sy'n manteisio, a thrwy weithio gyda rhanddeiliaid y mae a wnelo hyn â hwy, byddwn yn parhau i geisio ehangu darparu taliadau uniongyrchol a gwella'r trefniadau sydd eisoes ar waith. Gwnaf y pwynt hwnnw i ymateb i sylwadau gan Peter Black, Jonathan Morgan, Nick Ramsay a Brynle Williams. Ein cam nesaf fydd rhoi darpariaethau adran 146 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 mewn grym. Bydd hynny'n ein galluogi i ymestyn taliadau uniongyrchol i bobl sydd â diffyg gallu, a bydd hefyd yn gyfle inni adolygu'r rhestr o bobl a gaiff eu heithrio'n gyfreithiol ar hyn o bryd rhag cymryd rhan mewn trefniant taliadau uniongyrchol.

Yng Nghymru, nid ydym wedi mabwysiadu dull cyllidebau unigol sy'n cael ei roi ar waith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn



and consider fully, all the evidence that is still emerging from England on the evaluation of the pilots undertaken there and the detailed implementation arrangements so that we can satisfy ourselves that potential problems can be properly addressed. Our concerns relate to a number of areas—and these include those raised by Peter Black and Andrew R.T. Davies—including the impacts on: child and vulnerable adult protection arrangements; social care workforce planning and development; the development of the local care services market; sustaining or improving the quality of care being provided to service users; and the care assessment process in the light of the proposals to introduce self-assessment. In this context, it is interesting to note that only a few weeks ago, the think tank Demos published the results of a survey that indicated that some 82 per cent of the people in England who need social and health care have almost no understanding of the new personal budget care system. That figure increased to 92 per cent of the older people surveyed. The Demos survey also suggested that local authorities in England must be prepared for the potentially large number of people, especially older people, who would not wish to manage their own personal budgets.

We remain fully committed to ensuring that assessment and care management approaches in Wales support person-centred care and contribute to our aim of helping people to achieve control over their life. Our social services strategy, as I have already said, sets out the Assembly Government's expectations of local authorities for services that are shaped by service users and their needs and to provide good-quality services. We will continue to work with stakeholders to achieve this aim.

We believe that people need to have control over the services that they receive and be at the heart of their planning. This is our made-in-Wales solution. I therefore cannot support the motion as it stands. The amendment proposed by Carwyn Jones better reflects this

Lloegr. Yr ydym am weld, ac ystyried yn llawn, yr holl dystiolaeth sy'n dal i ymddangos o Loegr am werthuso'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd yno, a'r trefniadau gweithredu manwl, fel y gallwn ein bodloni ein hunain y gellir mynd i'r afael yn iawn â phroblemau posibl. Mae ein pryderon yn ymwneud â nifer o feysydd—ac y maent yn cynnwys y rhai a godwyd gan Peter Black ac Andrew R.T. Davies—gan gynnwys yr effeithiau ar: drefniadau amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed; cynllunio a datblygu gweithlu gofal cymdeithasol; datblygu'r farchnad leol am wasanaethau gofal; cynnal neu wella ansawdd y gofal a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaethau; a'r broses asesu gofal yng ngoleuni'r bwriadau i gyflwyno humanasesu. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ddi-ddorol sylwi bod y felin drafod, Demos, rai wythnosau'n ôl yn unig wedi cyhoeddi canlyniadau arolwg a ddangosai nad oes gan ryw 82 y cant o'r bobl yn Lloegr sydd ag angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol arnynt fawr ddim dealltwriaeth o'r system ofal newydd yn seiliedig ar gyllidebau personol. Yr oedd y ffigur hwnnw'n codi i 92 y cant o'r bobl hyn yn yr arolwg. Awgrymai arolwg Demos hefyd ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol yn Lloegr baratoi ar gyfer nifer o bobl a allai fod yn fawr, yn enwedig pobl hyn, na fyddent yn dymuno rheoli eu cyllidebau personol eu hunain.

Yr ydym yn dal wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod dulliau asesu a rheoli gofal yng Nghymru yn cefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar y person ac yn cyfrannu at ein nod o helpu pobl i allu rheoli eu bywydau. Mae ein strategaeth gwasanaethau cymdeithasol, fel y dywedais eisoes, yn gosod allan yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n cael eu llunio gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'u hanghenion, ac i ddarparu gwasanaethau o safon. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gyrraedd y nod hwn.

Credwn fod ar bobl angen rheolaeth dros y gwasanaethau a gânt, a bod wrth wraidd eu cynllunio. Dyna yw ein hateb ar gyfer Cymru. Felly, ni allaf gefnogi'r cynnig fel y mae. Mae'r gwelliant a gynigir gan Carwyn Jones yn adlewyrchu'r safbwynt hwn yn

position, and it therefore has my support. Should this amendment be agreed, I understand that Peter Black's proposed amendment will be deselected.

**Mark Isherwood:** This motion reflects the position that is felt by organisations such as Multiple Sclerosis Society Cymru, because it is that organisation which expressed these points to us and suggested what our priorities should be and what we should seek to deliver through this motion.

Peter Black said that the Liberal Democrats' concern was that choice has to become the norm, because that is what service users want. He is absolutely right, and that is why the motion calls on the Welsh Government to deliver a 'made-for-Wales solution' so that personalised services become the norm, not the exception. Andrew R.T. Davies said that constituents tell him time and again that they want choice—it is that 'choice' word again, which the Deputy Minister picked up on—and to take control of their own destiny.

The Welsh Government amendment in the name of Carwyn Jones uses the word 'choices' while it

'notes that levels of take up of Direct Payments reflects the choices made by individual service users'.

However, if the Government truly believes in social justice and social action, it must understand that people often have no choice without appropriate intervention, help and support. If the Government fails to act in accordance with the call by MS Society Cymru and other charities, it will be denying people choice and social justice.

Joyce Watson stated that, when received, direct payments give people control over their own lives, and she is absolutely right. She correctly said that uptake is affected by many factors. However, she also said that it is vital that services provided by local authorities are still available. She is

well, ac felly yr wyf yn cefnogi'r gwelliant. Os derbynnir y gwelliant hwnnw, deallaf y caiff gwelliant arfaethedig Peter Black ei ddad-ddethol.

**Mark Isherwood:** Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu safbwynt mudiadau megis MS Cymru, oherwydd y mudiad hwnnw a fynegodd y pwyntiau hyn wrthym ac awgrymu beth ddylai ein blaenoriaethau fod a beth ddylem geisio'i wireddu drwy'r cynnig hwn.

Dywedodd Peter Black mai'r hyn a oedd yn bwysig i'r Democratiaid Rhyddfrydol oedd sicrhau mai dewis yw'r drefn arferol oherwydd mai dyna yw dymuniad defnyddwyr gwasanaeth. Mae yn llygad ei le, a dyna pam mae'r cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ateb 'wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer Cymru' i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u personoleiddio yn drefn arferol yn hytrach nag eithriad. Dywedodd Andrew R.T. Davies fod yr etholwyr yn dweud wrtho dro ar ôl tro eu bod am gael dewis—dyna'r gair 'dewis' yn codi ei ben unwaith eto, fel y sylwodd y Dirprwy Weinidog—ac am reoli eu tynged eu hunain.

Mae gwelliant Llywodraeth Cymru yn enw Carwyn Jones yn defnyddio'r gair 'dewisiadau' wrth

'nodi bod y niferoedd sy'n cael taliadau uniongyrchol yn adlewyrchu'r dewisiadau a wneir gan ddefnyddwyr gwasanaeth unigol'.

Fodd bynnag, os yw'r Llywodraeth yn credu'n wirioneddol mewn cyfiawnder cymdeithasol a gweithredu cymdeithasol, rhaid iddi ddeall nad oes gan bobl ddewis yn aml heb ymyrraeth, help a chefnogaeth briodol. Os bydd y Llywodraeth yn methu â gweithredu'n unol â'r hyn y mae MS Cymru ac elusennau eraill yn galw amdano, bydd yn gwrthod y cyfle i bobl gael dewis a chyfiawnder cymdeithasol.

Dywedodd Joyce Watson fod taliadau uniongyrchol, pan fydd pobl yn eu cael, yn rhoi rheolaeth i bobl dros eu bywydau eu hunain, ac y mae yn llygad ei lle. Yr oedd yn iawn pan ddywedodd fod llawer o ffactorau'n effeithio ar nifer y bobl sy'n manteisio. Fodd bynnag, dywedodd hefyd ei bod yn

absolutely correct, and, in fact, I said in my speech that individuals should be allowed to purchase services from their local authority using a direct payment.

**Ann Jones:** You said that you think that local authorities' services will be there, but as more people buy services from the private sector, which has happened with care homes, local authorities will close down services and move workers, so no-one will be available to provide services on behalf of the local authorities—they will have moved away.

**Mark Isherwood:** People will buy services from the local authority if that is the best place to get the services. They will not go to poor or inefficient providers if they can get the service from the local authority, and neither will they go to the type of provider of which you created such a nightmare picture.

As Jonathan Morgan said, the Welsh Government must ask why only 1.3 per cent of those currently in receipt of care services in Wales are in receipt of direct payments. He said that the Welsh Government must live up to the statement in the 'One Wales' agreement that all citizens are empowered to determine their own lives.

Helen Mary Jones mentioned that individualised budgets would not serve the majority of people well. However, that is for them, and not for a bunch of politicians, to decide, on the basis of supported choice and service availability, not compulsion. If there are no services available in their area, that is a vacuum that we need to fill in another context, and we must not deny others the choice as a result. The choice will be theirs to make, and theirs alone.

Questions were raised about the quality of private sector care. Those of us, including the Deputy Minister, who were at the Wales care awards on 30 October in City Hall in Cardiff saw models of best practice from the private, voluntary and public sectors, which showed

hollbwysig i'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol fod ar gael o hyd. Mae'n hollol gywir, ac mewn gwirionedd dywedais yn fy araith y dylid caniatáu i unigolion brynu gwasanaethau gan eu hawdurdod lleol gan ddefnyddio taliad uniongyrchol.

**Ann Jones:** Dywedasoch eich bod yn credu y bydd gwasanaethau awdurdodau lleol ar gael, ond wrth i fwy o bobl brynu gwasanaethau gan y sector preifat, sydd wedi digwydd yn achos cartrefi gofal, bydd awdurdodau lleol yn cau gwasanaethau ac yn symud gweithwyr, ac felly ni fydd neb ar gael i ddarparu gwasanaethau ar ran yr awdurdodau lleol—byddant wedi symud i ffwrdd.

**Mark Isherwood:** Bydd pobl yn prynu gwasanaethau gan yr awdurdod lleol os yr awdurdod lleol yw'r lle gorau i gael y gwasanaethau. Ni fyddant yn mynd at ddarparwyr gwael neu aneffeithlon os gallant gael y gwasanaeth gan yr awdurdod lleol, ac ni fyddant ychwaith yn mynd at y math o ddarparwr y rhoesoch ddarlun mor hunllefus ohono.

Fel y dywedodd Jonathan Morgan, rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn pam mai 1.3 y cant yn unig o'r rheini sy'n cael gwasanaethau gofal yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n cael taliadau uniongyrchol. Dywedodd ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gadw at y datganiad a wnaed yng nghytundeb 'Cymru'n Un', sef y dylai pob dinesydd allu penderfynu natur ei fywyd ei hun.

Soniodd Helen Mary Jones na fyddai cyllidebau unigol yn fuddiol i'r mwyafrif o bobl. Fodd bynnag, hwy, nid criw o wleidyddion, a ddylai benderfynu hynny, ar sail y ffaith fod dewis a gwasanaeth cymorth ar gael, ac nid ar sail gorfodaeth. Os nad oes gwasanaethau ar gael yn eu hardal, mae hwnnw'n wacter y mae angen inni ei lenwi mewn cyd-destun arall, a rhaid inni beidio â gwrthod y dewis i eraill o'r herwydd. Hwy fydd i ddewis, a hwy'n unig.

Codwyd cwestiynau ynghylch ansawdd gofal y sector preifat. Gwelodd y rheini ohonom, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog, a oedd yn bresennol yng ngwobrau gofal Cymru ar 30 Hydref yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, fodelau o arfer gorau yn y sectorau preifat,

that all can deliver excellence on the basis of commitment, compassion and vocation. Of course, there is bad practice in all sectors, and all of us want to see that stamped out.

I used the term 'soviet' not to describe publicly provided services, which would have been bizarre and worse. I was not talking about publicly provided services, but about the denial of choice when the state decides who cares for you, when they care for you and what they do in your home. I was not talking about who provides those services—I would no more disparage the public sector than I would the private or voluntary sectors.

5.40 p.m.

Nick Ramsay rightly said that we need to put people and carers at the centre; that is the very citizen-centred approach that the Members opposite repeatedly say that they champion. People with long-term and chronic conditions, he said, should have the right to have a voice in choosing the services that they receive.

Ann Jones rightly raised the question of workers' rights. Employees in all three sectors are hugely important, and nothing that we say suggests otherwise. We must also remember carers' rights as the Labour Party in England has done.

David Melding said that direct payments would require a proper framework, and, of course, they would. Brynle Williams spoke about post-polio syndrome and other ranges of disabilities where people must have the opportunity to take control through personalisation.

I thank the Deputy Minister for her comments. As she said, direct payments give more choice to service users. I thank her for being the only Member—I apologise if anyone else said this—who acknowledged what MS Society Cymru is saying, and for

gwirfoddol a chyhoeddus, a oedd yn dangos y gall pob un o'r sectorau sicrhau rhagoriaeth ar sail ymrwymiad, cydymdeimlad a galwedigaeth. Wrth gwrs, mae yna arfer gwael ym mhob sector, ac yr ydym i gyd am weld hynny'n cael ei ddileu.

Defnyddiais y term 'Sofietaidd' nid i ddisgrifio gwasanaethau cyhoeddus: byddai hynny wedi bod yn rhyfedd, ac yn waeth na rhyfedd. Nid oeddwn yn sôn am wasanaethau cyhoeddus, ond yn hytrach am wrthod rhoi dewis lle bydd y wladwriaeth yn penderfynu pwy sy'n gofalu amdanoch, pryd maent yn gofalu amdanoch, a beth maent yn ei wneud yn eich cartref. Nid oeddwn yn sôn am bwy sy'n darparu'r gwasanaethau hynny—ni fyddwn yn difrïo'r sector cyhoeddus yn fwy nag y byddwn yn difrïo'r sectorau preifat neu wirfoddol.

Yr oedd Nick Ramsay yn llygad ei le wrth ddweud bod angen inni roi pobl a gofalywyr yn y canol; dyna'r dull gweithredu yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddinasyddion y mae'r Aelodau gyferbyn yn dweud dro ar ôl tro eu bod yn ei hyrwyddo. Dywedodd y dylai pobl ag anhwylderau hirdymor a chronig gael yr hawl i leisio barn wrth ddewis y gwasanaethau a gânt.

Yr oedd Ann Jones yn iawn i godi cwestiwn hawliau gweithwyr. Mae gweithwyr ym mhob un o'r tri sector yn eithriadol o bwysig, ac nid oes dim a ddywedwn yn awgrymu fel arall. Rhaid inni hefyd gofio am hawliau gofalywyr fel y mae'r Blaid Lafur yn Lloegr wedi'i wneud.

Dywedodd David Melding y byddai taliadau uniongyrchol yn gofyn am fframwaith priodol, ac mae hynny'n gywir, wrth gwrs. Siaradodd Brynle Williams am syndrom ôl-bolio a mathau eraill o anabledau lle mae'n rhaid i bobl gael cyfle i reoli eu bywydau drwy bersonoleiddio.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei sylwadau. Fel y dywedodd, mae taliadau uniongyrchol yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr gwasanaethau. Diolch iddi hefyd am mai hi oedd yr unig Aelod—ymddiheuraf os rhywun arall a ddywedodd

agreeing with the citizen-centred approach to service delivery and planning, and recognising that local authorities provide a safety net. Unfortunately, the figures that she referred to only show a 1.5 per cent take-up. She said finally that she wants to see all the evidence emerging from England, but surely the issue is not the availability, which is already there, but the low take-up because of a lack of advice and support. Local authorities must be prepared for people, especially older people, who would not wish to take up direct payments, and we agree fully with that because this is about choice, not compulsion.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed without amendment. Is there any objection? I see that there is. Therefore, all voting on this item is deferred until voting time.

**The Deputy Presiding Officer:** It is now past 5 p.m., which is the allocated voting time, therefore I intend to move straight to the vote. Does anyone wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4322: O blaid 11, Ymatal 0, Yn erbyn 42.  
Motion NDM4322: For 11, Abstain 0, Against 42.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Williams, Brynle

hyn—a gydnabu'r hyn mae MS Cymru yn ei ddweud, a diolch iddi am gytuno â'r dull o gynllunio a darparu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a chydnabod bod awdurdodau lleol yn rhyd ddiogelwch. Yn anffodus, mae'r ffigurau y cyfeiriodd atynt yn dangos mai 1.5 y cant yn unig sy'n manteisio. Dywedodd wrth gloi ei bod am weld yr holl dystiolaeth a ddaw o Loegr, ond onid y mater yw mai nifer bach sy'n manteisio oherwydd diffyg cyngor a chefnogaeth, nid bod dewis ar gael, oherwydd mae hwnnw eisoes ar gael. Rhaid i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer pobl, yn enwedig pobl hŷn, na fyddent yn dymuno manteisio ar daliadau uniongyrchol, a chytunwn yn llwyr â hynny, oherwydd dewis sydd dan sylw, nid gorfodaeth.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae wedi troi 5 p.m., sef yr amser penodedig ar gyfer pleidleisio. Felly, bwriadaf symud ymlaen yn syth i'r bleidlais. A oes unrhyw un yn dymuno bod y gloch yn cael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice

Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
 Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4322: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 17.  
 Amendment 1 to NDM4322: For 35, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Asghar, Mohammad  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Ryder, Janet

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Cairns, Alun  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.  
 Amendment 2 deselected.*

Motion NDM4322 as amended: that  
*the National Assembly for Wales:*

*1. notes that fewer than 2,000 people are currently receiving direct payments in Wales;*

*2. notes that levels of take-up of direct payments reflect the choices made by individual service users; and*

*3. endorses the Welsh Assembly Government's policy of making direct payments available to a widening range of users, on the basis of individual preference.*

Cynnig NDM4322 fel y'i diwygiwyd: fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn nodi bod llai na 2,000 o bobl yn cael taliadau uniongyrchol ar hyn o bryd yng Nghymru;*

*2. yn nodi bod y niferoedd sy'n cael taliadau uniongyrchol yn adlewyrchu'r dewisiadau a wneir gan ddefnyddwyr gwasanaethau unigol; ac*

*3. yn cefnogi polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael i ystod ehangach o ddefnyddwyr ar sail dewis personol.*

*Cynnig NDM4322 fel y'i diwygiwyd: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 16.  
 Motion NDM4322 as amended: For 36, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Asghar, Mohammad  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Bates, Mick  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Davies, Andrew R. T.  
 Davies, Paul  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig NDM4322 fel y'i diwygiwyd.  
 Motion NDM4322 as amended agreed.*

## **Dadl Fer Short Debate**

### **Dallineb...Anabledd nad yw bob Amser yn y Golwg Blindness...A Disability that is not Always Seen**

**Sandy Mewies:** Eleanor Burnham, Lesley Griffiths and Irene James have asked to speak in this debate and I am pleased that they have done so. I thank the Royal National Institute of Blind People, the Guide Dogs for the Blind Association and anyone else who has been kind enough to give me supporting information in advance of this debate. I also thank the Minister for the response; I know that I say that in advance, but I have a dreadful memory so I thought that I would do it now.

A number of people have asked me what I mean by the title of this debate, 'Blindness...A Disability that is not Always Seen'. After all, high-profile and successful organisations such as the Royal National Institute of Blind People and the guide dogs association are just two of those that work hard and successfully to support people with sight problems. Such people are generally easily recognised because of their visible supports, from their guide dogs to their white sticks. However, what I am talking about and trying to get across today are the many ways in which blind and partially sighted people are excluded from so many life activities that the rest of us take for granted, or are limited in how they can take part, and the great majority of us who are not affected are completely unaware of this exclusion.

**Sandy Mewies:** Mae Eleanor Burnham, Lesley Griffiths ac Irene James wedi gofyn am gael siarad yn y ddadl hon, ac yr wyf yn falch eu bod wedi gwneud hynny. Diolch i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion ac unrhyw un arall sydd wedi bod mor garedig â rhoi gwybodaeth ategol imi cyn y ddadl hon. Diolch hefyd i'r Gweinidog am yr ymateb; gwn fy mod yn gwneud hynny o flaen llaw, ond mae fy nghof yn ofnadwy, felly, tybiais y dylwn ddiolch yn awr.

Mae nifer o bobl wedi gofyn imi am esboniad o deitl y ddadl hon, 'Dallineb...Anabledd nad yw bob Amser yn y Golwg'. Wedi'r cyfan, dim ond dau o'r sefydliadau sy'n gweithio'n galed ac yn llwyddiannus i gynorthwyo pobl gyda phroblemau gweld yw sefydliadau megis Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall a Chymdeithas Cŵn Tywys y Deillion, sy'n llwyddiannus ac sydd â phroffil uchel. Ar y cyfan, mae'n hawdd adnabod pobl sydd â phroblemau gweld, oherwydd eu cymhorthion gweladwy, o'u cŵn tywys i'w ffyn gwyn. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf yn sôn amdano ac am geisio'i gyfleu heddiw yw'r ffyrdd niferus y caiff pobl ddall a rhannol ddall eu heithrio o gynifer o weithgareddau bywyd y bydd y gweddill ohonom yn eu cymryd yn ganiataol, neu'r ffyrdd niferus y maent yn gyfyngedig yn y modd y gallant gymryd rhan, a'r mwyafrif helaeth ohonom nad yw hynny'n effeithio arnom yn gwbl anymwybodol o'r eithrio hwn.



In 2006, it was estimated that there were 115,000 people with severe sight loss. The correlation between sight loss and age and the fact that Wales has a higher proportion of older people per 1,000 of the population than the rest of the UK means that this is a real issue for us. By the time we are 75, more than one in five people will have significant sight loss; by age 85, that will be two in five. Added to that are the 200,000 people aged over 65 in Wales who have significant sight problems. It may be that they need glasses and do not have them, or it could be something as serious as having cataracts. This is not just about being able to see the telly clearly without having to sit on top of it, or about having to read a book at arm's length; this problem can make older people much more vulnerable to falls and other injuries.

Sight loss, for all sorts of reasons, can start much earlier in life. Research has shown that as many as one in 10 children in our schools need glasses but do not have them. In fact, they probably do not all realise that they need them. I well remember being fitted with my first pair of specs at the age of 11; it was a revelation. I remember that moment now, thinking 'Aren't the colours bright?' and 'Gosh, I can actually see people'. It was not just that; crucially, I could also see the blackboard at school. Correcting my sight problem did not just have a positive social impact but also an impact on my education.

This is a big problem in Wales, given that, every day, five people lose their sight. Among the most shocking facts is that, of the 2,000 people a year who lose their sight in Wales, more than half could have avoided it. Although comparisons are not easy to make, we can compare it with our awareness of other diseases in the wider public domain. Sight loss, which has a national incidence of more than 36,500, is only just lower than the national incidence of breast cancer, at around 45,000, but it remains a so-called 'minority' concern. The question that then follows is why sight loss remains the hidden disability

Yn 2006, amcangyfrifwyd bod 115,000 o bobl wedi colli eu golwg yn ddifrifol. Mae'r gydberthynas rhwng oed a cholli golwg, a'r ffaith fod yng Nghymru gyfran uwch na gweddill y DU o bobl hŷn am bob 1,000 o'r boblogaeth, yn golygu bod hon yn broblem fawr inni. Bydd mwy nag un o bob pump o bobl wedi colli eu golwg yn sylweddol erbyn cyrraedd 75 oed; bydd dau o bob pump wedi colli eu golwg yn sylweddol erbyn cyrraedd 85 oed. At hynny, mae gan 200,000 o bobl dros 65 oed yng Nghymru broblemau gweld sylweddol. Efallai fod arnynt angen sbectol ac nad oes un ganddynt, neu gallai'r broblem fod yn rhywbeth mor ddifrifol â chataractau. Nid mater yn unig yw hwn o allu gweld y teledu'n glir heb orfod eistedd yn agos iawn iddo, neu o orfod dal llyfr hyd braich i allu ei ddarllen; gall y broblem hon olygu bod pobl hŷn lawer yn fwy agored i syrthio ac anafiadau eraill.

Gall pobl ddechrau colli eu golwg lawer yn gynharach mewn bywyd, am bob math o resymau. Dengys ymchwil fod angen sbectol ar gynifer ag un o bob 10 o blant yn ein hysgolion, ond nad oes un ganddynt. Mewn gwirionedd, mae'n debyg na fyddant i gyd yn sylweddoli bod angen sbectol arnynt. Cofiaf pan gefais i fy sbectol gyntaf yn 11 oed; yr oedd yn agoriad llygad. Cofiaf yn awr yr eiliad pan feddyliais 'Mae'r lliwiau mor llachar!' ac 'Rwy'n gallu gweld pobl'. Pwysicach na hynny, fodd bynnag, oedd y ffaith fy mod hefyd yn gallu gweld y bwrdd du yn yr ysgol. Cafodd y weithred o gywiro problem fy ngolwg nid yn unig at effaith gymdeithasol gadarnhaol ond effaith gadarnhaol hefyd ar fy addysg.

Mae hon yn broblem fawr yng Nghymru, o gofio bod pump o bobl yn colli eu golwg bob dydd. Un o'r ffeithiau mwyaf syfrdanol yw y gallai dros hanner y 2,000 o bobl sy'n colli eu golwg yng Nghymru bob blwyddyn fod wedi osgoi hynny. Nid yw'n hawdd cymharu, ond gallwn gymharu hynny â'n hymwybyddiaeth o glefydau eraill sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae dros 36,500 o bobl ar lefel genedlaethol yn colli rhywfaint o'u golwg, ac nid yw'r ffigur hwnnw ond ychydig yn is na nifer yr achosion o ganser y fron ar lefel genedlaethol, sef tua 45,000. Ond eto, mae colli golwg yn dal yn broblem a elwir yn

when other diseases are so well understood?

I should make it clear that work is ongoing in Wales to reduce the level of avoidable sight loss. The Welsh Assembly Government has already committed significant resources, and there is strong support from the Minister for Health and Social Services. Action so far has included an all-Wales diabetic retinopathy screening service; free eye tests for most people at risk; PEARS, the primary eyecare acute referral scheme, which is the emergency treatment service; and the low vision scheme, which has been used by 15,000 people since it began, and supports them to use their residual vision with specialist advice and aids. Then there is the children's low vision service, which helps hundreds of children to lead full and engaged lives, and is a world-class initiative run by the RNIB Cymru for the Welsh Assembly Government. There are many other initiatives, but time is too short for me to list them all.

I must underline that treatment is vital, but so, too, is developing a real understanding of the issues that people face in their day-to-day lives if they are not to be excluded by their sight difficulties. Hear the voice of Chris, aged 54:

'It was not anything to do with the hospital treatment that upset me. It was the fact that nobody picked me up afterwards—which is when the horror story really started'.

Take the homes in which people with sight problems live. They should be fit for purpose and yet, incredibly, no local authority in Wales assesses a person with sight loss as being at 'critical or substantial risk'. That is even if they never go out alone, and have no-one to identify medication or the labels on food or to call in an emergency.

problem 'leiafrifol'. Y cwestiwn sy'n dilyn yw hwn: pam mae colli golwg yn dal yn anabledd cudd tra mae clefydau eraill eu cael deall mor dda?

Dylwn esbonio bod gwaith yn mynd rhagddo yng Nghymru i leihau nifer yr achosion y gellid eu hosgoi o golli'r golwg. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi neilltuo adnoddau sylweddol i hyn, ac y mae cefnogaeth gref gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r camau a gymerwyd hyd yn hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth sgrinio retinopat heg diabetig i Gymru gyfan; profion llygaid am ddim i'r rhan fwyaf o bobl sydd mewn risg; PEARS, y cynllun atgyfeirio i gael gofal llygaid mewn achosion aciwt, sef y gwasanaeth triniaeth frys; a'r cynllun i rai prin eu golwg, sydd wedi'i ddefnyddio gan 15,000 o bobl ers ei gyflwyno ac yn eu cefnogi i ddefnyddio'r golwg sydd ganddynt drwy gyngor a chymhorthion arbenigol. Yna, mae'r gwasanaeth i blant prin eu golwg, sy'n helpu cannoedd o blant i fyw bywydau llawn a diddorol. Menter o safon fyd-eang yw hon gan RNIB Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae yna nifer o fentrau eraill, ond nid oes gennyf ddigon o amser i restru pob un.

Rhaid imi bwysleisio bod triniaeth yn hanfodol, ond y mae datblygu dealltwriaeth wirioneddol o'r problemau sy'n wynebu pobl yn eu bywydau pob dydd hefyd yn hanfodol i sicrhau na fyddant yn cael eu heithrio oherwydd eu hanawsterau gweld. Gwrandewch ar lais Chris, sy'n 54 oed:

Nid y driniaeth a gefais yn yr ysbyty a'm siomodd, ond y ffaith na ddaeth neb i'm nôl i wedyn—a dyna pryd y dechreuodd y stori ddychrynlyd mewn gwirionedd.

Ystyriwch y cartrefi lle mae pobl sydd â phroblemau gweld yn byw. Dylent fod yn addas at y diben, ond yr hyn sy'n anhygoel yw nad oes yr un awdurdod lleol yng Nghymru yn nodi mewn asesiad bod unigolion sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg yn wynebu 'risg sylweddol neu ddifrifol'. Mae'r bobl hynny hyd yn oed yn cynnwys pobl nad ydynt byth yn mynd allan ar eu pen eu hunain ac nad oes ganddynt neb i adnabod meddyginiaeth neu labeli ar fwyd

ar eu rhan, na neb i gysylltu â hwy mewn argyfwng.

A Guide Dogs for the Blind survey in 2007 asked people which activities they found the hardest: 80 per cent of respondents said that it was identifying food and medication labels, 65 per cent said shopping, and 45 per cent said making a hot meal. A further 29 per cent found routine personal care, such as washing and dressing, very or fairly difficult. Imagine that. Imagine facing those barriers every day of your life. These people are registered with their local authority. We can only wonder at what happens to those who have not been registered.

Mewn arolwg gan Gymdeithas Cŵn Tywys y Deillion yn 2007, gofynnwyd i bobl pa weithgareddau oedd anoddaf iddynt: dywedodd 80 y cant o'r rhai a ymatebodd mai adnabod labeli ar fwyd a meddyginiaeth oedd anoddaf; dywedodd 65 y cant mai siopa oedd anoddaf; ac i 45 y cant, gwneud pryd o fwyd poeth oedd y gweithgaredd anoddaf. Dywedodd 29 y cant arall fod gofal personol arferol, megis ymolchi a gwisgo, yn eithaf anodd neu'n anodd iawn. Dychmygwch hynny. Dychmygwch orfod wynebu'r rhwystrau hynny bob dydd o'ch bywyd. Mae'r bobl hyn wedi'u cofrestru gyda'u hawdurdod lleol. Ni allwn ond dychmygu beth sy'n digwydd i'r rheini nad ydynt wedi'u cofrestru.

5.50 p.m.

The Welsh Assembly Government has noted the housing issue, ensuring that most social housing is safe and accessible for people with sight loss, but that is not true of all the housing available, including social housing. Like others here, I am quite sure, I have had the experience of trying to get suitable accommodation for a constituent who has severe sight loss, but it took some years before his needs were recognised.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'r mater yn ymwneud â thai, gan sicrhau bod y mwyafrif o dai cymdeithasol yn ddiogel ac yn gyfleus i bobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg, ond nid yw hynny'n wir am yr holl dai sydd ar gael, gan gynnwys tai cymdeithasol. Yr wyf fi, fel eraill sydd yma, mae'n siŵr, wedi cael y profiad o geisio trefnu llety addas i etholwr sydd wedi colli ei olwg yn ddifrifol, ond cymerodd rai blynyddoedd i'w anghenion gael eu cydnabod.

Isolation is a big problem for people who have sight loss. Three out of four never go out alone and almost half have no help with shopping. Learning to use information and communications technology equipment can help, but many of those people cannot afford the equipment or cannot find the training. It cannot be right that three out of four people with sight loss live in poverty, compared with one out of four sighted people. Last year, the RNIB's specialist benefits advice service secured more than £1 million for just 700 people, but that service is active in only five of 22 local authorities. Many extra costs are required, which vary from using taxis for transport, getting help in the home, and paying extra for ready meals. Therefore, they need every help that they can get in claiming their entitlements.

Mae unigrwydd yn broblem fawr i bobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg. Ni fydd tri o bob pedwar byth yn mynd allan ar eu pen eu hunain, ac nid yw bron eu hanner yn cael dim help i siopa. Gall dysgu defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu helpu, ond ni all llawer o'r bobl hyn fforddio'r offer, neu ni allant ddod o hyd i hyfforddiant. Ni all fod yn iawn fod tri o bob pedwar o bobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg yn byw mewn tloedi, o'u cymharu ag un o bob pedwar o bobl sy'n gallu gweld. Y llynedd, llwyddodd gwasanaeth cynghori arbenigol RNIB ar fudd-daliadau i sicrhau dros £1 filiwn ar gyfer 700 o bobl yn unig, ond mewn pump yn unig o'r 22 awdurdod lleol y mae'r gwasanaeth hwnnw ar gael. Mae gofyn talu llawer o gostau ychwanegol, gan gynnwys cost defnyddio tacsis i gael cludiant, cost cael

help yn y cartref, a thalu mwy am brydau parod. Felly, mae arnynt angen pob help posibl i hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl i'w gael.

Do you moan about form filling? I do it every week and I hate it, but at least I can get access to the information that I need in a format that I can read. That just does not apply if you have sight problems, because information, ranging from prescriptions or bills to bank statements, is not always available in Braille or large-print format. Research in 2007 found that 54 per cent of organisations could not provide personal correspondence in large print in English, while 60 per cent were unable to provide general information in large print in Welsh. Lack of information, from forms to bus timetables, is a key factor in the isolation faced by people with sight loss. The unemployment rate of visually impaired people is very high compared with the general working-age population, at about 33 per cent. That is not because they are not as capable as others; often, it is because employers just do not know how to help people to stay in employment, or because people with sight loss find it too difficult to apply for jobs.

It is a sad fact of life that vulnerable people, including those with sight loss, are subject to abuse and injury. A recent report for Action for Blind People highlighted the following: people with sight loss are four times more likely than sighted people to be physically assaulted and abused; almost half of visually impaired people who have been victims of physical abuse have been repeat victims; but only 4 per cent of visually impaired people who have been physically or verbally abused go to the police, and 30 per cent tell no-one. The reasons given were 'I was too scared', 'I didn't think that I'd be taken seriously', or 'I have told people in the past, but they were unsupportive'. Some good work is under way. Gwent Police with local authorities recently held a training day for front-line staff on how to keep people with sight loss safe. That is not enough. Training and recognition of the difficulties faced by people

A ydych yn cwyno am orfod llenwi ffurflenni? Byddaf fi'n gwneud hynny bob wythnos, ac yn casáu gwneud hynny, ond yr wyf o leiaf yn gallu cael y wybodaeth y mae arnaf ei hangen ar ffurf y gallaf ei darllen. Nid yw hynny'n wir o gwbl os oes gennych broblemau gweld, oherwydd nid yw gwybodaeth, o bresgripsiynau neu filiau i gyfriflenni banciau, bob amser ar gael mewn Braille neu brint bras. Darganfu ymchwil yn 2007 na allai 54 y cant o sefydliadau ddarparu gohebiaeth bersonol mewn print bras yn Saesneg, ac na allai 60 y cant ddarparu gwybodaeth gyffredinol mewn print bras yn Gymraeg. Mae diffyg gwybodaeth, o ffurflenni i amserlenni bysiau, yn elfen allweddol yn yr unigrwydd sy'n wynebu pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg. Mae'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, sef tua 33 y cant, yn uchel iawn o'i chymharu â'r gyfradd ar gyfer y boblogaeth gyffredinol o oed gweithio. Nid diffyg gallu o'u cymharu â phobl eraill yw'r rheswm am hynny; y rheswm yn aml yw'r ffaith nad yw cyflogwyr yn gwybod sut i helpu pobl i barhau yn eu swydd, neu ei bod yn rhy anodd i bobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg wneud cais am swyddi.

Mae'n ffaith drist fod pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg, yn wynebu camdriniaeth ac anafiadau. Yr oedd adroddiad yn ddiweddar ar gyfer Action for Blind People yn tynnu sylw at y canlynol: mae pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg bedair gwaith yn fwy tebygol na phobl sy'n gallu gweld o ddioddef camdriniaeth ac ymosodiad corfforol; mae bron hanner y bobl sydd â nam ar eu golwg ac sydd wedi dioddef camdriniaeth gorfforol wedi dioddef camdriniaeth o'r fath fwy nag unwaith; ond tua 4 y cant yn unig o bobl sydd â nam ar eu golwg ac sydd wedi'u cam-drin yn gorfforol neu'n eiriol sy'n mynd at yr heddlu, ac ni fydd 30 y cant yn dweud wrth neb. Y rhesymau a roddwyd oedd 'Roedd arnaf ormod o ofn', 'Nid oeddwn yn credu y byddent yn fy nghymryd o ddifrif', neu 'Rwyf wedi dweud wrth bobl yn y

with sight impairment or loss must be embedded in all policy areas.

While preventing sight loss must remain a priority, helping people to live independent, safe and fulfilling lives relies on many parts of our society changing. Those working on issues of equality, poverty and social inclusion, both in and out of Government, need to recognise that people with sight loss are among the hardest to reach. I have mentioned the fact that the generic welfare rights and advice services simply do not work for everyone. People with sight loss and impairments need ongoing support to secure their entitlements. Policy makers, including those in Government, should clearly understand the impact of sight loss in every policy area, from transport to leisure, and from culture to consumer rights. The answer is simple: make it happen.

Therefore, Minister, I am asking for the support for people with sight loss to be better reflected at a strategic planning level. I am asking you to impress on your Cabinet colleagues the need to move away from the view that this is entirely a health issue to a realisation that it is work that must be undertaken in every area of policy. I hope that support for this could be a key role for the new cross-party group that I hope will soon start. We need to ensure that we really see the problems that sight loss and blindness can cause, and find solutions to them. We have a duty to create a society in which everyone does have equality of access and opportunity in all the areas that we value.

gorffennol, ond nid oeddent yn gefnogol'. Mae rhywfaint o waith da'n cael ei wneud. Cynhaliodd Heddlu Gwent ar y cyd ag awdurdodau lleol ddiwrnod hyfforddiant yn ddiweddar, ar gyfer staff rheng flaen, ar y ffordd i gadw pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg yn ddiogel. Nid yw hynny'n ddigon. Rhaid sicrhau bod hyfforddiant a chydabyddiaeth o'r anawsterau sy'n wynebu pobl â nam ar eu golwg, neu bobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg, yn cael eu hymgorffori ym mhob maes polisi.

Er ei bod yn rhaid parhau i roi blaenoriaeth i waith sy'n atal pobl rhag colli eu golwg, mae helpu pobl i fyw bywydau annibynnol, diogel a boddhaus yn dibynnu ar sicrhau bod llawer rhan o'n cymdeithas yn newid. Mae angen i bobl sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb, tloidi a chynhwysiant cymdeithasol, y tu mewn i'r Llywodraeth a'r tu allan iddi, gydnabod bod pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg ymhlith y bobl anoddaf i'w cyrraedd. Crybwyllais y ffaith nad yw hawliau lles a gwasanaethau cynghori cyffredinol yn gweithio i bawb. Mae angen cymorth parhaus ar bobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg a phobl sydd â nam ar eu golwg er mwyn diogelu eu hawliau. Dylai llunwyr polisi, gan gynnwys y rhieni mewn Llywodraeth, ddeall yn glir beth yw effaith colli golwg ym mhob maes polisi, o gludiant i hamdden ac o ddiwylliant i hawliau defnyddwyr. Mae'r ateb yn syml: gwnewch iddo ddigwydd.

Felly, Weinidog, gofynnaf i'r cymorth ar gyfer pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg gael ei adlewyrchu'n well ar lefel cynllunio strategol. Gofynnaf ichi roi eich cydweithwyr yn y Cabinet ar ddeall fod angen symud o'r farn mai mater iechyd yn unig yw hyn, a sicrhau eu bod yn sylweddoli ei fod yn waith y mae'n rhaid ei wneud ym mhob maes polisi. Gobeithio y gall cefnogi hynny fod yn rôl allweddol i'r grŵp trawsbleidiol newydd a fydd, gobeithio, yn dechrau cyn hir. Mae angen inni sicrhau ein bod yn deall yn wirioneddol y problemau y gall colli golwg a dallineb eu hachosi, a chael atebion iddynt. Mae'n ddyletswydd arnom i greu cymdeithas lle gall pawb gael mynediad a chyfle cyfartal ym mhob maes sy'n werthfawr inni.

**Lesley Griffiths:** Thank you, Sandy, for bringing forward this debate and giving me the opportunity to speak. I want to highlight some research currently being undertaken at Glyndŵr University in my constituency of Wrexham. The aim of the project is to develop a range of advanced white goods and appliances to support elderly people with or without disabilities. The advantage of these for blind and partially sighted people is that all the instructions are spoken and there are other audio prompts to suit the user. I visited the laboratory and saw that there is a fridge that tracks the dates on food and drink labels and announces when it has gone out of date. There is a washing machine that identifies and warns you if inappropriate items, such as colours and whites, are put in together, as well as identifying the correct level of washing powder. There is a microwave that warns you if non-microwavable items are placed inside it. Adaptations to many other appliances, including ovens, hobs, dishwashers and so on, are also being researched.

Although it is imperative that the Welsh Assembly Government continues to put in place initiatives and treatments, such as those that Sandy highlighted in her speech, the type of research and development to which I have referred is vital to assist our partially sighted and blind people in Wales.

**Eleanor Burnham:** Thank you, Sandy, for allowing me to speak briefly in this important debate. Part of the issue is the ability to receive free eye checks. I have been very fortunate compared with you, Sandy: I have had to wear glasses only since I came here. It was quite a shock at the time. I am also fortunate in that I am now being checked periodically for glaucoma, which was another huge shock. You never think that it will happen to you. I believe that we try our best, across the parties, to take these issues seriously and to raise awareness at every opportunity.

The people who work for the RNIB are wonderful. When I worked in social services in my early career, there was a most

**Lesley Griffiths:** Diolch ichi, Sandy, am gyflwyno'r ddadl hon a rhoi'r cyfle imi siarad. Hoffwn dynnu sylw at ychydig waith ymchwil ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Glyndŵr yn fy etholaeth i, sef Wrecsam. Nod y prosiect yw datblygu ystod o beiriannau a nwyddau gwynion datblygedig i gynorthwyo pobl hŷn sydd ag anableddau neu heb anableddau. Mantais y rhain i bobl ddall a rhannol ddall yw'r ffaith y caiff yr holl gyfarwyddiadau eu rhoi ar lafar, a bod cyfarwyddiadau sain eraill sy'n addas i'r defnyddiwr. Ymwelais â'r labordy, a gwelais fod oergell yno sy'n cadw golwg ar ddyddiadau ar labeli bwyd a diod ac yn cyhoeddi pan fydd y dyddiadau hynny wedi mynd heibio. Mae yna beiriant golchi dillad sy'n gallu synhwyro a'ch rhybuddio os caiff eitemau amhriodol, megis dillad lliwgar a dillad gwyn, eu rhoi ynddo gyda'i gilydd, ac sy'n gallu nodi'r lefel gywir o bowdwr golchi. Mae yna bopty micro-don sy'n eich rhybuddio os bydd eitemau na ddylid eu rhoi mewn popty o'r fath yn cael eu rhoi ynddo. Ymchwilir hefyd i addasiadau ar gyfer nifer o beiriannau eraill, megis poptai, hobiau, peiriannau golchi llestri, ac yn y blaen.

Er ei bod yn hollbwysig i Lywodraeth y Cynulliad barhau i roi mentrau a thriniaethau ar waith, megis y rhai y tynnodd Sandy sylw atynt yn ei haraith, mae'r math o waith ymchwil a datblygu y cyfeiriais ato'n allweddol i gynorthwyo pobl ddall a rhannol ddall yng Nghymru.

**Eleanor Burnham:** Diolch ichi, Sandy, am ganiatáu imi siarad yn fyr yn y ddadl bwysig hon. Rhan o'r broblem yw gallu cael archwiliadau llygaid am ddim. Yr wyf fi wedi bod yn ffodus iawn o'm cymharu â chi, Sandy: dim ond ers dod yma i weithio yr wyf fi wedi gorfod gwisgo sbectol. Yr oedd yn sioc ar y pryd. Yr wyf hefyd yn ffodus fy mod yn awr yn cael archwiliadau rheolaidd am glawcoma, a oedd yn sioc enfawr arall. Ni fyddwch yn meddwl y bydd hyn yn digwydd i chi. Credaf ein bod yn gwneud ein gorau, ar draws y pleidiau, i gymryd y materion hyn o ddifrif ac o godi ymwybyddiaeth ar bob cyfle.

Mae'r bobl sy'n gweithio i RNIB yn wych. Pan oeddwn yn gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol ar ddechrau fy

wonderful woman called Mrs Tapp. She was absolutely terrific. My work was mostly with older and disabled people. I cannot begin to say how lucky we are. I get my checks at the Wrexham Maelor Hospital. The people there are fantastic. The RNIB is a wonderful organisation for all the reasons that Sandy gave earlier, wonderfully eloquently. There are huge difficulties for people who desperately need our help. For example, Braille is the most wonderful invention, which I wish I could use, and we need to support it. We also need to provide support and insist that people have eye checks. An eye check helped my sister to discover a brain tumour, which, luckily, was benign, so I think that they are fantastic. Thank you, Sandy, for allowing me to speak briefly.

**Irene James:** I also thank Sandy, because this issue affects so many people. She has mentioned the 115,000 people in Wales who are suffering with sight problems. Often, we do not realise how difficult it is for them. Recently, I dealt with the case of a constituent who has to have regular tests and receive results from the hospital. The hospital changed the format for printing the test results. It was done primarily as a cost-cutting exercise. The hospital had not realised the impact that it could have on people with sight problems. It took quite a while to address that, with the constituent and me working with the hospital, but it has now decided look at how test results are issued. The matter is now being passed to the patient panel and other organisations. I hope that the RNIB will be one of those organisations consulted, because—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Could you wind up now, please?

**Irene James:** Sorry. Experiences such as that of my constituent need to be a thing of the past, because we have to ensure that everybody has access to all services.

ngyrfa, deuthum ar draws gwraig ryfeddol o'r enw Mrs Tapp. Yr oedd hi'n wych. Yr oeddwn yn gweithio gyda phobl hŷn a phobl anabl gan mwyaf. Ni allaf ddechrau dweud mor ffodus yr ydym. Byddaf yn cael fy archwiliadau yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae'r bobl yno'n fendigedig. Mae RNIB yn sefydliad gwych am yr holl resymau a roddodd Sandy yn gynharach, mewn modd huawdl iawn. Mae'r bobl y mae arnynt angen ein help yn ddybryd yn wynebu anawsterau enfawr. Er enghraifft, mae Braille yn ddyfeisiad gwych, a hoffwn pe gallwn ei ddefnyddio, ac mae angen inni ei gefnogi. Mae angen hefyd inni ddarparu cymorth a mynnu bod pobl yn cael archwiliadau llygaid. Helpodd archwiliad llygaid fy chwaer i ddarganfod bod ganddi diwmor ar ei hymennydd a oedd, wrth lwc, yn ddiwed. Credaf felly fod archwiliadau o'r fath yn wych. Diolch ichi, Sandy, am ganiatáu imi siarad yn fyr.

**Irene James:** Hoffwn i hefyd ddiolch i Sandy, oherwydd mae'r mater hwn yn effeithio ar gynifer o bobl. Soniodd am y 115,000 o bobl yng Nghymru sy'n dioddef problemau gweld. Nid ydym yn sylweddoli'n aml mor anodd yw eu sefyllfa. Yn ddiweddar, bŵm yn ymdrin ag achos etholwr sy'n gorfod cael profion rheolaidd a chael canlyniadau gan yr ysbyty. Newidiodd yr ysbyty'r fformat ar gyfer argraffu canlyniadau'r profion. Gwnaed hynny'n bennaf er mwyn arbed costau. Nid oedd yr ysbyty wedi sylweddoli'r effaith y gallai hynny ei chael ar bobl sydd â phroblemau gweld. Cymerodd gryn amser i fynd i'r afael â'r mater, a'r etholwr a minnau'n gweithio gyda'r ysbyty, ond mae'r ysbyty erbyn hyn wedi penderfynu edrych ar y ffordd y cyhoeddir canlyniadau profion. Mae'r mater yn cael ei drosglwyddo i'r panel cleifion a sefydliadau eraill. Gobeithio y bydd RNIB yn un o'r sefydliadau yr ymgynghorir â hwy, oherwydd—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A allwch chi ddirwyn eich cyfraniad i ben yn awr, os gwelwch yn dda?

**Irene James:** Mae'n ddrwg gennyf. Mae angen i brofiadau tebyg i brofiadau fy etholwr berthyn i'r gorffennol, oherwydd rhaid inni sicrhau bod pawb yn gallu cael pob

gwasanaeth.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** I also thank Sandy. There has been a wide-ranging discussion of the problems. Sandy is right that the title of the debate was somewhat enigmatic, and it was difficult to know where she was coming from, but, in fact, it did justice to the breadth of issues that she raised in her debate.

6.00 p.m.

I will start my contribution where Sandy ended. Blind and partially sighted people have a right to participate in society like the rest of us but, often, they cannot do so, not because of their impairment but because society puts obstacles in their way. If society puts obstacles in the way of these people, it has a duty and an obligation to remove these obstacles and barriers.

**Brynle Williams:** Thank you for giving way, Minister. Like others who have spoken, I thank Sandy for raising this debate. I do not mean to belittle the debate, but I wish that the Chamber was packed for a debate on such a subject.

You mentioned how society behaves, Minister. However, I was recently contacted about councils doing simple things like dropping kerbs. That is useful for wheelchair users, but could you please get your colleagues to look at this? A kerb is a definitive line for a blind person when he or she wants to cross the road. It is a simple matter. Once again, we need to highlight the issue. A neighbour of mine—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This is an intervention, not a speech.

**Brynle Williams:** Thank you.

**Brian Gibbons:** Thank you, Brynle. I may come back to that, because you raised some very important points. If society is putting up barriers, and I think that Brynle pointed out an example of where— *[Interruption.]*

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Yr wyf fi hefyd yn diolch i Sandy. Cafwyd trafodaeth eang am y problemau. Yr oedd Sandy yn iawn i ddweud bod teitl y ddadl braidd yn enigmatig, ac yr oedd yn anodd gwybod o ba gyfeiriad y deuai, ond yr oedd yn deitl teg mewn gwirionedd, o gofio'r amrywiaeth materion a gododd yn ei dadl.

Dechreuaf fy nghyfraniad lle gorffennodd Sandy. Mae gan bobl ddall a rhannol ddall hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas yr un fath â'r gweddill ohonom. Ond yn aml ni allant wneud hynny, nid oherwydd y nam sydd ar eu golwg ond oherwydd bod cymdeithas yn rhoi rhwystrau o'u blaenau. Os yw cymdeithas yn rhoi rhwystrau o flaen y bobl hyn, mae arni ddyletswydd a rheidrwydd i symud y rhwystrau hynny.

**Brynle Williams:** Diolch ichi am ildio, Weinidog. Fel y bobl eraill sydd wedi siarad, hoffwn ddiolch i Sandy am gyflwyno'r ddadl hon. Nid wyf yn dymuno dilorni'r ddadl, ond byddwn wedi hoffi gweld y Siambr yn llawn ar gyfer dadl ar bwnc o'r fath.

Soniech sôn am y modd y mae cymdeithas yn ymddwyn, Weinidog. Fodd bynnag, cysylltwyd â mi'n ddiweddar am y modd y mae cynghorau'n gwneud pethau syml megis gostwng cyrbau. Mae hynny'n ddefnyddiol i bobl mewn cadair olwyn, ond a allech ofyn i'ch cydweithwyr edrych ar y mater? Mae cwrw yn llinell bendant i berson dall pan fydd yn dymuno croesi'r ffordd. Mae'n fater syml. Unwaith eto, mae angen inni roi sylw i'r broblem. Mae un o'm cymdogyion—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ymyriad yw hwn, nid araith.

**Brynle Williams:** Diolch.

**Brian Gibbons:** Diolch, Brynle. Efallai y dychwelaf at hynny, oherwydd yr oeddech yn codi rhai pwyntiau pwysig iawn. Os yw cymdeithas yn gosod rhwystrau, a chredaf fod Brynle wedi nodi enghraifft o— *[Torri ar draws]*



**The Deputy Presiding Officer:** Order. Minister, could you move your lectern slightly, as it is making a noise? Thank you.

**Brian Gibbons:** Brynle gave us an example of a situation where the problem is a society-created problem. If society creates a problem for citizens—particularly people with visual problems—there is a big onus and an obligation on society to address those particular barriers and obstacles. This is at the heart of what we want to refer to as the social model of disability, which we, as an Assembly Government, have adopted in response to what Sandy, in her speech, called the overmedicalising of a problem. Some of the problems that people with a disability face are not problems in relation to medical treatment, but are in relation to either obstacles or a lack of support.

If we look at this particular subject and adopt the social model of disability, we can see a number of solutions. For example, it is not good enough to only provide medical treatment; we need to challenge the broader attitudes of society towards sighted people and those who have a visual handicap. We need to look at the sort of social support that is available. As Irene mentioned, we could use suitable visual formats in our communications, make sure that traffic lights are fitted with appropriate alarms, not just visual signals, and define the pavement limits with kerbs, as Brynle mentioned. Also, we could try removing particular types of obstacles from public areas.

Equally, we need to look at specific areas so that we can restrict vehicular movements that discriminate against people using those public spaces. We need to tailor the way that we design buildings, and build accessibility into our buildings. Lesley's contribution was quite interesting, because technological solutions are available for a number of these problems. There are a number of very interesting smart houses available. However, when you visit such houses, you see that some of the solutions, while ingenious, are not necessarily very complex. They just require some ingenuity and common sense. If

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Weinidog, a allech symud eich desg ddarllen ryw ychydig. Mae'n cadw sŵn? Diolch.

**Brian Gibbons:** Cawsom enghraifft gan Brynle o sefyllfa lle mae'r broblem yn un sy'n cael ei chreu gan gymdeithas. Os yw cymdeithas yn creu problem i ddinasyddion—yn enwedig pobl â phroblemau gweld—mae ar gymdeithas gyfrifoldeb a rheidrwydd mawr i fynd i'r afael â'r rhwystrau penodol hynny. Mae hynny'n elfen ganolog yn yr hyn yr ydym am ei alw'n fodel cymdeithasol o anabledd sydd wedi ei fabwysiadu gennym ni fel Llywodraeth y Cynulliad i ymateb i'r hyn y cyfeiriodd Sandy ato yn ei haraith, sef pwyslais gormodol ar agwedd feddygol problem. Nid yw rhai o'r problemau sy'n wynebu pobl ag anabledd yn broblemau'n ymwneud â thriniaeth feddygol, ond yn ymwneud â rhwystrau neu â diffyg cymorth.

O edrych ar y pwnc penodol hwn, a mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd, gallwn weld nifer o atebion. Er enghraifft, nid yw'n ddigon da darparu triniaeth feddygol yn unig; mae angen inni herio agweddau ehangach cymdeithas at bobl sy'n gallu gweld a phobl sydd â nam ar eu golwg. Mae angen inni edrych ar y math o gymorth cymdeithasol sydd ar gael. Fel y soniodd Irene, galledd ddefnyddio fformatau gweledol addas yn ein gohebiaeth, gwneud yn siŵr fod larymau priodol ar oleuadau traffig, yn hytrach nag arwyddion gweledol yn unig, a diffinio terfynau palmentydd gan chyrbau, fel y soniodd Brynle. Yn ogystal, galledd geisio symud mathau penodol o rwystrau o fannau cyhoeddus.

Yn yr un modd, mae angen inni edrych ar fannau penodol fel y gallwn gyfyngu symudiadau cerbydau sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n defnyddio'r mannau cyhoeddus hynny. Mae angen inni deilwra'r ffordd yr ydym yn cynllunio adeiladau, ac ymgorffori hygyrchedd yn ein hadeiladau. Yr oedd cyfraniad Lesley yn eithaf diddorol, oherwydd mae atebion technolegol ar gael i nifer o'r problemau hyn. Mae nifer o dai technoleg diddorol iawn ar gael. Fodd bynnag, wrth ymweld â thai o'r fath, gwelwch nad yw rhai o'r atebion o reidrwydd yn gymhleth iawn, er eu bod yn ddyfeisgar. Y

the will is there, much can be achieved.

Following on from Sandy's contribution, there is no reason for complacency, because there is much to be done. While I emphasised in my opening remarks the social model and the importance of the social model of disability, there is, nonetheless, a medical or health dimension to this. We have heard about a number of the important developments and innovations that have taken place. It is worth highlighting a few of them, because some of the innovations are unique to Wales and are made-in-Wales solutions, not available in other parts of the United Kingdom, Europe or, possibly, even the world. The Wales eye care initiative is one example of the health services in Wales engaging actively with people who have a higher risk of eye disease, in order to try to detect the risks at an early stage. Where treatment or intervention can be offered, it can be offered even before the problem makes it difficult for people to live their lives. The primary eyecare acute referral scheme is another made-in-Wales scheme, which is not universally available, in other parts of the United Kingdom or elsewhere.

Again, diabetic retinopathy is an area in which we in Wales have been pioneers, particularly in the use of digital imaging, which not only allows a more accurate assessment with regard to screening, but also allows that screening to take place more effectively over time. It is an area in which Wales has been active in giving a lead, and of which we should be particularly proud.

**Jeff Cuthbert:** As someone who is about to receive the date of the annual retinopathy screening, I understand how important that is. I appreciate that health is not part of your brief, Minister, but do you agree that, as Diabetes UK Cymru launched a campaign on this at lunchtime, it is crucial that people who suspect that they may have diabetes pursue a proper diagnosis through their doctor, because loss of vision is, unfortunately, a very common side effect of diabetes.

cyfan sy'n angenrheidiol yw ychydig ddyfeisgarwch a synnwyr cyffredin. O gael yr ewyllys, gellir cyflawni llawer.

Gan ddilyn ymlaen o gyfraniad Sandy, nid oes rheswm inni deimlo'n hunan-fodlon, oherwydd mae llawer o waith i'w wneud. Er imi bwysleisio'r model cymdeithasol yn fy sylwadau agoriadol, a phwysigrwydd y model cymdeithasol o anabledd, mae dimensiwn meddygol neu ddimensiwn iechyd yn hyn er hynny. Yr ydym wedi clywed am nifer o ddatblygiadau a dyfeisiadau pwysig sydd wedi digwydd. Mae'n werth sôn am rai ohonynt, oherwydd mae rhai o'r dyfeisiadau'n unigryw i Gymru ac yn atebion wedi eu creu yng Nghymru nad ydynt ar gael mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, Ewrop, a hyd yn oed y byd efallai. Mae menter gofal llygaid Cymru yn un enghraifft o'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru sy'n ymwneud yn weithredol â phobl sydd mewn mwy o risg o gael clefyd ar eu llygaid, er mwyn ceisio darganfod y risgiau'n gynnar. Os gellir cynnig triniaeth neu ymyriad, gellir ei gynnig hyd yn oed cyn i'r broblem ei gwneud yn anodd i bobl fyw eu bywydau. Mae'r cynllun atgyfeirio am ofal llygaid mewn achosion aciwt yn gynllun arall wedi ei greu yng Nghymru nad yw ar gael yn gyffredinol, mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig nac yn unman arall.

Mae retinopat heg diabetig yn faes arall yr ydym ni yng Nghymru wedi bod yn arloeswyr ynddo, yn enwedig o ran defnyddio delweddu digidol, sydd nid yn unig yn galluogi asesiad mwy cywir wrth sgrinio, ond sydd hefyd yn galluogi cynnal y broses sgrinio honno'n fwy effeithiol dros amser. Mae'n faes lle mae Cymru wedi bod wrthi'n arwain y ffordd, a dylem ymfalchïo'n fawr yn hynny.

**Jeff Cuthbert:** Fel rhywun sydd ar fin cael dyddiad ar gyfer archwiliad sgrinio retinopat heg blynyddol, deallaf mor bwysig yw hyn. Sylweddolaf, Weinidog, nad yw iechyd yn rhan o'ch brîff, ond a gytunwch, wrth i Diabetes UK Cymru lansio ymgyrch ar hyn amser cinio heddiw, ei bod yn hollbwysig i bobl sy'n amau bod arnynt ddiabetes geisio cael diagnosis priodol drwy eu meddyg, oherwydd yn anffodus mae colli golwg yn un o sgil-ffeithiau diabetes sy'n

gyffredin iawn.

**Brian Gibbons:** It is all the more tragic that people who have a problem miss out, despite the fact that there are procedures in place to reduce the risk of ultimate disability, on the opportunity either through ignorance, poor service provision, as Irene said in her contribution, or, in some instances, sadly, ignorance. I do agree. Around three quarters of the people who are eligible to attend an appointment as part of the retinopathy screening programme do attend—that is a very high response rate for any screening programme. It is a tribute to the professionalism of the practitioners in that area of work. Very few screening programmes get such a compliance level.

**Brian Gibbons:** Mae hi lawer yn dristach fod pobl sydd â phroblem, er bod gweithdrefnau ar waith i leihau'r risg o anabledd yn y pen draw, yn colli'r cyfle naill ai oherwydd darpariaeth wael o ran gwasanaethau, fel y dywedodd Irene yn ei chyfraniad, neu oherwydd anwybodaeth mewn rhai achosion. Cytunaf â hi. Mae tua thri chwarter y rhai sy'n gymwys i gael apwyntiad fel rhan o'r rhaglen sgrinio retinopatheg yn cadw'r apwyntiad—mae hynny'n gyfradd ymateb uchel iawn i unrhyw raglen sgrinio. Mae'n deyrnged i broffesiynoldeb yr ymarferwyr yn y maes gwaith hwnnw. Ychydig iawn o raglenni sgrinio sy'n cael cynifer o bobl i gydymffurfio.

Sandy mentioned children in her contribution. I agree that children can be reluctant to seek assistance for many reasons. Obviously, they may not be aware that help is available, but the risk of bullying, embarrassment and so on is a real issue, and we, as the Assembly Government, have to be sensitive to that. We are trying to address that in some ways, by working with a number of the third sector organisations that Sandy mentioned in her contribution. We are also working with, for example, RNIB Cymru and the Children's Low Vision Project, which I saw at work in my constituency, and which Sandy mentioned in her contribution.

Soniodd Sandy am blant yn ei chyfraniad. Cytunaf y gall plant fod yn amharod i ofyn am gymorth am lawer o resymau. Wrth gwrs, efallai na fyddant yn gwybod bod help ar gael, ond mae risg bwlio, cywilydd ac yn y blaen yn broblem wirioneddol hefyd, a rhaid i ni fel Llywodraeth y Cynulliad ymateb yn sensitif i hynny. Yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â hynny mewn rhai ffyrdd, drwy weithio gyda nifer o sefydliadau'r trydydd sector y soniodd Sandy amdanynt yn ei chyfraniad. Yr ydym hefyd yn gweithio, er enghraifft, gydag RNIB Cymru a'r Prosiect Plant Prin eu Golwg, a welais ar waith yn fy etholaeth ac y soniodd Sandy amdano yn ei chyfraniad.

However, as was said at the beginning, this is not just about a medical condition; it is about the ability of a person to have a decent quality of life. The challenge for us must be to make sure that people, whether they have a visual impairment or not, are entitled, as citizens of Wales, to have a high quality of life. A key requirement, in particular for young people, is that they are able to get an adequate education. Again, we, as the Assembly Government, are conscious of that. We are not only looking at the provision of education, but also at the training of teachers, so that they are better equipped to provide the type of education that these young people need. We have also produced a guidance document called 'Quality Standards in Educational Services for Children and Young

Fodd bynnag, fel y dywedwyd ar y dechrau, nid anhwylder meddygol yn unig sydd dan sylw; mae'n golygu gallu unigolyn i gael ansawdd bywyd digonol. Rhaid mai'r her i ni yw gwneud yn siŵr fod gan bobl, sef dinasyddion Cymru, p'un a oes ganddynt nam ar eu golwg ai peidio, hawl i ansawdd bywyd da. Un angen allweddol, yn enwedig yn achos pobl ifanc, yw'r angen iddynt allu cael addysg ddigonol. Eto, yr ydym ni fel Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o hynny. Yr ydym nid yn unig yn edrych ar y ddarpariaeth o ran addysg, ond yn edrych hefyd ar hyfforddiant athrawon, er mwyn iddynt fod yn fwy cymwys i ddarparu'r math o addysg y mae ar y bobl ifanc hyn ei hangen. Yr ydym hefyd wedi llunio dogfen ganllaw o'r enw 'Safonau Ansawdd ar gyfer

People with Sensory Impairment', which aims to better empower and enable our young people to get the best from education.

Gwasanaethau Addysgol i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Synhwyrâu', sy'n ceisio grymuso a galluogi ein pobl ifanc yn well i gael y gorau o'u haddysg.

6.10 p.m.

However, all work and no play makes Jack a dull boy, and people with blindness or visual impairment should be able to enjoy the things that make a difference to the quality of life. I am impressed with the good work that has gone on in Wales over the last half decade or so, for example in promoting disability sports. In the last half decade, the number of people engaging in disability sports in Wales has increased over tenfold. We are spending over £1 million to promote this type of activity. This is an important part of promoting the quality of life of people who have a disability and who have a visual impairment.

Fodd bynnag, rhaid i bobl ifanc gael cyfle i fwynhau hefyd, a dylai pobl ddall neu bobl sydd â nam ar eu golwg allu mwynhau'r pethau sy'n gwneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd. Yr wyf yn edmygu'r gwaith da sydd wedi'i wneud yng Nghymru fwy neu lai yn y pum mlynedd diwethaf, er enghraifft, i hyrwyddo chwaraeon anabledd. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon anabledd yng Nghymru wedi cynyddu dros ddengwaith. Yr ydym yn gwario dros £1 filiwn i hyrwyddo'r math hwn o weithgarwch. Mae hynny'n rhan bwysig o hyrwyddo ansawdd bywyd pobl sydd ag anabledd ac sydd â nam ar eu golwg.

The free bus pass scheme is promoted in Wales as being liberating for older people, but people who have a disability are also entitled to free travel; people with a severe visual impairment are entitled on that basis. One of the elements of the free transport scheme is that a companion can travel on that bus too. Being able to get out and about in this way is important, because we know that people with a visual impairment can be trapped in their homes, can become depressed, can feel isolated and can get into a vicious circle.

Mae'r cynllun tocynnau bws am ddim yn cael ei hyrwyddo yng Nghymru fel cynllun sy'n peri i bobl hŷn fod yn fwy rhydd, ond mae gan bobl ag anabledd hefyd hawl i deithio am ddim; mae gan bobl sydd â nam difrifol ar eu golwg hawl i deithio am ddim am y sail honno. Un o elfennau'r cynllun teithio am ddim yw bod gall cydymaith yn gallu teithio ar y bws hwnnw hefyd. Mae gallu mynd allan fel hyn yn bwysig, oherwydd gwyddom y gall pobl â nam ar eu golwg fod yn gaeth i'w cartrefi, gallant ddechrau teimlo'n isel eu hysbryd, gallant deimlo'n unig a dechrau cael eu dal mewn cylch cythreulig.

Poverty is also a real problem, and we must recognise that. We know that people who have a visual impairment are at a much greater risk of finding themselves in poverty. Sandy is right that generic benefit uptake advice, for example, will probably not reach them, but the RNIB and other organisations provide good advice services, and the Assembly Government has its own Better Advice: Better Health programme, which we have been supporting for several years, providing benefit uptake advice through health service outlets. Last April, I had the pleasure of launching a further scheme for children with a disability, providing further support to allow them to take up their benefit entitlement as a consequence of their

Mae tlodi hefyd yn broblem wirioneddol, a rhaid inni gydnabod hynny. Gwyddom fod pobl â nam ar eu golwg yn wynebu risg uwch o lawer o gael eu hunain mewn tlodi. Yr oedd Sandy yn iawn i ddweud nad yw'n debygol y bydd cyngor cyffredinol ar hawlio budd-daliadau, er enghraifft, yn eu cyrraedd, ond mae RNIB a sefydliadau eraill yn darparu gwasanaethau cynghori da, ac y mae gan Lywodraeth y Cynulliad ei rhaglen ei hun, sef Cyngor Da: Iechyd Da. Yr ydym wedi bod yn cefnogi hon ers llawer blwyddyn gan roi cyngor ar hawlio budd-daliadau drwy leoliadau gwasanaethau iechyd. Ym mis Ebrill y llynedd, cefais y pleser o lansio cynllun arall ar gyfer plant ag anabledd, a fydd yn rhoi cymorth pellach i'w galluogi i

disability. I am pleased with the good partnership working that is taking place with Citizens Advice Cymru in those areas.

Lack of work and not being able to get into work is also a big contributor to poverty, and it is important that we work with the statutory agencies to allow people, wherever possible, to get into work. Jobcentre Plus and the Department for Work and Pensions are conscious of their responsibilities and they are expanding and promoting the use of a wide range of assisted technology, particularly information technology, to deliver a better service to people with a visual impairment and to help them gain or retain employment. They are also providing a wide range of inter-work support, not only involving assistance in getting to work but also in-work adaptations for the person who has a disability. As a result, people with a disability will have better opportunities to get a job and to hold it down—if a disability intervenes when the person is in work, it will allow them to retain that job.

Finally, I will briefly touch on the new equality Act that will hopefully come into existence, as the Bill is currently going through the Houses of Parliament. That will present a real challenge to us in ensuring that all citizens benefit from equality of opportunity. In anticipation of those new equality duties, the Assembly Government has already started work on developing a new, six-stranded single equalities scheme. Linked to that is a new consultation on what our new equality duties should be as a consequence of that Equality Bill. Those duties will be placed on public bodies in Wales.

This debate and dialogue are just starting and, through those, we will get a better understanding of what the issues are that we need to address. Having got that initial steer in a non-directive way, we will be able to go forward to a formal consultation on the specific elements of the equality duties that we in Wales will have as a consequence of

fanteisio ar eu hawl i gael budd-daliadau oherwydd eu hanabledd. Yr wyf yn fodlon iawn â'r gwaith partneriaeth da sy'n digwydd ar y cyd â Chyngor ar Bopeth Cymru yn y meysydd hynny.

Mae diffyg gwaith, a methu â chael gwaith, hefyd yn cyfrannu'n helaeth at dlodi, ac y mae'n bwysig inni weithio gyda'r asiantaethau statudol i alluogi pobl, lle bynnag y bydd yn bosibl, i gael gwaith. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac y maent yn ehangu ac yn hyrwyddo'r gallu i ddefnyddio ystod eang o dechnoleg cymorth, yn enwedig technoleg gwybodaeth, er mwyn darparu gwell gwasanaeth i bobl sydd â nam ar eu golwg, a'u helpu i gael neu gadw swydd. Maent hefyd yn darparu ystod eang o gymorth rhwng gwaith, sy'n cynnwys cymorth i ddod o hyd i waith, ond sydd hefyd yn ymwneud ag addasiadau mewn gwaith i'r person ag anabledd. O ganlyniad, bydd gan bobl ag anabledd well cyfleoedd i gael swydd a'i chadw—os bydd anabledd yn ymyrryd pan fydd yr unigolyn mewn gwaith, bydd y cymorth dan sylw'n ei alluogi i gadw'r swydd honno.

Yn olaf, hoffwn siarad yn fyr am y Ddeddf Cydraddoldeb newydd a fydd, gobeithio, yn dod i rym, oherwydd mae'r Mesur yn mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Bydd y Ddeddf yn her wirioneddol inni i sicrhau bod pob dinesydd yn elwa o gyfle cyfartal. Wrth ddisgwyl y dyletswyddau cydraddoldeb newydd hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi dechrau datblygu cynllun cydraddoldeb sengl newydd sy'n ymdrin â chwe maes. Mae ymgynghoriad newydd yn gysylltiedig â hynny, ar y dyletswyddau cydraddoldeb newydd y dylem eu cael o ganlyniad i'r Mesur Cydraddoldeb hwnnw. Bydd y dyletswyddau hynny ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Megis dechrau y mae'r ddadl a'r ddeialog hon, a thrwyddynt cawn ddealltwriaeth well o'r materion y mae angen inni fynd i'r afael â hwy. Wedi inni gael yr arweiniad dechreuol hwnnw mewn modd anghyfarwyddol, gallwn symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar elfennau penodol y dyletswyddau cydraddoldeb a fydd gennym yma yng

the new equality Act.

Nghymru o ganlyniad i'r Ddeddf Cydraddoldeb newydd.

We can acknowledge that, here in Wales, we have done a lot of innovative things. Sandy's contribution to this short debate has made it clear to us that there is still a long way to go. Through debates such as this, which create increased awareness of the problems that people with a visual handicap face but are, equally, a means of holding Government to account for what we are doing in response, hopefully, we will be able to make continued progress.

Gallwn gydnabod ein bod yma yng Nghymru wedi gwneud llawer o bethau arloesol. Mae cyfraniad Sandy i'r ddadl fer hon wedi dangos yn glir inni fod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd. Drwy ddadleuon fel hon, sy'n codi ein hymwybyddiaeth o'r problemau sy'n wynebu pobl sydd â nam ar eu golwg, ond sydd hefyd yn fodd i sicrhau bod y Llywodraeth yn egluro'r hyn yr ydym yn ei wneud i ymateb iddynt, y gobaith yw y gallwn barhau i wneud cynnydd.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.16 p.m.  
The meeting ended at 6.16 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)